# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 25/11/2014

Cynnwys Contents


Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
Business Statement and Announcement

Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.5 i Sefydlu Pwyllgor o'r Cynulliad
Motion under Standing Order 16.5 to Establish an Assembly Committee

Datganiad: Adroddiad Blynyddol y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth
Statement: The Anti-Slavery Co-ordinator's Annual Report

Datganiad: Imiwneiddio—Cynnydd a Brechiadau
Statement: Immunisation Progress and Vaccinations

Datganiad: Rhaglen Twf Swyddi Cymru yn y Dyfodol
Statement: Jobs Growth Wales Future Programme

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Hawliau Defnyddwyr: Gwelliannau mewn perthynas â Ffioedd Asiantaethau Gosod
Legislative Consent Motion on the Consumer Rights Bill: Amendment in relation to Letting Agency Fees

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth—Darpariaethau sy'n ymwneud ag Addysg a Hyfforddiant
Legislative Consent Motion on the Small Business, Enterprise and Employment Bill—Provisions relating to Education and Training

Egwyddorion Cyffredinol y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)
The General Principles of the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill

Cynnig i Gytuno ar y Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)
Motion to Agree the Financial Resolution in respect of the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill

Effaith Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU yng Nghymru
The Impact of the UK Government's Welfare Reforms in Wales

Cyfnod Pleidleisio
Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## Questions to the First Minister

### Gwella Seilwaith Trafnidiaeth

### Improving Transport Infrastructure

13:30 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am flaenoriaethau gwario Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella seilwaith trafnidiaeth? OAQ(4)1987(FM)*

*1. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's spending priorities for improving transport infrastructure? OAQ(4)1987(FM)*

13:30 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We are publishing our national transport plan for consultation before the end of the year, and that will set out our priorities for improving transport infrastructure in Wales.

Gwnaf. Rydym yn cyhoeddi ein cynllun trafnidiaeth cenedlaethol ar gyfer ymgynghori cyn diwedd y flwyddyn, a bydd hwnnw'n nodi ein blaenoriaethau ar gyfer gwella seilwaith trafnidiaeth yng Nghymru.

13:30 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, you will be well aware that there is increasing concern over the Welsh Government's M4 black route proposal, which includes bizarre plans to de-motorway the current M4, and create a Welsh spaghetti junction on top of the village of Magor. Will you take advantage of the next two years, before your planned building is to start, to go back to the drawing board, and do a meaningful consultation, which includes the potential benefits of the new metro system and electrification, and also includes the blue route option, using the southern distributor road, and the steelworks road?

Brif Weinidog, byddwch yn gwbl ymwybodol bod pryder cynyddol am gynnig llwybr du yr M4 Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cynlluniau rhyfeddol i roi terfyn ar yr M4 bresennol fel traffordd a chreu cyffordd sbageti Gymreig ar ben pentref Magwyr. A wnewch chi fanteisio ar y ddwy flynedd nesaf, cyn i'ch adeiladu arfaethedig gychwyn, i ddechrau o'r dechrau ac ymgynghori'n ystyrlon, sy'n cynnwys manteision posibl y system metro newydd a thrydaneiddio, ac sydd hefyd yn cynnwys y dewis llwybr glas, gan ddefnyddio'r ffordd ddosbarthu ddeheuol, a ffordd y gwaith dur?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have said that there will inevitably be an environmental assessment, and, no doubt, a public inquiry. However, Members should not deceive themselves that the blue route is without controversy—it goes past many houses. There are no easy answers to this; what is important is that the consultation is as full as possible.

Rydym ni wedi dweud ei bod yn anochel y bydd asesiad amgylcheddol, ac, yn ddiau, ymchwiliad cyhoeddus. Fodd bynnag, ni ddylai'r Aelodau dwyllo eu hunain i feddwl nad oes dadleuon ynglŷn â'r llwybr glas—mae'n mynd heibio llawer o dai. Nid oes atebion hawdd i hyn; yr hyn sy'n bwysig yw bod yr ymgynghoriad mor llwyr â phosibl.

13:31 **John Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the First Minister agree that one Welsh Government transport priority should be the establishment of the long-awaited Ebbw Vale to Newport passenger rail link?

A wnaiff y Prif Weinidog gytuno y dylai sefydlu cysylltiad rheilffordd hir ddisgwyliedig Glynebwy i Gasnewydd fod yn un o flaenoriaethau trafnidiaeth Llywodraeth Cymru?

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. As part of the phase 1 of the metro programme, work is under way to deliver the further track capacity necessary to provide additional services to Newport. We expect that to be complete by the end of 2016. We expect then service patterns to be considered as part of the work to specify the next Wales and borders franchise. So, the railway line will be there, and the network will be there; it is a question then of specifying the service pattern on top of that.

Gwnaf. Mae gwaith ar y gweill, yn rhan o gam 1 y rhaglen metro, i ddarparu'r capasiti pellach o ran cledrau sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaethau ychwanegol i Gasnewydd. Rydym yn disgwyl i hynny gael ei gwblhau erbyn diwedd 2016. Rydym yn disgwyl wedyn i batrymau gwasanaeth gael eu hystyried yn rhan o'r gwaith i nodi masnachfraint nesaf Cymru a'r gororau. Felly, bydd y rheilffordd yno, a bydd y rhwydwaith yno; mae'n gwestiwn wedyn o bennu patrwm y gwasanaeth ar ben hynny.

13:32 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A yw'r Prif Weinidog yn sylweddoli'r pryder gwirioneddol sydd yna ar hyd a lled Cymru ynglŷn â'r peryglon o roi cymaint o arian buddsoddi cyfalaf mewn un cynllun—rwy'n siarad, wrth gwrs, am gynlluniau ar gyfer yr M4 yn ne-ddwyrain Cymru? Mae pobl yn sylweddoli bod honno'n broblem sydd angen ei datrys, ond beth yw'ch neges chi i'r rheini sy'n wirioneddol bryderus y bydd cynlluniau pwysig eraill, ar hyd a lled y wlad, yn cael eu hanghofio—neu, o leiaf, eu gohirio—oherwydd eich penderfynoldeb i fwrw ymlaen â'r cynllun hwn, heb edrych ar y cynllun glas yn llawn?

Does the First Minister realise the real concern that exists, the length and breadth of Wales, about the risks of putting so much money into one capital investment—I am talking, of course, about plans for the M4 in south-east Wales? People realise that that is a problem that needs to be resolved, but what is your message to those who are genuinely concerned that other important plans, across the country, are forgotten—or, at least, postponed—because of your determination to press ahead with this scheme, without looking at the blue route in full?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, nid oes tystiolaeth o hynny. Rwyf wastad yn sôn, wrth gwrs, am y gwelliannau ar yr A470, a'r ffaith bod ffordd osgoi Bontnewydd yn mynd i gael ei hadeiladu hefyd. Nid oes modd osgoi'r ffaith bod hyn yn broblem, ac nid yw'n mynd i fynd—mae hon yn broblem sy'n mynd i fod yno os nad oes ffordd i'w datrys. Fodd bynnag, fel rydym wedi dweud o'r blaen, rydym yn ddigon bodlon sicrhau bod digon o ymgynghori, er mwyn sicrhau bod y penderfyniad terfynol yn benderfyniad a fydd yn datrys y broblem mewn ffordd gynaliadwy.

Well, there is no evidence of that. I always talk, of course, about the improvements to the A470, and the fact that the Bontnewydd bypass will be built as well. It is not possible to avoid the fact that this is a problem, and it is not going to go away—this is a problem that is going to stay with us unless it can be resolved. However, as we have said before, we are happy to ensure adequate consultation, in order to ensure that the final decision is a decision that will solve the problem in a sustainable way.

13:33 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, thank you for your answer on the national transport plan. You will be aware that, in answer to a written question, your Minister for transport announced yesterday that your Government has dropped plans for a new railway station in Brackla, in your own constituency. Can you tell us what other plans have quietly slipped off the radar, in advance of the new national transport plan?

Brif Weinidog, diolch i chi am eich ateb ar y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol. Byddwch yn ymwybodol, wrth ateb cwestiwn ysgrifenedig, bod eich Gweinidog trafnidiaeth wedi cyhoeddi ddoe bod eich Llywodraeth wedi diddymu cynlluniau ar gyfer gorsaf reilffordd newydd ym Mracla, yn eich etholaeth eich hun. A allwch chi ddweud wrthym pa gynlluniau sydd wedi llithro'n dawel oddi ar y radar, cyn y cynllun trafnidiaeth cenedlaethol newydd?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

There are problems with Brackla station, because it is so close to the existing Bridgend station—it is literally a few hundred yards down the road. Brackla is a community that is mainly on a hill, and the station, of course, is at the bottom of that hill, so there were always issues with regard to Brackla station that caused concern to many. However, nevertheless, what I have seen over the years is the frequency of services improve from Bridgend station, to the point where it is now the fifth most-used station in Wales, and it has a substantial car park as well, to enable people to park there. So, what certainly we have seen over the past 15 years in my constituency is a regular service, every 20 minutes, to Cardiff, as well as regular services to Manchester, to London, to communities further west, and, of course, to Maesteg, with plans to improve the service to Maesteg, as well as the additional services to Barry. Those things have happened during the lifetime—most of them—of the Welsh Government.

Mae problemau gyda gorsaf Bracla, gan ei bod mor agos at orsaf bresennol Pen-y-bont ar Ogwr—mae hi ychydig gannoedd o lathenni i lawr y ffordd, yn llythrennol. Mae Bracla yn gymuned sy'n bennaf ar fryn, ac mae'r orsaf, wrth gwrs, ar waelod y bryn hwnnw, felly roedd problemau erioed o ran gorsaf Bracla a oedd yn achosi pryder i lawer. Fodd bynnag, er hynny, yr hyn yr wyf wedi ei weld dros y blynyddoedd yw amlder y gwasanaethau'n gwella o orsaf Pen-y-bont ar Ogwr, i'r pwynt lle mai hon yw'r bumed orsaf a ddefnyddir fwyaf yng Nghymru bellach, ac mae ganddi faes parcio sylweddol hefyd, i alluogi pobl i barcio yno. Felly, yr hyn yr ydym ni'n sicr wedi ei weld dros y 15 mlynedd diwethaf yn fy etholaeth i yw gwasanaeth rheolaidd, bob 20 munud, i Gaerdydd, yn ogystal â gwasanaethau rheolaidd i Fanceinion, i Lundain, i gymunedau ymhellach i'r gorllewin, ac, wrth gwrs, i Faesteg, gyda chynlluniau i wella'r gwasanaeth i Faesteg, yn ogystal â'r gwasanaethau ychwanegol i'r Barri. Mae'r pethau hynny wedi digwydd—y rhan fwyaf ohonynt—yn ystod oes Llywodraeth Cymru.

13:34 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, we have seen some significant investment in rail infrastructure in north Wales. The redoubling of the seven-mile stretch between Saltney junction and Wrexham will now enable trains to travel at a faster speed, cut down the journey time, and, hopefully, make it more attractive for people who want to use the rail network rather than the road. However, we need to see some further investment in north Wales to make sure that we can have better frequency and journey times. As your Government is now looking to consider its rail expenditure, and will be starting talks on the new franchise, what projects do you as First Minister think that you will prioritise for north Wales, and what will you expect the outcomes for rail passengers to be?

Brif Weinidog, rydym ni wedi gweld buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith rheilffyrdd yng ngogledd Cymru. Bydd ailddyblu'r darn saith milltir rhwng cyffordd Saltney a Wrecsam bellach yn galluogi trenau i deithio'n gyflymach, i leihau amser y daith, a, gobeithio, ei gwneud yn fwy deniadol i bobl sydd eisiau defnyddio'r rhwydwaith rheilffyrdd yn hytrach na'r ffordd. Fodd bynnag, mae angen i ni weld buddsoddiad ychwanegol yn y gogledd i wneud yn siŵr y gallwn ni gael amlder ac amseroedd teithio gwell. Gan fod eich Llywodraeth erbyn hyn eisiau ystyried ei wariant rheilffyrdd, ac y bydd yn dechrau trafodaethau ar y fasnachfraint newydd, pa brosiectau ydych chi fel Prif Weinidog yn meddwl y byddwch yn eu blaenoriaethu ar gyfer y gogledd, a beth yr ydych chi'n disgwyl i'r canlyniadau i deithwyr rheilffordd fod?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First, the improvement between Wrexham and Saltney junction is important for service frequency and times. The improvement of the Halton curve, which the UK Government is paying for, will enable through services to run between Wrexham and Liverpool for the first time in many years. A sum of £10 million has been allocated as part of the budget agreement with the Liberal Democrats for transport projects in the north—that is something that is being taken forward now—and, of course, station improvements are important. The Member will be aware that we are undertaking station improvements at Rhyl, to provide a station that the people of Rhyl can be proud of. Members will also be aware of the extensive modernisation of Llandudno, which was completed this year.

Yn gyntaf, mae'r gwelliant rhwng cyffordd Wrecsam a Saltney yn bwysig i amlder ac amseroedd y gwasanaeth. Bydd gwella troad Halton, y mae Llywodraeth y DU yn talu amdano, yn galluogi gwasanaethau uniongyrchol i redeg rhwng Wrecsam a Lerpwl am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer. Dyrannwyd swm o £10 miliwn yn rhan o'r cytundeb cyllideb gyda'r Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer prosiectau trafnidiaeth yn y gogledd—mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei wneud nawr—ac, wrth gwrs, mae gwella gorsafoedd yn bwysig. Bydd yr Aelod yn gwybod ein bod yn gwneud gwelliannau i orsaf y Rhyl, i ddarparu gorsaf y gall y bobl y Rhyl fod yn falch ohoni. Bydd yr Aelodau hefyd yn ymwybodol o foderneiddio helaeth Llandudno, a gwblhawyd eleni.

Senedd.tv Fideo Video

## Y Diwydiant Twristiaeth

## The Tourism Industry

13:36 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

*2. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei weledigaeth ar gyfer dyfodol y diwydiant twristiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1983(FM)*

*2. Will the First Minister outline his vision for the future of the tourism industry in Wales? OAQ(4)1983(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. It is to be found in our tourism strategy, 'Partnership for Growth: The Welsh Government Strategy for Tourism 2013-2020'.

Gwnaf. Mae i'w gweld yn ein strategaeth dwristiaeth, 'Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-2020'.

Senedd.tv Fideo Video

13:36 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

At the beginning of this month, I tabled two written questions to the Minister for Economy, Science and Transport, asking very simply what recent discussions had she had regarding a transatlantic flight from Cardiff, and would she publish her strategy for securing a transatlantic flight from Cardiff Airport. I should have received an answer by 13 November, and having checked today, nothing has been forthcoming. Given my role as a scrutiniser, and the importance of transparency in Government, could you explain the delay, or could you answer these two simple questions as to whether you have had any discussions regarding transatlantic flights to Cardiff Airport, and whether there is indeed a Government strategy for securing transatlantic flights to Cardiff?

Ddechrau'r mis hwn, cyflwynais ddau gwestiwn ysgrifenedig i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, yn gofyn yn syml iawn pa drafodaethau diweddar yr oedd hi wedi eu cael ynghylch sicrhau taith hedfan ar draws yr Iwerydd o Gaerdydd, ac a fyddai hi'n cyhoeddi ei strategaeth ar gyfer sicrhau taith hedfan ar draws yr Iwerydd o Faes Awyr Caerdydd. Dylwn fod wedi derbyn ateb erbyn 13 Tachwedd ac, ar ôl gwirio heddiw, nid oes unrhyw beth wedi dod i law. O gofio fy swyddogaeth fel craffydd, a phwysigrwydd tryloywder mewn Llywodraeth, a allech chi egluro'r oedi, neu a allech chi ateb y ddau gwestiwn syml o ran pa un a ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau ynghylch teithiau ar draws yr Iwerydd i Faes Awyr Caerdydd, a, pha un a oes gan y Llywodraeth strategaeth mewn gwirionedd ar gyfer sicrhau teithiau hedfan ar draws yr Iwerydd i Gaerdydd?

Senedd.tv Fideo Video

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

First of all, there are other hubs in the world that would be a priority—Dubai being one of them, for example. If by a transatlantic flight, you mean a flight to New York, I do not think that that would be viable. Bristol tried it and it did not work, because New York does not have a hub airport, unlike other American cities. It is important that, when people fly long haul, they are able to access other airports from the hub airport that they have just flown into, in the same way as they do with Schiphol. Dubai acts in the same way and Frankfurt acts in the same way in Germany. So, we are looking at ways of enhancing the long-haul offer from Cardiff, but it is probably right to say that we are looking in other directions at the moment, rather than a straight flight to the eastern seaboard of the states.

Yn gyntaf oll, ceir canolfannau eraill yn y byd a fyddai'n flaenoriaeth—Dubai yn un ohonynt, er enghraifft. Os ydych chi'n golygu taith i Efrog Newydd wrth ddweud taith hedfan ar draws yr Iwerydd, nid wyf yn credu y byddai hynny'n ymarferol. Rhoddodd Bryste gynnig ar hynny a wnaeth e ddim gweithio, oherwydd nad oes gan Efrog Newydd faes awyr canolog, yn wahanol i ddinasoedd eraill yn yr Unol Daleithiau. Mae'n bwysig, pan fydd pobl yn hedfan teithiau hir, eu bod yn gallu cael mynediad at feysydd awyr eraill o'r maes awyr canolog y maen nhw newydd hedfan iddo, yn yr un modd ag y maen nhw'n ei wneud gyda Schiphol. Mae Dubai yn gweithredu yn yr un modd ac mae Frankfurt yn gweithredu yn yr un modd yn yr Almaen. Felly, rydym ni'n ystyried ffyrdd o wella'r cynnig o deithiau pell o Gaerdydd, ond mae'n debyg ei bod yn iawn i ddweud ein bod yn edrych i gyfeiriadau eraill ar hyn o bryd, yn hytrach na thaith uniongyrchol i arfordir dwyreiniol yr Unol Daleithiau.

13:37 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you agree with me that promoting our heritage can be a way of increasing tourism? What can your Government do to make sure that brown signs are placed in strategic places to enable people to come off major routes?

A wnewch chi gytuno â mi y gall hyrwyddo ein treftadaeth fod yn ffordd o gynyddu twristiaeth? Beth all eich Llywodraeth ei wneud i sicrhau bod arwyddion brown yn cael eu gosod mewn mannau strategol i alluogi pobl i ddod oddi ar brif lwybrau?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I know that the Member is a strong advocate of a brown sign to St Asaph, and that is something that she has fought for. I can say that we will work with Denbighshire County Council to complete an application for brown tourism signs, and I hope then that St Asaph gets the visual recognition from the A55 that perhaps it deserves.

Gwn fod yr Aelod yn gefnogwr brwd o gael arwydd brown i Lanelwy, ac mae hynny'n rhywbeth y mae hi wedi ymladd drosto. Gallaf ddweud y byddwn yn gweithio gyda Chyngor Sir Ddinbych i gwblhau cais am arwyddion twristiaeth brown, ac rwy'n gobeithio wedyn y bydd Llanelwy'n cael y gydnabyddiaeth weledol o'r A55 y mae efallai'n ei haeddu.

13:38 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae cyfle yn natganiad yr hydref gan y Canghellor yn San Steffan i glywed rhywbeth am ddyfodol treth ar werth a busnesau twristiaeth. Mae'r diwydiant twristiaeth wedi gofyn yn gyson am doriad yn y dreth ar werth er mwyn gweld hwb tu fewn i Gymru, a Phrydain yn wir, o ran gwerthu twristiaeth yn rhyngwladol. A yw hynny'n rhywbeth y byddai'r Prif Weinidog yn dymuno ei weld yn natganiad yr hydref, ac a yw'n rhywbeth y mae wedi gofyn amdano?

There is an opportunity in the Chancellor's autumn statement in Westminster to hear something about the future of VAT and tourism businesses. The tourism industry has asked consistently for a cut in VAT in order to secure a boost in Wales, and Britain indeed, in terms of international tourism. Is that something that the Prime Minister would want to see in the autumn statement, and is it something that he has asked for?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n rhywbeth y byddem yn gefnogol iawn ohono. Yn gyffredinol, nid yw treth ar werth yn dreth sydd yn hollol deg, wrth gofio'r ffaith mai'r rheini sydd yn ennill y lleiaf sy'n gorfod talu'r mwyaf o ran canran o'u tâl. Felly, byddai unrhyw doriad yn y dreth ar werth yn rhywbeth a fyddai o les, nid dim ond i dwristiaeth yng Nghymru, ond i fusnesau Cymru yn gyffredinol.

We would be very supportive of that. In general, VAT is not an entirely fair tax, bearing in mind that those who earn the least pay the largest percentage of their pay on this tax. Therefore, any cut in VAT would be of benefit not only to tourism in Wales, but to Welsh businesses in general.

13:39

## William Powell Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, tomorrow we have the opportunity to discuss the merits of the faith tourism action plan in a debate here in this Chamber. Initiatives such as the Cistercian Way, as you will be aware, have a real opportunity to boost tourism across Wales by joining key heritage sites, such as Strata Florida and Abbeycwmhir in Radnorshire. Will you please take this opportunity to update the Chamber as to the progress of the working group that was set up by your Minister earlier in the year?

Brif Weinidog, mae gennym gyfle yfory i drafod rhinweddau'r cynllun gweithredu ar dwristiaeth ffydd mewn dadl yma yn y Siambr hon. Mae gan fentrau fel y Ffordd Sistersaidd, fel y gwyddoch, gyfle gwirioneddol i roi hwb i dwristiaeth ledled Cymru trwy ymuno â safleoedd treftadaeth allweddol, fel Ystrad Fflur ac Abaty Cwm-hir yn Sir Faesyfed. A wnewch chi fanteisio ar y cyfle hwn os gwelwch yn dda i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr ynghylch cynnydd y gweithgor a sefydlwyd gan eich Gweinidog yn gynharach yn y flwyddyn?

13:39

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is something that I am sure will be touched upon in the debate tomorrow. We should celebrate, of course, our faith heritage in Wales and the fact that, at one time, two pilgrimages to St David's were worth one to St Peter's. My home town of Bridgend was very much on a pilgrimage route. As people came up Newcastle Hill, there was St John's Hospice, and many of the pubs in Bridgend had religious names at one time, although less so these days. However, it was certainly a popular pilgrimage route at that time and it is certainly something that, in Bridgend and in other parts of Wales, people are rediscovering and recelebrating, and it is something that we would want to encourage.

Mae hynny'n rhywbeth yr wyf yn siŵr y bydd yn cael ei drafod yn y ddadl yfory. Dylem ddathlu, wrth gwrs, ein treftadaeth ffydd yng Nghymru a'r ffaith, ar un adeg, bod dwy bererindod i Dyddewi yn werth un i Fasilica Sant Pedr. Roedd fy nhref enedigol, Pen-y-bont ar Ogwr, yn sicr ar lwybr pererindod. Wrth i bobl ddod i fyny Bryn Castell, roedd Hosbis Sant Ioan yno, ac roedd gan lawer o'r tafarndai ym Mhen-y-bont ar Ogwr enwau crefyddol ar un adeg, er yn llai felly y dyddiau hyn. Fodd bynnag, roedd yn sicr yn llwybr pererindod poblogaidd ar y pryd, ac mae'n sicr yn rhywbeth, ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mewn rhannau eraill o Gymru, y mae pobl yn ei ailddarganfod a'i ail-ddathlu, ac mae'n rhywbeth y byddem yn dymuno ei annog.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:40

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First this afternoon, we have the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:40

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Last week, First Minister, we had some very good news on the electrification proposals, which are going forward now that agreement has been reached between the UK Government and the Welsh Government, and I pay special tribute to the Secretary of State, who has worked tirelessly on this. As he identified in his first couple of speeches, this had been a particularly knotty issue that needed dealing with. The Welsh Government's financing of its part is predicated on it being able to get a fair income from the metro system to underwrite the investment, as I understand it. What modelling has the Welsh Government undertaken to show what type of fares might have to be levied on the metro system to pay back the finance? Is the income derived from the entire franchise, or will the fare increases just be related to the metro system across south Wales?

Yr wythnos diwethaf, Brif Weinidog, cawsom newyddion da iawn am y cynigion trydaneiddio, sy'n mynd yn eu blaenau gan y cafwyd cytundeb rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru erbyn hyn, a thalaf deyrnged arbennig i'r Ysgrifennydd Gwladol, sydd wedi gweithio'n ddiflino ar hyn. Fel y dywedodd yn ei araith neu ddwy gyntaf, bu hwn yn fater arbennig o ddyrys yr oedd angen ymdrin ag ef. Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer ei rhan hi yn seiliedig ar ei gallu i gael incwm teg o'r system metro i warantu'r buddsoddiad, fel rwy'n ei deall hi. Pa waith modelu mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i ddangos pa fath o brisiau y gallai fod yn rhaid eu codi ar y system metro i ad-dalu'r cyllid? A yw'r incwm yn deillio o'r fasnachfraint gyfan, neu a fydd y cynnydd i brisiau'n gysylltiedig â'r system metro ar draws y de yn unig?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

First of all, the thing to remember is that the agreement with the UK Government is the control of the franchise; the whole franchise will be given to the Welsh Government. That is an opportunity for us then to assess the fare structure for the whole of Wales. We very much welcome the fact that £230 million more is on the table than was the case in the summer. I think it is right to say that the change of tone in the Wales Office has been helfpul—I do not think that this would ever have happened under the previous Secretary of State—and I welcome the fact that this deal was reached last week. We now have the opportunity, of course, to move forward—as I am sure we all in the Chamber want—to make sure that the metro is built and that we have the right type of franchise for Wales and the borders in the future.

Yn gyntaf oll, y peth i'w gofio yw mai rheolaeth y fasnachfraint yw'r cytundeb gyda Llywodraeth y DU; bydd y fasnachfraint gyfan yn cael ei rhoi i Lywodraeth Cymru. Mae hynny'n gyfle i ni wedyn i asesu'r strwythur prisiau ar gyfer Cymru gyfan. Rydym yn croesawu'n fawr y ffaith bod £230 miliwn yn fwy wedi ei gynnig na'r hyn oedd yn wir yn yr haf. Rwy'n credu ei bod yn iawn i ddweud bod y newid agwedd yn Swyddfa Cymru wedi bod o gymorth—nid wyf yn meddwl y byddai hyn erioed wedi digwydd dan yr Ysgrifennydd Gwladol blaenorol—ac rwy'n croesawu'r ffaith y gwnaed y cytundeb hwn yr wythnos diwethaf. Mae'r cyfle gennym nawr, wrth gwrs, i symud ymlaen—fel rwy'n siŵr yr ydym ni i gyd eisiau ei wneud yn y Siambr—i wneud yn siŵr bod y metro'n cael ei adeiladu a bod gennym y math cywir o fasnachfraint i Gymru a'r gororau yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

13:42 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, First Minister. My specific question was: what type of modelling has the Welsh Government undertaken to show the level of fares that might be demanded or paid for in the future, once this development is completed? I appreciate that, obviously, the whole franchise is now going to be devolved here to Cardiff bay, as the Minister for Economy, Science and Transport touched upon in questions last Wednesday, but could you give me a specific answer, please, as to what type of fares the Welsh Government envisages being chargeable to repay the finances? I cannot believe that you have gone into the negotiations and agreed your contribution of £250 million, as I understand it, without having some idea of the level of fares that you will be charging on these routes.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Fy nghwestiwn penodol oedd: pa fath o waith modelu mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i ddangos lefel y prisiau y gellid eu codi neu dalu amdanynt yn y dyfodol, ar ôl i'r datblygiad hwn gael ei gwblhau? Rwy'n gwerthfawrogi, yn amlwg, bod y fasnachfraint gyfan yn mynd i gael ei datganoli yma i fae Caerdydd bellach, fel y soniodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn ystod cwestiynau ddydd Mercher diwethaf, ond a allech chi roi ateb penodol i mi, os gwelwch yn dda, ynghylch y math o brisiau y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y byddant yn cael eu codi i ad-dalu'r arian? Ni allaf gredu eich bod wedi mynd i mewn i'r trafodaethau a chytuno eich cyfraniad o £250 miliwn, fel rwy'n ei deall hi, heb fod â rhyw syniad o lefel y prisiau y byddwch yn eu codi ar y llwybrau hyn.

Senedd.tv Fideo Video

13:42 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Much of it depends not just on the level of fares but on the number of passengers. That is why it is not possible to give a price today, because of course we expect passenger numbers to rise and, as a result of that, we can then make an assessment further down the line as to what the fares would look like. What we do know from the modelling is that we would expect, given the projection of passenger numbers, that the cost to the Welsh Government would be cost neutral in the longer term, because the money that we put in would be paid back.

Mae llawer ohono'n dibynnu nid yn unig ar lefel y prisiau, ond ar nifer y teithwyr. Dyna pam nad yw'n bosibl rhoi pris heddiw, oherwydd, wrth gwrs, rydym yn disgwyl i nifer y teithwyr gynyddu ac, o ganlyniad i hynny, gallwn wedyn wneud asesiad yn ddiweddarach o ran faint y byddai angen ei godi. Yr hyn yr ydym yn ei wybod o'r modelu yw y byddem yn disgwyl, o ystyried y rhagamcan o niferoedd teithwyr, y byddai'r gost i Lywodraeth Cymru yn niwtral yn y tymor hwy, gan y byddai'r arian yr ydym ni'n ei gyfrannu'n cael ei ad-dalu.

Senedd.tv Fideo Video

13:43 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

One thing that the metro system has clearly identified is the importance of transport projects to help with regeneration and economic development in all communities. While a metro system is very welcome, obviously the new European structural funds, particularly in west Wales, will be a vital plank to stimulate economic activity in those communities. Once again, the Government has come forward with a feasibility study for the dualling of the A40; do you envisage that structural funds could be used to dual the A40? As I said, we fully understand the importance of good transport links that will enable areas of Wales to regenerate and create greater economic activity. As the last two tranches have failed in their original goal to lift economic activity, I think we need some clarity as to whether you propose to use those structural funds to dual the A40.

Un peth y mae'r system metro wedi ei nodi'n eglur yw pwysigrwydd prosiectau trafnidiaeth i helpu gydag adfywio a datblygu economaidd ym mhob cymuned. Er bod system metro i'w chroesawu'n fawr, mae'n amlwg y bydd y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd newydd, yn enwedig yng ngorllewin Cymru, yn elfen hanfodol i ysgogi gweithgarwch economaidd yn y cymunedau hynny. Unwaith eto, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer deuoli'r A40; a ydych chi'n rhagweld y gellid defnyddio'r cronfeydd strwythurol i ddeuoli'r A40? Fel y dywedais, rydym ni'n deall yn llwyr pwysigrwydd cysylltiadau trafnidiaeth da a fydd yn galluogi ardaloedd yng Nghymru i adfywio a chreu mwy o weithgarwch economaidd. Gan fod y ddwy gyfran ddiwethaf wedi methu o ran eu nod gwreiddiol o gynyddu gweithgarwch economaidd, rwy'n credu bod angen rhywfaint o eglurder arnom ynghylch pa un a ydych chi'n bwriadu defnyddio'r cronfeydd strwythurol hynny i ddeuoli'r A40.

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

If those funds are available for that purpose, then yes, of course, we will. The issue with transport in European structural funds is a difficult one, because there are some restrictions in place for use in transport projects. It is the intention, of course, to move ahead with the dualling of the A40. This is in response, partially, to what has happened at Murco. However, whatever European funds can be utilised for that purpose, we will use them.

Os yw cronfeydd hynny ar gael at y diben hwnnw, yna gwnawn, wrth gwrs, fe wnawn. Mae'r mater o ran trafnidiaeth yn y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn un anodd, gan fod rhai cyfyngiadau ar waith o ran eu defnyddio mewn prosiectau trafnidiaeth. Y bwriad, wrth gwrs, yw bwrw ymlaen â deuoli'r A40. Ymateb yw hwn, yn rhannol, i'r hyn sydd wedi digwydd yn Murco. Fodd bynnag, pa bynnag gyllid Ewropeaidd y gellir ei ddefnyddio at y diben hwnnw, byddwn yn ei ddefnyddio.

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.

13:44 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Last week, First Minister, you seemed confused about the difference in funding between Wales and Scotland and Plaid Cymru's demand for equality for Wales. You questioned the rationale behind our figure of £1.2 billion extra if Wales were funded on the basis of parity with Scotland. Holtham showed that Scotland was funded at 121% per capita of the England level. Holtham also showed that Wales was funded at 112% per capita. Plaid Cymru's figure of £1.2 billion extra is based on an increase of per capita funding for Wales to Scottish levels for services that are devolved to Wales. I have written to explain this to you in full. Do you now understand the point and, if you do, do you support this basic principle of parity of funding with Scotland?

Yr wythnos diwethaf, Brif Weinidog, roedd yn ymddangos eich bod yn ddryslyd am y gwahaniaeth rhwng cyllid Cymru a'r Alban a galwad Plaid Cymru am gydraddoldeb i Gymru. Fe wnaethoch chi gwestiynu'r rhesymeg y tu ôl i'n ffigur o £1.2 biliwn ychwanegol pe byddai Cymru'n cael ei hariannu ar sail cydraddoldeb â'r Alban. Dangosodd Holtham fod yr Alban yn cael ei hariannu ar sail 121% fesul pen o lefel Lloegr. Dangosodd Holtham hefyd bod Cymru'n cael ei hariannu ar sail o 112% fesul pen. Mae ffigur Plaid Cymru o £ 1.2 biliwn yn ychwanegol yn seiliedig ar gynnydd o gyllid fesul pen ar gyfer Cymru i lefelau'r Alban ar gyfer gwasanaethau sydd wedi eu datganoli i Gymru. Rwyf wedi ysgrifennu atoch i egluro hyn i chi'n llawn. A ydych chi bellach yn deall y pwynt, ac os ydych chi, a ydych chi'n cefnogi'r egwyddor sylfaenol hon o gydraddoldeb â'r Alban o ran cyllid?

13:45

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

First of all, just to remind the leader of Plaid Cymru, her party supported the establishment of the Holtham commission and supported the findings of the Holtham commission. The Holtham commission showed that Wales is underfunded to the tune of £300 million; that figure of £1.2 billion is still not explained either within this Chamber or to the people of Wales. She and I will agree that Wales is underfunded. When she produces figures that support her —. Well, I look forward to the letter; I have not seen it yet, but I will study the letter when it arrives. We operate on the basis that Wales is underfunded to the tune of £300 million. That is something that her party has always supported until this figure of £1.2 billion came out of thin air, as far as we can see. However, in fairness to her, I will wait to see what the letter says and I will study it in more detail.

Yn gyntaf oll, dim ond i atgoffa arweinydd Plaid Cymru, cefnogodd ei phlaid hi sefydlu comisiwn Holtham a chefnogodd ganfyddiadau comisiwn Holtham. Dangosodd comisiwn Holtham fod Cymru wedi ei thanariannu o £300 miliwn; mae'r ffigur yna o £1.2 biliwn yn dal i fod heb ei esbonio, yn y Siambr hon, ac i bobl Cymru. Bydd hi a minnau'n cytuno bod Cymru'n cael ei thanariannu. Pan fydd hi'n cyflwyno ffigurau sy'n cefnogi ei—. Wel, edrychaf ymlaen at y llythyr; nid wyf wedi ei weld eto, ond byddaf yn astudio'r llythyr pan fydd yn cyrraedd. Rydym ni'n gweithio ar y sail bod Cymru'n cael ei thanariannu o £300 miliwn. Mae hynny'n rhywbeth y mae ei phlaid wedi ei gefnogi erioed tan i'r ffigur hwn o £1.2 biliwn ddod o unman, cyn belled ag y gallwn weld. Fodd bynnag, er tegwch iddi hi, byddaf yn aros i weld beth mae'r llythyr yn ei ddweud a byddaf yn ei astudio'n fwy manwl.

13:46

## Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, you know full well that the vow that was given to people in Scotland ahead of the referendum has completely changed the game. While you were standing shoulder to shoulder with the Conservatives in the 'No' campaign in Scotland, you were agreeing to the locking in of Wales's financial disadvantage. So, let us be clear, First Minister: when you talk of parity with Scotland, you do not actually mean it at all, do you? However, let us look at this on your terms. I find it telling that you quote a figure of a £300 million shortfall, estimated in the first Holtham report. The second Holtham report estimated a gap of a minimum of £400 million. Can you tell us why you have set your sights so low by quoting the lowest Holtham figure possible?

Brif Weinidog, rydych chi'n gwybod yn iawn bod yr adduned a wnaed i bobl yn yr Alban cyn y refferendwm wedi newid y sefyllfa'n llwyr. Tra eich bod chi'n sefyll ysgwydd wrth ysgwydd â'r Ceidwadwyr yn yr ymgyrch 'Na' yn yr Alban, roeddech chi'n cytuno i gadarnhau anfantais ariannol Cymru. Felly, gadewch i ni fod yn eglur, Brif Weinidog: pan fyddwch chi'n sôn am gydraddoldeb â'r Alban, nid ydych chi'n ei olygu o gwbl mewn gwirionedd, ydych chi? Fodd bynnag, gadewch i ni edrych ar hyn ar eich telerau chi. Rwy'n credu ei bod yn dweud y cwbl eich bod chi'n dyfynnu ffigur o ddiffyg o £300 miliwn, a amcangyfrifwyd yn adroddiad cyntaf Holtham. Roedd ail adroddiad Holtham yn amcangyfrif bwlch o £400 miliwn o leiaf. A allwch chi ddweud wrthym pam yr ydych wedi gosod eich golygon mor isel trwy ddyfynnu'r ffigur Holtham isaf posibl?

13:47

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

It really is 'for Wales, see Scotland' is it not? It worked for the Scottish National Party to try to say that Labour was standing with the Conservatives in the referendum, so let us see if it works for Wales; that is the way that Plaid Cymru operates. I have to say to her, once again, that she has not produced any evidence to support the figure of £1.2 billion. She and her party supported the Holtham commission—its establishment and its findings. I have to say, once again, to the leader of Plaid Cymru that her party's position is to see the ending of any money being transferred from Whitehall or Westminster to Wales. She is either in favour of independence and financial independence, or she is in favour of more money from Whitehall. If she is in favour of the latter, I would agree with her; we want to see that Wales is funded fairly. What we do not want to see is no funding coming to Wales at all, which is her party's logical policy.

Mae wir yn fater o 'ar gyfer Cymru, gweler yr Alban', onid yw? Gweithiodd i Blaid Genedlaethol yr Alban geisio dweud bod Llafur yn sefyll gyda'r Ceidwadwyr yn y refferendwm, felly gadewch i ni weld a yw'n gweithio i Gymru hefyd; dyna'r ffordd mae Plaid Cymru yn gweithredu. Mae'n rhaid i mi ddweud wrthi, unwaith eto, nad yw hi wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r ffigur o £1.2 biliwn. Cefnogodd hi a'i phlaid gomisiwn Holtham—ei sefydliad a'i ganfyddiadau. Mae'n rhaid i mi ddweud, unwaith eto, wrth arweinydd Plaid Cymru mai safbwynt ei phlaid hi yw gweld diwedd unrhyw arian yn cael ei drosglwyddo o Whitehall neu San Steffan i Gymru. Mae hi naill ai o blaid annibyniaeth ac annibyniaeth ariannol, neu mae hi o blaid mwy o arian gan Whitehall. Os yw hi o blaid yr olaf, byddwn yn cytuno â hi; rydym ni eisiau gweld bod Cymru'n cael ei hariannu'n deg. Yr hyn nad ydym ni eisiau ei weld yw dim cyllid yn dod i Gymru o gwbl, sef polisi rhesymegol ei phlaid.

13:48 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You know full well that we want Wales to become an independent country. We also want to end Wales's financial dependence. How can we do that with one hand tied behind our back and a Government that will not fight for the best option for Wales? Next week, First Minister, we can expect the Chancellor to confirm his austerity agenda during the autumn statement. More pain is coming to Wales in the form of cuts to public services. I am sure that you will not miss an opportunity to attack the coalition's plans. However, how can you do that while refusing to even try to win a fair funding arrangement based on Wales being treated equally with Scotland? You will not join me in working to secure an additional £1.2 billion for Welsh public services and for our economy, so will you tell us this afternoon what estimate your Government has made of Wales's funding shortfall in comparison with Scotland? Have you even bothered to try working that out?

Rydych chi'n gwybod yn iawn ein bod ni eisiau i Gymru fod yn wlad annibynnol. Rydym ni hefyd eisiau dod â dibyniaeth ariannol Cymru i ben. Sut allwn ni wneud hynny gydag un llaw wedi ei chlymu y tu ôl i'n cefnau a Llywodraeth nad yw'n fodlon ymladd dros y dewis gorau i Gymru? Yr wythnos nesaf, Brif Weinidog, gallwn ddisgwyl i'r Canghellor gadarnhau ei agenda cyni yn ystod datganiad yr hydref. Mae mwy o boen yn dod i Gymru ar ffurf toriadau i wasanaethau cyhoeddus. Rwy'n siŵr na fyddwch chi'n colli cyfle i ymosod ar gynlluniau'r glymblaid. Fodd bynnag, sut allwch chi wneud hynny tra eich bod ch'n gwrthod hyd yn oed ceisio ennill cytundeb ariannu teg yn seiliedig ar Gymru'n cael ei thrin yn gyfartal â'r Alban? Ni wnewch chi ymuno â mi i weithio i sicrhau £1.2 biliwn ychwanegol i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac i'n heconomi, felly a wnewch chi ddweud wrthym y prynhawn yma pa amcangyfrif mae eich Llywodraeth wedi ei wneud o ddiffyg cyllid Cymru o'i gymharu â'r Alban? A ydych chi hyd yn oed wedi trafferthu i geisio gweithio hynny allan?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

What we have not done is write it down on a piece of paper and wave it in the air as if it was gospel. That is the way her party does these things: it produces a figure from thin air, does not back it up and then suggests that it is a more robust figure than the one of the commission that it supported in the first place. That is where they are at the moment. We have fought long and hard for fair funding for Wales. We have done it on the basis of evidence and not on the basis of fantasy, which is where she has come from. I come back and she is being honest with the people in this Chamber and the people of Wales when she says that she wants independence. Let her go out and tell the people of Wales that. Let her tell the people of Wales that what she actually wants is for not a single penny to come from Westminster to the people of Wales. All she is really saying—to the astonishment of the people of Wales—is that she wants to be independent, but she still wants England's money, which what she is saying at the moment.

Yr hyn nad ydym ni wedi ei wneud yw ei ysgrifennu i lawr ar ddarn o bapur a'i chwifio yn yr awyr fel pe byddai'n efengyl. Dyna'r ffordd mae ei phlaid hi'n gwneud y pethau hyn: mae'n cynhyrchu ffigur o'r awyr, nid yw'n gallu ei gefnogi ac yna mae'n awgrymu ei fod yn ffigur mwy cadarn nag un y comisiwn a gefnogwyd ganddi yn y lle cyntaf. Dyna ble maen nhw ar hyn o bryd. Rydym ni wedi brwydro yn hir ac yn galed i gael cyllid teg i Gymru. Rydym ni wedi gwneud hyn ar sail tystiolaeth, ac nid ar sail ffantasi, sef yr hyn y mae hi wedi ei wneud. Rwy'n dod yn ôl ac yn gofyn a yw hi'n bod yn onest gyda'r bobl yn y Siambr hon a phobl Cymru pan ddywed ei bod hi eisiau annibyniaeth. Gadewch iddi fynd allan a dweud hynny wrth bobl Cymru. Gadewch iddi ddweud wrth bobl Cymru mai'r hyn y mae hi ei eisiau mewn gwirionedd yw i ddim un geiniog ddod o San Steffan i bobl Cymru. Y cwbl y mae'n ei ddweud mewn gwirionedd—er syndod i bobl Cymru—yw ei bod eisiau bod yn annibynnol, ond mae hi'n dal i fod eisiau arian Lloegr, sef yr hyn y mae hi'n ei ddweud ar hyn o bryd.

13:50 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It is England's money now, is it? It is not our money, but England's money.

Arian Lloegr yw e nawr, ai e? Nid ein harian ni, ond arian Lloegr.

13:50 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you. There seem to be rather a number of leaders of Plaid Cymru there at the moment. [Laughter.] Order. Leanne Wood has finished her questions; we now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Diolch. Mae'n ymddangos bod cryn dipyn o arweinwyr Plaid Cymru yno ar hyn o bryd. [Chwerthin.] Trefn. Mae Leanne Wood wedi gorffen ei chwestiynau; symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:50 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, I am sure that we would all very much indeed welcome the devolution of the Wales and borders franchise. In 2003, the Labour Government in Westminster awarded the current franchise with absolutely no provision for more passengers. Given your comments earlier this afternoon, will you confirm that the Welsh Government will provide a target for passenger growth for the next franchise, and could you give us an indication of what you want that target to be?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddem i gyd yn croesawu datganoli masnachfraint Cymru a'r gororau yn fawr iawn. Yn 2003, dyfarnodd Llywodraeth Lafur yn San Steffan y fasnachfraint bresennol heb unrhyw ddarpariaeth o gwbl ar gyfer mwy o deithwyr. O ystyried eich sylwadau yn gynharach y prynhawn yma, a wnewch chi gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu targed ar gyfer twf mewn teithwyr i'r fasnachfraint nesaf, ac a allech chi roi awgrym i ni o'r hyn yr ydych chi eisiau i'r targed hwnnw fod?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That work is ongoing. We expect there to be growth. We will have a target to increase passenger growth, because of course that will be part of the calculation of what the fares should like in the future. We know that that growth has been substantial over the past 10 years, and we will produce those passenger estimates in due course.

Mae'r gwaith hwnnw'n parhau. Rydym ni'n disgwyl y bydd twf. Bydd gennym darged i gynyddu twf teithwyr, oherwydd, wrth gwrs, bydd hynny'n rhan o'r cyfrifiad o faint ddylai'r prisiau fod yn y dyfodol. Gwyddom fod y twf wedi bod yn sylweddol dros y 10 mlynedd diwethaf, a byddwn yn cyflwyno'r amcangyfrifon teithwyr hynny maes o law.

13:51 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The diesel Pacer trains that serve our busiest rail routes will become illegal by 2020 because of accessibility issues. What planning will your Government undertake to make sure that there are necessary replacements for those trains, taking into consideration that the Valleys lines will be well on the way to being electrified by that time?

Bydd y trenau Pacer diesel sy'n gwasanaethu ein llwybrau rheilffordd prysuraf yn anghyfreithlon erbyn 2020 oherwydd materion hygyrchedd. Pa gynllunio fydd eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod trenau newydd angenrheidiol ar gael yn lle'r trenau hynny, gan gymryd i ystyriaeth y bydd rheilffyrdd y Cymoedd ymhell ar y ffordd i gael eu trydaneiddio erbyn hynny?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course, that is part of the discussions that will occur around the franchising process. As part of that, we will need to specify what rolling stock should be made available. The last thing we would all want to see, for example, if we see electrification, is ancient rolling stock running on the track, and that is something we are very much aware of.

Ie, wrth gwrs, mae hynny'n rhan o'r trafodaethau a fydd yn digwydd ynghylch y broses freinio. Yn rhan o hynny, bydd angen i ni nodi pa gerbydau ddylai fod ar gael. Y peth olaf y byddem i gyd yn dymuno ei weld, er enghraifft, os gwelwn drydaneiddio, yw hen gerbydau yn rhedeg ar y cledrau, ac mae hynny'n rhywbeth yr ydym ni'n gwbl ymwybodol ohono.

13:52 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Just last week your Minister for transport said:

Dim ond yr wythnos diwethaf, dywedodd eich Gweinidog trafnidiaeth:

'I just hope that I have rail devolved as soon as possible, so that we can actually get on with doing a good job on our own services.'

Rwy'n gobeithio y caf y rheilffyrdd wedi'u datganoli cyn gynted â phosibl, fel y gallwn fwrw ymlaen mewn gwirionedd â gwneud gwaith da ar ein gwasanaethau ein hunain.'

Now that her wishes have been granted, you will have the tools to tackle poor-quality rolling stock, which has forced two apologies from Arriva Trains Wales in just the last month, and to provide rolling stock to make good on your promises about increased services on the Vale of Glamorgan line, the Cambrian line and the Ebbw Vale line. So, will you commit today to publishing a rolling stock strategy in conjunction with the next franchise, to maximise the potential benefits that both electrification and devolution of the franchise can bring to our country?

Ban fod ei dymuniadau wedi eu gwireddu erbyn hyn, bydd y dulliau gennych i fynd i'r afael â cherbydau o ansawdd gwael, sydd wedi gorfodi dau ymddiheuriad gan Drenau Arriva Cymru yn ystod y mis diwethaf yn unig, ac i ddarparu cerbydau i gyflawni eich addewidion ynglŷn â mwy o wasanaethau ar reilffordd Bro Morgannwg, rheilffordd y Cambrian a rheilffordd Glynebwy. Felly, a wnewch chi ymrwymo heddiw i gyhoeddi strategaeth cerbydau ar y cyd â'r fasnachfraint nesaf, er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf posibl y gall trydaneiddio a datganoli'r fasnachfraint eu cynnig i'n gwlad?

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely. Now that we have the tools to do this it will be far easier to specify the quality of the rolling stock, the nature of the rolling stock, the nature of the services, of course, and what the overall fare structure should look like. As I said to the leader of the Liberal Democrats, what we would not want to see is for there to be modernisation of the track, but then not see a concurrent modernisation of the rolling stock. Those two things have to run together.

Yn sicr. Nawr bod y dulliau gennym i wneud hyn, bydd yn llawer haws pennu ansawdd y cerbydau, natur y cerbydau, natur y gwasanaethau, wrth gwrs, a sut y dylai'r strwythur prisiau cyffredinol edrych. Fel y dywedais wrth arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol, yr hyn na fyddem eisiau ei weld yw moderneiddio'r cledrau, ond peidio â gweld moderneiddio cerbydau ar yr un pryd. Mae'n rhaid i'r ddau beth hynny ddigwydd gyda'i gilydd.

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move back to the questions on the paper. It is question 3 from David Rees.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur nawr. Dyma gwestiwn 3 gan David Rees.

Senedd.tv Fideo Video

## Y Gwasanaeth Iechyd

## The Health Service

13:53 **David Rees** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru? OAQ(4)1982(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to improve the health service in Wales? OAQ(4)1982(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Indeed. We ensure the improvement of healthcare services through the planning and delivery framework. Of course, we are investing an extra £425 million over the next two years in the NHS to support this work.

Yn sicr. Rydym ni'n sicrhau gwelliant gwasanaethau gofal iechyd drwy'r fframwaith cynllunio a darparu. Wrth gwrs, rydym ni'n buddsoddi £425 miliwn ychwanegol yn y GIG dros y ddwy flynedd nesaf i gefnogi'r gwaith hwn.

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **David Rees** Bywgraffiad Biography

Thank you for that answer, First Minister. Over recent weeks, in fact, months, we have seen an attack from UK Government Ministers on the Welsh NHS. I have no doubt that this attack will continue as we get up to the general election, as they try to deflect attention away from their abysmal work in the NHS in England. As part of that attack, the consideration of a review by the OECD into the NHS across the UK was highlighted. Could you provide an update on the progress being made with regard to that review?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Yn ystod yr wythnosau diweddar, misoedd a dweud y gwir, rydym ni wedi gweld ymosodiad gan Weinidogion Llywodraeth y DU ar y GIG yng Nghymru. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd yr ymosodiad hwn yn parhau wrth i ni nesáu at yr etholiad cyffredinol, wrth iddynt geisio tynnu sylw oddi wrth eu gwaith trychinebus yn y GIG yn Lloegr. Yn rhan o'r ymosodiad, amlygwyd yr ystyriaeth o adolygiad gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd o'r GIG ar draws y DU. A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran yr adolygiad hwnnw?

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have no problem with the OECD review. The difficulty that we have is that we will not accept a scenario where the Department of Health feels that is should be able to leak selectively from the OECD review ahead of the general election, which is exactly where it wants to be. You do not have to take my word for it; let me quote to the Member a letter sent by Jim Wells MLA, who is the Minister for Health, Social Services and Public Safety in the Northern Ireland Executive. He writes the letter on behalf of all of the devolved Ministers, and he says:

Nid oes gennym unrhyw broblem gydag adolygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Yr anhawster sydd gennym yw na fyddwn yn derbyn sefyllfa lle mae'r Adran Iechyd yn teimlo y dylai allu cyhoeddi rhannau dethol o adolygiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd cyn yr etholiad cyffredinol, sydd yn union ble mae'n dymuno bod. Nid oes yn rhaid i chi gymryd fy ngair i am hynny; gadewch i mi ddyfynnu i'r Aelod llythyr a anfonwyd gan Jim Wells MLA, sef Gweinidog Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd yng Ngweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae'n ysgrifennu'r llythyr ar ran pob un o'r Gweinidogion datganoledig, ac mae'n dweud:

Senedd.tv Fideo Video

‘Whilst we all support the review, we have to record that we have some concerns about the possibility of extracts from the work being referenced in advance of publication of the work. This would be an unusual departure from normal practice; it is not one that we could support. Officials from each of the devolved administrations have previously made this clear in the first meeting of the review steering group held in early September.’

Er ein bod i gyd yn cefnogi'r adolygiad, mae'n rhaid i ni gofnodi bod gennym rai pryderon am y posibilrwydd o gyfeiriadau at ddyfyniadau o'r gwaith cyn i'r gwaith gael ei gyhoedd. Byddai hyn yn wyriad anarferol o’r drefn arferol; nid yw'n un y gallem ei gefnogi. Mae swyddogion o bob un o'r gweinyddiaethau datganoledig wedi gwneud hyn yn eglur yn y gorffennol yng nghyfarfod cyntaf grŵp llywio’r adolygiad a gynhaliwyd ddechrau mis Medi.

That is this year.

Eleni yw hynny.

‘Accordingly, we would be grateful for confirmation that neither you—’

Yn unol â hynny, byddem yn ddiolchgar am gadarnhad na fyddech chi—

that is Jeremy Hunt—

Jeremy Hunt hynny yw—

‘nor your ministerial colleagues in Whitehall would intend to proceed on this basis.’

na’ch cyd-weinidogion yn Whitehall yn bwriadu bwrw ymlaen ar y sail hon.

We have not yet had a response.

Nid ydym wedi cael ymateb hyd yn hyn.

13:55

## Darren Millar [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

First Minister, one thing that certainly needs to improve as far as NHS performance in Wales is concerned is referral-to-treatment times and indeed your understanding of them. It is a disgrace, frankly, that you are seven times more likely, if you are a Welsh patient, to wait more than six months for treatment than if you are a patient from England. You have consistently said in recent media interviews and appearances that the clock starts ticking at a different point in terms of referral to treatment and the way it is recorded in Wales versus England, but that is not true. The clock starts ticking in terms of the record from the time of a referral from a GP to treatment in both England and Wales, and you are still seven times less likely to have your treatment after six months than you would be in England. Will you apologise for misleading the Welsh public?

Brif Weinidog, un peth y mae’n sicr angen ei wella cyn belled ag y mae perfformiad y GIG yng Nghymru yn y cwestiwn yw amseroedd atgyfeirio i driniaeth ac yn wir eich dealltwriaeth ohonynt. Mae'n warthus, a dweud y gwir, eich bod saith gwaith yn fwy tebygol, os ydych chi’n glaf yng Nghymru, o aros mwy na chwe mis am driniaeth nag os ydych chi’n glaf o Loegr. Rydych chi wedi dweud yn gyson mewn cyfweliadau ac ymddangosiadau diweddar yn y cyfryngau bod y cloc yn dechrau ticio ar bwynt gwahanol o ran atgyfeirio i driniaeth a'r ffordd y cofnodir hynny yng Nghymru o’i gymharu â Lloegr, ond nid yw hynny'n wir. Mae'r cloc yn dechrau ticio o ran y cofnod o adeg atgyfeiriad gan feddyg teulu i driniaeth yng Nghymru a Lloegr, ac rydych chi’n dal i fod saith gwaith yn llai tebygol o gael eich triniaeth ar ôl chwe mis nag y byddech yn Lloegr. A wnewch chi ymddiheuro am gamarwain y cyhoedd yng Nghymru?

13:56

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Not at all. That is the situation as they have described it themselves. I have to say to the Member that, given the traumas that his party is experiencing with the NHS in England, he is not in the best position to raise health at the moment. [Interruption.]

Dim o gwbl. Dyna'r sefyllfa fel y maen nhw wedi ei disgrifio eu hunain. Mae'n rhaid i mi ddweud hynny wrth yr Aelod, o ystyried yr achosion o drawma mae ei blaid yn ei gael gyda'r GIG yn Lloegr, nad yw yn y sefyllfa orau i sôn am iechyd ar hyn o bryd. [Torri ar draws.]

13:56

## Darren Millar [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Look at the state of your NHS.

Edrychwch ar gyflwr eich GIG.

13:56

## Carwyn Jones [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have only just heard in this Chamber the position of Northern Ireland, Scotland and Wales, where they wish to ensure that the Department of Health does not act in a dishonest way and provide information to the press ahead of a general election for their own petty party political gain. That is a view held not just by us in Wales, but by Northern Ireland and Scotland as well.

Rydym ni newydd glywed yn y Siambr hon am safbwynt Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru, sef eu bod nhw’n dymuno sicrhau nad yw'r Adran Iechyd yn gweithredu mewn ffordd anonest ac yn darparu gwybodaeth i'r wasg cyn etholiad cyffredinol er lles eu gwleidyddiaeth bleidiol ddibwys eu hunain. Mae honno'n farn sydd nid yn unig gennym ni yng Nghymru, ond gan Ogledd Iwerddon a'r Alban hefyd.

13:56 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, mae pwyllgor o'r Cynulliad yma wedi bod yn feirniadol heddiw o wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru. A ydych chi'n hyderus bod yr arian sy'n cael ei neilltuo gan eich Llywodraeth chi ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc, i fyrddau iechyd, yn cael ei wario ar y gwasanaethau hynny? Os nad ydych chi'n hyderus ar y pwynt yma, a wnewch chi ofyn i'r byrddau iechyd hynny i adrodd yn ôl i chi ac i'r Cynulliad yma ar eu gwariant o'r arian sydd angen cael ei wario ar wasanaethau i bobl ifanc?

First Minister, a committee of this Assembly has been critical today of mental health services for children and young people in Wales. Are you confident that the funding allocated by your Government for mental health services for young people, to the health boards, is being spent on these services? If you are not confident on this point, will you ask those health boards to report back to you and this Assembly on their expenditure of the funding that needs to be spent on services for young people?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yn gyntaf, wrth gwrs, byddwn yn ymateb i'r pwyllgor cyn gynted ag sy'n bosibl. Yn ail, mae'r Gweinidog wedi gofyn i'r Athrawes Dame Sue Bailey, sydd yn seiciatrydd plant ac hefyd yn gyn-lywydd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, i sicrhau ei bod hi'n symud ymlaen gydag adolygiad er mwyn moderneiddio ac hefyd ailddylunio'r gwasanaeth i'r dyfodol. Ond, bydd mwy o ymateb manwl yn pen draw.

First of all, we will of course be responding to the committee as soon as possible. Secondly, the Minister has asked Professor Dame Sue Bailey, who is a child psychiatrist and a former president of the Royal College of Psychiatrists, to ensure that she carries on with a review to modernise and reconfigure the service for the future. However, there will be a further response in due course.

13:57 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the latest figures regarding performance against waiting-time targets at the end of September this year showed that Powys Teaching Local Health Board alone was the only local health board to actually meet the Welsh Government's targets. I congratulate it on doing that. However, many of my constituents still feel that 26 or 36 weeks is still an incredibly long time to wait for surgery when they are in pain. What plans does your Government have to reduce those waiting times for local health boards that are meeting your targets?

Brif Weinidog, dangosodd y ffigurau diweddaraf o ran perfformiad yn erbyn targedau amser aros ar ddiwedd mis Medi eleni mai Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys oedd yr unig fwrdd iechyd lleol i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru. Rwy'n ei longyfarch ar wneud hynny. Fodd bynnag, mae llawer o'm hetholwyr yn dal i deimlo bod 26 neu 36 wythnos yn dal i fod yn amser eithriadol o hir i aros am lawdriniaeth pan eu bod mewn poen. Pa gynlluniau sydd gan eich Llywodraeth i leihau'r amseroedd aros hynny ar gyfer byrddau iechyd lleol sy'n bodloni eich targedau?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, as I already mentioned earlier on in my answers, we are putting an extra £425 million into the Welsh NHS over the next two years. We expect that to have a positive effect, while of course recognising that increasing demand means that there will be a further need in future to identify new resources for the NHS in order to keep up with that demand. It is important of course as well that patients in Powys are able to access health services in England. This is not her party's view, I know, but I do not accept the view put forward by the Conservative Party that Welsh patients are refugees in the English NHS. It is not that long ago that the party opposite fought an entire election demanding that Welsh patients should be able to access English hospitals and now we have Jeremy Hunt saying that they are indeed refugees. It is an appalling comment made by a Conservative, but it gives us an idea of the political games that are to be played between now and next May.

Wel, fel y soniais eisoes yn gynharach yn fy atebion, rydym ni'n rhoi £425 miliwn ychwanegol i'r GIG yng Nghymru dros y ddwy flynedd nesaf. Rydym ni'n disgwyl i hynny gael effaith gadarnhaol, gan gydnabod wrth gwrs bod galw cynyddol yn golygu y bydd angen ychwanegol yn y dyfodol i nodi adnoddau newydd ar gyfer y GIG er mwyn cadw i fyny â'r galw. Mae'n bwysig hefyd, wrth gwrs, bod cleifion ym Mhowys yn gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd yn Lloegr. Nid dyna farn ei phlaid hi, rwy'n gwybod, ond nid wyf yn derbyn safbwynt y Blaid Geidwadol bod cleifion yng Nghymru yn ffoaduriaid yn y GIG yn Lloegr. Nid yw mor hir â hynny'n ôl ers i'r blaid gyferbyn ymladd etholiad cyfan yn mynnu y dylai cleifion Cymru allu defnyddio ysbytai Lloegr ac erbyn hyn mae gennym ni Jeremy Hunt yn dweud mai ffoaduriaid ydyn nhw mewn gwirionedd. Mae hwnnw'n sylw erchyll wedi ei wneud gan Geidwadwr, ond mae'n rhoi syniad i ni o'r gemau gwleidyddol a fydd yn cael eu chwarae rhwng nawr a mis Mai nesaf.

## Trais yn erbyn Menywod

## Violence against Women

13:59

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddelio â thrais a gaiff ei gyflawni yn erbyn menywod? OAQ(4)1985(FM)*

*4. What is the Welsh Government doing to deal with violence committed against women? OAQ(4)1985(FM)*

13:59

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Could I thank the Member for her question? Could I thank her personally, actually, for the immense effort she has put in to this area of work? [ASSEMBLY MEMBERS: 'Hear, hear.'] It is an exceptionally important area of work and she has been tireless in her efforts to deal with domestic violence. We are progressing an ambitious programme of work in this area. The Bill itself is a key part of that. The debate will take place this afternoon. I am sure that the Minister will have more to say on the issue in the course of that debate.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am ei chwestiwn? A dweud y gwir, a gaf i ddiolch iddi'n bersonol am yr ymdrech aruthrol y mae hi wedi ei wneud yn y maes gwaith hwn? [AELODAU'R CYNULLIAD: 'Clywch, clywch.'] Mae'n faes gwaith eithriadol o bwysig ac mae hi wedi bod yn ddiflino yn ei hymdrechion i ymdrin â thrais yn y cartref. Rydym ni'n bwrw ymlaen â rhaglen uchelgeisiol o waith yn y maes hwn. Mae'r Bil ei hun yn rhan allweddol o hynny. Cynhelir y ddadl y prynhawn yma. Rwy'n siŵr y bydd gan y Gweinidog fwy i'w ddweud ar y mater yn ystod y ddadl honno.

13:59

## Joyce Watson Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that, First Minister. I also want to recognise the Wales-wide support for the White Ribbon campaign. Today is the international day to end violence against women and children. I particularly want to thank the Scarlets rugby team, because its players wore white ribbons on their shirts last Friday and dedicated the match towards raising funds to end violence against women and children in Llanelli.

I also want to recognise the South Wales Fire and Rescue Service for becoming the first in the world to get White Ribbon status as a fire service. I think that that is incredibly important. Of course, I welcome all of the legislation and look forward to discussing the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill later on. However, I have to recognise, Minister, that, because of budget cuts from Westminster, the UK's refuge network is under tremendous strain. Mothers are fleeing violence and they are struggling to get legal aid; specialist prosecutors for rape cases have been cut back and domestic violence courts are closing. So, could I ask you, First Minister, to do all that you can, through your partners in local government, to ensure that the networks that offer women's safety services in Wales are protected?

Diolch i chi am hynna, Brif Weinidog. Hoffwn gydnabod hefyd y gefnogaeth o bob rhan o Gymru i'r ymgyrch Rhuban Gwyn. Heddiw yw diwrnod rhyngwladol rhoi terfyn ar drais yn erbyn menywod a phlant. Hoffwn ddiolch yn arbennig i dîm rygbi'r Scarlets, gan fod ei chwaraewyr wedi gwisgo rhubanau gwyn ar eu crysau ddydd Gwener diwethaf a neilltuwyd y gêm ar gyfer codi arian i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a phlant yn Llanelli.

Hoffwn gydnabod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru hefyd am fod y gwasanaeth tân cyntaf yn y byd i gael statws Rhuban Gwyn. Credaf fod hynny'n eithriadol o bwysig. Wrth gwrs, rwy'n croesawu'r holl ddeddfwriaeth ac yn edrych ymlaen at drafod Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) yn nes ymlaen. Fodd bynnag, mae'n rhaid imi gydnabod, Weinidog, oherwydd y toriadau i'r gyllideb o San Steffan, bod rhwydwaith lloches y DU dan straen aruthrol. Mae mamau'n dianc rhag trais ac yn cael trafferth i gael cymorth cyfreithiol; mae erlynwyr arbenigol ar gyfer achosion treisio wedi cael eu torri ac mae llysoedd trais yn y cartref yn cau. Felly, a gaf fi ofyn i chi, Brif Weinidog, wneud popeth y gallwch, drwy eich partneriaid mewn llywodraeth leol, i sicrhau bod y rhwydweithiau sy'n cynnig gwasanaethau diogelwch menywod yng Nghymru yn cael eu diogelu?

14:01

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Could I thank the Member for the question? In terms of the fire and rescue authority, I think that she was at an event this morning celebrating that accreditation. The point about the legal system is a more than fair point, because the criminal legal system is being destroyed systematically. Representation is not available to people who need it, money is not being made available for prosecutions and my great fear is that we will see fewer and fewer successful prosecutions in the future, as the court system gets slower and slower. It is inevitable that that will happen over the next few years, given the budget cuts in legal aid that we have seen.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod am y cwestiwn? O ran yr awdurdod tân ac achub, rwy'n credu ei bod hi mewn digwyddiad y bore yma a oedd yn dathlu'r achrediad hwnnw. Mae'r pwynt am y system gyfreithiol yn bwynt mwy na theg, gan fod y system gyfreithiol droseddol yn cael ei dinistrio'n systematig. Nid yw cynrychiolaeth ar gael i bobl sydd ei hangen, nid yw arian yn cael ei roi ar gael ar gyfer erlyniadau a fy ofn mawr yw y byddwn yn gweld llai a llai o erlyniadau llwyddiannus yn y dyfodol, wrth i system y llysoedd droi'n arafach ac yn arafach. Mae'n anochel y bydd hynny'n digwydd yn ystod y blynyddoedd nesaf, o ystyried y toriadau i'r gyllideb cymorth cyfreithiol rydym ni wedi eu gweld.

Perhaps the Member might be interested in knowing what the Government is doing. We are projecting white ribbons onto the Pierhead building and Caerphilly castle this evening and there are a number of events that will take place at the Welsh Government offices during the course of the day to further raise awareness across the organisation. However, she is right to say that, in these days of austerity, it can be quite a challenge to make sure that those who most need support get it.

Efallai y bydd gan yr Aelod ddiddordeb mewn gwybod beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud. Rydym ni'n taflunio rhubanau gwyn ar adeilad y Pierhead a chastell Caerffili heno a cheir nifer o ddigwyddiadau a fydd yn cael eu cynnal yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn ystod y diwrnod i godi ymwybyddiaeth ymhellach ar draws y sefydliad. Fodd bynnag, mae hi'n iawn i ddweud, yn y dyddiau hyn o gyni, y gall fod yn dipyn o her gwneud yn siŵr bod y rhai sydd angen cymorth fwyaf yn ei gael.

14:02

## Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, last year, 1.2 million women in England and Wales suffered domestic abuse. In October, the Minister for Public Services gave the Communities, Equality and Local Government Committee assurances that you and he had discussed amending the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill to recognise the disproportionate impact that gender-based violence has on women and girls. How have these conversations gone forward and how will that lead to a dramatic difference in terms of amendments at Stage 2 of this Bill?

Brif Weinidog, y llynedd, dioddefodd 1.2 miliwn o fenywod yng Nghymru a Lloegr gamdriniaeth ddomestig. Ym mis Hydref, rhoddodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus sicrwydd i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol eich bod chi ac yntau wedi trafod gwella Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) i gydnabod yr effaith anghymesur y mae trais ar sail rhywedd yn ei chael ar fenywod a merched. Sut mae'r sgyrsiau hyn wedi mynd yn eu blaenau a sut y bydd hynny'n arwain at wahaniaeth tra sylweddol o ran gwelliannau yng Nghyfnod 2 y Bil hwn?

14:03

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I think the Member will be pleased by what the Minister has to say this afternoon. So, I will leave it to him to take that forward as part of the debate. I am sure that she will want to express a view then as well.

Rwy'n credu y bydd yr Aelod yn falch gyda'r hyn sydd gan y Gweinidog i'w ddweud y prynhawn yma. Felly, byddaf yn gadael iddo ef fwrw ymlaen â hynny yn rhan o'r ddadl. Rwy'n siŵr y bydd hithau eisiau mynegi barn bryd hynny hefyd.

14:03

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, I agree with you entirely about your comments on legal aid. However, I wonder whether you would, on White Ribbon Day, join me in congratulating Theresa May on refusing entry to the UK last week to Julien Blanc, the so-called seduction expert and dating guru, who actually advocates sexual violence and psychological abuse as techniques in coercing and controlling women.

Brif Weinidog, rwy'n cytuno'n llwyr â chi am eich sylwadau ar gymorth cyfreithiol. Fodd bynnag, tybed a wnewch chi, ar Ddiwrnod Rhuban Gwyn, ymuno â mi i longyfarch Theresa May ar wrthod mynediad i'r DU yr wythnos diwethaf i Julien Blanc, yr arbenigwr denu menywod a guru perthnasoedd bondigrybwyll, sydd mewn gwirionedd yn hyrwyddo trais rhywiol a cham-drin seicolegol fel technegau o orfodi a rheoli menywod.

14:03

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Absolutely. I could not agree more with the Member. There is a fine line to be drawn between freedom of speech and incitement to violence. On that occasion, the line was firmly drawn on the right side, namely that the influence of this person would be extremely malevolent, not just on society, but on the country as a whole, and I very much welcome the decision that was taken and I fully support her view on that.

Yn sicr. Ni allwn gytuno mwy â'r Aelod. Mae llinell denau iawn rhwng rhyddid i siarad ac anogaeth i drais. Ar yr achlysur hwnnw, tynnwyd y llinell yn bendant ar yr ochr iawn, sef y byddai dylanwad yr unigolyn hwn yn arbennig o faleisus, nid yn unig ar gymdeithas, ond ar y wlad gyfan, ac rwy'n croesawu'n fawr y penderfyniad a wnaed ac rwy'n llwyr gefnogi ei barn ar hynny.

14:04

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, returning to the gender-based violence Bill—and I endorse what you and Jocelyn Davies have just said—you will know that the committee was particularly concerned, because the Bill did not contain much in terms of education. I accept that there is a curriculum review, but there was a particular approach to education—a whole-school approach—which the committee felt should be in the Bill. I know that we will be debating it later on, but is the Government prepared to give any ground in that regard?

Brif Weinidog, gan ddychwelyd at y Bil trais ar sail rhywedd—ac ategaf yr hyn yr ydych chi a Jocelyn Davies newydd ei ddweud—byddwch yn gwybod bod y pwyllgor yn arbennig o bryderus, gan nad oedd y Bil yn cynnwys llawer o ran addysg. Rwy'n derbyn bod adolygiad o'r cwricwlwm, ond roedd dull arbennig o ran addysg—dull ysgol gyfan—yr oedd y pwyllgor yn teimlo ddylai fod yn y Bil. Gwn y byddwn yn ei drafod yn nes ymlaen, ond a yw'r Llywodraeth yn barod i fod yn hyblyg o gwbl yn hynny o beth?

14:04

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. In the Bill itself, consideration is certainly given to a whole-school approach to addressing these issues and also to the introduction of a national training framework with regard to that and I am sure that the Minister will expand on that in the course of the afternoon.

Ydy. Yn y Bil ei hun, rhoddir ystyriaeth yn sicr i ddull ysgol gyfan o fynd i'r afael â'r materion hyn a hefyd i gyflwyno fframwaith hyfforddiant cenedlaethol o ran hynny ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn ymhelaethu ar hynny yn ystod y prynhawn.

Senedd.tv Fideo Video

14:05

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Before we move to question 5, may I remind Members to be a little bit more concise when asking questions, please?

Cyn i ni symud at gwestiwn 5, a gaf i atgoffa'r Aelodau i fod ychydig yn fwy cryno wrth ofyn cwestiynau, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv Fideo Video

### Y System Metro

### The Metro System

14:05

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r camau nesaf i ddatblygu'r system metro ar gyfer trafnidiaeth integredig yng Nghymru? OAQ(4)1974(FM)*

*5. Will the First Minister set out the next steps to take forward the metro system for integrated transport in Wales? OAQ(4)1974(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:05

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We are developing, with the city region board, a number of different delivery options for the next stages. The recently agreed funding deal for modernising the Valleys lines is vital to our ambitions.

Gwnaf. Rydym ni'n datblygu, gyda bwrdd y ddinas-ranbarth, nifer o wahanol ddewisiadau darparu ar gyfer y camau nesaf. Mae'r cytundeb ariannu a gytunwyd yn ddiweddar ar gyfer moderneiddio rheilffyrdd y Cymoedd yn hanfodol i'n huchelgeisiau.

Senedd.tv Fideo Video

14:05

## John Griffiths Bywgraffiad Biography

Would you agree, First Minister, that the metro system would be transformative for Wales, economically, socially and environmentally, and that it must be progressed as quickly as possible? To that end, do you agree that early Welsh Government access to borrowing powers should be available for the metro system?

A fyddech chi'n cytuno, Brif Weinidog, y byddai'r system metro yn gweddnewid Cymru, yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol, a bod yn rhaid bwrw ymlaen â hi cyn gynted â phosibl? I'r perwyl hwnnw, a ydych chi'n cytuno y dylai mynediad cynnar at bwerau benthyca fod ar gael i Lywodraeth Cymru ar gyfer y system metro?

Senedd.tv Fideo Video

14:05

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, of course, the situation at the moment is that early access is available only for the M4. Whether that is right or not, that is what has been decided in Westminster, but, nevertheless, we want to make sure that we consider the appropriateness and availability of borrowing powers when developing the financial strategy for delivery.

Wel, wrth gwrs, y sefyllfa ar hyn o bryd yw bod mynediad cynnar ar gael ar gyfer yr M4 yn unig. Pa un a yw hynny'n iawn ai peidio, dyna sydd wedi ei benderfynu yn San Steffan, ond, serch hynny, rydym ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod yn ystyried pa mor briodol ac ar gael yw pwerau benthyca wrth ddatblygu'r strategaeth ariannol ar gyfer darparu.

Senedd.tv Fideo Video

14:06

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call Byron Davies. No, I see you do not want to speak. I call Lindsay Whittle.

Galwaf ar Byron Davies. Na, rwy'n gweld nad ydych chi eisiau siarad. Galwaf ar Lindsay Whittle.

Senedd.tv Fideo Video

14:06 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, what are the most recent estimates that you have for the amount of capital spend that your Government is going to invest in the south-east metro and can you promise that your plans for a second M4 have not affected that amount, please?

Brif Weinidog, beth yw'r amcangyfrifon diweddaraf sydd gennych chi am swm y gwariant cyfalaf y mae eich Llywodraeth yn mynd i'w fuddsoddi ym metro'r de-ddwyrain ac a allwch chi addo nad yw eich cynlluniau ar gyfer ail M4 wedi effeithio ar y swm hwnnw, os gwelwch yn dda?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

No, the two things are entirely separate. The two things can be delivered together. One thing that I have to say to Members is that the M4 is not a project that takes money out of existing capital schemes, nor indeed the south Wales metro. As the Minister has said on many occasions in the past, it is not the case that the entire sum available for borrowing will be used for the M4. There will be money available for other projects as well, but, of course, we know that the problem around the M4 is not going to go away, and getting to a position where there is support for a relief road will be vital for the economy of south Wales.

Na, mae'r ddau beth yn gwbl ar wahân. Gellir darparu'r ddau beth gyda'i gilydd. Un peth y mae'n rhaid i mi ei ddweud wrth Aelodau yw nad yw'r M4 yn brosiect sy'n cymryd arian allan o gynlluniau cyfalaf sydd eisoes yn bodoli, na metro de Cymru yn wir. Fel y mae'r Gweinidog wedi ei ddweud ar sawl achlysur yn y gorffennol, nid yw'n wir y bydd y swm cyfan sydd ar gael i'w fenthyg yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr M4. Bydd arian ar gael ar gyfer prosiectau eraill hefyd, ond, wrth gwrs, rydym ni'n gwybod nad yw'r broblem ynghylch yr M4 yn mynd i ddiflannu, a bydd cyrraedd sefyllfa lle mae cefnogaeth i ffordd liniaru yn hanfodol i economi'r de.

### Amseroedd Aros ar gyfer Rheoli Poen Cronig

### Waiting Times for Chronic Pain Management

14:07 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella amseroedd aros presennol ar gyfer rheoli poen cronig yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)1978(FM)*

*6. What is the Welsh Government doing to improve current waiting times for chronic pain management in North Wales? OAQ(4)1978(FM)*

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i weithio ar gamau gweithredu tymor byr a hirdymor i wneud y gwasanaethau hyn yn gynaliadwy.

Betsi Cadwaladr University Local Health Board is continuing to work on both short and longer-term actions to put these services on a sustainable basis.

14:07 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n derbyn hynny. A ydych chi fel Llywodraeth yn teimlo ei fod yn foddhaol bod y prif weithredwr wedi ysgrifennu ataf i yn dweud bod amserau aros ym mis Awst o dros flwyddyn, ond, erbyn mis Hydref, roedd y sefyllfa wedi gwaethygu i 78 wythnos o aros ar gyfer triniaeth poen cronig yn Ysbyty Maelor Wrecsam? Rwyf wedi chwilio am gynlluniau gwella'r bwrdd iechyd, ond nid ydynt yn ymddangos ar ei wefan. A fyddwch chi fel Llywodraeth, felly, yn sicrhau bod y cynlluniau hynny yn cael eu cyhoeddi er mwyn i ni fel Aelodau Cynlluniad graffu ar ei waith?

I accept that. Do you as a Government feel that it is sufficient that the chief executive has written to me saying that the waiting times in August were over a year, but, by October, the situation had deteriorated to a 78 weeks' wait for chronic pain treatment in Wrexham Maelor Hospital? I have looked for the improvement plans of the health board, but they do not appear on its website. Will you as a Government, therefore, ensure that those plans are published so that we, as Assembly Members, can scrutinise its work?

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae hynny'n annerbyniol. Ni all neb amddiffyn y ffigurau hynny. Mae cynlluniau, fel mae'r Aelod wedi sôn, i dynnu'r ffigur hwnnw i lawr yn sylweddol. Gwnaf i ofyn i'r Gweinidog i ysgrifennu atoch chi gyda'r manylion sydd eu heisiau. Mae'n bwysig dros ben bod y cynllun sydd ar gael yn gyhoeddus. Gwnaf i'n siŵr bod y Gweinidog yn sicrhau bod y cynllun hwnnw ar gael i chi fel Aelod.

That is unacceptable. Nobody could defend those figures. There are plans, as the Member has mentioned, to improve those figures substantially. I will ask the Minister to write to you with the required details. It is extremely important that the plan that is available is made public. I will ensure that the Minister ensures that that plan will be available to you as a Member.

14:08 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the Betsi Cadwaladr health board saw 726 patients waiting over 12 hours in A&E during the month of October. It was the worst performing health board in that respect in Wales. What action is your Government taking to address this problem in north Wales and to ensure that patients are treated as quickly as possible in order to minimise both the pain and the discomfort that must be caused by waiting that long?

Brif Weinidog, bu 726 o gleifion yn aros dros 12 awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys ym mwrdd iechyd Betsi Cadwaladr yn ystod mis Hydref. Hwn oedd y bwrdd iechyd a berfformiodd waethaf yn hynny o beth yng Nghymru. Pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem hon yn y gogledd ac i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau cyn lleied â phosibl o boen ar anghysur y mae'n rhaid eu bod yn cael eu hachosi oherwydd aros cyhyd â hynny?

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, first of all, the Member seems to be under the impression that people actually wait 12 hours to see somebody. That is not the case. That is the total wait in A&E. So, during that time, they will have been triaged and, during that time, they will have been treated. For many patients, of course, it is better to remain in A&E for just over 12 hours and be discharged rather than being admitted for up to three days. That is the difficult balance that has to be struck by medical practitioners. It is very difficult to look at the times that people wait—I am doing it myself now—the times that people spend, rather, in A&E, given the fact that their individual circumstances may mean that it is better for them to remain there and be treated and then be discharged, rather than be kept in hospital for a few more days.

Wel, yn gyntaf oll, mae’n ymddangos bod yr Aelod dan yr argraff bod pobl wir yn aros 12 awr i weld rhywun. Nid yw hynny'n wir. Cyfanswm yr amser aros yn yr adran damweiniau ac achosion bryd yw hynny. Felly, yn ystod y cyfnod hwnnw, byddant wedi cael eu brysbennu ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, byddant wedi cael eu trin. I lawer o gleifion, wrth gwrs, mae'n well aros yn yr adran damweiniau ac achosion brys am ychydig dros 12 awr cyn cael eu rhyddhau yn hytrach na chael eu derbyn am hyd at dri diwrnod. Dyna'r cydbwysedd anodd y mae'n rhaid i ymarferwyr meddygol ei daro. Mae'n anodd iawn edrych ar yr adegau y mae pobl yn aros—rwy’n ei wneud fy hun nawr—yr amser y mae pobl yn ei dreulio, yn hytrach, mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, o gofio’r ffaith y gallai eu hamgylchiadau unigol olygu ei bod yn well iddynt aros yno a chael eu trin ac yna chael eu rhyddhau, yn hytrach na chael eu cadw yn yr ysbyty am ychydig o ddiwrnodau ychwanegol.

14:09 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae amseroedd aros yn achosi pryder mawr yn y gogledd, ac fe ddywedodd prif weithredwr gwasanaeth iechyd Cymru wrth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bod yr amseroedd aros hyn yn achosi pryder iddo. Yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd, yr amser aros yn dilyn cyfeiriad—hynny yw, ‘referral’—am golonosgopi yw 36 wythnos. A yw hynny’n dderbyniol?

Waiting times cause serious concerns in north Wales, and the chief executive of the Welsh health service told the Public Accounts Committee that these waiting times were a cause of concern for him. In Ysbyty Gwynedd at present the waiting time following referral for colonoscopy is 36 weeks. Is that acceptable?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, y cwestiwn yw ynglŷn â phoen parhaol, wrth gwrs, ond—[Torri ar draws.] Wel, nid oes ots; atebaf y cwestiwn beth bynnag. Yr hyn sydd yn bwysig, wrth gwrs, yw bod y bwrdd ei hun yn sicrhau bod mwy o adnoddau ar gael fel bod pobl yn gallu cael colonosgopi mewn llai o amser. A gaf ofyn felly i’r Gweinidog ysgrifennu atoch gyda mwy o fanylion ynglŷn â’r ffordd y mae’r bwrdd yn delio â hyn?

Well, the question is about chronic pain, of course—[Interruption.] Well, no matter; I will answer the question anyway. What is important, of course, is that the board itself ensures that there are more resources available so that people can be given a colonoscopy within a shorter period. May I ask the Minister, therefore, to write to you with more details about how the board is dealing with this?

## Cyfleoedd Cyflogaeth yng Ngogledd Caerdydd

## Employment Opportunities in Cardiff North

14:10 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth yng Ngogledd Caerdydd? OAQ(4)1976(FM)*

*7. What plans does the First Minister have to increase employment opportunities in Cardiff North? OAQ(4)1976(FM)*

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, we are all committed, of course, to delivering sustainable employment in all of Cardiff. We do this by working with the city region and with the central Cardiff enterprise zone, which I appreciate is not in the Member's constituency, to stimulate job creation through new investment opportunities.

Wel, rydym ni i gyd wedi ymrwymo, wrth gwrs, i ddarparu cyflogaeth gynaliadwy ym mhob rhan o Gaerdydd. Rydym yn gwneud hyn trwy weithio gyda'r ddinas-ranbarth a chydag ardal fenter canol Caerdydd, yr wyf yn sylweddoli nad yw yn etholaeth yr Aelod, i greu swyddi trwy gyfleoedd buddsoddi newydd.

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

I thank the First Minister for that response. Does the First Minister agree that it is a tribute to the skills of the labour force in Cardiff North and in south Wales that the prestigious International Baccalaureate organisation, based in Cardiff Gate in Pontprennau, in my constituency of Cardiff North, decided to leave Cardiff North to go overseas—that happened a few years ago—but then was obliged to change its mind and has now taken a 10-year lease on a new building in Cardiff Gate, and its 300 jobs are safeguarded and there may be future jobs?

Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno ei bod yn deyrnged i sgiliau'r gweithlu yng Ngogledd Caerdydd ac yn ne Cymru bod y sefydliad Bagloriaeth Ryngwladol uchel ei barch, sydd wedi ei leoli ym Mhorth Caerdydd ym Mhontprennau, yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd, wedi penderfynu gadael Gogledd Caerdydd i fynd dramor—digwyddodd hynny ychydig flynyddoedd yn ôl—ond yna bu'n rhaid iddo newid ei feddwl ac mae bellach wedi cymryd les 10 mlynedd ar adeilad newydd ym Mhorth Caerdydd, ac mae ei 300 o swyddi wedi eu diogelu ac efallai y bydd swyddi yn y dyfodol?

Senedd.tv Fideo Video

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, and I declare an interest here in that my wife once worked for the IB when it was in Cardiff South and Penarth, in St Mellons. The Member is absolutely right to say that it had given thought to moving abroad. It is clear that the quality of the workforce available in her constituency could not be matched elsewhere, and I am very, very happy, of course, that it has now committed in the long term to remain in Cardiff North.

Ydw, ac rwy'n datgan buddiant yma gan y bu fy ngwraig yn gweithio i'r Fagloriaeth Ryngwladol ar un adeg pan yr oedd yn Ne Caerdydd a Phenarth, yn Llaneirwg. Mae'r Aelod yn llygad ei lle i ddweud ei fod wedi ystyried symud dramor. Mae'n amlwg na ellid dod o hyd i'r un ansawdd o weithlu â'r hyn sydd ar gael yn ei hetholaeth hi mewn mannau eraill, ac rwy'n hapus dros ben, wrth gwrs, ei fod bellach wedi ymrwymo i aros yng Ngogledd Caerdydd yn yr hirdymor.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

First Minister, the Coryton line, which is also known as the city line, does not fall in part of the Valleys areas defined by Network Rail. Are you of the mind that this line would also benefit from the electrification process that will be ongoing in the Valleys area, because, obviously, the Vale of Glamorgan line is to be electrified? So, will the Coryton line also fall under the electrification scheme?

Brif Weinidog, nid yw rheilffordd Coryton, a adnabyddir hefyd fel rheilffordd y ddinas, yn rhan o ardaloedd y Cymoedd a ddiffinir gan Network Rail. A ydych chi'n credu y byddai'r rheilffordd hon hefyd yn elwa o'r broses drydaneiddio a fydd yn parhau yn ardal y Cymoedd, oherwydd, yn amlwg, bydd rheilffordd Bro Morgannwg yn cael ei thrydaneiddio? Felly, a fydd rheilffordd Coryton yn rhan o'r cynllun trydaneiddio hefyd?

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It is part of the metro; there is no question about that. It will be dealt with as part of the wider metro network. There is no suggestion that, somehow, it will be excluded from the plans that we have.

Mae'n rhan o'r metro; nid oes amheuaeth am hynny. Bydd yn cael ei thrin fel rhan o'r rhwydwaith metro ehangach. Nid oes unrhyw awgrym y bydd, rhywsut, yn cael ei heithrio o'r cynlluniau sydd gennym.

Senedd.tv Fideo Video

14:12 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, the so-called economic recovery was undermined when the Welsh retail consortium reported large footfall declines on our high streets recently. In October, we saw the biggest decline since February. In Wales we have had three business rate reviews and little action. The Party of Wales wants to see action and we have proposed taking businesses with a rateable value of less than £10,000 out of the rates system altogether. That would deliver a much-needed boost to 70,000 Welsh small to medium-sized businesses, which form the backbone of the Welsh economy. I am sure that you would agree with me that those businesses could do with help as soon as possible. First Minister, if your Government does not support Plaid Cymru's policy on this, can you please explain why?

Brif Weinidog, tanseiliwyd yr adferiad economaidd honedig pan adroddodd consortiwm manwerthu Cymru am ostyngiadau mawr i nifer yr ymwelwyr â'n strydoedd mawr yn ddiweddar. Ym mis Hydref, gwelsom y gostyngiad mwyaf ers mis Chwefror. Yng Nghymru, rydym ni wedi cael tri adolygiad o drethi busnes ac ychydig iawn o weithredu. Mae Plaid Cymru eisiau gweld gweithredu ac rydym ni wedi cynnig cymryd busnesau sydd â gwerth ardrethol o lai na £10,000 allan o'r system ardrethi'n gyfan gwbl. Byddai hynny'n rhoi hwb y mae wir ei angen i 70,000 o fusnesau bach i ganolig eu maint yng Nghymru, sef asgwrn cefn economi Cymru. Rwy'n siŵr y byddech yn cytuno â mi bod y busnesau hynny angen cymorth cyn gynted â phosibl. Brif Weinidog, os nad yw eich Llywodraeth yn cefnogi polisi Plaid Cymru ar hyn, a allwch chi esbonio pam os gwelwch yn dda?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, first of all, I would like to know how much it would cost, and, secondly, where that money would come from. That has not been explained to us. If she is suggesting that there should be increases in business rates for larger businesses, that would cause great problems with regard to some of our bigger employers. If you look, for example, at employers like Tata, it is already wrestling with enormously high energy costs as compared to those in some of the other countries that they produce in. So, I would be very reluctant to do that. However, as the leader of Plaid Cymru well knows, business rates have not yet been fully devolved. So, what it may want to do in the future is not yet within the control of the Welsh Government. We expect that to be the case in April of next year. The Minister, in any event, has gone through a review process to look at business rates to provide the most attractive business environment possible for Wales. As I said, it is perfectly right, of course, to come forward with a policy, but we do need to understand what it would cost and where the money would come from.

Wel, yn gyntaf oll, hoffwn wybod faint y byddai'n ei gostio, ac, yn ail, o ble y byddai'r arian hwnnw'n dod. Ni eglurwyd hynny i ni. Os yw hi'n awgrymu y dylai fod cynnydd i ardrethi busnes ar gyfer busnesau mwy, byddai hynny'n achosi problemau mawr o ran rhai o'n cyflogwyr mwy. Os edrychwch chi, er enghraifft, ar gyflogwyr fel Tata, mae eisoes yn ymdopi â chostau ynni arbennig o uchel o'u cymharu â'r rhai mewn rhai o'r gwledydd eraill y maen nhw'n cynhyrchu ynddynt. Felly, byddwn yn amharod iawn i wneud hynny. Fodd bynnag, fel y mae arweinydd Plaid Cymru yn gwybod yn iawn, nid yw ardrethi busnes wedi eu datganoli'n llawn eto. Felly, nid yw'r hyn y gallai fod eisiau ei wneud yn y dyfodol o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru eto. Rydym yn disgwyl i hynny fod yn wir ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf. Mae'r Gweinidog, beth bynnag, wedi mynd trwy broses adolygu i edrych ar ardrethi busnes i ddarparu'r amgylchedd busnes mwyaf deniadol posibl i Gymru. Fel y dywedais, mae'n berffaith iawn, wrth gwrs, i gyflwyno polisi, ond mae angen i ni ddeall faint fyddai'n ei gostio ac o ble byddai'r arian yn dod.

### Ymchwiliad i Gam-drin Plant yn Rhywiol

### Inquiry into Child Sexual Abuse

14:14 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr ymateb i'r alwad am lais i Gymru ar ymchwiliad panel annibynnol y Swyddfa Gartref i gam-drin plant yn rhywiol? OAQ(4)1975(FM)*

*8. Will the First Minister provide an update on the response to the call for a voice for Wales on the Home Office independent panel inquiry into child sexual abuse? OAQ(4)1975(FM)*

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We think that there should be a voice for Wales. I know that the Minister raised this matter with Baroness Randerson last week. We will continue to make every effort to ensure that its membership and work is representative of Wales. It is not at the moment.

Rydym ni'n credu y dylai fod llais i Gymru. Gwn fod y Gweinidog wedi codi'r mater hwn gyda'r Farwnes Randerson yr wythnos diwethaf. Byddwn yn parhau i wneud pob ymdrech i sicrhau bod ei aelodaeth a'i waith yn gynrychioliadol o Gymru. Nid ydyw ar hyn o bryd.

14:14 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for that. It is very sad that the indications seem to be that the Home Office will reject calls by Gwenda Thomas, the former Deputy Minister for Social Services, for a Welsh nominee. It is not a matter that should be ignored or taken lightly, and there are two very important points that I would like to make: north Wales has been at the centre of child abuse allegations for 20 years or more via Waterhouse and now Operation Pallial; and Wales has its own social services and safeguarding children procedures. So, First Minister, how can you ensure that Wales will have a voice on the inquiry, because it is likely that issues of relevance to Wales will emerge? The Home Office should urgently rethink this.

Diolch i chi am hynna. Mae'n drist iawn ei bod yn ymddangos y bydd y Swyddfa Gartref yn gwrthod galwadau gan Gwenda Thomas, y cyn Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, am enwebai o Gymru. Nid yw'n fater y dylid ei anwybyddu na pheidio ei gymryd o ddifrif, a cheir dau bwynt pwysig iawn yr hoffwn eu gwneud: mae’r gogledd wedi bod yng nghanol honiadau cam-drin plant ers 20 mlynedd neu fwy drwy Waterhouse ac Ymgyrch Pallial nawr; ac mae gan Gymru ei gwasanaethau cymdeithasol a’i gweithdrefnau diogelu plant ei hun. Felly, Brif Weinidog, sut allwch chi sicrhau y bydd gan Gymru lais yn yr ymchwiliad, gan ei bod yn debygol y bydd materion sy'n berthnasol i Gymru yn dod i'r amlwg? Dylai'r Swyddfa Gartref ailfeddwl hyn ar frys.

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Home Office, of all Government departments, is the one that is the most ignorant of devolution. This is just one example of it, but there are many, many others. It really has no idea of the different structures that exist in Wales. The difficulty is, of course, that, as a result of this review process, there may be recommendations that affect devolved services. Are we to take full notice of that—and there is no reason why we should not, of course—given the fact that we have no representative on the review body? I think the Home Office needs to be sent a map showing it where Wales is, so that it understands that, in reality, if this is to be a process for the whole of England and Wales together, as two nations, then there has to be a Welsh representative on the body.

Y Swyddfa Gartref, o holl adrannau'r Llywodraeth, yw'r un sydd fwyaf anwybodus am ddatganoli. Dim ond un enghraifft o hynny yw hyn, ond mae llawer iawn o rai eraill. Nid oes ganddi unrhyw syniad am y gwahanol strwythurau sy'n bodoli yng Nghymru. Yr anhawster, wrth gwrs, o ganlyniad i'r broses adolygu hon, yw y gallai fod argymhellion sy'n effeithio ar wasanaethau datganoledig. A ddylem ni gymryd sylw llawn o hynny—ac nid oes unrhyw reswm pam na ddylem, wrth gwrs—o gofio’r ffaith nad oes gennym unrhyw gynrychiolydd ar y corff adolygu? Rwy’n credu bod angen anfon map i'r Swyddfa Gartref yn dangos iddi ble mae Cymru, fel ei bod yn deall, mewn gwirionedd, os yw hyn am fod yn broses ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan gyda'i gilydd, yna mae’n rhaid cael cynrychiolydd o Gymru ar y corff.

14:16 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, the independent inquiry set up to consider whether public bodies and other institutions failed in their duty of care to protect children from sexual abuse represents a diverse range of experience, including social care, academia, law enforcement, health, media, the voluntary sector and those with experience of child sexual abuse. Does the First Minister agree that what matters now is that the panel gets on with its work and reports as soon as possible, to ensure that we have proper safeguards in place for the protection of our children in the future?

Brif Weinidog, mae’r ymchwiliad annibynnol a sefydlwyd i ystyried pa un a wnaeth cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill fethu o ran eu dyletswydd gofal i amddiffyn plant rhag camdriniaeth rywiol, yn cynrychioli amrywiaeth eang o brofiad, gan gynnwys gofal cymdeithasol, y byd academaidd, gorfodi'r gyfraith, iechyd, y cyfryngau, y sector gwirfoddol a'r rhai â phrofiad o gam-drin plant yn rhywiol. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno mai’r hyn sy'n bwysig nawr yw bod y panel yn bwrw ymlaen â'i waith ac yn adrodd cyn gynted â phosibl, er mwyn sicrhau bod gennym fesurau diogelu priodol ar waith i amddiffyn ein plant yn y dyfodol?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There are people in Wales with that expertise. That is the whole point. The Member seems to suggest that, somehow, these people are not available in Wales. They are. The review itself has had a very difficult history, as we know, but if this is to be an England-and-Wales review, there needs to be representation from Wales as part of it. Otherwise, of course, what credibility can it have if it does not take into account the separate structures, safeguards and legislation that we have in Wales? It just will not fit. So, it is absolutely crucial that there is somebody there who is representing Welsh interests on what is meant to be a two-nation review.

Ceir pobl yng Nghymru sydd â’r arbenigedd hwnnw. Dyna’r holl bwynt. Mae’n ymddangos bod yr Aelod yn awgrymu, rhywsut, nad yw’r bobl hyn ar gael yng Nghymru. Maen nhw ar gael. Mae gan yr adolygiad ei hun hanes anodd iawn, fel y gwyddom, ond os yw am fod yn adolygiad Cymru a Lloegr mae angen cynrychiolaeth o Gymru yn rhan ohono. Fel arall, wrth gwrs, pa hygrededd y gall fod ganddo os nad yw'n cymryd i ystyriaeth y strwythurau, y mesurau diogelwch a’r ddeddfwriaeth ar wahân sydd gennym yng Nghymru? Yn syml, ni fydd yn gweithio. Felly, mae'n gwbl hanfodol bod rhywun yno sy'n cynrychioli buddiannau Cymru ar yr hyn sydd i fod yn adolygiad dwy genedl.

14:17 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n cytuno â'r hyn yr oedd Sandy Mewies wedi'i ddweud, a Gwenda Thomas yr wythnos diwethaf, sef fod angen llais clir ar Gymru ar yr adolygiad hwn, yn enwedig gan fod buddiannau sy'n gynhenid i Gymru, er enghraifft yr iaith Gymraeg, fel bod unrhyw un sy'n dod gerbron i roi tystiolaeth yn teimlo'n gyfforddus i allu gwneud hynny. Pa drafodaethau ydych chi wedi'u cael gyda'r Llywodraeth ynglŷn ag enwau pobl benodol nad oes ganddynt wrthdaro o ran eu buddiannau, fel sydd wedi digwydd gyda'r sefyllfa ar hyn o bryd yn Lloegr, er mwyn inni allu cael llais cryf i Gymru ar y panel hwn?

First Minister, I agree with what Sandy Mewies said, and Gwenda Thomas last week, namely that Wales needs a clear voice on this inquiry, particularly as there are inherently Welsh interests, for example the Welsh language, so that anyone who wants to give evidence can feel comfortable that they are able to do so. What discussions have you had with the Government on the names of specific people who do not have any conflict of interest, as has happened with the current situation in England, so that we can get a strong voice for Wales on this panel?

14:18 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yn gyntaf i gyd, rhaid inni sicrhau bod cytundeb bod rhywun o Gymru ar y panel. Nid wyf yn credu bod unrhyw fath o wrthwynebiad gan Swyddfa Cymru, a bod yn hollol deg, ond mae yna broblem gyda'r Swyddfa Gartref--problem sy'n ymddangos yn weddol aml ar hyn o bryd. Mae'n bwysig dros ben gydag adolygiad sydd â dwy genedl yn rhan ohono fod rhywun yno o'r genedl arall. Nid yw hynny wedi digwydd. Mae'n bwysig, ond nid dim ond o achos y ffaith ein bod yn mo'yn cael rhywun o Gymru arno; mae'n bwysig o ran deddfwriaeth, y strwythur gwahanol, a bod yr argymhellion a roddir yn ffitio o ran y sefyllfa yng Nghymru. Fel bod hwn yn adolygiad pwrpasol a chynhwysfawr, mae'n bwysig dros ben fod rhywun o Gymru ar y panel ei hun.

First of all, we must secure agreement to have a person from Wales on the panel. I do not think that the Wales Office has any objection to that, to be fair, but there is a problem with the Home Office—a problem that appears quite frequently these days. It is vital with a review that has two nations as part of it that somebody from the other nation is represented. That has not happened. It is important, but not just because of the fact that we just want someone from Wales on it; it is important in terms of legislation, the different structure, and so that the recommendations made fit with the situation in Wales. To ensure that this is an appropriate and comprehensive review, it is essential that we have somebody from Wales on the panel.

14:19 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

As you may be aware, First Minister, a statement of opinion that I have raised on this issue has now received support from Plaid Cymru, Liberal Democrat, Conservative and Labour Members. This is not a party-political matter. I do believe that this is something that we can all agree on. I understand also that a decision on whether to hold a separate national inquiry into historic child sexual abuse in Scotland is to be made by the end of the year by the Scottish Parliament. First Minister, what can the Welsh Government do to continue to make the case for a Welsh representative on the Home Office inquiry?

Fel y gwyddoch efallai, Brif Weinidog, mae datganiad barn yr wyf wedi ei godi ar y mater hwn wedi derbyn cefnogaeth gan Blaid Cymru, y Democratiaid Rhyddfrydol, y Ceidwadwyr ac Aelodau Llafur erbyn hyn. Nid yw hwn yn fater o wleidyddiaeth bleidiol. Rwy'n credu bod hyn yn rhywbeth y gallwn ni i gyd gytuno arno. Rwyf hefyd yn deall y bydd penderfyniad ar ba un a ddylid cynnal ymchwiliad cenedlaethol ar wahân i achosion hanesyddol o gam-drin plant yn rhywiol yn yr Alban yn cael ei wneud erbyn diwedd y flwyddyn gan Senedd yr Alban. Brif Weinidog, beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i barhau i ddadlau'r achos dros gynrychiolydd o Gymru ar ymchwiliad y Swyddfa Gartref?

14:19 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I think the Member is right: it is not a party-political issue. It is something that all Members, or most Members, in the Chamber, I am sure, will appreciate. We must get away from this idea that, if there is a body or a review or a panel set up to cover England and Wales, you can ignore Wales as part of that. That is not appropriate now—or ever, in fact, but particularly now. It is absolutely crucial that there is somebody who is part of the process who understands Welsh circumstances, understands Welsh structures and understands Welsh legislation. Otherwise, there is a real danger. I am sure that Members would want to support the recommendations, certainly in principle—although we have not seen them yet, of course. It is difficult. I mean, we would not reject them simply because they were recommendations that had come from a panel that we did not particularly like the look of. The real danger is that the recommendations will not fit in Wales. That is a problem the Home Office keeps on failing to understand in this and other issues.

Rwy'n credu bod yr Aelod yn iawn: nid yw'n fater o wleidyddiaeth bleidiol. Mae'n rhywbeth y bydd pob Aelod, neu fwyafrif yr Aelodau, yn y Siambr, rwy'n siŵr, yn ei werthfawrogi. Mae'n rhaid i ni symud oddi wrth y syniad hwn, os oes corff neu adolygiad neu banel yn cael ei sefydlu i gwmpasu Cymru a Lloegr, y gallwch chi anwybyddu Cymru yn rhan o hynny. Nid yw hynny'n briodol nawr—nac erioed, mewn gwirionedd, ond nawr yn arbennig. Mae'n gwbl hanfodol bod rhywun yn rhan o'r broses sy'n deall amgylchiadau Cymru, yn deall strwythurau Cymru ac yn deall deddfwriaeth Cymru. Fel arall, ceir perygl gwirioneddol. Rwy'n sicr y byddai'r Aelodau'n dymuno cefnogi'r argymhellion, yn sicr mewn egwyddor—er nad ydym wedi eu gweld nhw eto, wrth gwrs. Mae'n anodd. Hynny yw, ni fyddem yn eu gwrthod dim ond oherwydd eu bod yn argymhellion a ddaeth gan banel nad oeddem ni'n arbennig o hoff o'i gyfansoddiad. Y gwir berygl go iawn yw na fydd yr argymhellion yn gweithio yng Nghymru. Mae hynny'n broblem y mae'r Swyddfa Gartref yn parhau i fethu â'i deall o ran hyn a materion eraill.

14:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:21

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## Business Statement and Announcement

Senedd.tv
Fideo Video

**Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Llywydd, there are no changes to report to this week's business. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among agenda papers available to Members electronically.

Lywydd, nid oes unrhyw newidiadau i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:21 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I ask the Minister for business whether she would ask her colleague, the Minister for Health and Social Services, to make a statement addressing the instances of patients waiting over 12 hours in accident and emergency departments? One knows this is not a new problem, but we are now facing, once again, no doubt in a few months' time, winter pressures. In Gwent, during October, 348 patients—an average of more than 10 a day—had to wait more than 12 hours in A&E. The Royal Gwent Hospital's A&E unit accounted for 271 of October's waits, which in itself is bad enough, but it is the third highest figure in Wales. I ask if you could also mention the fact that 50% of patients arrive at A&E departments by ambulance, but over half of those do not actually result in an admission. Perhaps you could kindly explain why that is the case at this time, before, as I say, we face the winter pressures.

A gaf fi ofyn i'r Gweinidog busnes a wnaiff hi ofyn i'w chyd-Weinidog, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, wneud datganiad yn mynd i'r afael â'r achosion o gleifion yn aros dros 12 awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys? Rwy'n gwybod nad yw hon yn broblem newydd, ond, unwaith eto, rydym ni'n wynebu, heb os, ymhen ychydig fisoedd, pwysau'r gaeaf. Yng Ngwent, yn ystod mis Hydref, bu'n rhaid i 348 o gleifion—cyfartaledd o fwy na 10 bob dydd—aros mwy na 12 awr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys. Bu 271 o'r achosion o aros ym mis Hydref yn uned damweiniau ac achosion brys Ysbyty Brenhinol Gwent, sy'n ddigon drwg ynddo'i hun, ond dyma'r trydydd ffigur uchaf yng Nghymru. Gofynnaf a allech chi sôn hefyd am y ffaith bod 50% o gleifion yn cyrraedd adrannau damweiniau ac achosion brys mewn ambiwlans, ond nid yw mwy na hanner y rheini yn arwain at dderbyniad i'r ysbyty. Efallai y gallech chi fod mor garedig ag esbonio pam mae hynny'n wir ar hyn o bryd, cyn, fel rwy'n ei ddweud, i ni wynebu pwysau'r gaeaf.

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I thank William Graham for that question. I will not repeat the points made by the First Minister in response to a question on this point, which clearly put the record straight and laid out the importance of time in terms of treatment and assessment in A&E for the patient experience. However, I would like to say that, in the last 12 months, emergency departments across Wales cared for more than 980,000 patients. That is more than 80,000 patients a month. Despite that, the vast majority of people at Wales's emergency departments are seen and treated within four hours.

Diolchaf i William Graham am y cwestiwn yna. Ni wnaf ailadrodd y pwyntiau a wnaed gan y Prif Weinidog mewn ymateb i gwestiwn ar y pwynt hwn, a gyflwynodd ffaith y mater yn eglur ac a nododd bwysigrwydd amser o ran triniaeth ac asesu mewn adrannau damweiniau ac achosion brys i brofiad y claf. Fodd bynnag, hoffwn ddweud, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bod adrannau achosion brys ar draws Cymru wedi gofalu am fwy na 980,000 o gleifion. Mae hynny'n fwy na 80,000 o gleifion y mis. Er gwaethaf hynny, mae mwyafrif llethol y bobl yn adrannau achosion brys Cymru yn cael eu gweld a'u trin o fewn pedair awr.

Senedd.tv
Fideo Video

14:22 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

I would like to ask for a ministerial statement on medicine management, to include polypharmacy, how to reduce the number of out-of-date or time-expired drugs, and the interaction between primary and secondary care regarding prescribing.

Hoffwn ofyn am ddatganiad gweinidogol ar reoli meddyginiaeth, gan gynnwys polyfferylliaeth, sut i leihau nifer y cyffuriau y mae eu dyddiad neu eu hamser wedi dod i ben, a'r rhyngweithio rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd o ran presgripsiynau.

Senedd.tv
Fideo Video

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

I know the Minister for Health and Social Services is very aware of this evidence, and I am sure he will want to respond in due course in terms of statements.

Rwy'n gwybod bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwybodol iawn o'r dystiolaeth hon, ac rwy'n siŵr y bydd eisiau ymateb maes o law o ran datganiadau.

Senedd.tv
Fideo Video

14:23 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Minister, Sunday saw yet another fatality on the trunk roads in my constituency. This time, a young motorcyclist was killed on the A470 at Storey Arms. Minister, this is happening week after week after week. Families are left devastated and the communities that abut the trunk roads are living in fear of their safety. Please could we have a statement from the Minister on these issues, with specific reference to why she feels that the actions her Government has taken to date are not reducing the number of casualties on trunk roads in Wales? What discussions is she having with the police and engineers so that we can see an end to these tragedies and give some comfort to the communities next door to the trunk roads, which, as I said, are very fearful for their own safety?

Weinidog, bu marwolaeth arall eto ar y cefnffyrdd yn fy etholaeth i ddydd Sul. Y tro hwn, lladdwyd beiciwr modur ifanc ar yr A470 yn Storey Arms. Weinidog, mae hyn yn digwydd wythnos ar ôl wythnos ar ôl wythnos. Mae teuluoedd yn cael eu gadael mewn trallod ac mae'r cymunedau sy'n ffinio'r cefnffyrdd yn byw mewn ofn am eu diogelwch. A allem ni gael datganiad gan y Gweinidog ar y materion hyn os gwelwch yn dda, gan gyfeirio'n benodol at pam mae hi'n teimlo nad yw'r camau y mae ei Llywodraeth wedi eu cymryd hyd yma yn lleihau nifer yr anafusion ar gefnffyrdd yng Nghymru? Pa drafodaethau mae hi'n eu cael gyda'r heddlu a pheirianwyr fel y gallwn weld diwedd ar y trychinebau hyn a rhoi rhywfaint o gysur i'r cymunedau drws nesaf i'r cefnffyrdd, sydd, fel y dywedais, yn ofnus iawn am eu diogelwch eu hunain?

Senedd.tv
Fideo Video

14:24 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Kirsty Williams raises a very important issue. The Minister for Economy, Science and Transport gives her sincere condolences, as we all do across this Chamber, for all the tragedies that have occurred—there are too many. Of course, this is something she would want to address—and indeed has in terms of road safety policy. She will update in terms of policies on this matter.

Mae Kirsty Williams yn codi mater pwysig iawn. Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth cydymdeimlo'n fawr, fel yr ydym ni i gyd ar draws y Siambr hon, â'r holl drychinebau sydd wedi digwydd—mae gormod ohonynt. Wrth gwrs, mae hyn yn rhywbeth y byddai hi'n dymuno rhoi sylw iddo—ac y mae wedi ei wneud, yn wir, o ran polisi diogelwch ar y ffyrdd. Bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran polisïau ar y mater hwn.

Senedd.tv
Fideo Video

14:24 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can I ask for a statement from the Minister for Education and Skills on term-time absence? I understand that the Welsh Government has set out details of 10 days' authorised absence for family holidays, but the strong advice from the Education through Regional Working consortium has been contradictory in informing schools that they should not authorise holidays during term time. As it happens, I agree with the Welsh Government that it should be up to the discretion of local schools, so may I ask you to ask the Minister for a definitive view on this, by way of a statement, to give clarification to schools and parents?

Weinidog, a gaf fi ofyn am ddatganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar absenoldeb yn ystod y tymor? Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru wedi nodi manylion 10 diwrnod o absenoldeb awdurdodedig ar gyfer gwyliau teuluol, ond mae'r cyngor cryf gan y consortiwm Ein Rhanbarth ar Waith wedi gwrth-ddweud hynny wrth hysbysu ysgolion na ddylent ganiatáu gwyliau yn ystod y tymor. Fel mae'n digwydd, rwy'n cytuno â Llywodraeth Cymru y dylai fod yn ôl disgresiwn ysgolion lleol, felly a gaf fi ofyn i chi ofyn i'r Gweinidog am safbwynt pendant ar hyn, trwy gyfrwng datganiad, er mwyn rhoi eglurder i ysgolion a rhieni?

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, the guidance must be very transparent, clear and consistent, I believe, on this matter, and, of course, I will raise this with the Minister.

Yn amlwg, mae'n rhaid i'r canllawiau fod yn dryloyw iawn, yn eglur ac yn gyson, rwy'n credu, ar y mater hwn, ac, wrth gwrs, byddaf yn codi hyn gyda'r Gweinidog.

14:25 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, fel arfer, mae'r ffigurau ar gyfer marwolaethau ymysg yr henoed yn ystod misoedd y gaeaf yn cael eu cyhoeddi ym mis Tachwedd. Mae cryn dipyn o bryder ynghylch sefyllfa ariannol y byrddau iechyd. A fydd y Llywodraeth, felly, yn barod i ofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi datganiad i'n sicrhau ni fod y trefniadau ar gyfer ysbytai yn ystod misoedd y gaeaf yn cael eu gweithredu fel arfer?

Minister, the figures for excess winter deaths among the elderly are usually published in November. There is a great deal of concern about the financial position of the health boards. Would the Government, therefore, be prepared to ask the Minister for Health and Social Services to give a statement in order to assure us that hospitals' arrangements for the winter months are being implemented, as usual?

14:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Clearly, the work on winter preparedness includes actions and policy implementation across the Welsh Government. Particularly in relation to this issue of elderly vulnerable people, the Minister for Health and Social Services and his deputy are working very closely on winter preparedness, which, of course, is led by the Minister for Public Services, and there will be a statement on this.

Yn amlwg, mae'r gwaith ar fod yn barod ar gyfer y gaeaf yn cynnwys camau gweithredu a gweithredu polisi ar draws Llywodraeth Cymru. Yn enwedig o ran y mater hwn o bobl oedrannus sy'n agored i niwed, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i ddirprwy yn gweithio'n agos iawn ar fod yn barod ar gyfer y gaeaf, sydd, wrth gwrs, yn cael ei arwain gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, a bydd datganiad ar hyn.

14:26 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, last week, we heard a question from Eluned Parrott to the Minister for Education and Skills about the value of music in schools, and I am sure that you are aware of the William Mathias charity, which operates across north Wales, providing music lessons to children in schools in Gwynedd, Conway and Denbighshire. The services in Denbighshire are under threat, and I wonder whether we could have a statement from the Minister for Education and Skills about the value of music lessons in schools and the importance of those lessons to pupils across north Wales.

Weinidog, clywsom gwestiwn yr wythnos diwethaf gan Eluned Parrott i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau am werth cerddoriaeth mewn ysgolion, ac rwy'nsiŵr eich bod yn ymwybodol o elusen William Mathias, sy'n gweithredu ar draws y gogledd, gan ddarparu gwersi cerddoriaeth i blant mewn ysgolion yng Ngwynedd, Conwy a Sir Ddinbych. Mae'r gwasanaethau yn Sir Ddinbych dan fygythiad, ac roeddwn i'n meddwl tybed a allem ni gael datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau am werth gwersi cerddoriaeth mewn ysgolion a phwysigrwydd y gwersi hynny i ddisgyblion ar draws y gogledd.

14:27 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Of course, the Minister for Education and Skills has responded to questions about this issue. The value that he accords—as we all do, as a Welsh Government—to music education in schools is very clear. That is what local authorities also must consider in terms of their response to a very difficult financial settlement, of course—a financial settlement that is made tougher by the Conservative-led Government in Westminster cutting our budget by 10% in real terms.

Wrth gwrs, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi ymateb i gwestiynau am y mater hwn. Mae'r gwerth y mae'n ei roi—fel y mae pob un ohonom, fel Llywodraeth Cymru—ar addysg cerddoriaeth mewn ysgolion yn eglur iawn. Dyna mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei ystyried hefyd wrth gwrs, o ran eu hymateb i setliad ariannol anodd iawn—setliad ariannol sy'n cael ei wneud yn fwy anodd gan doriad o 10% i'n cyllideb mewn termau real gan y Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr yn San Steffan.

14:28

### Byron Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A constituent in Ogmore, Mrs Elizabeth Richards, faces an anxious wait this week for a final decision as to whether she can receive the life-prolonging cancer drug Avastin on the Welsh national health service. Having been turned down twice already, Mrs Richards and her family have had no choice but to fund the treatment themselves, and, to date, this has cost £25,000. Will the Welsh Government Minister for Health and Social Services look into this case, please? Will the Minister also accept the need to introduce a cancer treatment fund and take steps to create one, to ensure that Welsh patients receive equitable access to life-saving drugs?

Mae etholwr yn Ogwr, Mrs Elizabeth Richards, wynebu arhosiad pryderus yr wythnos hon am benderfyniad terfynol ynghylch pa un a gaiff hi gael y cyffur canser sy'n estyn bywyd, Avastin, gan wasanaeth iechyd gwladol Cymru. Ar ôl cael ei gwrthod ddwywaith eisoes, ni fu gan Mrs Richards a'i theulu unrhyw ddewis ond ariannu'r driniaeth eu hunain, a, hyd yn hyn, mae hynny wedi costio £25,000. A wnaiff Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ymchwilio i'r achos hwn, os gwelwch yn dda? A wnaiff y Gweinidog dderbyn hefyd yr angen i gyflwyno cronfa triniaeth canser a chymryd camau i greu cronfa o'r fath, er mwyn sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael mynediad teg at gyffuriau achub bywyd?

14:28

### Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think it is important to recognise where we are in terms of cancer services in Wales. In the last 12 months, from last October to September of this year, 17% more patients started cancer treatment within the 62-day target time than in the previous 12 months. Indeed, the Welsh NHS is treating more than eight out of 10 patients within the 62-day target. We spend more per head on treating cancer than England, and the 'British Journal of Cancer' shows that Wales has a faster uptake of the drugs most recently launched and recommended by the National Institute for Health and Care Excellence. In fact, the cancer experience survey conducted by Macmillan Cancer Support shows that satisfaction levels with cancer services in Wales put Welsh hospitals at the top of the European league.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig nodi ein sefyllfa o ran gwasanaethau canser yng Nghymru. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o fis Hydref diwethaf i fis Medi eleni, dechreuodd 17% yn fwy o gleifion driniaeth canser o fewn yr amser targed o 62 diwrnod nag yn ystod y flwyddyn flaenorol. Yn wir, mae'r GIG yng Nghymru yn trin mwy nag wyth o bob 10 claf o fewn y targed o 62 diwrnod. Rydym ni'n gwario mwy fesul pen ar drin canser na Lloegr, ac mae'r 'British Journal of Cancer' yn dangos bod Cymru'n manteisio'n gyflymach ar y cyffuriau a lansiwyd ac a argymhellwyd ddiweddaraf gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Gofal. Mewn gwirionedd, mae'r arolwg profiad canser a gynhaliwyd gan Gymorth Canser Macmillan yn dangos bod lefelau bodlonrwydd â gwasanaethau canser yng Nghymru yn rhoi ysbytai Cymru ar frig y gynghrair Ewropeaidd.

14:29

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

14:29

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.5 i Sefydlu Pwyllgor o'r Cynulliad

## Motion under Standing Order 16.5 Y to Establish an Assembly Committee

Senedd.tv Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call the Minister for Finance and Government Business to move the motion.

Galwaf ar Weinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5634 Jane Hutt

Motion NDM5634 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 16.5:

1. Yn sefydlu Pwyllgor ar amddiffyn plant rhag cael eu curo ar sail cosb resymol; a

1. Establishes a Committee on the protection of children from battery inflicted on grounds of reasonable punishment; and

2. Yn cytuno mai cylch gwaith y Pwyllgor yw craffu ar y polisi a'r ystyriaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud â chael gwared â'r amddiffyniad 'cosb resymol' mewn cysylltiad â churo plentyn, yn sgîl adran 58 o Ddeddf Plant 2004. Bydd y Pwyllgor yn cael ei ddiddymu yn dilyn y ddadl ar ei adroddiad.

2. Agrees that the remit of the Committee is to examine the policy and legislative considerations surrounding the removal of the 'reasonable punishment' defence in relation to battery of a child, further to section 58 of the Children Act 2004. The Committee will be dissolved following the debate on its report.

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to move the motion to establish a cross-party committee to consider the protection of children from battery. The remit of the committee, as set out in the motion, will allow a thorough examination of the policy and legislative considerations surrounding the removal of the reasonable punishment defence in relation to the battery of a child. I propose that the committee should be dissolved following a debate on its report in this Chamber, and I hope that we can move forward together on this important issue.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r cynnig i sefydlu pwyllgor trawsbleidiol i ystyried amddiffyn plant rhag cael eu curo. Bydd cylch gwaith y pwyllgor, fel y nodir yn y cynnig, yn caniatáu archwiliad trylwyr o'r polisi ac ystyriaethau deddfwriaethol ynghylch cael gwared ar yr amddiffyniad cosb resymol o ran curo plentyn. Cynigiaf y dylai'r pwyllgor gael ei ddiddymu yn dilyn dadl ar ei adroddiad yn y Siambr hon, ac rwy'n gobeithio y gallwn symud ymlaen gyda'n gilydd ar y mater pwysig hwn.

14:30 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We on this side of the Chamber are very disappointed that the Welsh Government has decided to propose establishing an Assembly committee to look at this particular issue and that it will be using Assembly resources in this way, given the fact that there was no consensus in the Business Committee. Now, we think that this move creates a precedent for the future, which says that Assembly committees can be set up and created at any time, on various subject topics, when, in a lot of cases, it is simply just unnecessary.

Rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn siomedig iawn bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cynnig sefydlu pwyllgor Cynulliad i edrych ar y mater penodol hwn ac y bydd yn defnyddio adnoddau'r Cynulliad yn y modd hwn, o ystyried y ffaith nad oedd unrhyw gonsensws yn y Pwyllgor Busnes. Nawr, rydym ni'n credu bod y cam hwn yn creu cynsail ar gyfer y dyfodol, sy'n dweud y gellir sefydlu a chreu pwyllgorau Cynulliad ar unrhyw adeg, ar bynciau amrywiol, pan fo hynny, mewn llawer o achosion, yn gwbl ddiangen.

Now, Members are aware that the Welsh Government could establish its own commission, or it could establish its own review or panel, as it has done in the past. It established the Diamond review, the Holtham commission, and even the Williams commission. None of these policy areas led to the creation of an Assembly committee, and so we fail to see how the specific issue of reforming the law on smacking children should be any different. Therefore, we remain unconvinced by the Welsh Government's logic that establishing a committee is the best approach when looking at this specific issue. In fact, an Assembly committee is already in place that could scrutinise this policy matter, and that is the Children, Young People and Education Committee. By establishing a specific Assembly committee, the Welsh Government is sending the message that an Assembly committee is a necessary step forward on plenty of other issues too—for example, e-cigarettes or assisted dying, both of which also happen to be controversial policy areas.

Nawr, mae'r Aelodau'n ymwybodol y gallai Llywodraeth Cymru sefydlu ei chomisiwn ei hun, neu y gallai sefydlu ei hadolygiad neu banel ei hun, fel y mae wedi gwneud yn y gorffennol. Sefydlodd adolygiad Diamond, comisiwn Holtham, a hyd yn oed comisiwn Williams. Ni arweiniodd yr un o'r meysydd polisi hyn at greu pwyllgor Cynulliad, ac felly ni allwn weld sut y dylai'r mater penodol o ddiwygio'r gyfraith ar smacio plant fod yn wahanol. Felly, rydym yn dal i fod heb ein hargyhoeddi gan resymeg Llywodraeth Cymru mai sefydlu pwyllgor yw'r dull gorau wrth edrych ar y mater penodol hwn. Mewn gwirionedd, mae pwyllgor Cynulliad eisoes ar waith a allai graffu ar y mater polisi hwn, sef y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Trwy sefydlu pwyllgor Cynulliad penodol, mae Llywodraeth Cymru yn anfon y neges bod pwyllgor Cynulliad yn gam angenrheidiol ymlaen ar nifer o faterion eraill hefyd—er enghraifft, e-sigaréts neu farw gyda chymorth, dau bwnc sy'n digwydd bod yn feysydd polisi dadleuol hefyd.

There is also the issue of timetabling, the amount of resources that may be needed, and the membership that would be needed to create this committee, before deciding that the creation of an Assembly committee would be the best way forward. Therefore, we on this side of the Chamber believe that the Welsh Government has not thought this through properly and, because of that, we will be voting against this motion this afternoon.

Ceir hefyd y mater o amserlennu, faint o adnoddau y gallai fod eu hangen, a'r aelodaeth y byddai ei hangen i greu'r pwyllgor hwn, cyn penderfynu mai creu pwyllgor Cynulliad fyddai'r ffordd orau ymlaen. Felly, rydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr o'r farn nad yw Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn yn briodol ac, oherwydd hynny, byddwn yn pleidleisio yn erbyn y cynnig hwn y prynhawn yma.

14:32 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, welcome to Wales—this land, indeed, of committees. There is absolutely no need, in my opinion, to set up a committee to discuss the withdrawal of the reasonable punishment defence under section 58 of the Children Act 2004—it can be done under the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill. Over the past 12 years, the decision to protect children against physical assault in their homes has had overwhelming support in this Chamber, so why now another delay? Now we have the powers to legislate, why do we need to discuss issues to do with legislation? Is this another delaying tactic, to drag the matter on until after the next Assembly elections? Oh, yes.

Wel, croeso i Gymru—gwlad y pwyllgorau, yn wir. Nid oes unrhyw angen o gwbl, yn fy marn i, i sefydlu pwyllgor i drafod diddymu'r amddiffyniad cosb resymol dan adran 58 Deddf Plant 2004— gellir gwneud hynny dan y Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru). Dros y 12 mlynedd diwethaf, mae'r penderfyniad i amddiffyn plant rhag ymosodiad corfforol yn eu cartrefi wedi cael cefnogaeth aruthrol yn y Siambr hon, felly pam oedi eto nawr? Nawr fod y pwerau gennym i ddeddfu, pam mae angen i ni drafod materion yn ymwneud â deddfwriaeth? Ai tacteg oedi arall yw hon, i lusgo'r mater ymlaen tan ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad? O, ie.

There are three main arguments that I have heard against removing the defence of reasonable punishment. The it-never-did-me-any-harm argument is like a 60-year-old smoker saying that smoking never did him any harm—well, you are lucky. That does not contradict the medical evidence that smoking is the cause of life-threatening health conditions, such as cancers, coronary heart disease, et cetera. The it-never-did-me-any-harm argument cannot deny the medical and psychological evidence that physical assault on children too often leads them to accepting violence as normal. That is why, Llywydd, more than 20 eminent academics—that is tough to say—recently wrote a letter to the 'Western Mail' calling for the removal of this defence.

Ceir tair prif ddadl yr wyf wedi eu clywed yn erbyn cael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol. Mae'r ddadl ni wnaeth hynny unrhyw niwed i mi yn debyg i ysmygwr 60 mlwydd oed yn dweud na wnaeth ysmygu unrhyw niwed iddo fe—wel, rydych chi'n lwcus. Nid yw hynny'n gwrth-ddweud y dystiolaeth feddygol bod ysmygu'n achosi cyflyrau iechyd sy'n peryglu bywyd, fel canser, clefyd coronaidd y galon, ac yn y blaen. Ni all y ddadl ni wnaeth hynny unrhyw niwed i mi wadu'r dystiolaeth feddygol a seicolegol bod ymosodiad corfforol ar blant yn golygu'n rhy aml eu bod yn derbyn trais fel rhywbeth normal. Dyna pam, Lywydd, yr ysgrifennodd mwy nag 20 o academyddion blaenllaw—mae hynny'n anodd ei ddweud—lythyr at y 'Western Mail' yn ddiweddar yn galw am gael gwared ar yr amddiffyniad hwn.

Argument number 2 is that removing reasonable punishment would encroach on parental rights. The United Nations puts children's rights first, and it has repeatedly called on the United Kingdom and its constituent nations

Dadl rhif 2 yw y byddai cael gwared ar gosb resymol yn ymyrryd â hawliau rhieni. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn rhoi hawliau plant yn gyntaf, ac mae wedi galw dro ar ôl tro ar y Deyrnas Unedig a'i gwledydd cyfansoddol

to protect the child from all forms of physical or mental violence...while in the care of parent(s)...or any other person'.

i amddiffyn y plentyn rhag pob math o drais corfforol neu feddyliol... tra eu bod yng ngofal rhiant (rhieni)... neu unrhyw berson arall.

If 42 other countries have already acted on this issue, why not Wales? Only a few weeks ago, the current Chair of the UN Committee on the Rights of the Child spoke on this matter in the Assembly here and could not understand why no progress has been made since 2002. Are we going to talk for 12 years? We have not had very good publicity this last 24 hours, and I am sure that the public out there will want to see better value for money from this Chamber.

Os yw 42 o wledydd eraill eisoes wedi gweithredu ar y mater hwn, pam nad yw Cymru? Dim ond ychydig wythnosau yn ôl, siaradodd Cadeirydd presennol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar y mater hwn yn y Cynulliad ac ni allai ddeall pam nad oes cynnydd wedi ei wneud ers 2002. A ydym ni'n mynd i siarad am 12 mlynedd? Nid ydym ni wedi cael cyhoeddusrwydd da iawn yn ystod y 24 awr diwethaf, ac rwy'n siŵr y bydd y cyhoedd allan yna eisiau gweld gwell gwerth am arian gan y Siambr hon.

The third argument against protecting children against physical assault is that parents would be criminalised. Again, this goes against all the evidence from other countries. Parents there have not been criminalised; they have been given advice and support to adopt other ways of improving their children's behaviour.

Y drydedd ddadl yn erbyn amddiffyn plant rhag ymosodiad corfforol yw y byddai rhieni'n cael eu gwneud yn droseddwyr. Unwaith eto, mae hyn yn groes i'r holl dystiolaeth o wledydd eraill. Nid yw rhieni wedi eu gwneud yn droseddwyr; rhoddwyd cyngor a chefnogaeth iddynt fabwysiadu ffyrdd eraill o wella ymddygiad eu plant.

We are rightly proud in Wales that we were the first in the UK to appoint a children's commissioner. The irony is that he too has consistently called on the Welsh Government to remove the defence of reasonable punishment. However, here we are again not taking a clear decision, but aiming to set up a committee. It is like a comedian's gag. In 1979, Wales rejected devolution; in 1997, we narrowly voted in favour, but, in 2011, we overwhelmingly voted for more powers. You have the power now. I was very tempted, Llywydd, to stage a protest walkout to highlight this issue, I will be quite honest with you, but I was persuaded otherwise by colleagues. However, that is how strongly I feel about this issue. On behalf of the children of Wales, I appeal to you to reject the setting up of this committee and support an amendment when it comes, and come it will, to the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill, to remove the defence of reasonable punishment against a child. Instead of making a mark on the child, we can make a mark for the child and I urge you to reject this.

Rydym ni'n falch yng Nghymru, a hynny'n gywir, mai ni oedd y cyntaf yn y DU i benodi comisiynydd plant. Yr eironi yw ei fod yntau hefyd wedi galw'n gyson ar Lywodraeth Cymru i gael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol. Fodd bynnag, dyma ni unwaith eto ddim yn gwneud penderfyniad eglur, ond yn bwriadu sefydlu pwyllgor. Mae'n debyg i jôc digrifwr. Gwrthododd Cymru ddatganoli ym 1979; yn 1997, pleidleisiwyd o drwch blewyn o blaid, ond, yn 2011, pleidleisiodd mwyafrif llethol dros fwy o bwerau. Mae'r pŵer gennych chi nawr. Cefais fy nhemtio'n fawr, Lywydd, i gerdded allan fel protest i dynnu sylw at y mater hwn, a bod yn gwbl onest â chi, ond cefais fy mherswadio fel arall gan gydweithwyr. Fodd bynnag, dyna pa mor gryf yr wyf fi'n teimlo am y mater hwn. Ar ran plant Cymru, rwy'n apelio arnoch i wrthod sefydlu'r pwyllgor hwn a chefnogi gwelliant pan ddaw, a bydd yn dod, i Fil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), i gael gwared ar yr amddiffyniad o gosb resymol yn erbyn plentyn. Yn hytrach na gwneud marc ar y plentyn, gallwn wneud marc ar ran y plentyn ac rwyf yn eich annog i wrthod hyn.

14:36

## Aled Roberts Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I will not rehearse the arguments; I think that I have made my position clear on a number of occasions as far as the case being made is concerned. I have to say that there is an element of frustration with regard to the situation that we have arrived at. It goes very much to the image of this place as an institution, because it is all very well voting in favour of something when you do not have the power to do something about it, but it is very different when you move to a situation where you have that power and appear unwilling to make that decision. We are very anxious to try to ensure that this whole argument and debate moves forward, and, because of that, we are going to vote in favour of the setting up of the committee, although I have to say to Lindsay that it is not mutually exclusive as far as any amendments to any other legislation is concerned.

Ni wnaf ailadrodd y dadleuon; rwy'n meddwl fy mod wedi gwneud fy safbwynt yn eglur ar sawl achlysur cyn belled ag y mae'r achos sy'n cael ei wneud yn y cwestiwn. Mae'n rhaid i mi ddweud bod elfen o rwystredigaeth o ran y sefyllfa yr ydym ni wedi ei chyrraedd. Mae'n ymwneud i raddau helaeth â delwedd y lle hwn fel sefydliad, gan ei bod yn ddigon hawdd pleidleisio o blaid rhywbeth pan nad yw'r pŵer gennych i wneud unrhyw beth yn ei gylch, ond mae'n wahanol iawn pan eich bod yn symud i sefyllfa lle mae'r pŵer hwnnw gennych chi a'ch bod yn ymddangos yn amharod i wneud y penderfyniad hwnnw. Rydym ni'n awyddus iawn i geisio sicrhau bod yr holl ddadl a thrafodaeth yn symud ymlaen, ac, oherwydd hynny, rydym ni'n mynd i bleidleisio o blaid sefydlu'r pwyllgor, er bod yn rhaid i mi ddweud wrth Lindsay nad yw hynny'n golygu y byddwn yn gwneud hynny cyn belled ag y mae unrhyw welliannau i unrhyw ddeddfwriaeth arall yn y cwestiwn.

14:37

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

In response to the important points that have been made this afternoon by Paul Davies, Lindsay Whittle and Aled Roberts, this Assembly has, so often in fact, been at the forefront of policy and legislative change that has been of a sensitive nature and has required the kind of engagement that we seek and that we have sought together, I believe, on this important issue. Often, those changes have been initiated by the Assembly and/or by the Welsh Government, and I believe that if we establish a cross-party committee, it would help to encourage that public debate and engagement. Also, we have in the past enabled this to happen—for example, way back with the smoking ban, there was a lot of difference of opinion, even across this Assembly and within parties, about that issue.

Mewn ymateb i'r pwyntiau pwysig a godwyd y prynhawn yma gan Paul Davies, Lindsay Whittle ac Aled Roberts, mae'r Cynulliad hwn, mor aml mewn gwirionedd, wedi bod ar flaen y gad o ran polisi a newid deddfwriaethol sydd wedi bod o natur sensitif ac wedi gofyn am y math o ymgysylltiad yr ydym ni'n ceisio ei gael ac wedi ceisio ei gael gyda'n gilydd, rwy'n credu, ar y mater pwysig hwn. Yn aml, cychwynnwyd y newidiadau hynny gan y Cynulliad a/neu gan Lywodraeth Cymru, ac rwy'n credu pe byddwn yn sefydlu pwyllgor trawsbleidiol, y byddai'n helpu i annog y drafodaeth a'r ymgysylltiad cyhoeddus hwnnw. Hefyd, yn y gorffennol, rydym ni wedi galluogi hyn i ddigwydd—er enghraifft, ymhell yn ôl gyda'r gwaharddiad ar ysmygu, roedd llawer o wahaniaeth barn, hyd yn oed ar draws y Cynulliad hwn ac o fewn pleidiau, am y mater hwnnw.

I believe that Lindsay Whittle is right again to draw attention to the evidence, and it is so important that this committee could allow that evidence to be aired and shared, and allow thorough examination of the evidence. Of course, taking us forward, this cross-party committee would, in effect, lead to consideration of how the law might be changed to give further protection to children, with reform of the law on physical punishment of children by parents. So, we need your engagement and we need your voices. We have the evidence, and I do believe, in moving this motion, that this committee will be set up. I trust, as Aled Roberts has said, that we can then take this forward. I am grateful for the support of the Welsh Liberal Democrats and I hope that others will also join in supporting the setting up of this committee.

Credaf fod Lindsay Whittle yn iawn eto i dynnu sylw at y dystiolaeth, ac mae mor bwysig y gallai'r pwyllgor hwn ganiatáu i'r dystiolaeth honno gael ei thrafod a'i rhannu, a chaniatáu archwiliad trylwyr o'r dystiolaeth. Wrth gwrs, gan fynd â ni ymlaen, byddai'r pwyllgor trawsbleidiol hwn, i bob pwrpas, yn arwain at ystyriaeth o sut y gallai'r gyfraith gael ei newid i roi amddiffyniad pellach i blant, trwy ddiwygio'r gyfraith ar gosbi plant yn gorfforol gan rieni. Felly, mae angen eich ymgysylltiad arnom ac mae angen eich lleisiau arnom. Mae'r dystiolaeth gennym, ac rwy'n credu, wrth gyflwyno'r cynnig hwn, y bydd y pwyllgor hwn yn cael ei sefydlu. Hyderaf, fel y mae Aled Roberts wedi ei ddweud, y gallwn fwrw ymlaen â hyn wedyn. Rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ac rwy'n gobeithio y bydd eraill hefyd yn cefnogi sefydliad y pwyllgor hwn.

14:39

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

The proposal is to agree the motion. Does any member object? I see that there are objections. The motion is therefore deferred until voting time. [Interruption.] Simon Thomas, you are very chatty this afternoon.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiadau. Felly, caiff y cynnig ei ohirio tan y cyfnod pleidleisio. [Torri ar draws.] Simon Thomas, rydych chi'n siaradus iawn y prynhawn yma.

14:39

## Simon Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

I have recovered; I am sorry.[Interruption.]

Rwyf wedi dod ataf fy hun; mae'n ddrwg gennyf. [Torri ar draws.]

14:39

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

Order, please.

Trefn, os gwelwch yn dda.

14:39

# Datganiad: Adroddiad Blynyddol y Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth

# Statement: The Anti-Slavery Co-ordinator's Annual Report

Senedd.tv [Fideo] [Video]

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad] [Biography]

I call the Minister, Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog, Leighton Andrews.

14:39

## Leighton Andrews [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv [Fideo] [Video]

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Llywydd, in March 2011, we fulfilled an important commitment in our programme for government through the creation of the anti-slavery co-ordinator. This was the first post of its kind in the UK. Three years on, I am pleased to publish the anti-slavery co-ordinator's annual report for 2014, which reflects the significant progress made by the Welsh Government over the past year to tackle slavery in Wales. Every year, men, women and children from across the world continue to fall into the hands of criminals and organised crime groups. Globally, slavery is the second biggest crime to drugs and is now a priority for the National Crime Agency. The national referral mechanism is the recognised measurement for recording cases of slavery in the UK. In 2013, there were 50 officially recorded referrals from Wales, a 47% increase from 2012, when there were 34. However, this demonstrates only a small part of the picture. Many victims remain unknown, afraid to come forward due to intimidation and violence. Slavery is still therefore a hidden crime.

Lywydd, ym mis Mawrth 2011, cyflawnwyd ymrwymiad pwysig yn ein rhaglen lywodraethu trwy greu'r cydgysylltydd atal caethwasiaeth. Hon oedd y swydd gyntaf o'i bath yn y DU. Dair blynedd yn ddiweddarach, mae'n bleser gennyf gyhoeddi adroddiad blynyddol y cydgysylltydd atal caethwasiaeth ar gyfer 2014, sy'n adlewyrchu'r cynnydd sylweddol a wnaed gan Lywodraeth Cymru dros y flwyddyn ddiwethaf i fynd i'r afael â chaethwasiaeth yng Nghymru. Bob blwyddyn mae dynion, menywod a phlant o bob cwr o'r byd yn parhau i syrthio i ddwylo troseddwyr a grwpiau troseddu cyfundrefnol. Caethwasiaeth yw'r ail drosedd fwyaf ar ôl cyffuriau ledled y byd ac mae bellach yn flaenoriaeth i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol. Y mecanwaith atgyfeirio cenedlaethol yw'r mesur cydnabyddedig ar gyfer cofnodi achosion o gaethwasiaeth yn y DU. Yn 2013, cofnodwyd 50 o atgyfeiriadau'n swyddogol o Gymru, 47% yn fwy nag yn 2012, pan oedd 34. Fodd bynnag, dim ond rhan fach o'r darlun yw hyn. Mae llawer o ddioddefwyr o hyd na wyddys amdanynt, y mae arnynt ofn dod ymlaen oherwydd bygythiadau a thrais. Mae caethwasiaeth yn dal i fod yn drosedd gudd, felly.

We have been leading the way in the UK in tackling slavery and supporting survivors for the last two years. Key to this is the strong working relationships we have with the police, the Crown Prosecution Service and organisations such as BAWSO and New Pathways. Recent high-profile slavery cases have clearly demonstrated that slavery exists here in Wales: Darrell Simester was forced to work for 13 years on a farm in Newport, with no pay and living in pitiful conditions that had a long-term impact on his physical and mental health; the trafficking of two young women from Nigeria to the UK, and ultimately to Cardiff, following a ritualistic juju to force them into prostitution; and the trafficking of two eastern European women to Cardiff to work in the sex trade who were threatened with the use of a stun gun. This is the reality of slavery in the modern world but it is not a reality we wish to see in Wales. Slavery is unacceptable and will not be tolerated.

Rydym wedi bod ar flaen y gad yn y DU o ran mynd i'r afael â chaethwasiaeth a chefnogi goroeswyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r berthynas waith gref sydd gennym â'r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a sefydliadau fel BAWSO a Llwybrau Newydd yn allweddol i hyn. Mae’r achosion uchel eu proffil diweddar o gaethwasiaeth wedi dangos yn glir fod caethwasiaeth yn bodoli yma yng Nghymru: gorfodwyd Darrell Simester i weithio am 13 o flynyddoedd ar fferm yng Nghasnewydd heb ddim tâl ac yntau’n byw mewn amgylchiadau truenus. Mae hyn wedi cael effaith hirdymor ar ei iechyd corfforol a'i iechyd meddwl; masnachwyd dwy fenyw ifanc o Nigeria i'r DU ac i Gaerdydd yn y pen draw, yn dilyn juju defodol i'w gorfodi i mewn i buteindra; a masnachwyd dwy fenyw o ddwyrain Ewrop i Gaerdydd i weithio yn y fasnach ryw a chawsant eu bygwth â gwn syfrdanu. Dyma realiti caethwasiaeth yn y byd modern, ond nid yw'n realiti yr ydym yn dymuno ei weld yng Nghymru. Mae caethwasiaeth yn annerbyniol ac ni chaiff ei oddef.

Our aim is to make Wales hostile to slavery and provide the best possible support for survivors. The Welsh Government cannot achieve this alone. The work of the anti-slavery co-ordinator continues to strengthen our ability to co-ordinate an effective multi-agency response to tackle individual cases and to deliver a shared national strategy. This is being led by the Wales anti-slavery leadership group, which brings together key decision makers to set the strategic agenda in Wales. The focus continues to be on raising awareness of slavery, providing education and training, preventing criminal activity, promoting enforcement, and supporting survivors. The annual report outlines the activity and successes we have seen on these priorities over the last 12 months: our national television advertisement was the first in the UK; we have run poster campaigns at Cardiff Airport, sea ports, railway stations and in police stations across Wales; leaflets have been distributed at major cultural events in Wales; and we have funded the production of a DVD of the powerful performance of the anti-slavery play ‘Sold’, performed by the Theatre Versus Oppression.

Ein nod yw gwneud Cymru'n elyniaethus i gaethwasiaeth a darparu'r cymorth gorau posibl i oroeswyr. Ni all Llywodraeth Cymru wneud hyn ar ei phen ei hun. Mae gwaith y cydgysylltydd atal caethwasiaeth yn parhau i gryfhau ein gallu i gydlynu ymateb amlasiantaeth effeithiol i fynd i'r afael ag achosion unigol ac i gyflwyno strategaeth genedlaethol ar y cyd. Mae hyn yn cael ei arwain gan grŵp arweinwyr atal caethwasiaeth Cymru, sy'n dod â phenderfynwyr allweddol ynghyd i bennu'r agenda strategol yng Nghymru. Mae'r pwyslais o hyd ar godi ymwybyddiaeth o gaethwasiaeth, a darparu addysg a hyfforddiant, atal gweithgarwch troseddol, hyrwyddo gorfodaeth, a chefnogi goroeswyr. Mae'r adroddiad blynyddol yn amlinellu'r gweithgarwch a'r llwyddiant yr ydym wedi ei weld o ran y blaenoriaethau hyn yn ystod y 12 mis diwethaf: ein hysbyseb ar deledu cenedlaethol oedd y gyntaf yn y DU; rydym wedi cynnal ymgyrchoedd posteri ym Maes Awyr Caerdydd, mewn porthladdoedd, gorsafoedd rheilffordd a gorsafoedd heddlu ledled Cymru; mae taflenni wedi eu dosbarthu mewn digwyddiadau diwylliannol mawr yng Nghymru; ac rydym wedi ariannu'r gwaith o gynhyrchu DVD o berfformiad grymus y ddrama wrth-gaethwasiaeth Sold, a berfformiwyd gan Theatre Versus Oppression.

One of our most significant achievements over the past year has been the development of a significant training network that covers all parts of Wales. We have built up a bank of over 100 trainers, who are delivering consistent, quality awareness training. To date, over 1,500 individuals in the public and third sectors have been trained this year. Slavery is, understandably, a complex crime to investigate and prosecute. Working with our partners in the police and the Crown Prosecution Service, we have developed a specialist training course for senior investigating officers and prosecutors. This course is a first for the UK and is being held up by the Association of Chief Police Officers for England and Wales as best practice. This three-day course is currently being delivered from the regional training centre in Bridgend for South Wales Police and Gwent Police, and, in 2015, delivery will extend to Dyfed-Powys Police and North Wales Police.

Un o'n llwyddiannau mwyaf arwyddocaol dros y flwyddyn ddiwethaf yw'r gwaith o ddatblygu rhwydwaith hyfforddi sylweddol sy'n cynnwys pob rhan o Gymru. Rydym wedi datblygu cronfa o dros 100 o hyfforddwyr, sy'n rhoi hyfforddiant ymwybyddiaeth gyson, o ansawdd uchel. Hyd yma eleni mae dros 1,500 o unigolion yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wedi eu hyfforddi. Mae caethwasiaeth, am resymau dealladwy, yn drosedd gymhleth i ymchwilio iddi a’i herlyn. Gan weithio gyda'n partneriaid yn y gwasanaeth heddlu ac yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron, rydym wedi datblygu cwrs hyfforddi arbenigol i uwch swyddogion ymchwilio ac erlynwyr. Mae'r cwrs hwn yn torri tir newydd yn y DU ac yn cael ei ddefnyddio gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yng Nghymru a Lloegr fel enghraifft o arfer gorau. Mae'r cwrs tridiau’n cael ei gynnal ar hyn o bryd yn y ganolfan hyfforddi ranbarthol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer Heddlu De Cymru a Heddlu Gwent ac, yn 2015, bydd y ddarpariaeth yn cael ei hestyn i Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu Gogledd Cymru.

Consistent action is taking place across Wales. The growing number of referrals and court cases is evidence that this approach is working. Of course, we must remember that responsibility for tackling slavery has not been devolved. In June, the UK Government introduced the Modern Slavery Bill to Parliament, which is expected to receive Royal Assent by April 2015. I welcome the introduction of the Bill, which will further strengthen approaches to tackle slavery. I have laid a legislative consent motion on three clauses of the Bill that propose the introduction of children's advocates, the identification of victims, and presumption of age. There will be an opportunity to discuss this further in Plenary in December. In readiness for the introduction of the Bill, the UK Government has recruited the designated anti-slavery commissioner for the UK. We are in discussions with the Home Office to ensure the anti-slavery commissioner and the anti-slavery co-ordinator can work effectively together and, indeed, that the commissioner can learn from the work already undertaken in Wales.

Mae camau cyson yn cael eu cymryd ledled Cymru. Mae'r nifer cynyddol o atgyfeiriadau ac achosion llys yn tystio i'r ffaith bod yr ymagwedd hon yn gweithio. Wrth gwrs, rhaid inni gofio nad yw cyfrifoldeb am fynd i'r afael â chaethwasiaeth wedi ei ddatganoli. Ym mis Mehefin, cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Caethwasiaeth Fodern i'r Senedd, a disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol erbyn mis Ebrill 2015. Rwyf yn croesawu cyflwyno'r Bil, a fydd yn cryfhau dulliau o fynd i'r afael â chaethwasiaeth ymhellach. Rwyf wedi gosod cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar dri chymal yn y Bil sy'n cynnig cyflwyno eiriolwyr plant, adnabod dioddefwyr, a rhagdybiaeth ynghylch oedran. Bydd cyfle i drafod hyn ymhellach yn y Cyfarfod Llawn ym mis Rhagfyr. Er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Mesur, mae Llywodraeth y DU wedi recriwtio'r comisiynydd atal caethwasiaeth dynodedig ar gyfer y DU. Rydym wrthi'n cynnal trafodaethau â'r Swyddfa Gartref i sicrhau y gall y comisiynydd atal caethwasiaeth a'r cydgysylltydd atal caethwasiaeth weithio'n effeithiol gyda'i gilydd ac, yn wir, y gall y comisiynydd ddysgu o'r gwaith sydd eisoes wedi ei wneud yng Nghymru.

In publishing this annual report, we wish to send out a strong message that the Welsh Government will not tolerate any form of slavery and every effort will be made to ensure that criminals who engage in this crime are brought to justice and that survivors are supported to regain their lives.

Wrth gyhoeddi'r adroddiad blynyddol hwn, rydym yn awyddus i anfon neges gref na fydd Llywodraeth Cymru'n goddef unrhyw fath o gaethwasiaeth ac y bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod troseddwyr sy'n cyflawni'r drosedd hon yn cael eu dwyn o flaen eu gwell, a bod goroeswyr yn cael cefnogaeth i adfer eu bywydau.

14:45

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I just remind Members that this is a statement and that there are three statements this afternoon. A statement is an opportunity for you to ask questions of the Minister, and not for long speeches.

Rwyf am atgoffa'r Aelodau mai datganiad yw hwn a bod tri datganiad y prynhawn yma. Mae datganiad yn gyfle ichi i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog, nid i wneud areithiau hir.

14:45

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am grateful to the Minister for his statement today. Human trafficking is totally unacceptable in a civilised society, and it is imperative that we tackle the scourge of modern slavery in Wales. As recent shocking cases in Welsh courts have shown, Wales is not immune from such crimes. Men, women and children are being exploited through forced labour, being forced to take part in crime and by being made to work in the sex industry. The Minister will be aware that the Modern Slavery Bill was introduced in the House of Commons on 10 June and is currently making its way through Parliament. What discussions or representations has the Minister had or made to the Westminster Government on this matter? As the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill states, raising awareness and recognising the signs of human trafficking is vital. What plans does the Minister have to introduce a national training framework for modern slavery, covering the police and other public sector organisations?

Rwyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw. Mae masnachu pobl yn gwbl annerbyniol mewn cymdeithas wâr, ac mae'n hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â phla caethwasiaeth fodern yng Nghymru. Fel y mae achosion diweddar syfrdanol yn llysoedd Cymru wedi dangos, nid yw Cymru'n ddiogel rhag troseddau o'r fath. Ceir camfanteisio ar ddynion, menywod a phlant drwy eu gorfodi i weithio, i droseddu a chael eu gorfodi i weithio yn y diwydiant rhyw. Bydd y Gweinidog yn gwybod bod y Bil Caethwasiaeth Fodern wedi'i gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Mehefin a'i fod ar hyn o bryd ar ei ffordd drwy'r Senedd. Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael â Llywodraeth San Steffan, neu pa sylwadau y mae wedi'u cyflwyno iddi, ar y mater hwn? Fel y nodir ym Mil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), mae codi ymwybyddiaeth ac adnabod arwyddion masnachu pobl yn allweddol. Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno fframwaith hyfforddi cenedlaethol ar gyfer caethwasiaeth fodern, sy'n cwmpasu'r heddlu a chyrff eraill y sector cyhoeddus?

One of the reasons why there are so few convictions for modern slavery is because victims are frightened and wary of authorities, particularly the police. Victim-friendly measures are essential to those who have suffered this exploitation, and I applaud the work done by charities such as Victim Support in this regard. What action is the Welsh Government taking to increase support for victims, with particular regard to the increasing number of specialist advocates for child victims?

Un o'r rhesymau pam y mae nifer y bobl a geir yn euog o gaethwasiaeth fodern mor isel yw bod ofn ar ddioddefwyr a'u bod yn gochel rhag yr awdurdodau, yn arbennig yr heddlu. Mae mesurau sy'n parchu dioddefwyr yn hanfodol i'r rhai sydd wedi dioddef y camfanteisio hwnnw, a chymeradwyaf y gwaith a wneir gan elusennau megis Cymorth i Ddioddefwyr yn hyn o beth. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i gynyddu cymorth i ddioddefwyr, gan roi sylw penodol i nifer cynyddol yr eiriolwyr arbenigol i ddioddefwyr sy'n blant?

Finally, Minister, forced labour can exist in legitimate industries that supply products and services to the public. Will the Minister agree to raise awareness of this throughout the public sector to ensure that contracts are only awarded to those companies that can confirm that no forced labour exists in the supply chain? Again, Minister, I congratulate you on the statement. Finally, with regard to the victims who are weak body-wise and mentally, as well as children who are vulnerable to misuse of their bodies and minds, after slavery and prostitution, what support is available for victims who encounter those problems, and what is the Government doing to help them in Wales?

Yn olaf, Weinidog, gall llafur gorfodol fodoli mewn diwydiannau cyfreithlon sy'n cyflenwi cynnyrch a gwasanaethau i'r cyhoedd. A wnaiff y Gweinidog gytuno i godi ymwybyddiaeth o hyn ledled y sector cyhoeddus er mwyn sicrhau mai dim ond i'r cwmnïau hynny a all gadarnhau nad oes llafur gorfodol yn y gadwyn gyflenwi y mae contractau'n cael eu dyfarnu? Unwaith eto, Weinidog, rwyf yn eich llongyfarch ar y datganiad. Yn olaf, o ran y dioddefwyr sy'n wan eu cyrff a'u meddyliau, yn ogystal â phlant sy'n agored i gamddefnydd ar eu cyrff a'u meddyliau, yn sgil caethwasiaeth a phuteindra, pa gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr sy'n cael y problemau hyn, a beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i'w helpu yng Nghymru?

14:48

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Conservative spokesperson for his support for what the Welsh Government has been doing. I can confirm that we have had extensive contact with the Home Office, and correspondence in recent days as well to inform the Home Secretary in respect of this issue.

Diolch i lefarydd y Ceidwadwyr am ei gefnogaeth i'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ei wneud. Gallaf gadarnhau bod cyswllt helaeth wedi bod rhyngom a'r Swyddfa Gartref, a gohebiaeth yn ystod y dyddiau diwethaf hefyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Ysgrifennydd Cartref ynglŷn â'r mater hwn

We are very clear about our role in raising awareness and, as I said in my statement, Wales has been leading the way here. We have developed best practice that has been recognised by the UK Government and by the police across the UK as well.

Rydym yn glir iawn ynghylch ein swyddogaeth o ran codi ymwybyddiaeth ac, fel y dywedais yn fy natganiad, mae Cymru wedi bod ar flaen y gad yn hyn o beth. Rydym wedi datblygu arfer gorau sydd wedi ei gydnabod gan Lywodraeth y DU a chan yr heddlu ledled y DU hefyd.

He asks specifically in respect of training. As I said in my statement, we have a specialist training course for senior investigating officers and prosecutors within the police and the Crown Prosecution Service. It has been delivered from south Wales for South Wales and Gwent police forces, and it will be extended next year to Dyfed-Powys and North Wales police forces.

Mae'n gofyn yn benodol ynglŷn â hyfforddiant. Fel y dywedais yn fy natganiad, mae gennym gwrs hyfforddi arbenigol i uwch swyddogion ymchwilio ac erlynwyr o fewn gwasanaeth yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae wedi ei gyflwyno o dde Cymru i heddlu De Cymru a Gwent, a bydd yn cael ei estyn y flwyddyn nesaf i heddlu Dyfed-Powys a Gogledd Cymru.

In respect of public services in general, as I said again, we have built up a bank of over 100 trainers who are delivering consistent awareness training, and 1,500 individuals in the public and third sector have been trained this year.

O ran gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol, fel y dywedais eto, rydym wedi datblygu cronfa o dros 100 o hyfforddwyr sy'n cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth gyson, ac mae 1,500 o unigolion yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector wedi cael eu hyfforddi eleni.

He is right to pay special regard to the third sector organisations, including charities, that are doing so much with victims. I referred to a number of those in my statement, including BAWSO. We are very pleased to be working with and supporting them in their work.

Mae'n briodol ei fod yn rhoi sylw arbennig i sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys elusennau, sy'n gwneud cymaint gyda dioddefwyr. Cyfeiriais at nifer ohonynt yn fy natganiad, gan gynnwys BAWSO. Rydym yn falch iawn o fod yn gweithio gyda hwy ac yn eu cefnogi yn eu gwaith.

14:49 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First of all, I welcome the statement and it is the case that Wales became the first country in the UK to appoint an anti-human trafficking co-ordinator, which is now called an anti-slavery co-ordinator. I do welcome the point that you made about training, because training is critical when it comes to, first of all, identifying a victim, supporting a victim and prosecuting the criminals—the perpetrators of the crime. I also welcome the fact that the Westminster Government has finally decided to follow the example set by the Welsh Government by appointing an anti-slavery commissioner, which leads me to my first question. That role, in Westminster—the commissioner’s role—will mimic some of the work that is already being done by the Wales anti-slavery co-ordinator, and they will work with law-enforcement agencies, local authorities and other third sector organisations. Have you had a conversation to see how that role will co-ordinate, and add some value to the role that we have had since 2012?

Yn gyntaf oll, croesawaf y datganiad ac mae'n wir mai Cymru yw'r wlad gyntaf yn y DU i benodi cydgysylltydd atal masnachu pobl, sydd bellach yn cael ei alw'n gydgysylltydd atal caethwasiaeth. Rwyf yn croesawu'r pwynt a wnaethoch ynglŷn â hyfforddiant, oherwydd mae hyfforddiant yn hanfodol, yn gyntaf oll er mwyn adnabod dioddefwyr, cefnogi dioddefwyr ac erlyn y troseddwyr—y rhai sy'n cyflawni'r drosedd. Rwyf hefyd yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth San Steffan wedi penderfynu o'r diwedd dilyn yr esiampl a osodwyd gan Lywodraeth Cymru drwy benodi comisiynydd atal caethwasiaeth, sy'n dod â mi at fy nghwestiwn cyntaf. Bydd y swydd honno, yn San Steffan—swydd y comisiynydd—yn dynwared peth o'r gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud gan gydgysylltydd atal caethwasiaeth Cymru, a byddant yn gweithio gydag asiantaethau gorfodi'r gyfraith, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill yn y trydydd sector. A ydych wedi cael sgwrs i weld sut y bydd y swydd honno'n cydlynu, ac yn ychwanegu rhywfaint o werth i'r swydd sydd wedi bod gennym ni ers 2012?

The Modern Slavery Bill in its current form is still weighed heavily in favour of law enforcement and fails to focus on victim protection, and the Westminster Government has, unfortunately in my view, failed to realise that it will not prosecute traffickers without any evidence. It will not be possible to gather that evidence in the first place unless victims are supported adequately. There has been a lot of rhetoric by Westminster about wanting to tackle human trafficking, or slavery, but the Westminster Government is also determined to move forward with legal aid cuts and to preserve the unfair visa system whereby a foreign domestic worker’s immigration status is entirely dependent on their employer.

Mae'r Bil Caethwasiaeth Fodern yn ei ffurf bresennol yn dal i bwyso'n drwm o blaid gorfodi'r gyfraith ac nid yw'n rhoi pwyslais ar amddiffyn dioddefwyr. Mae Llywodraeth San Steffan, yn anffodus yn fy marn i, wedi methu â sylweddoli na fydd modd erlyn masnachwyr heb ddim tystiolaeth. Ni fydd yn bosibl casglu'r dystiolaeth honno yn y lle cyntaf oni bai bod dioddefwyr yn cael digon o gefnogaeth. Bu llawer o rethreg gan San Steffan ynglŷn â bod eisiau mynd i'r afael â masnachu pobl, neu gaethwasiaeth, ond mae Llywodraeth San Steffan hefyd yn benderfynol o symud ymlaen â thoriadau cymorth cyfreithiol a gwarchod y system fisa annheg, lle mae statws mewnfudo gweithwyr domestig tramor yn dibynnu'n llwyr ar eu cyflogwr.

Minister, do you agree with me that more needs to be done by the Westminster Government to ensure that victims of trafficking have access to legal protection and support services, and can you confirm what steps will be taken by the Welsh Government to ensure that we here in Wales offer the highest possible support and protection to victims of trafficking? Finally, I read a very recent article where the tattooing of victims, particularly within the sex industry, is being used as a mechanism for branding. There is evidence to say that that is now being used in the UK, and therefore, undoubtedly, it will be used in Wales. So, Minister, could you ask the anti-slavery co-ordinator to work with others to see whether that is the case and how we can remove those victims?

Weinidog, a ydych yn cytuno â mi fod angen i Lywodraeth San Steffan wneud mwy i sicrhau bod amddiffyniad cyfreithiol a gwasanaethau cymorth ar gael i’r rhai sy'n dioddef oherwydd masnachu pobl, ac a allwch gadarnhau pa gamau y bydd Llywodraeth Cymru’n eu cymryd i sicrhau ein bod ni yma yng Nghymru yn cynnig cymaint o gefnogaeth a diogelwch â phosibl i ddioddefwyr masnachu pobl? Yn olaf, darllenais erthygl yn ddiweddar iawn lle mae rhoi tatŵ i ddioddefwyr yn cael ei ddefnyddio fel ffordd o frandio, yn enwedig yn y diwydiant rhyw. Mae tystiolaeth i ddangos bod hynny bellach yn cael ei ddefnyddio yn y DU, ac felly, yn ddi-os, bydd yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru. Felly, Weinidog, a wnewch chi ofyn i'r cydgysylltydd atal caethwasiaeth weithio gydag eraill i weld a yw hyn yn wir a sut y gellir symud y dioddefwyr hynny oddi yno?

14:52 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I start by thanking my colleague the Member for Mid and West Wales for her continued interest, over many years, in this issue. She is right to explore particularly the last issue she raised, which I think has been the subject of some national publicity, and I think is certainly something that we are aware of. I will be happy to take that issue further with the anti-slavery co-ordinator.

Gallaf. Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'm cyd-Aelod yr Aelod dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru am ei diddordeb parhaus, dros flynyddoedd lawer, yn y mater hwn. Mae'n iawn i sôn yn arbennig am y mater diwethaf a gododd, sydd wedi bod yn destun rhywfaint o gyhoeddusrwydd cenedlaethol rwyf yn meddwl, a chredaf yn sicr ei fod yn rhywbeth yr ydym yn ymwybodol ohono. Byddaf yn hapus i fynd â'r mater hwnnw ymhellach gyda'r cydgysylltydd atal caethwasiaeth.

I think that there is recognition in Westminster that Wales has played an important role in forging a pathway for work in this field; that has been recognised, as I said, by the Home Office—it has certainly been recognised by the Association of Chief Police Officers. So, I think that there is a good body of work there that is already under way. She referred to some non-devolved issues in the area of immigration and visas; of course, I think that she is right to draw attention to those issues and they may well need to feature in future conversations that we have with the Home Office, as indeed may issues around border controls and the ports, for example. We have done a great deal, I think—as I have already said in answer to the previous question—in respect of training and in respect of awareness raising. This is one of those issues on which I think work will need to continue year on year. It is not something, I am afraid, on which we are ever likely to see the complete eradication of the issue, so we will all need to be vigilant. We will all need to ensure that people understand the evidence and the public opportunities to identify where slavery is taking place.

Credaf fod cydnabyddiaeth yn San Steffan fod Cymru wedi chwarae rhan bwysig o ran creu llwybr ar gyfer gwaith yn y maes hwn; mae hynny wedi ei gydnabod, fel y dywedais, gan y Swyddfa Gartref—yn bendant mae wedi ei gydnabod gan Gymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu. Felly, credaf fod corff da o waith yno sydd eisoes ar y gweill. Cyfeiriodd at rai materion sydd heb eu datganoli o ran mewnfudo a fisâu; wrth gwrs, credaf ei bod yn iawn i dynnu sylw at y materion hynny ac efallai y bydd angen iddynt fod yn rhan o'n sgyrsiau â'r Swyddfa Gartref yn y dyfodol, yn yr un modd â materion sy'n ymwneud â rheoli ffiniau a'r porthladdoedd, er enghraifft. Rydym wedi gwneud llawer iawn, yn fy marn i—fel yr wyf eisoes wedi'i ddweud wrth ateb y cwestiwn blaenorol ynglŷn â hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth. Mae hwn yn un o'r materion hynny yr wyf yn meddwl y bydd angen dal i weithio arno o flwyddyn i flwyddyn. Nid yw'n rhywbeth, mae arnaf ofn, y byddwn yn debygol o weld ei ddiddymu'n gyfan gwbl, felly bydd angen i bawb ohonom fod yn wyliadwrus. Bydd angen i bawb ohonom sicrhau bod pobl yn deall y dystiolaeth a'r cyfleoedd cyhoeddus i gael gwybod ble y mae caethwasiaeth yn digwydd.

14:54 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for your statement, Minister. Slavery exists in Wales; of that there is no doubt. Plaid Cymru condemns the people who abuse our most vulnerable in a way that is abhorrent in a decent and civilised society. It is not just an issue you read about or watch on television in third world countries. It is here, we know. The Welsh public can help by remaining alert to the tell-tale signs and reporting suspicions to the police, as you rightly said, and I would congratulate you, Minister, and the co-ordinator for this report.

Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Mae caethwasiaeth yn bodoli yng Nghymru; nid oes dim amheuaeth ynglŷn â hynny. Mae Plaid Cymru'n condemnio pobl sy'n cam-drin y rhai sydd fwyaf agored i niwed mewn ffordd sy'n wrthun mewn cymdeithas weddus a gwâr. Nid rhywbeth yr ydych yn darllen amdano neu'n ei weld ar y teledu yng ngwledydd y trydydd byd mohono. Mae'n digwydd yma, rydym yn gwybod hynny. Gall y cyhoedd yng Nghymru helpu drwy fod yn effro i arwyddion arwyddocaol a dweud wrth yr heddlu am unrhyw amheuon, fel y dywedasoch yn briodol iawn. Byddwn yn eich llongyfarch chi, Weinidog, a'r cydgysylltydd ar yr adroddiad hwn.

Minister, you mentioned awareness, but what measures are you taking to publicise to ordinary people, not just the professionals, the signs of people who are being held against their will? We can sometimes mistake it for shyness or think that perhaps they do not fully understand the language. My second question is: what resources are available to local authorities and police to check that people—women and young girls in particular—are not being forced against their will to work in brothels, saunas and massage parlours and, indeed, even in the farming community, as has been highlighted? You rightly gave the example of the issues that occurred near Newport. The anti-slavery co-ordinator's report shows that, of the 50 identified cases of slavery in Wales in 2013, there were only four prosecutions. In your view, Minister, what can be done to increase the number of successful prosecutions of these criminal offenders here in Wales?

Weinidog, soniasoch am ymwybyddiaeth, ond pa gamau ydych chi'n eu cymryd i roi gwybod i bobl gyffredin, nid dim ond gweithwyr proffesiynol, beth yw'r arwyddion bod pobl yn cael eu dal yn erbyn eu hewyllys? Weithiau gellir ei gamgymryd am swildod neu gellir meddwl nad ydynt yn deall yr iaith yn iawn efallai. Fy ail gwestiwn yw hyn: pa adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol a'r heddlu i wneud yn siŵr nad yw pobl—menywod a merched ifanc yn benodol—yn cael eu gorfodi yn erbyn eu hewyllys i weithio mewn puteindai, sawnau a pharlyrau tylino ac, yn wir, yn y gymuned ffermio hyd yn oed, fel y gwelwyd? Roeddech yn iawn i gyfeirio at yr hyn a ddigwyddodd ger Casnewydd fel enghraifft. Dengys adroddiad gan y cydgysylltydd atal caethwasiaeth mai dim ond pedwar erlyniad sydd wedi digwydd, o'r 50 o achosion o gaethwasiaeth a ganfuwyd yng Nghymru yn 2013. Yn eich barn chi, Weinidog, beth y gellir ei wneud i gynyddu nifer yr erlyniadau llwyddiannus yma yng Nghymru?

14:56 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I thank the Plaid Cymru spokesperson? He is right to draw attention to the role that the public can have in identifying those at risk of slavery or those who are indeed in slavery. He asks about the public awareness campaigns that we have done beyond professionals. Of course, as I said in my statement, our advertisement was the first in the UK. We have had successful poster campaigns, leaflets distributed at cultural events, and we have had the DVD, as I mentioned. So, I think that, on our part, there has been a significant amount of work already undertaken by the Welsh Government. We look forward to the general awareness of slavery being raised among the public, not least with the appointment of the UK Independent Anti-Slavery Commissioner. We look forward to working with the UK Government if necessary in joint campaigns on this issue.

Hoffwn ddiolch i lefarydd Plaid Cymru. Mae'n iawn i dynnu sylw at y rhan y gall y cyhoedd ei chwarae o ran nodi'r rhai sydd mewn perygl o gaethwasiaeth neu'r rhai sy'n gaethweision. Mae'n holi ynglŷn ag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth y cyhoedd yr ydym wedi eu cynnal gyda phobl nad ydynt yn weithwyr proffesiynol. Wrth gwrs, fel y dywedais yn fy natganiad, ein hysbyseb ni oedd y gyntaf yn y DU. Rydym wedi cynnal ymgyrchoedd posteri llwyddiannus, wedi dosbarthu taflenni mewn digwyddiadau diwylliannol, ac wedi cynhyrchu'r DVD, fel y soniais. Felly, o'n rhan ni, credaf fod cryn dipyn o waith eisoes wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru. Edrychwn ymlaen at godi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn gyffredinol ynghylch caethwasiaeth, yn enwedig gyda phenodi Comisiynydd Atal Caethwasiaeth Annibynnol y DU. Edrychwn ymlaen at gydweithio â Llywodraeth y DU os bydd angen ar ymgyrchoedd ar y cyd ar y mater hwn.

In respect of prosecutions, this is an issue that I will continue to discuss with the police and crime commissioners and with the chief constables. It seems to me that, inevitably, this is an area where, sometimes, evidence is very difficult to gather for reasons he will understand. It is therefore, I think, a question of those professionals themselves being very well aware of incidents that may disguise slavery as a root cause.

O ran erlyniadau, mae hyn yn fater y byddaf yn parhau i'w drafod â chomisiynwyr yr heddlu a throseddu a chyda'r prif gwnstabliaid. Mae'n ymddangos i mi fod hwn yn faes, yn anochel, lle mae tystiolaeth yn anodd iawn i'w gasglu weithiau am resymau y bydd yn eu deall. Yr ateb felly, yn fy marn i, yw sicrhau bod y bobl broffesiynol hynny'n ymwybodol iawn o ddigwyddiadau a allai guddio caethwasiaeth fel achos sylfaenol.

14:58 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I welcome the statement and also welcome the work that has been done by the Welsh Government in terms of tackling slavery? I think that it is absolutely right that we have led the way here in Wales. It clearly shows the benefit again of devolution and how we can use the devolved powers available to us to make a difference in respect of issues such as this.

A gaf fi groesawu'r datganiad a chroesawu hefyd y gwaith sydd wedi'i wneud gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chaethwasiaeth? Credaf ei bod yn briodol iawn ein bod ni yma yng Nghymru wedi bod ar flaen y gad. Mae'n dangos yn glir fantais datganoli unwaith eto a sut y gallwn ddefnyddio'r pwerau datganoledig sydd ar gael inni er mwyn gwneud gwahaniaeth mewn materion fel hyn.

Minister, I have just a couple of questions. I very much acknowledge the fact that the UK has now introduced a Modern Slavery Bill. That is very welcome and will hopefully add value to the work that is already happening here in Wales. I would like some clarification, however, in terms of the UK's position for the commissioner to tackle slavery and our anti-slavery co-ordinator. I understand that the UK Government will be appointing regional co-ordinators as part of that. How does the Welsh anti-slavery co-ordinator fit into that structure, and how will he, or she in future possibly, work with the person appointed by the UK Government to oversee its work on this particular issue? Secondly, will the Welsh Government's co-ordinator be looking to have a statutory role as a result of the Modern Slavery Bill and will we, therefore, benefit from the work and resources that the UK Government is putting into that?

Weinidog, mae gennyf ychydig o gwestiynau. Rwyf yn cydnabod yn fawr iawn y ffaith fod y DU bellach wedi cyflwyno Bil Caethwasiaeth Fodern. Mae hynny i'w groesawu'n fawr, a gobeithio y bydd yn ychwanegu gwerth at y gwaith sydd eisoes yn digwydd yma yng Nghymru. Hoffwn rywfaint o eglurhad, fodd bynnag, ynghylch sefyllfa'r DU o ran y comisiynydd i fynd i'r afael â chaethwasiaeth a'n cydgysylltydd atal caethwasiaeth ninnau. Rwyf ar ddeall y bydd Llywodraeth y DU yn penodi cydgysylltwyr rhanbarthol yn rhan o hynny. Sut y mae'r cydgysylltydd atal caethwasiaeth yng Nghymru'n ffitio i mewn i'r strwythur hwnnw, a sut y bydd ef, neu hi yn y dyfodol o bosibl, yn gweithio gyda'r person a benodwyd gan Lywodraeth y DU i oruchwylio ei waith ar y mater penodol hwn? Yn ail, a fydd cydgysylltydd Llywodraeth Cymru'n gobeithio bod â rôl statudol o ganlyniad i'r Bil Caethwasiaeth Fodern ac a fyddwn ni, felly, yn elwa ar y gwaith a'r adnoddau y mae Llywodraeth y DU yn eu cyfrannu at hynny?

14:59

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Liberal Democrat spokesperson. I think that the UK Government is well aware of work that we have been doing in Wales. That has been acknowledged in the recent correspondence from the Home Secretary. He will be aware of the progress of the Modern Slavery Bill, and we will have the opportunity to discuss that in more detail in December on the legislative consent motion.

Diolch i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol. Credaf fod Llywodraeth y DU yn ymwybodol iawn o'r gwaith yr ydym wedi bod yn ei wneud yng Nghymru. Mae hynny wedi ei gydnabod yn yr ohebiaeth ddiweddar gan yr Ysgrifennydd Cartref. Bydd yn gwybod am hynt y Bil Caethwasiaeth Fodern, a bydd cyfle inni i drafod hynny'n fwy manwl ym mis Rhagfyr ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

I think that we would need to have further discussions with the UK Government and the anti-slavery commissioner, whom it is appointing, in respect of the structures that it is putting in place and any further funding that may be available. Clearly, it would not be our intention, necessarily, to provide funding for what, in practice, are non-devolved areas. That will be a future discussion that I think we will need to have to clarify what is the right role for our anti-slavery co-ordinator, alongside whatever structure is put in place at a UK level.

Credaf y byddai angen inni gynnal rhagor o drafodaethau â Llywodraeth y DU a'r comisiynydd atal caethwasiaeth y mae'n ei benodi, ynglŷn â'r strwythurau y mae'n eu sefydlu ac unrhyw arian ychwanegol a allai fod ar gael. Yn amlwg, ni fyddai'n fwriad gennym ddarparu cyllid ar gyfer yr hyn sydd, i bob pwrpas, yn feysydd heb eu datganoli. Bydd honno'n drafodaeth y bydd angen inni ei chael yn y dyfodol er mwyn egluro beth yw swyddogaeth briodol ein cydgysylltydd atal caethwasiaeth ni, ochr yn ochr â pha bynnag strwythur a sefydlir ar lefel y DU.

15:00

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, may I congratulate the Welsh Government on its progress on anti-slavery measures? In particular, I want to congratulate Stephen Chapman and his team, including Jim Coy, the newly appointed co-ordinator in north Wales, who has gotten off to a flying start with the organisation of a recent conference on these very matters in order to bring people together.

Weinidog, a gaf fi longyfarch Llywodraeth Cymru ar ei chynnydd o ran mesurau atal caethwasiaeth? Yn benodol, hoffwn longyfarch Stephen Chapman a'i dîm, gan gynnwys Jim Coy, y cydgysylltydd sydd newydd ei benodi yng ngogledd Cymru, sydd wedi dechrau'n ardderchog drwy drefnu cynhadledd ar y materion hyn yn ddiweddar er mwyn dod â phobl at ei gilydd.

May I ask you some specific questions, though, regarding the engagement that the Welsh Government has with faith communities, given the important role that they can play in helping to identify abuse in their own communities, and indeed the role of faith leaders themselves in highlighting the issues around modern-day slavery and the consequences of it in wider society? I note in your report that 15% of some of the referrals that have been made have come from the Salvation Army, for example, but there is a whole host of other faith-based organisations, such as Stop the Traffik, Hope for Justice and the International Justice Mission, working in this particular field. I wonder what work you are doing with them in order to co-ordinate efforts and make use of the resources that they have to highlight this very important area of criminality.

A gaf fi ofyn rhai cwestiynau penodol ichi, fodd bynnag, ynghylch ymgysylltiad Llywodraeth Cymru â chymunedau ffydd, o ystyried y rôl bwysig y gallant ei chwarae o ran helpu i adnabod camdriniaeth yn eu cymunedau, ac yn wir rôl arweinwyr ffydd eu hunain o ran tynnu sylw at y materion sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern a chanlyniadau caethwasiaeth yn y gymdeithas ehangach? Nodaf yn eich adroddiad fod 15% o rai o'r atgyfeiriadau a wnaed wedi dod gan Fyddin yr Iachawdwriaeth, er enghraifft, ond mae llu o sefydliadau ffydd eraill, megis Stop the Traffik, Hope for Justice ac International Justice Mission, sy'n gweithio yn y maes penodol hwn. Tybed pa waith yr ydych yn ei wneud gyda'r sefydliadau hyn er mwyn cydlynu ymdrechion a manteisio ar yr adnoddau sydd ganddynt er mwyn tynnu sylw at y maes troseddu hynod o bwysig hwn.

In addition to that, may I ask you to elaborate on some of the aftercare work that the Welsh Government is engaged in across Wales? Obviously, it is one thing to liberate someone from slavery, but it is also very important that they can be rehabilitated into wider society, or indeed that they are able to return home, sometimes overseas, back to their families. I would be interested to hear whether there is any more information that you can give us regarding the progress that has been made on that front.

Yn ogystal â hynny, a gaf fi ofyn i chi ymhelaethu ar rywfaint o'r gwaith ôl-ofal y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud ledled Cymru? Wrth gwrs, un peth yw rhyddhau rhywun o gaethwasiaeth, ond mae'n bwysig iawn hefyd fod modd eu hadsefydlu yn y gymdeithas ehangach, neu bod modd iddynt ddychwelyd adref, weithiau dramor, yn ôl at eu teuluoedd. Byddai'n dda gennyf glywed a oes rhagor o wybodaeth y gallwch ei rhoi inni ynghylch y cynnydd a wnaed yn hynny o beth.

15:02

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

May I thank the Member for Clwyd West for his interest in these areas and for his praise for the work of the anti-slavery co-ordinator and his team? He is right to draw attention to the specific work that has been undertaken in north Wales. In respect of faith communities, he will be acquainted with the work of BAWSO, for example, which has done a huge amount in this area, not least in helping to support survivors. BAWSO has been involved in developing a survivor care pathway, which was developed as a pilot in Cardiff and is currently being rolled out across the whole of Wales, with a completion date of next April. Let me say that BAWSO has been very successful in engaging members of different faith communities in support for survivors. That survivor care pathway puts in place an individual plan for survivors, detailing how wrap-around services will be provided and taken all the way through to helping survivors return to a normal life.

A gaf fi ddiolch i'r Aelod dros Orllewin Clwyd am ei ddiddordeb yn y meysydd hyn ac am ei ganmoliaeth i waith y cydgysylltydd atal caethwasiaeth a'i dîm? Mae'n iawn i dynnu sylw at y gwaith penodol sydd wedi ei wneud yng ngogledd Cymru. O ran cymunedau ffydd, bydd yn gyfarwydd â gwaith BAWSO er enghraifft, sydd wedi gwneud llawer iawn yn y maes hwn, yn enwedig o ran helpu i gefnogi goroeswyr. Mae BAWSO wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu llwybr gofal i oroeswyr, a ddatblygwyd fel cynllun peilot yng Nghaerdydd ac sy'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd ledled Cymru. Mis Ebrill nesaf yw'r dyddiad cwblhau. Gadewch imi ddweud bod BAWSO wedi ymgysylltu'n llwyddiannus iawn ag aelodau o wahanol gymunedau ffydd o ran rhoi cymorth i oroeswyr. Mae'r llwybr gofal hwnnw i oroeswyr yn sefydlu cynllun unigol i oroeswyr, ac yn manylu ar sut y bydd y gwasanaethau cofleidiol yn cael eu darparu ac yn mynd yr holl ffordd i helpu goroeswyr i ddychwelyd i fywyd arferol.

15:03

# Datganiad: Imiwneiddio—Cynnydd a Brechiadau

# Statement: Immunisation Progress and Vaccinations

Senedd.tv
Fideo Video

## Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call the Deputy Minister for Health.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:03.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:03.*

15:04

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Senedd.tv
Fideo Video

After clean water, vaccination is the most effective public health intervention in the world for saving lives and protecting people against disease. There are few medical procedures or treatments that can compare with the enormous benefits to be derived from vaccination—one of the safest and most cost-effective of all health interventions.

Ar ôl dŵr glân, brechu yw'r ymyrraeth iechyd cyhoeddus fwyaf effeithiol yn y byd i achub bywydau a diogelu pobl rhag clefydau. Nid oes llawer o weithdrefnau na thriniaethau meddygol sy'n gallu cymharu â'r manteision enfawr sy'n deillio o frechu—un o'r ymyraethau iechyd mwyaf diogel a mwyaf cost-effeithiol sy'n bod.

Within the memory of many Members of this Assembly, and certainly of our parents, diphtheria, tetanus and polio were all diseases that struck fear in a community. Today, those diseases have either been eliminated or are very rare. Indeed, childhood immunisation against these diseases has remained uniformly high. The measles outbreak that centred on Swansea in 2013, therefore, offered a timely reminder of how life-threatening diseases can return if we do not maintain high immunisation levels.

O fewn cof llawer o Aelodau'r Cynulliad hwn, ac yn sicr ein rhieni, roedd difftheria, tetanws a pholio i gyd yn glefydau a oedd yn codi ofn ar gymunedau. Heddiw, mae'r clefydau hynny naill ai wedi eu dileu neu'n brin iawn. Yn wir, mae imiwneiddio plant yn erbyn y clefydau hyn wedi aros yn gyson uchel. Roedd yr achosion o'r frech goch o gwmpas Abertawe yn 2013, felly, yn ein hatgoffa'n amserol o sut y gall clefydau sy'n bygwth bywyd ddychwelyd os nad ydym yn cynnal lefelau imiwneiddio uchel.

Prior to the introduction of the measles vaccination in 1968, the number of measles notifications across the UK varied between 160,000 and 800,000 cases a year. It is worth recalling that, in the 1960s, there were over 800 deaths, with a peak every two years. The introduction of the MMR vaccine in October 1988 revolutionised that position. In the 20 years between 1992 and 2012, there were only two deaths from acute measles infection across the whole of the UK. As a consequence of the MMR vaccine, by the mid-1990s, the transmission of measles had been interrupted, with very low levels of cases.

Cyn cyflwyno brechiad ar gyfer y frech goch ym 1968, roedd nifer yr hysbysiadau o'r frech goch ledled y DU yn amrywio rhwng 160,000 ac 800,000 o achosion y flwyddyn. Mae'n werth cofio, yn yr 1960au, y bu dros 800 o farwolaethau, gyda brig bob dwy flynedd. Cafodd y sefyllfa honno ei chwyldroi gan gyflwyno'r brechlyn MMR ym mis Hydref 1988. Yn yr 20 mlynedd rhwng 1992 a 2012, dim ond dwy farwolaeth a fu o haint acíwt y frech goch ledled y DU. O ganlyniad i'r brechlyn MMR, erbyn canol yr 1990au, roedd trosglwyddiad y frech goch wedi'i dorri, ac roedd niferoedd yr achosion yn isel iawn.

We all know that during the late 1990s and early 2000s, however, levels of MMR vaccination fell sharply due to inaccurate scare stories about the safety of the vaccine. In Wales, MMR uptake in two-year-olds decreased from a quarterly peak of 94% in 1995 to 78% by 2003. It was predominately the children who did not receive the vaccine at that time who were affected by the outbreak in 2013.

Rydym i gyd yn gwybod, fodd bynnag, yn ystod yr 1990au hwyr a'r 2000au cynnar, bod lefelau brechu MMR wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i straeon braw anghywir am ddiogelwch y brechlyn. Yng Nghymru, gostyngodd nifer y plant dwy oed a oedd yn manteisio ar MMR o uchafbwynt chwarterol o 94% yn 1995 i 78% erbyn 2003. Y plant na chawsant y brechlyn bryd hynny yn bennaf oedd y rhai a ddioddefodd o'r clefyd yn 2013.

Our programme for government includes a commitment to,

Mae ein rhaglen lywodraethu'n cynnwys ymrwymiad i,

'Increase immunisation among children to eradicate the health problems caused by measles, mumps and rubella.'

'Cynyddu imiwneiddio ymhlith plant i gael gwared ar y problemau iechyd a achosir gan y frech goch, clwy'r pennau a rwbela.'

MMR uptake has shown a gradual increase, so that the latest reported figures are at the highest levels ever recorded in Wales. At two years of age, the annual uptake of the first dose of MMR is now 96% and uptake of two doses by five years of age is 93%. Progress has also been made catching up the older children who missed out earlier. At 16 years of age, 95% of people have now received one dose of MMR and 89% have received two doses. We are, in fact, performing significantly better than England on protecting young children with the MMR vaccine. This bodes well for the future, although we need to make every contact with young people count so that as many young people as possible are fully up to date with MMR and all other vaccines.

Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar MMR wedi cynyddu'n raddol; y ffigurau diweddaraf a gofnodwyd yw'r lefelau uchaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru. Mae canran flynyddol y plant dwyflwydd oed, sy'n cael y dos cyntaf o MMR erbyn hyn yn 96% a'r ganran sy'n cael dau ddos erbyn eu bod yn bump oed yn 93%. Mae cynnydd wedi'i wneud hefyd i ddal i fyny â'r plant hŷn a fu ar eu colled yn gynharach. Yn 16 oed, mae 95% o bobl bellach wedi cael un dos o MMR ac 89% wedi cael dau ddos. Mewn gwirionedd, rydym yn perfformio'n sylweddol well na Lloegr o ran diogelu plant ifanc gyda'r brechlyn MMR. Mae hyn yn argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol, er bod angen inni sicrhau bod pob cysylltiad â phobl ifanc yn cyfrif fel bod cynifer o bobl ifanc â phosibl yn gwbl gyfredol o ran MMR a'r holl frechlynnau eraill.

To avoid outbreaks of preventable disease, vaccine uptake needs to be sustained at a level that offers population or herd immunity. The NHS delivery framework, introduced by the Welsh Government in 2013, recognises this by including immunisation measures relating to childhood immunisations and the seasonal flu vaccination programme. For children, the target is to ensure that 95% of all children are fully up to date with all their vaccines by four years of age. I recently met with health boards to discuss progress with their delivery plans across their whole service provision. Progress on the childhood immunisation target has been significant and the measures taken are already achieving benefits. Annual uptake of routine vaccinations in one-year-old children has exceeded the 95% target. Across Wales in 2013-14, 88% of children had completed all recommended immunisations by their fourth birthday: that is an increase of 6 percentage points from 2012-13. The additional focus on the importance of this target is driving progress in the right direction.

Er mwyn osgoi achosion o glefydau y gellir eu hatal, mae angen cadw'r niferoedd sy'n cael eu brechu ar lefel sy'n cynnig imiwnedd poblogaeth. Mae fframwaith cyflenwi'r GIG, a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2013, yn cydnabod hyn drwy gynnwys mesurau imiwneiddio sy'n ymwneud ag imiwneiddio plant a'r rhaglen frechu ffliw dymhorol. Ar gyfer plant, y targed yw sicrhau bod 95% o'r holl blant yn gwbl gyfredol â'u holl frechiadau erbyn eu bod yn bedair oed. Cyfarfûm yn ddiweddar â byrddau iechyd i drafod cynnydd eu cynlluniau cyflenwi ar draws eu darpariaeth gwasanaeth gyfan. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ar y targed imiwneiddio plant ac mae'r mesurau a gymerwyd eisoes yn cyflawni buddion. Mae nifer y plant blwydd oed sy'n derbyn brechiadau blynyddol rheolaidd wedi rhagori ar y targed o 95%. Ledled Cymru yn 2013-14, roedd 88% o blant wedi cwblhau'r holl imiwneiddiadau a argymhellir erbyn eu pedwerydd pen-blwydd: mae hynny'n gynnydd 6 phwynt canran ers 2012-13. Mae'r pwyslais ychwanegol ar bwysigrwydd y targed hwn yn gyrru cynnydd i'r cyfeiriad cywir.

The seasonal flu vaccination programme is a key factor in the Welsh Government's preparations for winter. Despite low levels of flu circulating last winter, uptake of the seasonal flu vaccine in those aged 65 years and over, and those under 65 years in risk groups and pregnant women, continued a gradual upward trend. That reflects ongoing work to protect more vulnerable individuals each winter. Over 668,000 people were immunised in general practice last year—an increase of 16.5% on the previous season—and a further 7,800 were vaccinated through the community pharmacy programme.

Mae'r rhaglen frechu rhag ffliw tymhorol yn ffactor allweddol ym mharatoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y gaeaf. Er gwaethaf y lefelau isel o ffliw a welwyd y gaeaf diwethaf, roedd y nifer sy'n derbyn y brechlyn ffliw tymhorol ymysg pobl 65 oed a hŷn, ac ymysg pobl o dan 65 oed yn y grwpiau risg a menywod beichiog, yn parhau i dueddu tuag at i fyny yn raddol. Mae hynny'n adlewyrchu gwaith parhaus i amddiffyn unigolion mwy agored i niwed bob gaeaf. Cafodd dros 668,000 o bobl eu himiwneiddio mewn meddygfeydd teulu y flwyddyn diwethaf—cynnydd o 16.5% ar y tymor blaenorol—a chafodd 7,800 arall eu brechu drwy'r rhaglen fferylliaeth gymunedol.

The phased introduction of an annual flu vaccination programme for children aged between two and 16 years, using a nasal spray vaccine, continues. The programme has had some notable success. An encouraging uptake of 69% was achieved in year 7 schoolchildren last season, indicating a good acceptance of the vaccine. The programme has been extended to include four-year-olds this winter, and we continue to work with partners on improving the uptake in children aged two and three.

Mae rhaglen flynyddol brechu rhag ffliw ar gyfer plant dwy a 16 mlwydd oed, gan ddefnyddio brechlyn chwistrell trwyn, yn parhau i gael ei chyflwyno fesul cam. Mae'r rhaglen wedi cael llwyddiant nodedig. Cyflawnwyd nifer galonogol o 69% ymysg plant ysgol blwyddyn 7 y tymor diwethaf, sy'n dangos bod y brechlyn yn cael ei dderbyn. Mae'r rhaglen wedi ei hymestyn i gynnwys plant pedair oed y gaeaf hwn, ac rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i wella'r niferoedd ymhlith plant dwy a thair blwydd oed.

Significant progress has also been achieved in improving the take-up of the flu vaccine among NHS staff. This is crucial for patient protection and resilience in providing NHS services during winter months. Wales has achieved a rate of improvement greater than the rest of the UK countries. Uptake has increased from only 19% in 2010-11 to 41% last year, with an average annual increase of 7.4%. In the NHS as a whole, over 34,000 staff received a flu vaccination in 2013-14, although there is variation between professional groups. This significant improvement demonstrates that the additional emphasis and effort directed towards staff vaccination is having an impact. However, there is clearly much more to do to reach the target of 50% and to progress further.

Mae cynnydd sylweddol hefyd wedi'i gyflawni o ran cynyddu nifer staff y GIG sy'n manteisio ar y brechlyn ffliw. Mae hyn yn hanfodol er mwyn amddiffyn cleifion a rhoi gwytnwch iddynt wrth ddarparu gwasanaethau'r GIG yn ystod misoedd y gaeaf. Mae Cymru wedi cyflawni cyfradd uwch o welliant na gweddill gwledydd y DU. Mae'r nifer sy'n ei dderbyn wedi cynyddu o ddim ond 19% yn 2010-11 i 41% y llynedd, gyda chynnydd blynyddol cyfartalog o 7.4%. Yn y GIG yn gyffredinol, cafodd dros 34,000 o staff frechiad ffliw yn 2013-14, er bod hynny'n amrywio rhwng grwpiau proffesiynol. Mae'r gwelliant sylweddol hwn yn dangos bod y pwyslais a'r ymdrech ychwanegol a gyfeiriwyd at frechu staff yn cael effaith. Fodd bynnag, yn amlwg mae llawer mwy i'w wneud i gyrraedd y targed o 50% ac i symud ymlaen ymhellach.

It is worth noting that vaccination programmes do not stand still. New and improved vaccines are developed and new research informs ways of targeting existing vaccines more effectively. Since 2013, a number of new vaccination programmes have been announced by the Welsh Government. A vaccine to prevent rotavirus gastroenteritis was added to infant immunisation from July 2013, and protection against meningitis C was extended and strengthened for teenagers from September 2013 and young adults going to university from 2014. A shingles programme has been introduced for people aged 70 to 79 years; and, from September 2014, the HPV programme for teenage girls, which protects against cancer of the cervix, has been revised as protection from a course of two doses has been shown to be as effective as the current three doses. It is too soon yet to determine the full impact of these programmes, but early indications are encouraging. The programmes will be monitored to measure uptake and their effectiveness in preventing disease.

Mae'n werth nodi nad yw rhaglenni brechu'n sefyll yn llonydd. Mae brechlynnau newydd a gwell yn cael eu datblygu ac mae ymchwil newydd yn arwain at ffyrdd o dargedu brechlynnau presennol yn fwy effeithiol. Ers 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o raglenni brechu newydd. Cafodd brechlyn i atal gastroenteritis rotafirws ei ychwanegu at imiwneiddiadau babanod ym mis Gorffennaf 2013, a chafodd amddiffyniad rhag llid yr ymennydd C ei ymestyn a'i gryfhau i bobl ifanc o fis Medi 2013 ymlaen ac i oedolion ifanc sy'n mynd i'r brifysgol o 2014 ymlaen. Mae rhaglen yr eryr wedi ei chyflwyno ar gyfer pobl 70 i 79 oed; ac, o fis Medi 2014, mae'r rhaglen HPV i ferched yn eu harddegau, sy'n amddiffyn yn erbyn canser ceg y groth, wedi ei diwygio oherwydd dangoswyd bod cwrs o ddau ddos yn amddiffyn yr un mor effeithiol â'r tri dos presennol. Mae'n rhy fuan eto i fesur effaith lawn y rhaglenni hyn, ond mae'r arwyddion cynnar yn galonogol. Caiff y rhaglenni eu monitro i fesur y niferoedd sy'n eu defnyddio a'u heffeithiolrwydd o ran atal clefydau.

Vaccines are a safe and simple means of protecting individuals and the population as a whole from potentially life-threatening diseases. National immunisation programmes underpin the Welsh Government's policies emphasising prevention and prudent healthcare. The progress and success of immunisation programmes is the consequence of combined efforts over a number of years by NHS staff in health boards, general practices, Public Health Wales and colleagues in community pharmacies. The Welsh Government will continue to work with these organisations to sustain the high levels of uptake where these are currently achieved and to seek ways to increase public awareness and acceptance of vaccines where uptake is lower.

Mae brechlynnau'n ddull diogel a syml o amddiffyn unigolion a'r boblogaeth yn gyffredinol rhag clefydau a allai fygwth bywyd. Mae rhaglenni imiwneiddio cenedlaethol yn tanategu polisïau Llywodraeth Cymru sy'n pwysleisio atal a gofal iechyd doeth. Mae cynnydd a llwyddiant y rhaglenni imiwneiddio yn ganlyniad i ymdrechion cyfunol dros nifer o flynyddoedd gan staff y GIG mewn byrddau iechyd, meddygfeydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a chydweithwyr mewn fferyllfeydd cymunedol. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r sefydliadau hyn i gynnal y niferoedd uchel sy'n cael brechiadau lle mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd ac i chwilio am ffyrdd o gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd a'u derbyniad o frechlynnau lle mae'r niferoedd sy'n eu cael yn is.

15:11 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Minister, for your statement. There is no doubt that vaccination programmes are extremely important in protecting the Welsh population from ill health. I want to congratulate the Welsh Government on some of the progress that has been made, particularly on childhood vaccinations. We know that there have been problems with measles outbreaks in recent years in Wales, both in south Wales and indeed in north Wales. It is very important that we continue to maintain the progress that has been made against the vaccination rates for under-two-year-olds so that that is carried right through the child population.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Nid oes amheuaeth bod rhaglenni brechu’n hynod o bwysig o ran amddiffyn poblogaeth Cymru rhag afiechyd. Hoffwn longyfarch Llywodraeth Cymru ar y cynnydd hwnnw sydd wedi’i wneud, yn enwedig o ran brechiadau i blant. Rydym yn gwybod y bu problemau gydag achosion o'r frech goch yn y blynyddoedd diweddar yng Nghymru, yn y de ac yn wir yn y gogledd. Mae'n bwysig iawn ein bod yn parhau i gynnal y cynnydd a wnaethpwyd yng nghyfraddau brechu plant dan ddwy oed er mwyn parhau â hynny drwy'r holl boblogaeth plant.

I am very pleased also that the programme of vaccinations continues to develop with the introduction of the nasal spray, for example, for flu vaccinations for children. Indeed, I have a question to ask you, Deputy Minister, in terms of the meningococcal B vaccine, and whether the Welsh Government has any proposals to introduce that into the regime in the future and, if so, what the timescales are, particularly in terms of its effectiveness as demonstrated by the recent joint committee on vaccination and immunisation decision on it.

Rwyf hefyd yn falch iawn bod y rhaglen o frechiadau’n parhau i ddatblygu gyda chyflwyniad y chwistrell trwyn, er enghraifft, ar gyfer brechiadau ffliw i blant. Yn wir, mae gennyf gwestiwn i’w ofyn ichi, Ddirprwy Weinidog, am y brechlyn meningococaidd B, a pha un a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynigion i’w gyflwyno i mewn i'r drefn yn y dyfodol ac, os felly, beth yw'r amserlenni, yn enwedig o ran ei effeithiolrwydd fel y dangoswyd gan benderfyniad diweddar y cydbwyllgor ar imiwneiddio a brechu ynglŷn ag ef.

I also congratulate the Welsh NHS for increasing the vaccination rate among front-line staff. I recognise that there is clearly further progress that needs to be made, particularly among nursing staff, who, for some reason, seem more reluctant than some of their colleagues to take up the opportunity to be vaccinated against the flu. I wonder, Minister, whether you can tell us what work you might be doing with the Royal College of Nursing in order to engage with the nursing workforce in health boards across Wales and encourage them to take up the opportunity to be vaccinated, particularly given the complications that it can cause for vulnerable elderly people and vulnerable young people who might be sick in our hospitals.

Rwyf hefyd yn llongyfarch y GIG yng Nghymru am gynyddu cyfradd brechu ymhlith staff rheng flaen. Rwyf yn cydnabod ei bod yn amlwg bod angen gwneud cynnydd pellach, yn enwedig ymhlith staff nyrsio, sydd, am ryw reswm, yn ymddangos yn fwy amharod na rhai o'u cydweithwyr i fanteisio ar y cyfle i gael eu brechu yn erbyn y ffliw. Tybed, Weinidog, a allwch chi ddweud wrthym pa waith y gallech ei wneud gyda Choleg Brenhinol y Nyrsys i ymgysylltu â'r gweithlu nyrsio mewn byrddau iechyd ledled Cymru a'u hannog i fanteisio ar y cyfle i gael eu brechu, yn enwedig o ystyried y cymhlethdodau y gall eu hachosi i bobl oedrannus sy'n agored i niwed a phobl ifanc sy'n agored i niwed sydd efallai’n sâl yn ein hysbytai?

It is not just the NHS that is dealing with vulnerable people. Local authority staff, particularly those in the social care workforce, are also on the front lines, as it were. It is not just local authority staff, but sometimes the independent sector’s own staff in terms of the way that they might engage. I wonder whether you can report on any targets or progress that might be being made in terms of the social care workforce, particularly on the flu vaccine, given the vulnerability of some of the clients that people might be engaging with.

Nid dim ond y GIG sy'n ymdrin â phobl sy'n agored i niwed. Mae staff awdurdodau lleol, yn enwedig y rhai yn y gweithlu gofal cymdeithasol, hefyd yn y rheng flaen, fel petai. Nid dim ond staff awdurdodau lleol yw hyn, ond weithiau staff y sector annibynnol ei hun o ran y ffordd y gallent ymwneud â’r mater. Tybed a allwch chi roi gwybod am unrhyw dargedau neu gynnydd a allai fod yn cael ei wneud o ran y gweithlu gofal cymdeithasol, yn enwedig ar y brechlyn ffliw, o ystyried natur fregus rhai o'r cleientiaid y gallai pobl fod yn ymgysylltu â hwy.

It is very pleasing to see and to note that community pharmacies are more engaged—shall we say—in terms of delivering flu vaccinations in particular. Obviously, while there have been 7,800 flu vaccinations given in community pharmacies, it pales into insignificance given the overall number of vaccinations that have been delivered in primary care by GPs: 668,000. I wonder what the Welsh Government is doing to change the ratios there in order that the community pharmacy can do more, given the opportunity that it presents for them to be engaged in this programme and to relieve pressure on GP appointments within GP practices given some of the access issues that our constituents report to us from time to time. So, I would appreciate some information and feedback on those particular issues. However, I do want to congratulate the Welsh Government on some of the progress that has been made. There is much more work to do, but we are indeed getting there.

Mae'n braf iawn gweld a nodi bod fferyllfeydd cymunedol yn cymryd rhan fwy—gadewch inni ddweud—o ran darparu brechiadau ffliw yn arbennig. Yn amlwg, er bod 7,800 o frechiadau ffliw wedi'u rhoi mewn fferyllfeydd cymunedol, mae'n swm disylw iawn o ystyried cyfanswm nifer y brechiadau a roddwyd mewn gofal sylfaenol gan feddygon teulu: 668,000. Tybed beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i newid y cymarebau hynny er mwyn i'r fferyllfa gymunedol allu gwneud mwy, o ystyried y cyfle y mae hyn yn ei roi iddynt i fod yn rhan o'r rhaglen hon ac i leihau'r pwysau ar apwyntiadau meddygon teulu mewn meddygfeydd teulu ac ystyried rhai o'r materion mynediad y mae ein hetholwyr yn sôn wrthym amdanynt o bryd i'w gilydd. Felly, byddwn yn gwerthfawrogi rhywfaint o wybodaeth ac adborth am y materion penodol hynny. Fodd bynnag, hoffwn longyfarch Llywodraeth Cymru ar rywfaint o'r cynnydd a wnaethpwyd. Mae llawer mwy o waith i'w wneud, ond rydym yn wir ar y trywydd iawn.

15:15

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for those comments and questions, Darren Millar. I welcome the support and recognition that you provided on the work of NHS staff, but in particular in relation to the childhood vaccination programme.

Diolch am y sylwadau a'r cwestiynau yna, Darren Millar. Rwyf yn croesawu'r gefnogaeth a'r gydnabyddiaeth a roesoch i waith staff y GIG, ond yn arbennig ynglŷn â'r rhaglen frechu plant.

On the specific questions you asked, on meningitis B, there is a recommendation from the joint committee on vaccination and immunisation, which, as you are probably aware, covers the whole of the UK, that this vaccine is effective and should be rolled out. However, I think it is subject to a suitable price being agreed with the vaccine manufacturer. The Department of Health is leading negotiations for all of the nations of the UK and, while there is not yet an agreement on price, I am hopeful that we can reach a position where a cost-effective agreement is reached and that programme can then be rolled out for the particular target group as has been recommended.

O ran y cwestiynau penodol a ofynnwyd gennych, ar lid yr ymennydd B, argymhelliad y cyd-bwyllgor ar imiwneiddio a brechu, sydd, fel y gwyddoch mae'n siŵr, yn berthnasol i'r DU gyfan, yw bod y brechlyn hwn yn effeithiol ac y dylid ei gyflwyno. Fodd bynnag, credaf fod hynny'n dibynnu ar gytuno ar bris addas gyda gwneuthurwr y brechlyn. Mae'r Adran Iechyd yn arwain trafodaethau ar gyfer pob un o wledydd y DU ac, er nad oes cytundeb ar bris hyd yn hyn, rwyf yn gobeithio y gallwn gyrraedd sefyllfa lle'r ydym yn cyrraedd cytundeb cost-effeithiol ac yna y gellir cyflwyno'r rhaglen i'r grŵp targed penodol yn unol â'r argymhelliad.

I also note what say about front-line staff. In terms of your specific point about working with the Royal College of Nursing, I think it is worth our while reflecting that both the RCN and other trade unions within the health service are very positive about the expectation that healthcare workers who have direct patient contact should take up the flu vaccine. What I expect to do is to reflect on the progress that is being made this year. Health boards are making great efforts to make it easy for staff to take up the opportunity to take the flu vaccine. I want to see how far that gets us this year, and then to think again about what else we might need to do in years to come to improve further. That is a conversation that should take place both with employers and also with their staff representatives.

Nodaf hefyd yr hyn a ddywedwch am staff rheng flaen. O ran eich pwynt penodol ynglŷn â gweithio gyda Choleg Brenhinol y Nyrsys, rwyf yn credu ei bod yn werth chweil inni fyfyrio ar y ffaith bod Coleg Brenhinol y Nyrsys ac undebau llafur eraill yn y gwasanaeth iechyd yn gadarnhaol iawn am y disgwyliad y dylai gweithwyr gofal iechyd sy'n dod i gysylltiad uniongyrchol â chleifion gael y brechlyn ffliw. Yr hyn yr wyf yn disgwyl ei wneud yw myfyrio ar y cynnydd sy'n cael ei wneud eleni. Mae byrddau iechyd yn gwneud ymdrechion helaeth i'w gwneud yn hawdd i staff fanteisio ar y cyfle i gymryd y brechlyn ffliw. Hoffwn weld pa mor bell yr aiff hynny â ni eleni, ac yna meddwl eto am beth arall y gallai fod angen inni ei wneud yn y blynyddoedd i ddod er mwyn gwella ymhellach. Mae honno'n sgwrs a ddylai ddigwydd gyda chyflogwyr a hefyd gyda'u cynrychiolwyr staff.

There is something of a similar point with the social care workforce, whether in the state sector or in the independent sector. This is a matter for employers to deal with, fundamentally. There is an impact on residents who they have responsibilities for, there is an impact on individual members of staff who may contract the flu virus, and, in particular, there is a point on business continuity. Having a flu outbreak and having members of staff who cannot turn up, what they will lose in terms of quality of care, and potentially in terms of the families of the individuals themselves, is something that businesses should reflect on. Some independent businesses recognise the impact on their own bottom line and are taking steps to encourage more of their staff, and to make it easy for their staff, to take up the vaccine. I would encourage more businesses to take that same perspective.

Ceir pwynt eithaf tebyg ynglŷn â'r gweithlu gofal cymdeithasol, boed yn sector y wladwriaeth neu yn y sector annibynnol. Mae hwn yn fater i gyflogwyr ymdrin ag ef, yn y bôn. Mae'n effeithio ar breswylwyr y maent yn gyfrifol amdanynt, mae'n effeithio ar aelodau staff unigol a all ddal y feirws ffliw, ac, yn benodol, mae'n ymwneud â pharhad busnes. Mae cael achos o ffliw a chael aelodau o staff yn methu â bod yn bresennol, yr hyn y byddant yn ei golli o ran ansawdd gofal, ac o bosibl o ran teuluoedd yr unigolion eu hunain, yn rhywbeth y dylai busnesau ei ystyried. Mae rhai busnesau annibynnol yn cydnabod yr effaith ar eu llinell isaf eu hunain ac yn cymryd camau i annog mwy o'u staff, ac i'w gwneud yn hawdd i'w staff, i gael y brechlyn. Byddwn yn annog mwy o fusnesau i gymryd yn union yr un safbwynt.

Finally, on your point on the general availability and the opportunity to get a vaccine, particularly the flu vaccine, in a pharmacy, I had my flu vaccine again this year in a pharmacy, simply because it is much more convenient for me to do so. It is much more difficult for me to make an appointment in a GP practice, given the job that I have and that everyone else has here. The 7,800 people who have taken up the flu vaccine in a pharmacy is a good place to start, but we recognise that we ought to see more progress made with regard to the mix between the vaccine being taken in general practice and the vaccine being made more widely available within pharmacies. So, there is more we want to see happen and the direction of travel from the Welsh Government is very clear in terms of what we want to see.

Yn olaf, ar eich pwynt am ba mor rhwydd yw cael brechlyn yn gyffredinol a'r cyfle i gael brechlyn, yn enwedig y brechlyn ffliw, mewn fferyllfa, cefais fy mrechlyn ffliw i eto eleni mewn fferyllfa, yn syml oherwydd ei bod yn llawer mwy cyfleus imi wneud hynny. Mae'n llawer mwy anodd imi wneud apwyntiad mewn meddygfa deulu, ac ystyried fy ngwaith, a gwaith pawb arall yma. Mae'r 7,800 o bobl sydd wedi cael y brechlyn ffliw mewn fferyllfa yn lle da i ddechrau, ond rydym yn cydnabod y dylem weld mwy o gynnydd yn cael ei wneud o ran y gymysgedd rhwng cymryd y brechlyn mewn meddygfa deulu a sicrhau bod y brechlyn ar gael yn fwy eang mewn fferyllfeydd. Felly, hoffem weld mwy'n digwydd ac mae cyfeiriad teithio Llywodraeth Cymru'n glir iawn o ran yr hyn yr hoffem ei weld.

15:18

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am y datganiad y prynhawn yma ac am osod allan yn y datganiad y cyd-destun pwysig i imiwneiddio a brechu, sydd wedi bod dros y degawdau yn ein cymdeithas ni, ac wedi ein galluogi yn y wlad hon i waredu rhai afiechydon a chlefydau marwol o'n cymdeithas. Maent yn glefydau, yn anffodus, sy'n dal i fodoli mewn gwledydd a chyfandiroedd eraill. Mae'n bwysig inni gofio am hynny y prynhawn yma hefyd.

Thank you, Deputy Minister, for this afternoon's statement and for setting out in that statement the important context of vaccination, which has been in place over decades in our society, and has enabled us in this country to eradicate certain fatal diseases. These are diseases that, unfortunately, that still exist in other nations and on other continents. It is important that we bear that in mind this afternoon also.

Mae gennyf ychydig o gwestiynau, Ddirprwy Weinidog, ar MMR yn gyntaf. Fe gyfeirioch chi at y grŵp oedran hwnnw o blant ysgol rhwng 10 a 18, y mae tua 30,000 ohonynt, o bosibl, sydd heb eu brechu o gwbl neu heb eu brechu'n gyflawn o ran MMR. Rydych yn awyddus iddynt gael eu brechu, wrth gwrs, ond efallai y gallech chi rannu gyda ni pa gamau yr ydych fel Llywodraeth yn eu cymryd i ddeall yn well pam fod y grŵp penodol hwnnw yn parhau i fod â chynifer o unigolion heb eu brechu, a beth yw'r rhesymau y tu ôl i hynny, fel y gallwch chi gymryd y camau i geisio goresgyn y rhesymau hynny.

I do have a few questions, Deputy Minister, on MMR first of all. You referred to that age group of between 10 and 18, of which around 30,000 have yet to be vaccinated at all or have not had the full MMR vaccination. You are, of course, eager for them to be vaccinated, but perhaps you could share with us what steps you as a Government are taking to better understand why that particular cohort continues to contain so many individuals who have yet to be vaccinated, and what are the reasons behind that, so that you can take the necessary steps to try to actually deal with that.

Symudaf ymlaen at frechiad y ffliw a gweithlu’r NHS. Wrth gwrs, mae gennych darged i frechu 50% o weithlu’r NHS, rwy’n meddwl, ac yr ydych wedi gweld cynnydd tuag at 41%. Yn eich datganiad, rydych yn cyfeirio at rai grwpiau proffesiwn o fewn yr NHS sy’n well na’i gilydd o ran y canran sy’n cael eu brechu. Fe wnaeth Darren Millar gyfeirio at nyrsys yn benodol. Efallai y gallech fod yn fwy eglur gyda ni fel Cynulliad ynghylch pa grwpiau yn y proffesiwn yr ydych yn cyfeirio ato yn eich datganiad, fel y gallwn fod yn glir am le mae rhywfaint o ‘resistance’, os taw dyna yw’r gair cywir, i frechu.

I will move on to the flu jab and the NHS workforce. Of course, you have a target to vaccinate 50% of the NHS workforce, I think, and you have seen progress to 41%. In your statement, you refer to certain professional groups within the NHS that are better than others in terms of the percentage taking up the flu jab. Darren Millar referred specifically to nurses. Perhaps you could be a little clearer with us as an Assembly as to which groups within the profession you are referring to in your statement, so that we can be clear in our own minds as to where there may be some resistance, if that is the correct word, to vaccination.

Fel sonioch yn eich ymateb, a gofynnodd Darren Millar am hyn hefyd, nid dim ond gweithwyr yr NHS sy’n ymwneud â gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn ein cymunedau. Mae’r gweithwyr sy’n gofalu, y gofalwyr, sydd yn y sector breifat, neu’r sector wirfoddol yn aml iawn, yn gwneud gwaith pwysig iawn ac yn gwneud gwaith sy’n golygu mynd o gartrefi pobl hŷn unigol i gartrefi eraill o fewn cyfnod o ddiwrnod. Cyfeirioch yn benodol at y ffaith y dylai cwmnïau preifat sy’n darparu’r gwasanaeth hwn fod yn edrych ar eu ‘bottom line’ fel ysgogiad ar gyfer brechu eu staff. Nid wyf yn cytuno gyda chi’n llwyr ar hynny, Ddirprwy Weinidog. Rwy’n credu bod cyfrifoldeb hefyd ar y rhai sy’n contractio’r bobl hynny, naill ai drwy’r NHS neu gyda’r awdurdod lleol, i fod yn rhoi arweiniad yn y cytundebau hynny eu bod yn disgwyl bod gweithwyr sy’n ymweld â chartrefi unigolion bregus, a henoed yn enwedig, yn edrych i gael eu brechu rhag ffliw. Felly, a allwch ddatblygu ac ateb y cwestiwn penodol hwnnw? A fyddech yn gweld bod rôl i awdurdodau lleol a byrddau iechyd fod yn rhoi gofyniad a disgwyliad mewn cytundebau gyda’r sector preifat sy’n darparu’r gwasanaethau pwysig hyn?

As you mentioned in your response, and Darren Millar asked about this too, it is not just the NHS workforce that is involved in healthcare and social care in our communities. Those carers working in the private sector, or the voluntary sector very often, do very important work and they do work that involves travelling from one old person’s home to another within the period of a working day. You referred specifically to the fact that private companies providing this service should be look at their bottom line as a spur to encourage staff vaccination. I do not agree with you entirely on that point, Deputy Minister. I believe that there is also a responsibility on those contracting those people, either through the NHS or through local authorities, to give guidance in those contracts that they expect those people who are visiting the homes of vulnerable individuals and the elderly in particular, to seek the flu jab. So, could you respond to that specific question? Would you see that there is a role for local authorities and health boards to place requirements and expectations in contracts with the private sector providing those important services?

15:22

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank Elin Jones for her questions and comments. It is particularly important to recognise the starting point with regard to the impact of not having a successful vaccination and immunisation programme. I mentioned that, in the 1960s, over 800 people died, and, before the creation of the national health service in 1941, over 1,000 people died in a single year, from measles. It is not a trivial illness that we have largely managed to see retreat to the pages of history.

Hoffwn ddiolch i Elin Jones am ei chwestiynau a’i sylwadau. Mae'n arbennig o bwysig cydnabod y man cychwyn o ran effaith bod heb raglen brechu ac imiwneiddio lwyddiannus. Dywedais y bu farw dros 800 o bobl yn yr 1960au, a, chyn i’r gwasanaeth iechyd gwladol gael ei greu yn 1941, bu farw dros 1,000 o bobl mewn un flwyddyn, o’r frech goch. Nid yw'n salwch dibwys, ac rydym wedi llwyddo i raddau helaeth i’w weld yn encilio i dudalennau hanes.

The first point you made was around 10 to 16-year-olds, where there is still a reservoir of people who have not taken the second MMR vaccine. The reason why I say 10 to 16-year-olds is that, broadly, by the time somebody has got to the age of 17 or 18, they have had a number of reminders and they are adults, so it is very difficult. Those people are, effectively, making a choice not to engage. There is an expectation that health boards will still work, especially with colleagues in education, to take up opportunities to ensure that young people at least have an opportunity to have a more structured interaction, especially with the parent group, to reinforce the importance of undertaking the vaccinations that are available.

Roedd y pwynt cyntaf a wnaethoch yn ymwneud â phlant 10 i 16 oed, lle y ceir cronfa o bobl o hyd nad ydynt wedi cael yr ail frechlyn MMR. Y rheswm pam yr wyf yn dweud plant 10 i 16 oed yw, yn fras, erbyn i rywun gyrraedd 17 neu 18 oed, byddant wedi cael nifer o nodiadau atgoffa a byddant yn oedolion, felly mae'n anodd iawn. Mae'r bobl hynny, i bob pwrpas, yn dewis peidio ag ymgysylltu. Bydd disgwyl i fyrddau iechyd barhau i weithio, yn enwedig gyda chydweithwyr ym maes addysg, i fanteisio ar gyfleoedd i sicrhau bod pobl ifanc o leiaf yn cael cyfle i ryngweithio’n fwy strwythuredig, yn enwedig gyda'r grŵp rhieni, i atgyfnerthu pwysigrwydd manteisio ar y brechiadau sydd ar gael.

I would expect health boards, from their own understanding of their own populations, especially colleagues in primary care, to be proactive in reinforcing the benefit of vaccination and ensuring that there is greater take up. As I said, looking at what happened in Swansea in 2013, that reservoir that existed also existed in other parts of Wales. Broadly, we have seen an uptake on the back of that publicity. The difficulty is, with all the publicity there was at the time of that outbreak, there were still people who chose not to take the opportunity to have the vaccine. We are not in a position where we are going to force individuals to take up the vaccine. This is about education and reinforcing what is expected behaviour.

Byddwn yn disgwyl i fyrddau iechyd, o'u dealltwriaeth eu hunain o'u poblogaethau eu hunain, yn enwedig cydweithwyr ym maes gofal sylfaenol, i fod yn rhagweithiol wrth atgyfnerthu manteision brechu a sicrhau bod mwy o bobl yn cael eu brechu. Fel y dywedais, gan edrych ar yr hyn a ddigwyddodd yn Abertawe yn 2013, roedd y gronfa honno a oedd yn bodoli hefyd yn bodoli mewn rhannau eraill o Gymru. Yn fras, rydym wedi gweld mwy o frechu o ganlyniad i'r cyhoeddusrwydd hwnnw. Yr anhawster yw, gyda'r holl gyhoeddusrwydd a fu ar adeg yr achosion hynny, bod rhai pobl yn dal i fod wedi dewis peidio â manteisio ar y cyfle i gael y brechlyn. Nid ydym mewn sefyllfa lle'r ydym yn mynd i orfodi unigolion i fanteisio ar y brechlyn. Mae hyn yn fater o addysg ac atgyfnerthu pa ymddygiad a ddisgwylir.

We then move on to the slightly different point of our workforce in the NHS. Nurses are one of the key professions we are most interested in having the flu vaccine. There is a conversation to be had about what the expectation is, and what should be the expectation for an employer and an employee, but also for people who have their own individual professional obligations, and at what point that conversation needs to take place that is more than there just being an encouragement. I do think that it is important, though, to see what progress we make this year and to see what shift is being made, because in the last two or three years there has been very real progress, from a very low base of less than one in five having the flu vaccine, to over 40% last year, so I do not want to set out a hard-and-fast position, as we are now; we will see what has happened this year with the extra effort that has been made, and then look again at what we should do in planning for next winter for all staff in the NHS. Again, I am interested in the point that you made around an expectation in contracting arrangements for social care. I think that it is important to reinforce to businesses that there is a bottom-line point for them, as employers, that they should not ignore.

Symudwn ymlaen wedyn at bwynt ychydig yn wahanol ynglŷn â'n gweithlu yn y GIG. Mae nyrsys yn un o'r proffesiynau allweddol y mae gennym fwyaf o ddiddordeb mewn eu gweld yn cael y brechlyn ffliw. Mae sgwrs i'w chael ynglŷn â beth yw'r disgwyliad, a beth ddylai fod y disgwyl i gyflogwyr a gweithwyr ei wneud, ond hefyd ynglŷn â phobl sydd â'u rhwymedigaethau proffesiynol unigol eu hunain, ac ar ba adeg y mae angen cynnal sgwrs sy'n fwy na dim ond anogaeth. Rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig, fodd bynnag, gweld pa gynnydd a wnawn eleni a gweld pa newid sy'n digwydd, oherwydd yn y ddwy neu dair blynedd diwethaf, bu cynnydd real iawn, o sylfaen isel iawn o lai nag un o bob pump yn cael y brechlyn ffliw, i dros 40% y llynedd, felly nid wyf am nodi sefyllfa gaeth, fel yr ydym yn awr; arhoswn i weld beth sydd wedi digwydd eleni gyda'r ymdrech ychwanegol a wnaethpwyd, ac yna edrychwn eto ar yr hyn y dylem ei wneud i gynllunio ar gyfer y gaeaf nesaf ar gyfer pob aelod o staff yn y GIG. Unwaith eto, mae gennyf ddiddordeb yn y pwynt a wnaethoch ynghylch disgwyliadau o drefniadau contractio ar gyfer gofal cymdeithasol. Credaf ei bod yn bwysig pwysleisio i fusnesau bod pwynt sy'n ymwneud â'u llinell isaf, fel cyflogwyr, na ddylent ei anwybyddu.

However, there is a broader point that you made around what our expectations should be in what is, effectively, the regulated private sector that provides a service to the public as the main contractor. I think that it is important for local authorities to be clear about their own expectations of their own staff as a starting point and what they expect to see happen. This is a matter that I will be very happy to talk to colleagues in the social care sector about, and about, again, what successful practice is now, to try to move us into a different position, because I do think that trying to add an extra point into contracting arrangements may be more counterintuitive and not as helpful as it might seem. However, I do want to see a very real change and shift in expectations and culture. Once you get over the point where most people who work in this sector are having their flu vaccine, it becomes progressively more and more difficult for others not to do it, and that is where I would really like us to be, because that culture change is, probably, the most important driver to seeing a change in outcomes.

Fodd bynnag, gwnaethoch bwynt ehangach ynghylch beth ddylai ein disgwyliadau fod yn yr hyn sydd, i bob pwrpas, yn sector preifat rheoledig sy'n darparu gwasanaeth i'r cyhoedd fel prif gontractwr. Credaf ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn glir ynghylch eu disgwyliadau eu hunain o'u staff eu hunain fel man cychwyn a'r hyn y maent yn disgwyl ei weld yn digwydd. Mae hwn yn fater y byddaf yn hapus iawn i siarad amdano â chydweithwyr yn y sector gofal cymdeithasol ac, unwaith eto, am yr hyn yw ymarfer llwyddiannus yn awr, i geisio ein symud i mewn i sefyllfa wahanol, oherwydd rwyf yn credu y gallai ceisio ychwanegu pwynt ychwanegol at drefniadau contractio fod yn fwy croes i reddf a heb fod mor ddefnyddiol ag y gallai ymddangos. Fodd bynnag, hoffwn weld newid gwirioneddol iawn a newid mewn disgwyliadau a diwylliant. Ar ôl ichi fynd heibio i'r pwynt lle mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gweithio yn y sector hwn yn cael eu brechiad ffliw, mae'n mynd yn fwy a mwy anodd i bobl eraill beidio â gwneud hynny, a dyna lle'r hoffwn inni fod mewn gwirionedd, oherwydd y newid diwylliant hwnnw, yn ôl pob tebyg, yw'r sbardun pwysicaf at weld newid mewn canlyniadau.

15:26 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Deputy Minister for his statement to the Chamber this afternoon. To move straight to questions, there is, indeed, progress with regard to MMR and uptake of that vaccine. However, what we do know is that the discredited science behind Andrew Wakefield's study into the links between MMR and autism is still being communicated to specific communities in the United Kingdom, particularly minority ethnic communities. I wonder whether the Deputy Minister could give us any details on what MMR vaccine uptake is looking like with regard to the black and minority ethnic community, because we know that, with that study, there is a concerted attempt to focus on that community.

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad i'r Siambr y prynhawn yma. I symud yn syth at gwestiynau, mae cynnydd, yn wir, wedi'i wneud o ran MMR a'r niferoedd sy'n cael y brechlyn hwnnw. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod y wyddoniaeth a wrthbrofwyd y tu ôl i astudiaeth Andrew Wakefield i'r cysylltiadau rhwng MMR ac awtistiaeth yn dal i gael ei chyfleu i rai cymunedau penodol yn y Deyrnas Unedig, yn enwedig cymunedau lleiafrifoedd ethnig. Tybed a allai'r Dirprwy Weinidog roi unrhyw fanylion inni ynglŷn â sut y mae'r niferoedd sy'n derbyn brechiad MMR yn edrych yn y gymuned pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig, oherwydd rydym yn gwybod, gyda'r astudiaeth honno, bod ymgais bendant i ganolbwyntio ar y gymuned honno.

Secondly, we do know that, during the Swansea outbreak, many Members in the Chamber expressed concerns at the behaviour of some private medical companies that were advertising and urging parents to take up single-dose vaccines. At that time, the Welsh Government was investigating its powers in this area to curtail that activity, and I wonder whether the Deputy Minister could give an update on where the Welsh Government got to with that work, so that, should we find ourselves in the situation of another outbreak, heaven forbid, we would be in a better position to control activities of that kind should we need to.

Yn ail, rydym yn gwybod, yn ystod yr achosion yn Abertawe, bod llawer o Aelodau yn y Siambr wedi mynegi pryderon am ymddygiad rhai cwmnïau meddygol preifat a oedd yn hysbysebu ac yn annog rhieni i gael brechlynnau un dos. Ar y pryd, roedd Llywodraeth Cymru'n ymchwilio i'w phwerau yn y maes hwn i gwtogi ar y gweithgaredd hwnnw, ac roeddwn yn meddwl tybed a allai'r Dirprwy Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ble y cyrhaeddodd Llywodraeth Cymru â'r gwaith hwnnw, fel y byddem mewn sefyllfa well i reoli gweithgareddau o'r fath pe byddai angen, pe byddem yn canfod ein hunain, Duw â'n gwaredo, mewn sefyllfa debyg eto.

With regard to flu vaccine uptake in the NHS, the Deputy Minister is right—the numbers are growing significantly—but his own statement acknowledges that we are at a level far from what the Welsh Government would want to see. What has the Deputy Minister identified as the barriers that are preventing NHS staff—? I can see that it is much more complicated in the private domiciliary care area, or even in social services, but the Welsh Government does have a certain amount of control over the NHS in Wales, and I am just wondering what barriers the Deputy Minister has identified to taking that level of vaccination cover even higher than 40%.

O ran y niferoedd sy'n cael brechiad rhag y ffliw yn y GIG, mae'r Dirprwy Weinidog yn iawn—mae'r niferoedd yn tyfu'n sylweddol—ond mae ei ddatganiad ef ei hun yn cydnabod ein bod ar lefel sy'n bell o'r hyn yr hoffai Llywodraeth Cymru ei weld. Beth mae'r Dirprwy Weinidog wedi'u nodi fel y rhwystrau sy'n atal staff y GIG—? Gallaf weld bod hyn yn llawer mwy cymhleth ym maes gofal cartref preifat, neu hyd yn oed yn y gwasanaethau cymdeithasol, ond mae gan Lywodraeth Cymru rywfaint o reolaeth dros y GIG yng Nghymru, ac rwyf yn meddwl tybed pa rwystrau y mae'r Dirprwy Weinidog wedi'u nodi o ran codi'r niferoedd sy'n cael y brechiad hwnnw hyd yn oed yn uwch na 40%.

If we look at a local health board breakdown of some of the childhood immunisations, what is striking is that, although, again, we are making progress, there is some variation. My own county sees levels of vaccinations for two-year-olds below that of the national average, and I wonder, again, whether the Deputy Minister is doing any specific work to look at specific parts of Wales, or communities within LHB areas, where, perhaps, vaccination levels are generally lower than the Welsh average, and identifying what the issues are in those areas. Are there issues around access to healthcare workers, doctors' surgeries and health visitors? Has he identified any particular areas of concern, and what is being done to address those?

Os edrychwn ar ddadansoddiad bwrdd iechyd lleol o rai o'r brechiadau i blant, yr hyn sy'n drawiadol yw er ein bod, unwaith eto, yn gwneud cynnydd, bod rhywfaint o amrywiad. Yn fy sir i fy hun, mae lefelau brechiadau i blant dwyflwydd oed yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac rwyf yn meddwl tybed, unwaith eto, a yw'r Dirprwy Weinidog yn gwneud unrhyw waith penodol i edrych ar rannau penodol o Gymru, neu gymunedau o fewn ardaloedd Byrddau Iechyd Lleol, lle mae lefelau brechu, efallai, yn gyffredinol is na chyfartaledd Cymru, a chanfod beth yw'r broblem yn yr ardaloedd hynny. A oes materion yn ymwneud â mynediad at weithwyr gofal iechyd, meddygfeydd ac ymwelwyr iechyd? A yw wedi nodi unrhyw feysydd penodol sy'n peri pryder, a beth sy'n cael ei wneud i ymdrin â'r rheini?

I am very thankful for the development of the human papilloma virus vaccine. I think that it is such an important step forward and breakthrough, and the programme, it seems to me, is running very well for teenage girls. You will be aware that there is a great deal of debate about whether that vaccination programme should be extended to boys, and the joint committee is having to wait for new financial modelling, which will not be available now until next year. However, the committee has made an interim recommendation with regard to the HPV vaccine being made available to men who have sex with men, and who are between the ages of 16 and 40, to be delivered through GUM clinics, and HIV clinics. I wondered what steps the Welsh Government has taken to prepare its sexual health services to deliver that vaccine, should the recommendations of the joint committee be confirmed.

Rwyf yn ddiolchgar iawn am ddatblygiad y brechlyn feirws papiloma dynol. Credaf ei fod yn gam ymlaen ac yn ddatblygiad mor bwysig, ac mae'r rhaglen, mae'n ymddangos i mi, yn rhedeg yn dda iawn ar gyfer merched yn eu harddegau. Byddwch yn ymwybodol bod llawer iawn o ddadlau ynghylch a ddylid ymestyn y rhaglen frechu honno i fechgyn, ac mae'r cydbwyllgor yn gorfod aros am fodelu ariannol newydd, na fydd ar gael bellach tan y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, mae'r pwyllgor wedi gwneud argymhelliad dros dro i sicrhau bod y brechlyn HPV ar gael i ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion, ac sydd rhwng 16 a 40 oed, mewn clinigau GUM, a chlinigau HIV. Roeddwn yn meddwl tybed pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i baratoi eu gwasanaethau iechyd rhywiol i ddarparu’r brechlyn hwnnw, pe câi argymhellion y cyd-bwyllgor eu cadarnhau.

15:30 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank Kirsty Williams for that series of questions. To start on the MMR point, and to be clear, Kirsty Williams has been very consistent in noting the discredited science behind the scare, and the impact that that had on a range of communities here in Wales, and in other parts of the UK, as well.

Hoffwn ddiolch i Kirsty Williams am y gyfres yna o gwestiynau. I ddechrau ar y pwynt MMR, ac i fod yn glir, mae Kirsty Williams wedi bod yn gyson iawn yn nodi'r wyddoniaeth a wrthbrofwyd y tu ôl i'r braw, a'r effaith a gafodd hynny ar amrywiaeth o gymunedau yma yng Nghymru, ac mewn rhannau eraill o'r DU, hefyd.

In terms of your point around the private companies offering a single shot, I will have to come back to you on that and I will write to you, because I would want to check on what we can and cannot do in terms of regulating what private companies do and do not do. For example, we know that a range of private companies offer different vaccines individually. However, I recognise the point being made, and I will come back to you on it. I know that a statement was made at the time, when you asked similar questions previously, and so I will provide you with a proper update, one that properly considers the position. The same goes in regard to the differential impact and uptake of the MMR vaccine in black and minority ethnic communities. I want to give you a proper update, rather than an off-the-cuff one now.

O ran eich pwynt am y cwmnïau preifat sy'n cynnig un dos, bydd rhaid imi ddod yn ôl atoch ynglŷn â hynny a byddaf yn ysgrifennu atoch, oherwydd byddwn yn awyddus i wirio’r hyn y gallwn ac na allwn ei wneud o ran rheoleiddio beth mae cwmnïau preifat yn ei wneud a beth nad ydynt yn ei wneud. Er enghraifft, gwyddom fod nifer o gwmnïau preifat yn cynnig gwahanol frechlynnau unigol. Fodd bynnag, rwyf yn cydnabod y pwynt yr ydych yn ei wneud, a dof yn ôl atoch yn ei gylch. Gwn y gwnaethpwyd datganiad ar y pryd, pan ofynasoch gwestiynau tebyg o'r blaen, felly rhof ddiweddariad priodol ichi, un sy'n ystyried y sefyllfa’n briodol. Mae'r un peth yn wir am y gwahaniaeth yn effaith y brechlyn MMR a’r niferoedd sy'n ei gael mewn cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Hoffwn roi diweddariad priodol ichi, yn hytrach nag un byrfyfyr nawr.

With regard to the flu vaccine for NHS staff, and the reluctance of some staff to take up the offer, we have got through a number of the barriers that have previously been indicated, about where those staff could take up the vaccine. In particular, health boards this year have made a much greater effort to ensure that the vaccine is available in the place of work. You could not go into a range of our hospitals without staff recognising, and seeing, very clearly the opportunity to have an opportunistic vaccination in their place of work. Again, when I talk about seeing the results this year, I want to see how much further that is taken, and see what barriers still remain. As I said, once we get over the point of having the majority of people in the NHS taking the flu vaccine, I think we will start to see further rapid progress. I think that there is a tipping point around a culture of change and acceptance of what is individually the right thing to do for an employee, but also for a professional in the health service.

O ran y brechlyn ffliw i staff y GIG, ac amharodrwydd rhai staff i fanteisio ar y cynnig, rydym wedi goresgyn nifer o'r rhwystrau a nodwyd yn flaenorol, ynghylch ble y gallai’r staff hynny gael y brechlyn. Yn benodol, mae byrddau iechyd eleni wedi gwneud llawer mwy o ymdrech i sicrhau bod y brechlyn ar gael yn y man gwaith. Ni allech fynd i mewn i amryw o'n hysbytai heb i staff gydnabod, a gweld, yn glir iawn y cyfle i gael brechiad cyflym yn eu gweithle. Unwaith eto, pan yr wyf yn sôn am weld y canlyniadau eleni, rwyf am weld faint ymhellach y caiff hynny ei gymryd, a gweld pa rwystrau sy’n dal i fodoli. Fel y dywedais, ar ôl inni fynd heibio i’r pwynt lle mae’r rhan fwyaf o bobl yn y GIG yn cael y brechlyn ffliw, rwyf yn meddwl y dechreuwn weld cynnydd cyflym pellach. Credaf fod yna drobwynt o gwmpas diwylliant o newid a derbyn yr hyn yw'r peth iawn i weithiwr unigol ei wneud, ond hefyd i weithiwr proffesiynol yn y gwasanaeth iechyd.

In terms of your point around those parts of Wales that have a lower than average uptake, we know that there is a range of factors that contribute to this. In terms of access to healthcare workers, for example access to a health visitor, often, that is about encouraging and reminding people to go and get their vaccine, rather than the health visitor providing the vaccine themselves. I have had this conversation already over the past week, to try to understand whether we are making the best use of our resources, and to ensure that, for all of those workers, when they are actually having contact with a patient, there is not an opportunity that is lost, and, at the same time, to make sure that the health record itself properly records who is giving the vaccine, and who is receiving it.

O ran eich pwynt ynghylch y rhannau hynny o Gymru sydd â nifer is na'r cyfartaledd, rydym yn gwybod bod amrywiaeth o ffactorau'n cyfrannu at hyn. O ran sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd ar gael, er enghraifft, ymwelydd iechyd, yn aml, mae hynny'n fater o annog ac atgoffa pobl i fynd a chael eu brechlyn, yn hytrach na bod yr ymwelydd iechyd yn darparu'r brechlyn ei hun. Rwyf wedi cael y sgwrs hon eisoes dros yr wythnos ddiwethaf, i geisio deall pa un a ydym yn defnyddio ein hadnoddau yn y ffordd orau, ac i sicrhau, i'r gweithwyr hynny i gyd, pan fyddant mewn cysylltiad â chlaf mewn gwirionedd, nad oes cyfle'n cael ei golli, ac, ar yr un pryd, i sicrhau bod y cofnod iechyd ei hun yn cofnodi'n gywir pwy sy'n rhoi'r brechlyn, a phwy sy'n ei gael.

On the final point, around the HPV vaccine, I am awaiting the advice of the joint committee on vaccination and immunisation regarding teenage boys. On the men who have sex with men, the interim recommendation, it was subject to the caveat on price. Again, there is a negotiation taking place around price, and I expect an announcement over the next year, to understand fully and properly whether we can make progress with that. It is something that I will be raising with health boards in the series of conversations that I continue to have with them, to make sure that they have plans in place, to make sure that they are able to take up the vaccine, if that recommendation is seen through, to properly deliver the vaccine to the appropriate target population.

O ran y pwynt olaf, ynglŷn â'r brechlyn HPV, rwyf yn aros am gyngor gan y cyd-bwyllgor ar imiwneiddio a brechu o ran bechgyn yn eu harddegau. O ran y dynion sy'n cael rhyw gyda dynion, yr argymhelliad dros dro, roedd yn amodol ar y cafeat ar bris. Unwaith eto, mae trafodaeth yn digwydd ynglŷn â'r pris, ac rwyf yn disgwyl cyhoeddiad yn ystod y flwyddyn nesaf, er mwyn deall yn llawn ac yn briodol pa un a allwn wneud cynnydd yn hynny o beth. Mae'n rhywbeth y byddaf yn ei godi gyda byrddau iechyd yn y gyfres o sgyrsiau yr wyf yn dal i'w cael gyda hwy, er mwyn sicrhau bod ganddynt gynlluniau ar waith, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar y brechlyn, os caiff yr argymhelliad hwnnw ei gadarnhau, i ddarparu'r brechlyn yn gywir i'r boblogaeth darged briodol.

15:34 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I also wanted to ask some questions about the human papillomavirus. I note your response to Kirsty Williams's question that you will be looking at over the next year whether HPV vaccinations will be introduced for men who have sex with men in Wales. I look forward to hearing what is the result of that.

Roeddwn innau hefyd eisiau gofyn rhai cwestiynau am y feirws papiloma dynol. Nodaf eich ymateb i gwestiwn Kirsty Williams y byddwch yn edrych yn ystod y flwyddyn nesaf i weld a gaiff brechiadau HPV eu cyflwyno ar gyfer dynion sy'n cael rhyw gyda dynion yng Nghymru. Edrychaf ymlaen at glywed beth fydd canlyniad hynny.

Following up that question, the Minister will be aware of the huge workload that there is for sexual health clinics. If the HPV vaccination were to be introduced, it would require extra resources, so I want to make that point. The other point I wanted to make was that, considering the higher prevalence of certain HPV-related cancers in HIV positive men and women, would the NHS here in Wales consider supporting HPV vaccines for its HIV positive patients?

I ddilyn y cwestiwn hwnnw, bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'r llwyth gwaith enfawr sydd gan glinigau iechyd rhywiol. Os caiff y brechiad HPV ei gyflwyno, byddai angen adnoddau ychwanegol arnynt, felly hoffwn wneud y pwynt hwnnw. Y pwynt arall yr oeddwn yn dymuno ei wneud oedd, o ystyried nifer uwch yr achosion o rai mathau o ganser sy'n gysylltiedig â HPV mewn dynion a menywod HIV positif, a fyddai'r GIG yma yng Nghymru yn ystyried cefnogi brechlynnau HPV i'w cleifion HIV positif?

15:35 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I would like to thank the Member for those questions. I suspect that when we get to the end point of the joint committee's work on the role of the vaccine for men who have sex with men, the questions that you raise will be dealt with, in terms of whether we should proceed with those people who are HIV positive as well, because it is part of the work that is actually being considered.

Hoffwn ddiolch i'r Aelod am y cwestiynau yna. Rwyf yn amau, pan gyrhaeddwn ddiwedd gwaith y cyd-bwyllgor ar roi'r brechlyn i ddynion sy'n cael rhyw gyda dynion, y bydd y cwestiynau yr ydych yn eu codi wedi cael sylw, o ran pa un a ddylem fwrw ymlaen â'r bobl hynny sy'n HIV positif hefyd, oherwydd mae'n rhan o'r gwaith sy'n cael ei ystyried mewn gwirionedd.

On the points that you make around resourcing for GUM clinics if the vaccine is going to be delivered, then that is a conversation that I need to have with health boards about what their current resourcing is like. We would expect there to be a reduction in resource if the vaccine is delivered—or a reduction in need if the vaccine is delivered. So, it is a conversation that I would need to have as part of the regular conversation on performance and delivery with each of our health board partners.

O ran y pwyntiau a wnewch ynghylch adnoddau ar gyfer clinigau GUM os caiff y brechlyn ei gyflwyno, mae angen imi gael y sgwrs honno gyda byrddau iechyd ynglŷn â'u hadnoddau presennol. Byddem yn disgwyl gweld gostyngiad mewn adnoddau os caiff y brechlyn ei ddarparu—neu ostyngiad mewn angen os caiff y brechlyn ei ddarparu. Felly, mae'n sgwrs y byddai angen imi ei chael yn rhan o'r sgwrs reolaidd am berfformiad a darpariaeth gyda phob un o'n partneriaid byrddau iechyd.

15:36

## David Rees Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I join with Darren Millar in congratulating the Welsh Government on its vaccination programme, but I have a couple of quick questions. On MMR, you highlighted that, at age 16, we are hitting the targets, but when you were asked about the older age range of children, you indicated that there was more responsibility. However, I must highlight that one individual who lost his life during the last outbreak was in his 20s. So, that is an age range that we must look at. What are you doing to hit all age groups that missed out on the MMR vaccination during that period of time?

Rwyf yn ymuno â Darren Millar i longyfarch Llywodraeth Cymru ar eu rhaglen frechu, ond mae gennyf un neu ddau o gwestiynau cyflym. Ynglŷn ag MMR, fe wnaethoch dynnu sylw at y ffaith ein bod yn taro'r targedau yn 16 oed, ond pan ofynnwyd i chi am blant hŷn, dywedasoch fod mwy o gyfrifoldeb. Fodd bynnag, mae'n rhaid imi dynnu sylw at y ffaith bod un unigolyn a gollodd ei fywyd yn ystod yr achosion diwethaf yn ei 20au. Felly, mae'n rhaid inni edrych ar yr ystod oedran honno. Beth yr ydych chi'n ei wneud i daro pob grŵp oedran na chawsant y brechiad MMR yn ystod y cyfnod hwnnw?

Also, in 2012, the Public Health Wales Observatory indicated that children in more deprived areas were 9% less likely to receive vaccinations. What are you doing to target those particular hard-to-reach groups to ensure that vaccination is being focused on those young people, and that they will also hit those levels? It is not just the BAME—black, Asian and minority ethnic; we need to focus upon all areas in this, and perhaps the Travellers groups as well because, again, they are very difficult to reach. So, what are you doing to tackle those areas?

Hefyd, yn 2012, nododd Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru fod plant mewn ardaloedd mwy difreintiedig 9% yn llai tebygol o gael brechiadau. Beth yr ydych chi'n ei wneud i dargedu'r grwpiau penodol hynny sy'n anodd eu cyrraedd i sicrhau bod y brechiad yn cael ei ganolbwyntio ar y bobl ifanc hynny, ac y byddant hefyd yn taro'r lefelau hynny? Nid dim ond y rhai BAME—du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig; mae angen inni ganolbwyntio ar bob maes yn hyn o beth, ac efallai ar y grwpiau Teithwyr hefyd oherwydd, unwaith eto, maent yn anodd iawn eu cyrraedd. Felly, beth yr ydych chi'n ei wneud i ymdrin â'r meysydd hynny?

15:37

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank David Rees for those two questions. On the point around all age groups, part of our challenge is—and this is the point that I am making—that, when you get to 17 and 18-year-olds, they have had all of their reminders at that point and they are making a choice, effectively. It is difficult, as you cannot require people to come and take the vaccinations that are made available. Thinking about the outbreak in Swansea in 2013, there was significant publicity at the time, encouraging people to come forward to have the vaccine. We have a very real challenge in reaching a number of those people who are in early adulthood and who have decided not to have the vaccine. Part of this goes back to the conversations that should take place with parents, in particular, the parents of young children. Many of them will be in that age group themselves—the same sort of age as the person who died in the Swansea area in 2013.

Diolch i David Rees am y ddau gwestiwn. Ar y pwynt ynglŷn â phob grŵp oedran, rhan o'n her yw—a dyma'r pwynt yr wyf yn ei wneud—pan fyddwch yn cyrraedd pobl ifanc 17 a 18 oed, maent wedi cael eu holl nodiadau atgoffa ar yr adeg honno ac maent yn gwneud dewis, i bob pwrpas. Mae'n anodd, gan nad ydych yn gallu ei gwneud yn ofynnol i bobl ddod a chael y brechiadau sydd ar gael. Gan feddwl am yr achosion yn Abertawe yn 2013, cafwyd llawer o gyhoeddusrwydd ar y pryd, yn annog pobl i ddod i gael y brechlyn. Mae gennym her wirioneddol iawn i gyrraedd nifer o'r bobl hynny sydd yn oedolion ifanc ac sydd wedi penderfynu peidio â chael y brechlyn. Mae rhan o hyn yn mynd yn ôl at y sgyrsiau a ddylai ddigwydd gyda rhieni, yn enwedig rhieni plant ifanc. Bydd llawer ohonynt yn y grŵp oedran hwnnw eu hunain—yr un math o oedran â'r unigolyn a fu farw yn ardal Abertawe yn 2013.

Also, it is about the conversation around the effectiveness of the uptake in different parts of the country. We know that there is a relationship between deprivation and uptake of a range of health measures, including vaccination, and this is part of what I expect to see health boards delivering. It goes back to the question that Kirsty Williams raised on the differential in uptake in different parts of Wales. So, when I go and have the conversation with health boards around what they are actually doing, it will not just be about the headline rate; it will also be about in which parts of the health board area do they recognise there is a differential level of achievement and then what are they doing about it. I am not just interested in understanding the description of the challenge that they have; I am much more interested in then understanding what they are going to do to take up that challenge. It is a target for them, it is part of what they have planned for, and it is part of what I expect them to achieve in ensuring that there is genuine all-Wales coverage, so that all of our citizens and communities have the excellent protection that is afforded by vaccination.

Mae hefyd yn ymwneud â'r sgwrs ynglŷn ag effeithiolrwydd cael y brechiad mewn gwahanol rannau o'r wlad. Rydym yn gwybod bod cysylltiad rhwng amddifadedd a’r niferoedd sy'n manteisio ar amryw o fesurau iechyd, gan gynnwys brechu, ac mae hynny yn rhan o'r hyn yr wyf yn disgwyl gweld byrddau iechyd yn ei gyflawni. Mae'n mynd yn ôl at y cwestiwn a ofynnodd Kirsty Williams am y gwahaniaeth yn y niferoedd mewn gwahanol rannau o Gymru. Felly, pan fyddaf yn mynd a chael y sgwrs gyda byrddau iechyd ynghylch yr hyn y maent yn ei wneud mewn gwirionedd, ni fydd yn ymwneud â'r brif gyfradd yn unig; bydd hefyd yn ymwneud â'r rhannau o ardal y bwrdd iechyd lle maent yn cydnabod bod lefel wahaniaethol o gyflawniad ac yna beth maent yn ei wneud am hynny. Nid dim ond mater o ddeall y disgrifiad o'r her sy’n eu hwynebu yw hyn; mae gennyf lawer mwy o ddiddordeb mewn deall wedyn beth maent yn mynd i'w wneud i ateb yr her honno. Mae'n darged iddynt, mae'n rhan o'r hyn y maent wedi cynllunio ar ei gyfer, ac mae'n rhan o'r hyn yr wyf yn disgwyl iddynt ei gyflawni i sicrhau bod hyn yn cael sylw gwirioneddol ledled Cymru, fel bod pob un o'n dinasyddion a'n cymunedau’n cael yr amddiffyniad rhagorol a roddir gan frechu.

15:39

## Datganiad: Rhaglen Twf Swyddi Cymru yn y Dyfodol

## Statement: Jobs Growth Wales Future Programme

Y

Senedd.tv
Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call the Deputy Minister for Skills and Technology.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg.

15:39

### Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

I welcome the opportunity today to provide an update on the success of the Jobs Growth Wales programme and its future delivery. The Jobs Growth Wales programme, supported by European Union structural funds, demonstrates how this Government’s policies are not only reducing youth unemployment levels across Wales faster than in most other regions of the UK, but are also actively improving the opportunities available to young people to contribute to the Welsh economy.

Rwyf yn croesawu'r cyfle heddiw i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am lwyddiant rhaglen Twf Swyddi Cymru a'i darpariaeth yn y dyfodol. Mae rhaglen Twf Swyddi Cymru, a gefnogir gan gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, yn dangos bod polisïau’r Llywodraeth hon, yn ogystal â lleihau lefelau diweithdra ymhlith pobl ifanc ledled Cymru yn gyflymach nag yn y rhan fwyaf o ranbarthau eraill y DU, yn mynd ati hefyd i wella'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl ifanc i gyfrannu at economi Cymru.

I am extremely pleased to report that, by September 2014, Jobs Growth Wales had already achieved its third-year target by creating and filling over 12,000 additional jobs for unemployed young people across Wales. This exceeds all expectations by hitting the target six months earlier than planned.

Rwyf yn hynod falch o ddweud bod Twf Swyddi Cymru, erbyn mis Medi 2014, eisoes wedi cyflawni ei darged trydedd flwyddyn drwy greu a llenwi dros 12,000 o swyddi ychwanegol i bobl ifanc ddi-waith ledled Cymru. Mae hyn yn rhagori ar bob disgwyliad gan daro’r targed chwe mis ynghynt na'r disgwyl.

This EU-funded programme is aimed at young people aged 16 to 24 who are job-ready and potentially entering employment for the first time. Jobs Growth Wales provides them with a good-quality experience of work, and supports their progression into sustained employment. Without the support of this programme, these young people may otherwise have encountered long spells of unemployment, which we know can have a particularly scarring and detrimental effect on young people psychologically, as well as having an impact on their long-term health and their ability to secure employment in later life. The Welsh Government could not, and would not, stand back and accept that young people could end up facing long spells of unemployment simply because they have no work experience—a key factor when employers are looking to recruit—and this is why we introduced the programme.

Mae’r rhaglen hon a ariennir gan yr UE wedi ei hanelu at bobl ifanc 16 i 24 mlwydd oed sy'n barod i gael swydd ac o bosibl yn mynd i gyflogaeth am y tro cyntaf. Mae Twf Swyddi Cymru’n rhoi profiad gwaith o ansawdd da, ac yn eu cefnogi i symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy. Heb gefnogaeth y rhaglen hon, efallai y byddai’r bobl ifanc hyn fel arall wedi wynebu cyfnodau hir o ddiweithdra; gwyddom y gall hynny gael effaith arbennig o niweidiol ac andwyol ar bobl ifanc yn seicolegol, yn ogystal â chael effaith ar eu hiechyd hirdymor a'u gallu i sicrhau cyflogaeth yn ddiweddarach mewn bywyd. Ni allai Llywodraeth Cymru, ac nid oedd yn fodlon, sefyll yn ôl a derbyn y gallai pobl ifanc wynebu cyfnodau hir o ddiweithdra dim ond am nad oes ganddynt brofiad gwaith—ffactor allweddol pan fo cyflogwyr yn recriwtio—a dyna pam y gwnaethom gyflwyno'r rhaglen.

The latest statistics show that well over 16,000 job opportunities have been created and over 12,700 young people have been employed. In the programme's largest private sector strand, nearly 10,000 young people have successfully filled Jobs Growth Wales job opportunities, and 83% of these young people have progressed into sustained employment or further learning upon completion of their six-month opportunity. This compares with our original target of 70% positive progression for those completing the full six months. I am sure that you will agree that this is a significant achievement.

Mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod ymhell dros 16,000 o gyfleoedd gwaith wedi'u creu a bod dros 12,700 o bobl ifanc wedi eu cyflogi. Yn llinyn sector preifat mwyaf y rhaglen, mae bron i 10,000 o bobl ifanc wedi llenwi cyfleoedd gwaith Twf Swyddi Cymru'n llwyddiannus, ac mae 83% o'r bobl ifanc hyn wedi symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy neu ddysgu pellach ar ôl cwblhau eu cyfle chwe mis. Mae hyn yn cymharu â'n targed gwreiddiol o ddilyniant cadarnhaol o 70% i'r rheini sy'n cwblhau'r chwe mis llawn. Rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno bod hyn yn gyflawniad sylweddol.

Jobs Growth Wales also continues to play an instrumental part in developing a culture of entrepreneurship in Wales. To date, nearly 400 young people have started up new businesses in Wales with support through this programme, providing our young people with both the funding and start-up support to get their business off the ground. It is a winning formula and, as these figures show, we have had a fantastic response, especially considering that our target for creating new businesses this year was initially 200.

Mae Twf Swyddi Cymru hefyd yn parhau i chwarae rhan allweddol yn y broses o ddatblygu diwylliant o entrepreneuriaeth yng Nghymru. Hyd yn hyn, mae bron i 400 o bobl ifanc wedi dechrau busnesau newydd yng Nghymru gyda chymorth drwy'r rhaglen hon, gan roi i'n pobl ifanc y cyllid a'r cymorth dechrau busnes i gychwyn eu busnes. Mae'n fformiwla llwyddiannus ac, fel y mae'r ffigurau hyn yn ei ddangos, rydym wedi cael ymateb gwych, yn enwedig o ystyried mai ein targed gwreiddiol ar gyfer creu busnesau newydd eleni oedd 200.

Jobs Growth Wales has made a significant contribution to growth in the Welsh economy. Employers of all sizes have engaged with the programme, and we have received feedback on how well the Jobs Growth Wales participants have progressed since taking up their six-month opportunity and on the difference that young people have made in helping employers to expand their businesses. Well over 5,000 companies have taken on young people through Jobs Growth Wales, with small and medium-sized enterprises and microbusinesses by far the largest beneficiaries. In fact, 98% of employers engaged in the programme have been SMEs or microbusinesses. Without support through the programme, these employers may not have been in a position to take on extra staff, but this is where Jobs Growth Wales really comes into its own: it is a catalyst for growth.

Mae Twf Swyddi Cymru wedi gwneud cyfraniad sylweddol at dwf yn economi Cymru. Mae cyflogwyr o bob maint wedi ymgysylltu â'r rhaglen, ac rydym wedi cael adborth am ba mor dda y mae cyfranogwyr Twf Swyddi Cymru wedi datblygu ers dechrau ar eu cyfle chwe mis ac am y gwahaniaeth y mae pobl ifanc wedi'i wneud i helpu cyflogwyr i ehangu eu busnesau. Mae ymhell dros 5,000 o gwmnïau wedi cyflogi pobl ifanc drwy Twf Swyddi Cymru, a busnesau bach a chanolig a microfusnesau oedd y buddiolwyr mwyaf o bell ffordd. Yn wir, roedd 98% o gyflogwyr a gymerodd ran yn y rhaglen yn fusnesau bach a chanolig neu'n ficrofusnesau. Heb gefnogaeth drwy'r rhaglen, efallai na fyddai'r cyflogwyr hyn wedi bod mewn sefyllfa i gyflogi staff ychwanegol, ond dyma lle mae Twf Swyddi Cymru'n gwneud ei waith gorau: fel catalydd ar gyfer twf.

Jobs Growth Wales not only provides a valuable career opportunity, it enables young people to gain the essential skills that employers are looking for, and provides a key progression route for young people. The proportion of young people who have progressed into an apprenticeship after completing their Jobs Growth Wales opportunity in the private sector strand is about 25%. This progression provides a long-term commitment to continued employment from the employer, and a structured route into a skilled profession for the young person—for many their first step into a real career opportunity.

Yn ogystal â darparu cyfle gwerthfawr i gael gyrfa, mae Twf Swyddi Cymru'n galluogi pobl ifanc i feithrin y sgiliau hanfodol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, ac yn darparu llwybr dilyniant allweddol i bobl ifanc. Mae cyfran y bobl ifanc sydd wedi symud ymlaen i brentisiaeth ar ôl cwblhau eu cyfle Twf Swyddi Cymru yn y llinyn sector preifat tua 25%. Mae'r dilyniant hwn yn darparu ymrwymiad hirdymor i gyflogaeth barhaus gan y cyflogwr, a llwybr strwythuredig i mewn i broffesiwn medrus i'r person ifanc—i lawer, eu cam cyntaf i mewn i gyfle gyrfa go iawn.

Joining up our training and employability programmes is helping to create a seamless progression path that provides young people with long-term prospects, with young people gaining accredited training and qualifications recognised by industry and highly valued by employers. An independent evaluation has been commissioned, and an interim report and findings were published on 16 September 2014. That report indicates that Jobs Growth Wales has not only exceeded its targets but protected thousands of young people across Wales from the damaging effects of long-term unemployment. The evaluation found that employers have expanded their workforce more rapidly than they would otherwise have done, that young people have been in work longer on average when supported through Jobs Growth Wales, that the programme is delivering against targets well ahead of its schedule, that more than a quarter of those finding work through Jobs Growth Wales would not have done so without the programme, and, at this stage, the short-term economic benefits of Jobs Growth Wales could be as much as £24.6 million.

Mae uno ein rhaglenni hyfforddi a chyflogadwyedd yn helpu i greu llwybr dilyniant di-dor sy'n rhoi rhagolygon hirdymor i bobl ifanc; mae pobl ifanc yn cael hyfforddiant a chymwysterau achrededig a gydnabyddir gan ddiwydiant ac a werthfawrogir yn fawr gan gyflogwyr. Mae gwerthusiad annibynnol wedi'i gomisiynu, a chyhoeddwyd adroddiad a chanfyddiadau dros dro ar 16 Medi 2014. Mae'r adroddiad hwnnw'n nodi bod Twf Swyddi Cymru nid yn unig wedi rhagori ar ei dargedau, ond wedi amddiffyn miloedd o bobl ifanc ledled Cymru rhag effeithiau niweidiol diweithdra hirdymor. Canfu'r gwerthusiad fod cyflogwyr wedi ehangu eu gweithlu'n gyflymach nag y byddent wedi'i wneud fel arall, bod pobl ifanc a gafodd gymorth Twf Swyddi Cymru wedi bod mewn gwaith yn hirach ar gyfartaledd, bod y rhaglen yn cyflawni targedau ymhell o flaen ei hamserlen, y byddai mwy na chwarter y rheini sy'n dod o hyd i waith drwy Twf Swyddi Cymru wedi methu â gwneud hynny heb y rhaglen, ac, ar hyn o bryd, y gallai buddion economaidd tymor byr Twf Swyddi Cymru fod cymaint â £24.6 miliwn.

We have fully considered the report's recommendations and, where improvements can be made, we are making them. The programme aims and objectives will fundamentally stay the same, but we will build on the success of the programme and implement changes where we have learned lessons from the first three years of delivery. We will streamline the programme to maximise the potential for individuals to progress into sustained employment with employers that have identified opportunities for business growth. It is envisaged that the majority of job opportunities would continue to be created in the private sector, as this has demonstrated the most success in progressing young people into sustained employment. We will enhance the level of mentoring available to participants. Young people and their employers will receive the right level of support to enable them to complete their job opportunity so that they can progress into sustained employment at the end of the six-month period. We will work more closely with employers to ensure unsuccessful candidates receive appropriate feedback where necessary, which will help those young people progress future job applications.

Rydym wedi ystyried yn llawn argymhellion yr adroddiad, ac rydym yn gwneud gwelliannau lle y bo'n bosibl. Bydd nodau ac amcanion sylfaenol y rhaglen yn aros yr un fath, ond byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y rhaglen ac yn rhoi newidiadau ar waith lle'r ydym wedi dysgu gwersi o'r tair blynedd gyntaf o ddarparu. Byddwn yn symleiddio'r rhaglen i wneud y mwyaf o'r potensial i unigolion i symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy gyda chyflogwyr sydd wedi nodi cyfleoedd ar gyfer twf busnes. Rhagwelir y byddai'r rhan fwyaf o gyfleoedd gwaith yn parhau i gael eu creu yn y sector preifat, gan mai dyma sut y cafwyd y llwyddiant mwyaf wrth sicrhau cyflogaeth gynaliadwy i bobl ifanc. Byddwn yn gwella lefel y mentora sydd ar gael i gyfranogwyr. Bydd pobl ifanc a'u cyflogwyr yn cael y gefnogaeth gywir i'w galluogi i gwblhau eu cyfle am swydd fel y gallant symud ymlaen i gyflogaeth gynaliadwy ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis. Byddwn yn gweithio'n agosach gyda chyflogwyr i sicrhau bod ymgeiswyr aflwyddiannus yn cael adborth priodol pan fo angen, a fydd yn helpu'r bobl ifanc hynny i wneud ceisiadau am swyddi yn y dyfodol.

I am confident that we are on course to achieve the programme's target of filling 16,000 job opportunities over four years. Our absolute priority in these tough times is to stand up for the young people of Wales, to create jobs and enable growth. The success of this EU-funded programme proves that we are doing just that.

Rwyf yn hyderus ein bod ar y trywydd iawn i gyrraedd targed y rhaglen o lenwi 16,000 o gyfleoedd swyddi dros bedair blynedd. Ein blaenoriaeth bendant yn y cyfnod anodd hwn yw sefyll dros bobl ifanc Cymru, creu swyddi a galluogi twf. Mae llwyddiant y rhaglen hon a ariennir gan yr UE yn profi ein bod yn gwneud yn union hynny.

15:45

## William Graham Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We welcome the statement from the Deputy Minister and congratulate her on work well done, but we still have questions about the programme itself. In her statement, there is a well worthwhile commitment to enhance the level of mentoring available for participants. In the committee's visit to Swansea last week, one of the things that we spoke most particularly to young people about and one of the things that they complained about was that they lacked work experience. Although they recognised that Jobs Growth Wales has done wonders, the scheme is not quite the success it is made out to be, and questions need to be answered.

Rydym yn croesawu'r datganiad gan y Dirprwy Weinidog ac yn ei llongyfarch ar ei gwaith da, ond mae gennym gwestiynau o hyd am y rhaglen ei hun. Yn ei datganiad, ceir ymrwymiad gwerth chweil i wella lefel y mentora sydd ar gael i gyfranogwyr. Yn ystod ymweliad y pwyllgor ag Abertawe yr wythnos diwethaf, un o'r pethau y buom yn siarad yn fwyaf arbennig â phobl ifanc amdano ac un o'r pethau yr oeddent yn cwyno amdano oedd eu diffyg profiad gwaith. Er eu bod yn cydnabod bod Twf Swyddi Cymru wedi gwneud gwyrthiau, nid yw'r cynllun yn gymaint o lwyddiant ag yr awgrymir, ac mae angen ateb cwestiynau.

Job creation is hugely important to the Welsh economy, and where this works it will be welcomed. However, there are question marks over Jobs Growth Wales, particularly following a recent high-profile report that criticised its effectiveness. Improvements should be made where required and clarity provided on the significant and damaging in-year cuts. The interim evaluation report released in September, which is referred to you in your statement, showed that some key elements of research indicate that it is not the magic bullet that Welsh Government claimed it to be.

Mae creu swyddi'n hynod o bwysig i economi Cymru, a lle mae hyn yn gweithio, caiff ei groesawu. Fodd bynnag, mae marciau cwestiwn ynglŷn â Twf Swyddi Cymru, yn enwedig yn dilyn adroddiad diweddar uchel ei broffil a oedd yn beirniadu ei effeithiolrwydd. Dylid gwella pethau pan fo angen a darparu eglurder ar y toriadau yn ystod y flwyddyn sylweddol a niweidiol. Roedd yr adroddiad gwerthuso dros dro a ryddhawyd ym mis Medi, y cyfeirir ato yn eich datganiad, yn dangos bod rhai elfennau allweddol o waith ymchwil yn dangos nad yw Twf Swyddi Cymru yn darparu'r ateb cyflawn yr oedd Llywodraeth Cymru yn honni ei fod yn ei wneud.

The Deputy Minister gives us great reassurance in her statement, but we would recognise that there are far more questions to be asked in terms of creating a really successful jobs growth programme.

Mae'r Dirprwy Weinidog yn rhoi tawelwch meddwl da inni yn ei datganiad, ond byddem yn cydnabod bod llawer mwy o gwestiynau i'w gofyn o ran creu rhaglen twf swyddi wirioneddol lwyddiannus.

15:46

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you. I am not too sure what questions were being asked there, but I will just reiterate what I said. We accept that more mentoring needs to take place in some of the job opportunities, but I emphasise that this programme is for job-ready youngsters with no work experience. It is not for youngsters who are furthest away from the job market; we have other programmes that are designed to help people such as that. This programme is designed to help those people who have the skills on paper but do not have the practical experience.

Diolch. Nid wyf yn rhy siŵr pa gwestiynau yr oeddech yn eu gofyn, ond rwyf am ailadrodd yr hyn a ddywedais. Rydym yn derbyn bod angen mwy o fentora mewn rhai o'r cyfleoedd gwaith, ond rwyf yn pwysleisio mai rhaglen i bobl ifanc sy'n barod am swydd ond nad oes ganddynt brofiad gwaith yw hon. Nid yw ar gyfer pobl ifanc sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad swyddi; mae gennym raglenni eraill sydd wedi'u cynllunio i helpu pobl fel hwy. Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i helpu'r bobl hynny sy'n meddu ar y sgiliau ar bapur ond nad oes ganddynt y profiad ymarferol.

We accept the issue about mentoring to keep some people in work. Although the success rate is very high, we do have people who fall out of the job opportunities. I will just explain for the benefit of the Member and other Members in the Chamber that one of the difficulties of getting these statistics quite right is that where a job opportunity is created and a young person takes that job, if that job opportunity does not go the full six months, we often replace them by giving another young person that job opportunity. So, it is difficult to marry the job opportunity figures with the numbers of young people entering the Jobs Growth Wales programme and the number of people falling out of it, because they do not match equally.

Rydym yn derbyn y mater ynglŷn â mentora i gadw rhai pobl mewn gwaith. Er bod y gyfradd lwyddiant yn uchel iawn, mae gennym rai pobl sy'n syrthio allan o'r cyfleoedd gwaith. Rhof eglurhad er budd yr Aelod ac Aelodau eraill yn y Siambr mai un o'r anawsterau o gael yr ystadegau hyn yn hollol iawn yw, pan gaiff cyfle am swydd ei greu a phan fo person ifanc yn cymryd y swydd honno, os nad yw'r cyfle am swydd yn digwydd am y chwe mis llawn, rydym yn aml yn rhoi'r cyfle hwnnw am swydd i berson ifanc arall yn lle'r un cyntaf. Felly, mae'n anodd cyfuno'r ffigurau cyfleoedd swydd â niferoedd y bobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r rhaglen Twf Swyddi Cymru a nifer y bobl sy'n syrthio allan ohono, oherwydd nid ydynt yn cyd-fynd yn gyfartal.

Nevertheless, we are providing better feedback to unsuccessful people who do not complete their six-month programme, we are providing better feedback to young people who do not get on the programme in the first place, we are providing more mentoring for those who require it on the programme to make sure that they are able to stay in the programme for as long as possible, and we continue to scrutinise employers with vigour to ensure that this is not a way of getting cheap labour, but a way of growing their business and of ensuring that the young person gets a sustainable job opportunity.

Serch hynny, rydym yn darparu gwell adborth i bobl aflwyddiannus nad ydynt yn cwblhau eu rhaglen chwe mis, rydym yn darparu gwell adborth i bobl ifanc nad ydynt yn cael mynd ar y rhaglen yn y lle cyntaf, rydym yn darparu mwy o fentora i'r rhai sydd â'i angen ar y rhaglen i wneud yn siŵr eu bod yn gallu aros yn y rhaglen am gyhyd ag y bo modd, ac rydym yn parhau i graffu'n frwd ar gyflogwyr i sicrhau nad ffordd o gael llafur rhad yw hyn, ond ffordd o dyfu eu busnes ac o sicrhau bod y person ifanc yn cael cyfle am swydd gynaliadwy.

15:48

## Mike Hedges Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Minister, I begin by welcoming your statement today. The success of Jobs Growth Wales has been quite staggering. At the last monthly count, 1,400 job opportunities have been created in my authority of Swansea since the scheme began, with 960 of these having already being filled.

Ddirprwy Weinidog, dechreuaf drwy groesawu eich datganiad heddiw. Mae llwyddiant Twf Swyddi Cymru wedi bod yn dra syfrdanol. Ar y cyfrif misol diwethaf, mae 1,400 o gyfleoedd swyddi wedi'u creu yn fy awdurdod sef Abertawe ers i'r cynllun ddechrau, a 960 o'r rhain eisoes wedi eu llenwi.

It is important to remember that many of these young people, job-ready as they were before they entered the programme, were at significant risk of having the economic slowdown tear a damaging hole in their future. Many of the young people that I have spoken to in my constituency would have had their careers irreparably damaged by a sustained period of under-employment. It was only last week I met a constituent who was in tears of joy because she had joined a Jobs Growth Wales scheme when she thought she was going to be unemployed. This is an important point to make to those in Chamber who inexplicably still seem sceptical of the programme's value. Perhaps they need to meet people like my constituent.

Mae'n bwysig cofio bod llawer o'r bobl ifanc hyn, er eu bod yn barod am swydd cyn mynd i mewn i'r rhaglen, mewn perygl difrifol o ddioddef twll niweidiol yn eu dyfodol o ganlyniad i'r arafu economaidd. Byddai gyrfaoedd llawer o'r bobl ifanc yr wyf wedi siarad â hwy yn fy etholaeth i wedi'u difrodi'n anadferadwy gan gyfnod parhaus o dangyflogaeth. Dim ond yr wythnos diwethaf, cyfarfûm ag etholwr a oedd mewn dagrau o lawenydd am ei bod wedi ymuno â chynllun Twf Swyddi Cymru pan yr oedd yn credu ei bod yn mynd i fod yn ddi-waith. Mae hwn yn bwynt pwysig i'w wneud i'r rheini yn y Siambr sydd, am ryw reswm anesboniadwy, yn dal i ymddangos yn amheus o werth y rhaglen. Efallai fod angen iddynt gwrdd â phobl fel fy etholwr i.

Deputy Minister, will you commit to looking further in the final evaluation for a way in which we can better understand the true impact of Jobs Growth Wales, maybe by looking at the type of work that young people went into and the quality of the jobs they found?

Ddirprwy Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i edrych ymhellach yn y gwerthusiad terfynol am ffordd y gallwn gael gwell dealltwriaeth o wir effaith Twf Swyddi Cymru, efallai drwy edrych ar y math o waith a aeth pobl ifanc i mewn iddo ac ansawdd y swyddi a gawsant?

15:49

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Mike Hedges for that important question. I have met an enormous number of businesses and young people who are overjoyed with how the programme has worked for them. I have met many young people who started a six-month opportunity with Jobs Growth Wales only to be promoted by the employer where they had been placed, for other youngsters to take their place, and for the employer to have grown considerably faster than they could possibly have dreamed of before Jobs Growth Wales came along.

Rwyf yn diolch i Mike Hedges am y cwestiwn pwysig yna. Rwyf wedi cyfarfod â nifer enfawr o fusnesau a phobl ifanc sydd wrth eu boddau â sut y mae'r rhaglen wedi gweithio ar eu cyfer. Rwyf wedi cwrdd â llawer o bobl ifanc a ddechreuodd ar gyfle chwe mis gyda Twf Swyddi Cymru ond a gafodd ddyrchafiad gan y cyflogwr lle cawsant eu gosod, a bod pobl ifanc eraill yn cymryd eu lle, a bod y cyflogwyr hyn yn profi twf sylweddol cyflymach nag y gallent byth fod wedi breuddwydio amdano cyn i Twf Swyddi Cymru ymddangos.

Nevertheless, it is very important for us to understand exactly what is happening, so, in the final arm of the evaluation report that we commissioned, we are going to be looking at the economic impact for the businesses as well as for the young people. Remember that this is a European-funded programme—this is designed to help young people and the very good economic impact is a side-effect, if you like, though not to be ignored. We nevertheless would like to understand its full impact, and, as I just said in answer to William Graham, we will also be looking at improved mentoring and better feedback so that we can ensure that the programme delivers the very best that is can.

Serch hynny, mae'n bwysig iawn ein bod yn deall beth yn union sy'n digwydd, felly, yn rhan olaf yr adroddiad gwerthuso a gomisiynwyd gennym, byddwn yn edrych ar yr effaith economaidd ar y busnesau, yn ogystal ag ar y bobl ifanc. Cofiwch mai rhaglen yw hon sy'n cael ei hariannu drwy gyllid Ewropeaidd—ei diben yw helpu pobl ifanc, a sgil-effaith yw'r effaith economaidd dda iawn, os mynnwch chi, er na ddylid ei hanwybyddu. Byddem serch hynny'n dymuno deall ei heffaith lawn, ac, fel yr wyf newydd ei ddweud wrth ateb William Graham, byddwn hefyd yn edrych ar well mentora a gwell adborth fel y gallwn sicrhau bod y rhaglen yn darparu'r canlyniadau gorau posibl.

15:50

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad, ond mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn siomedig braidd â chynnwys y datganiad heddiw. Mae'r wybodaeth sydd yn y datganiad i gyd yn wybyddus ers deufis bellach, ers i'r gwerthusiad dros dro gael ei gyhoeddi, a byddwn i wedi gobeithio clywed gan y Llywodraeth heddiw fwy ynglŷn â sut y mae Twf Swyddi Cymru yn mynd i ddatblygu, a beth yw'r ffordd ymlaen.

I thank the Deputy Minister for her statement, but I have to say that I am a little disappointed with the content of today's statement. The information contained within the statement has been in the public domain for two months now, since the interim evaluation was published, and I would like to have heard more from the Government today about how Jobs Growth Wales is to develop and about the way forward for Jobs Growth Wales.

Nid wyf yn bwriadu ailadrodd beth sydd yn y datganiad nac yn y gwerthusiad o ran y cynnwys na'r cwestiynau ynglŷn â'r cynnwys, gan nad wyf yn meddwl y byddai hynny'n fuddiol iawn. Fe wnaf fi ddechrau drwy ddweud yn glir iawn fy mod i a Phlaid Cymru o'r farn bod cynllun tebyg i Dwf Swyddi Cymru, yn y cyd-destun yr oedd Llywodraeth Cymru ynddo ar ddechrau'r Llywodraeth bresennol, yn gwbl briodol. Roedd angen cynllun o'r fath yma, gyda diweithdra ymysg pobl ifanc a chyda dirwasgiad. Yr hyn y mae profiad a'r gwerthusiad yn ei ddangos yw bod pethau yn newid, ac mae gyda chi erbyn hyn sefyllfa lle mae tri chwarter y bobl sydd yn rhan o Dwf Swyddi Cymru yn rhai a fyddai wedi cael swyddi beth bynnag. Mae gennych chi sefyllfa lle mae'r cyflog yr awr, ar gyfartaledd, yn Nhwf Swyddi Cymru yn is na £6 yr awr, ac mae dyn yn edrych felly ar benderfyniad y gwerthusiad a ddywedodd yn y lle cyntaf, yng ngeiriad y gwerthusiad yn Saesneg:

I do not intend to reiterate what is in the statement or in the evaluation of the programme in terms of the content or the questions regarding that content, as I do not think that that would be beneficial. However, I will say very clearly at the outset that I and Plaid Cymru are of the view that a scheme such as Jobs Growth Wales, given the context in which the Welsh Government was in at the beginning of its term of office, was quite appropriate. We needed this sort of scheme in place, given youth unemployment levels and the recession. However, experience and the evaluation of Jobs Growth Wales have shown that things change, and you now have a situation where three quarters of the people in Jobs Growth Wales are people who would have found employment in any case. You have a situation where average earnings per hour under Jobs Growth Wales are less than £6 an hour, and one therefore looks at the evaluation, which said that

'Public intervention may be justified'.

'Efallai y gellir cyfiawnhau ymyrraeth gyhoeddus'.

gan ofyn y cwestiwn ynghylch a oes angen y fath yma o ymyrraeth erbyn hyn, neu a ddylid newid cynllun Twf Swyddi Cymru yn fwy sylweddol na'r hyn sydd wedi digwydd.

but then asks the question of whether this sort of intervention is required now or whether there should be a more substantial change to Jobs Growth Wales than has actually occurred.

Felly, mae gen i ddau neu dri chwestiwn penodol ynglŷn â datganiad y Dirprwy Weinidog heddiw ynglŷn â rhai pethau nad yw hi wedi'u dweud. Nid oes dim byd yn y datganiad pellach ynglŷn â'r wyneb rhwng Twf Swyddi Cymru a'r Rhaglen Waith; mae hynny'n broblem, ac mae wedi bod yn broblem ers y cychwyn, ynglŷn â gwario arian dwbl ac ati. A oes mwy wedi cael ei wneud i sicrhau bod mwy o gydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a rhai o'r asiantaethau sydd heb eu datganoli—y Rhaglen Waith yn benodol?

Therefore, I have two or three specific questions on today's statement in relation to certain things that were not included. There is nothing in the statement on the interface between Jobs Growth Wales and the Work Programme. That has been a problem from the outset in terms of duplicating expenditure and so on. Has more been done to ensure greater collaboration between the Welsh Government and some of the agencies that are non-devolved, and the Work Programme specifically?

Yn ail, roedd penderfyniad neu argymhelliad reit bendant yn y gwerthusiad y dylid diddymu'r ffrwd graddedigion o Twf Swyddi Cymru, gan ei fod yn ailadrodd beth oedd yn digwydd mewn llefydd eraill. Rwy'n deall bod y ffrwd graddedigion yn llwyddiannus iawn, ond, wedi dweud hynny, os ydym yn defnyddio arian cyhoeddus mewn ffordd sy'n dyblygu'r hyn sy'n cael ei gyflawni mewn ffordd arall, mae yna gwestiwn am gario ymlaen â hynny ai peidio. Felly, beth yw'r penderfyniad ynglŷn â'r ffrwd graddedigion?

Secondly, a firm decision or recommendation was made in the evaluation that the graduate stream should be removed from Jobs Growth Wales because it duplicated things taking place elsewhere. Though I understand that the graduate stream has been very successful, if we are using public money in a way that duplicates what is already being done, there is a question as to whether that should be continued. So, what is the decision on that part of that scheme?

Yn drydydd, er bod y Dirprwy Weinidog newydd ddweud wrth yr Aelod, William Graham, nad yw Twf Swyddi Cymru wedi'i gynllunio ar gyfer y bobl hynny na fyddent yn cael swydd, dyna yn union beth mae'r gwerthusiad yn ei argymell. Mae'n dweud yn benodol y dylai'r Llywodraeth:

Thirdly, although the Deputy Minister has just told William Graham that Jobs Growth Wales is not targeted at those people who would not find employment, that is exactly what the evaluation recommended. It says specifically that the Government should

'Explore strategies to increase the proportion of funding reaching young people who would not have obtained employment anyway.'

'Archwilio strategaethau i gynyddu'r gyfran o gyllid sy'n cyrraedd pobl ifanc na fyddent wedi cael cyflogaeth beth bynnag.'

Chwarter y bobl sy'n cael hynny drwy Dwf Swyddi Cymru ar hyn o bryd, ac mae argymhelliad yn y gwerthusiad i ehangu hynny'n sylweddol. Felly, beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i gyflawni hynny?

This affects a quarter of the people under Jobs Growth Wales at present, and the recommendation in the evaluation is that that should be enhanced significantly. So, what is the Government doing to actually achieve that?

Y pwynt olaf yr wyf am ei wneud, Ddirprwy Lywydd, yw hyn: er ein bod ni'n derbyn ac yn croesawu Twf Swyddi Cymru fel cychwynnodd y cynllun ac wrth iddo ddatblygu, ac er iddo fod yn llwyddiant mewn sawl ffordd—ac mae'n siŵr bod gan bob un ohonom ni enghreifftiau o etholwyr sydd wedi elwa o'r cynllun hwn—gan fod yr economi yn newid a bod mwy o swyddi yn cael eu creu yng Nghymru, mae angen mwy o ailwampio ar y cynllun na'r hyn sydd wedi'i gyhoeddi gan y Dirprwy Weinidog heddiw. Yn benodol, mae angen mwy o syniad gan y Llywodraeth, mewn cyfnod o doriadau penodol yn y cyd-destun hwn—toriadau i brentisiaethau, toriadau i sgiliau i oedolion mewn colegau—a mwy o benderfyniad ynglŷn â lle mae'r flaenoriaeth bellach gan y Llywodraeth. Ai prentisiaethau, cynlluniau hyfforddiant, sef 'traineeships', neu Dwf Swyddi Cymru yw'r flaenoriaeth? Rydw i'n gweld ei bod hi'n amser bellach i symud peth o'r ffocws ariannol oddi wrth Dwf Swyddi Cymru yn ôl at bethau megis prentisiaethau. Rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn manteisio ar y newid yn yr economi i gyflawni rhai o'r pethau hynny.

The final point that I want to make, Deputy Presiding Officer, is this: although we accept and welcome Jobs Growth Wales as it was established and as it has developed, and although it has been successful in many ways—I am sure that each and every one of us has examples of constituents who have benefited from the programme—now that the economy is changing and that more jobs are being created in Wales, we need to review the programme more substantially than is the case in terms of today's announcement. We need a clearer idea from Government, in a period of specific cuts in this context—cuts to apprenticeships and to adults skills training via colleges—and we need more determination as regards where the priority for Government now lies. Is the priority apprenticeships, training schemes or traineeships, or is it Jobs Growth Wales? I consider that it is now time to move some of the financial focus from Jobs Growth Wales back to things such as apprenticeships. I hope that the Government will take advantage of the change in the economy to achieve some of those things.

15:55

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Simon Thomas, for that series of questions. I welcome your acknowledgement that Jobs Growth Wales has been very successful. Indeed, of course, it was born of the economic circumstances that pertained at its inception. In terms of the specific questions, on the interface with the Work Programme and other non-devolved programmes, there are difficulties with that interface. There is an official working group between the UK Government and the Welsh Government, which is looking to maximise potential to get opportunities for young people in Wales. However, the problem with the Work Programme is that is what is called a 'black box contract'. So, each provider does not have to say what is being provided for each participant in the programme, and, because Jobs Growth Wales is a European-funded programme, it will not let us take anybody who is on the Work Programme because we cannot give an assurance that there is no duplication. So, that seems an intractable problem, although it is still under discussion, our view being that the Work Programme should be more transparent and that therefore we could get inside it.

Diolch, Simon Thomas, am y gyfres yna o gwestiynau. Croesawaf eich cydnabyddiaeth bod Twf Swyddi Cymru wedi bod yn llwyddiannus iawn. Yn wir, wrth gwrs, cafodd ei eni o'r amgylchiadau economaidd a oedd yn bodoli ar adeg ei ddechrau. O ran y cwestiynau penodol, am y rhyngwyneb â'r Rhaglen Waith a rhaglenni eraill nad ydynt wedi'u datganoli, ceir anawsterau â'r rhyngwyneb hwnnw. Ceir gweithgor swyddogol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gyda'r bwriad o gynyddu'r potensial i greu cyfleoedd i bobl ifanc yng Nghymru. Fodd bynnag, problem y Rhaglen Waith yw ei bod yr hyn a elwir yn 'gontract blwch du'. Felly, nid oes rhaid i bob darparwr ddweud beth sy'n cael ei ddarparu i bob cyfranogwr yn y rhaglen, ac, oherwydd bod Twf Swyddi Cymru'n rhaglen a ariennir gan Ewrop, ni wnaiff adael inni gymryd unrhyw un sydd ar y Rhaglen Waith oherwydd na allwn roi sicrwydd nad oes dyblygu. Felly, mae'n ymddangos bod honno'n broblem anhydrin, er ei bod yn dal i gael ei thrafod; ein barn ni yw y dylai'r Rhaglen Waith fod yn fwy tryloyw er mwyn inni allu mynd y tu mewn iddi.

The Welsh Government feels very strongly that we could do a better job with the money of the Work Programme and we would like to get our hands on it, but we would of course like to ensure that, if we do that, we get the right amount of funding to deliver it with the right amount of incentives, including, for every person who comes off welfare, a sum of money to the Welsh Government and not to the UK Government to assist with more people coming off welfare, because it is a very complex arrangement between the welfare programme, the Work Programme and the funding, which I will not go into here. However, we are trying very hard to unravel that particular Gordian knot.

Mae Llywodraeth Cymru'n teimlo'n gryf iawn y gallem wneud yn well gydag arian y Rhaglen Waith a hoffem gael ein dwylo arno, ond wrth gwrs hoffem sicrhau, os ydym yn gwneud hynny, ein bod yn cael y swm priodol o arian i'w chyflawni gyda'r cymhellion cywir, gan gynnwys, ar gyfer pob person sy'n dod oddi ar fudd-dal lles, swm o arian i Lywodraeth Cymru, ac nid i Lywodraeth y DU i gynorthwyo gyda mwy o bobl yn dod oddi ar fudd-dal lles, oherwydd mae'n drefniant cymhleth iawn rhwng y rhaglen les, y Rhaglen Waith a'r arian, ond ni wnaf sôn am fanylion hynny yma. Fodd bynnag, rydym yn ceisio'n galed iawn i dorri'r cwlwm annatod hwnnw.

On the graduate stream, we are looking to remove the graduate stream. It has performed very well through GO Wales, but we are streamlining the programme, so there will actually only be two streams in future. There will be the mainstream stream, which will be a mixture of the private sector, the voluntary sector, the public sector and the graduate strands, and the entrepreneurial stream, which is the stream I talked about where young people who want to work for themselves can access funding through Jobs Growth Wales as long as they meet particular criteria. So, we are doing exactly that, as recommended in the interim evaluation report.

O ran y ffrwd raddedigion, rydym yn gobeithio cael gwared ar y ffrwd raddedigion. Mae wedi perfformio'n dda iawn drwy GO Wales, ond rydym yn symleiddio'r rhaglen, felly dim ond dwy ffrwd fydd yn y dyfodol mewn gwirionedd. Bydd y ffrwd brif ffrwd, a fydd yn gymysgedd o'r sector preifat, y sector gwirfoddol, y sector cyhoeddus a'r llinynnau graddedigion, a'r ffrwd entrepreneuraidd, sef y ffrwd y soniais amdani lle mae pobl ifanc sydd eisiau gweithio ar eu liwt eu hunain yn gallu cael gafael ar gyllid drwy Twf Swyddi Cymru ar yr amod eu bod yn bodloni meini prawf penodol. Felly, rydym yn gwneud yn union hynny, fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad gwerthuso dros dro.

In terms of those people who would have got a job anyway, there are lots more issues there than meets the eye at first. I have spoken extensively to a number of young people on an anecdotal level where the job they have through Jobs Growth Wales is a very much better job than the job they had previously. However, we are going to get the final evaluation to have a serious look at that—the sorts of jobs, the level of jobs, the future career prospects and so on. I have already mentioned that we are looking at some people who are a little further away from being job-ready and who require a little bit more mentoring and a little bit more work experience-type work at the front-end of the Jobs Growth Wales programme than an actual job, because this is a real job and not work experience. So, we are looking to tweak that a little bit. However, what we do not want to do is programme-bend a very successful programme into being something it is not and thereby disrupt it. So, we are very aware of that. We are looking at it, but we do not think that bending Jobs Growth Wales into being something it was not intended to be is the right way to go.

O ran y bobl hynny a fyddai wedi cael swydd beth bynnag, mae yno lawer mwy o faterion nag a welwch i ddechrau. Rwyf wedi siarad yn helaeth â nifer o bobl ifanc ar lefel anecdotaidd sydd wedi cael swydd drwy Twf Swyddi Cymru sy'n llawer gwell na'r swydd a oedd ganddynt yn flaenorol. Fodd bynnag, bydd ein gwerthusiad terfynol yn edrych o ddifrif ar hynny—y mathau o swyddi, lefel y swyddi, y rhagolygon gyrfa yn y dyfodol ac yn y blaen. Rwyf eisoes wedi dweud ein bod yn edrych ar rai pobl sydd ychydig yn bellach i ffwrdd o fod yn barod am swydd ac sydd ag angen ychydig bach mwy o fentora ac ychydig bach mwy o waith o fath profiad gwaith ar ben blaen rhaglen Twf Swyddi Cymru yn hytrach na swydd go iawn, oherwydd swydd go iawn yw hon ac nid profiad gwaith. Felly, rydym yn gobeithio addasu ychydig bach ar hynny. Fodd bynnag, yr hyn nad ydym eisiau ei wneud yw plygu rhaglen lwyddiannus iawn i fod yn rhywbeth nad ydyw, a thrwy hynny, tarfu arni. Felly, rydym yn ymwybodol iawn o hynny. Rydym yn edrych ar hyn, ond nid ydym yn credu mai plygu Twf Swyddi Cymru i fod yn rhywbeth nas bwriadwyd iddo fod yw'r peth iawn i'w wneud.

15:58 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddiprwy Weinidog, am eich datganiad heddiw.

Thank you, Deputy Minister, for this afternoon's statement.

Clearly, the evaluation report into Jobs Growth Wales by Ipsos Mori was long anticipated and, while you seem determined to only really speak of the successes as you see them, I think that it is telling that it took 10 months to agree that report with the researchers after the primary data were collected in their entirety. I do think that it is amazing how two people can take exactly the same statistic and come to completely different conclusions about what it actually says. For example, you said that more than a quarter of participants in Jobs Growth Wales would not have found work otherwise, but I would say that nearly three quarters of the funding was spent on young people who may not have needed that support.

Yn amlwg, bu llawer o edrych ymlaen at yr adroddiad gwerthuso gan Ipsos Mori ar Twf Swyddi Cymru ac, er eich bod yn ymddangos yn benderfynol o sôn am lwyddiannau'r rhaglen yn unig, rwyf yn meddwl ei bod yn arwyddocaol ei bod wedi cymryd 10 mis i gytuno ar yr adroddiad hwnnw gyda'r ymchwilwyr ar ôl casglu'r data sylfaenol yn ei gyfanrwydd. Rwyf yn meddwl ei bod yn anhygoel bod dau o bobl yn gallu cymryd yn union yr un ystadegyn a dod i gasgliadau cwbl wahanol am yr hyn y mae'n ei ddweud mewn gwirionedd. Er enghraifft, dywedasoch na fyddai mwy na chwarter cyfranogwyr Twf Swyddi Cymru wedi dod o hyd i waith fel arall, ond byddwn i'n dweud bod bron i dri chwarter y cyllid wedi'i wario ar bobl ifanc nad oedd angen y gefnogaeth honno arnynt o reidrwydd.

A lack of targeting not only means that that money is not being used as well as it might be, it also means that those most in need of help are possibly missing out. There are currently 2,420 young people between the ages of 18 and 24 in Wales who have been claiming jobseeker's allowance for 12 months or more. I welcome your discussion about how you can assist those who are furthest from the job market. Can you tell us perhaps who will be delivering those mentoring and support schemes to enable people to apply for these placements more successfully, please? Looking at another statistic, you say that the economic impact 'could be' as much as £24.6 million. That is, of course, 'could be'—it 'could be' less than that as well. However, this is a programme that, according to a written answer back in August, has cost nearly £58 million already. On the face of it, it means that this is an economic development programme that has a negative return on investment and that you are losing more than half of the money that you are spending on it. I wonder whether you can confirm for us, Deputy Minister, the year-on-year return on investment for Jobs Growth Wales and whether any longer-term work has been done on the further-ahead benefits that you anticipate.

Mae diffyg targedu'n golygu, nid yn unig nad yw'r arian yn cael ei ddefnyddio cystal ag y gallai, ond hefyd bod y rhai sydd fwyaf angen cymorth o bosibl ar eu colled. Ar hyn o bryd, mae 2,420 o bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed yng Nghymru sydd wedi bod yn hawlio lwfans ceisio gwaith ers 12 mis neu fwy. Croesawaf eich trafodaeth am sut y gallwch chi helpu'r rheini sydd bellaf oddi wrth y farchnad swyddi. A allwch chi ddweud wrthym efallai pwy fydd yn cyflwyno'r cynlluniau mentora a chymorth hynny i alluogi pobl i wneud cais mwy llwyddiannus am y lleoliadau hyn, os gwelwch yn dda? I edrych ar ystadegyn arall, rydych yn dweud y 'gallai'r' effaith economaidd fod cymaint â £24.6 miliwn. 'Gallai' yw hynny, wrth gwrs,—'gallai' fod yn llai na hynny hefyd. Fodd bynnag, mae hon yn rhaglen sydd, yn ôl ateb ysgrifenedig yn ôl ym mis Awst, eisoes wedi costio bron i £58 miliwn. Ar yr olwg gyntaf, mae'n golygu bod hon yn rhaglen datblygu economaidd sy'n rhoi elw negatif ar fuddsoddiad a'ch bod yn colli mwy na hanner yr arian yr ydych yn ei wario arni. Tybed a allwch chi gadarnhau inni, Ddirprwy Weinidog, yr elw ar fuddsoddiad o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer Twf Swyddi Cymru ac a oes unrhyw waith mwy hirdymor wedi ei wneud ar y manteision pellach ymlaen yr ydych chi'n eu rhagweld.

You talk about the destinations of those who complete six months on the programme. I note that 25% go on to an apprenticeship, but you just said in response to William Graham that this is for job-ready young people. Either it is, or it is not—either they are job-ready or they are in need of some training. You cannot call it a success and say that they are both.

Rydych yn sôn am gyrchfannau'r rheini sy'n cwblhau chwe mis ar y rhaglen. Nodaf fod 25% yn mynd ymlaen i brentisiaeth, ond rydych newydd ddweud mewn ymateb i William Graham mai rhaglen i bobl ifanc sy'n barod am swydd yw hon. Naill ai dyna yw hi, neu nad yw hi—naill ai maent yn barod am swydd, neu mae angen hyfforddiant arnynt. Ni allwch ei galw'n llwyddiant a dweud bod y ddau beth yn wir.

The OECD states that training is the most effective way to raise life incomes and opportunities for young people. Your report states that Jobs Growth Wales participants earn less than their peers do. That is the evidence in your report as opposed to the anecdotes that you say have come from people who work there. We are sending a mixed message to the world if we are cutting back on training budgets, while simultaneously supporting work experience programmes. Work experience is important—I do not deny that—but there is a need to ensure that training needs are met as well, and I wonder whether you could look at embedding a formal training element into the scheme, as the best providers already do.

Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn nodi mai hyfforddiant yw'r ffordd fwyaf effeithiol o gynyddu incwm a chyfleoedd bywyd i bobl ifanc. Mae eich adroddiad yn datgan bod cyfranogwyr Twf Swyddi Cymru'n ennill llai na'u cyfoedion. Dyna'r dystiolaeth yn eich adroddiad yn hytrach na'r hanesion yr ydych yn dweud eu bod wedi dod gan bobl sy'n gweithio yno. Rydym yn anfon neges gymysg i'r byd os ydym yn cwtogi ar gyllidebau hyfforddi, ond yn cefnogi rhaglenni profiad gwaith ar yr un pryd. Mae profiad gwaith yn bwysig—nid wyf yn gwadu hynny—ond mae angen sicrhau bod anghenion hyfforddiant yn cael eu diwallu hefyd, ac roeddwn i'n meddwl tybed a allech chi edrych ar ymgorffori elfen hyfforddiant ffurfiol yn y cynllun, fel y mae'r darparwyr gorau eisoes yn ei wneud.

Finally, I have two statistics that are missing from the statement today. There are 2,459 young people, for example, who drop out of their placements early and more than half of them—1,349—did so for unknown reasons. There have been assurances in the Chamber previously that you would look into what those unknown reasons were, so that we could identify who they are and of course, where they went.

Yn olaf, mae gennyf ddau ystadegyn sydd ar goll o'r datganiad heddiw. Mae 2,459 o bobl ifanc, er enghraifft, sy'n rhoi'r gorau i'w lleoliadau'n gynnar a mwy na'u hanner—1349—wedi gwneud hynny am resymau anhysbys. Cafwyd sicrwydd yn y Siambr o'r blaen y byddech yn edrych i mewn i'r rhesymau anhysbys hynny, fel y gallem nodi pwy ydynt ac wrth gwrs, i ble'r aethant.

In terms of success or otherwise, I am sure that you and I will probably never agree on whether the programme is successful or not. I welcome your undertaking to listen to the recommendations of the report and I hope that you will be able to respond to the training point in particular.

O ran llwyddiant neu fel arall, rwyf yn siŵr na fyddwch chi a minnau, yn ôl pob tebyg, fyth gytuno ar ba un a yw'r rhaglen yn llwyddiannus ai peidio. Croesawaf eich ymrwymiad i wrando ar argymhellion yr adroddiad ac rwyf yn gobeithio y gallwch ymateb i'r pwynt hyfforddi yn arbennig.

16:02

## Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Eluned Parrott for that question. I will just deal with that training point to start with. There is a fundamental misconception at play there. What we have is the Jobs Growth Wales programme, which is not a work experience programme; it is a work programme, which gets people into real jobs. It is not work experience. It is an assisted programme, so we assist the employer with the cost of employing that young person. That is a real, proper job and we have very good success rates of that being a sustainable job into the future. Many of the young people on those jobs, while with the employer with which they got the Jobs Growth Wales placement, go on to become apprentices in that employer's programme, because they are looking to be promoted inside that organisation. So, the training is about promotion and sustainability. It is not about getting training to get into jobs in the first place. I cannot speak for the Member herself, but I personally have not spent a single year of employment where I have not been undertaking some kind of training. That is not because I am not job-ready, it is because I have always been ambitious to succeed and get on. That is exactly what we are looking to get these young people to do.

Diolch i Eluned Parrott am y cwestiwn yna. Rwyf am ymdrin â'r pwynt am hyfforddiant i ddechrau. Mae camsyniad sylfaenol i'w gael yno. Yr hyn sydd gennym yw rhaglen Twf Swyddi Cymru; nid rhaglen profiad gwaith ydyw, ond rhaglen waith, sy'n rhoi swyddi go iawn i bobl. Nid profiad gwaith ydyw. Mae'n rhaglen â chymorth, felly rydym yn cynorthwyo'r cyflogwr i dalu costau cyflogi'r person ifanc. Mae honno'n swydd go iawn, ac mae gennym gyfraddau llwyddiant da iawn o ran ei bod yn swydd gynaliadwy i'r dyfodol. Mae llawer o'r bobl ifanc yn y swyddi hynny, tra eu bod gyda'r cyflogwyr y cawsant y lleoliad Twf Swyddi Cymru â hwy, yn mynd ymlaen i fod yn brentisiaid yn rhaglen y cyflogwr hwnnw, oherwydd eu bod yn gobeithio cael dyrchafiad o fewn y sefydliad hwnnw. Felly, mae'r hyfforddiant yn ymwneud â dyrchafu a chynaladwyedd. Nid yw'n hyfforddiant er mwyn cael swyddi yn y lle cyntaf. Ni allaf siarad ar ran yr Aelod ei hun, ond nid wyf fi'n bersonol wedi treulio yr un flwyddyn o gyflogaeth lle nad wyf wedi bod yn cael rhyw fath o hyfforddiant. Nid oherwydd nad wyf yn barod am swydd y mae hynny; y rheswm yw fy mod bob amser wedi bod yn uchelgeisiol i lwyddo a datblygu. Dyna'n union yr hyn yr ydym yn ceisio cael y bobl ifanc hyn i'w wneud.

Apprenticeship programmes are not for people who are not in the jobs market. Most apprentices are in the jobs market, in employment already and are being promoted by that employer as recognition of their contribution to that employment. Therefore, that is just a fundamental misconception.

Nid yw rhaglenni prentisiaeth ar gyfer pobl nad ydynt yn y farchnad swyddi. Mae'r rhan fwyaf o brentisiaid yn y farchnad swyddi, mewn cyflogaeth eisoes ac yn cael eu dyrchafu gan y cyflogwr hwnnw fel cydnabyddiaeth o'u cyfraniad i'r gyflogaeth honno. Felly, mae hynny'n gamsyniad sylfaenol.

In terms of other programmes that are available, we do have a number of programmes that are aimed at people who are not job-ready. We have traineeship programmes and all kinds of other mentoring and assisted programmes. We have programmes that the Minister for Communities and Tackling Poverty is in charge of, such as Communities First, Families First and so on. There is an enormous list of programmes that cater to individual needs, because many people are not job-ready for a very large range of human reasons.

O ran rhaglenni eraill sydd ar gael, mae gennym nifer o raglenni sydd ar gyfer pobl nad ydynt yn barod am swydd. Mae gennym raglenni hyfforddeiaeth a phob math o raglenni mentora a rhaglenni â chymorth eraill. Mae gennym raglenni sydd dan ofal y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, megis Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf ac yn y blaen. Mae rhestr enfawr o raglenni sy'n darparu ar gyfer anghenion unigol, gan fod llawer o bobl nad ydynt yn barod am swydd oherwydd amrywiaeth eang iawn o resymau dynol.

That brings me to the last point that I want to make. The point about the economic benefits of this programme is one that I emphasised was a side effect of this programme. This is not an economic development programme; it is a programme about human beings who need employment to have a good quality of life and health and wellbeing in their lives, which they would not have without employment. The fact that we also have an economic development impact from it is a plus. It is not a question of saying, 'We don't have a return on our money'; the return on our money is the health and wellbeing and future prosperity and jobs of the young people involved in the programme and the economic development aspects of it are a bonus. So, it is not about whether we spent more than we got back in economic development; that is a fundamental misunderstanding of the programme as well.

Mae hynny'n dod â mi at y pwynt olaf yr wyf am ei wneud. Pwysleisiais mai un o sgil effeithiau'r rhaglen hon oedd y pwynt am fanteision economaidd y rhaglen hon. Nid rhaglen datblygu economaidd yw hon, ond rhaglen i fodau dynol sydd ag angen cyflogaeth i gael ansawdd bywyd da ac iechyd a lles yn eu bywydau, na fyddai ganddynt heb gyflogaeth. Mae'r ffaith ei bod hefyd yn creu effaith datblygiad economaidd yn fantais ychwanegol. Nid yw'n fater o ddweud, 'Nid ydym yn gwneud elw ar ein harian'; yr elw ar ein harian yw iechyd a lles y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y rhaglen a'u ffyniant a'u swyddi yn y dyfodol; mae'r agweddau datblygu economaidd arni'n fonws. Felly, nid yw'n fater o ofyn a ydym yn gwario mwy nag a gawn yn ôl mewn datblygu economaidd; mae hynny'n gamddealltwriaeth sylfaenol o'r rhaglen hefyd.

In terms of the drop-out rates and the follow-ups for people on the programme, as I said, in the final evaluation, we are looking to get a lot more information about what sort of jobs people would have got without the programme, what happens to them when they leave the programme—we know, for example, that there are statistics about who leaves the programme to go on to a better job, who leaves it to go on to a different job and so on. I take your point about the unknowns; I too would like to know what the unknowns are, but we have to make sure that the expenditure on trying to find that out is worth the data that we get back. However, we are trying to get those data, where at all possible. As I said in response to Simon Thomas, this programme is very successful in delivering what it set out to deliver. We need other programmes to help people who are further away from the jobs market, but bending this programme is not the way forward.

O ran y cyfraddau rhoi'r gorau iddi a’r camau dilynol i bobl ar y rhaglen, fel y dywedais, yn y gwerthusiad terfynol, rydym yn gobeithio cael llawer mwy o wybodaeth am ba fath o swyddi y byddai pobl wedi’u cael heb y rhaglen, beth sy'n digwydd iddynt pan fyddant yn gadael y rhaglen—rydym yn gwybod, er enghraifft, y ceir ystadegau am bwy sy'n gadael y rhaglen i fynd ymlaen i swydd well, pwy sy'n ei gadael i fynd ymlaen i swydd wahanol ac yn y blaen. Derbyniaf eich pwynt am y rhesymau anhysbys; byddwn innau’n hoffi gwybod beth yw'r rhesymau anhysbys, ond mae’n rhaid inni wneud yn siŵr bod y gwariant ar geisio darganfod hynny’n werth y data a gawn yn ôl. Fodd bynnag, rydym yn ceisio cael y data hwnnw, pan fo hynny'n bosibl. Fel y dywedais wrth ateb Simon Thomas, mae'r rhaglen hon yn llwyddiannus iawn o ran cyflawni’r hyn y bwriadwyd iddi ei gyflawni. Mae arnom angen rhaglenni eraill i helpu pobl sy'n bellach i ffwrdd oddi wrth y farchnad swyddi, ond nid plygu’r rhaglen hon yw'r ffordd ymlaen.

16:05

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We should, of course, absolutely acknowledge the achievements of the programme. Nearly 10,000 people progressed into either further learning or sustained employment. That, in the context of the worst recession since the 1930s, is certainly a huge achievement.

Wrth gwrs, dylem yn bendant gydnabod cyflawniadau'r rhaglen. Symudodd bron i 10,000 o bobl ymlaen naill ai i ddysgu pellach neu gyflogaeth barhaus. Mae hynny, yng nghyd-destun y dirwasgiad gwaethaf ers y 1930au, yn sicr yn llwyddiant enfawr.

However, looking to the future, I want to raise how we are going to match the training and the quality of the jobs that we are going to be offering people. Having read some research by Professor Felstead and others at Cardiff University, which was presented in the Senedd a couple of weeks ago, I understand that there is a mismatch between the skills level of individuals and the much lower skills required to do the jobs that they are in, which means that there has been a significant growth in the number of people with degree-level qualifications who are doing jobs that do not require degrees on entry. In terms of developing the high-quality, highly skilled jobs that we need if we are going to dig ourselves out of the convergence hole—and that is the purpose of the very large sums of money that we are getting from the European programme—I wondered if you could say a little more about how you are going to bring training and employability together to be a bit more proactive in predicting what jobs employers are going to need filling rather than reacting as, quite rightly, we were doing during the recession and encouraging employers to grow. If we do not have the skills of the future to offer employers, they are more likely to go elsewhere with their development programmes. So, I question whether or not it is a good idea to remove graduates from the scheme, as we know that some of the skilled people that we need are going to be engineers and people in STEM subjects, because of the likely high-quality jobs of the future.

Fodd bynnag, gan edrych tua'r dyfodol, hoffwn sôn am sut yr ydym yn mynd i gyfateb yr hyfforddiant i ansawdd y swyddi y byddwn yn eu cynnig i bobl. Ar ôl darllen ymchwil gan yr Athro Felstead ac eraill ym Mhrifysgol Caerdydd, a gyflwynwyd yn y Senedd wythnos neu ddwy yn ôl, rwyf ar ddeall bod diffyg cyfatebiaeth rhwng lefel sgiliau unigolion a'r sgiliau llawer is sydd eu hangen i wneud y swyddi y maent ynddynt, sy'n golygu y bu twf sylweddol yn nifer y bobl sydd â chymwysterau lefel gradd sy’n gwneud swyddi lle nad oes angen gradd ar fynediad. O ran datblygu’r swyddi medrus iawn o ansawdd uchel sydd eu hangen arnom os ydym yn mynd i’n codi ein hunain allan o'r twll cydgyfeirio—a dyna yw pwrpas y symiau mawr iawn o arian yr ydym yn eu cael gan y rhaglen Ewropeaidd—roeddwn yn meddwl tybed a allech chi ddweud ychydig mwy am sut yr ydych yn mynd i ddod â hyfforddiant a chyflogadwyedd at ei gilydd i fod ychydig yn fwy rhagweithiol wrth ragfynegi pa swyddi y bydd angen i gyflogwyr eu llenwi yn hytrach nag ymateb fel yr oeddem yn ei wneud, yn gwbl briodol, yn ystod y dirwasgiad ac annog cyflogwyr i dyfu. Os nad oes gennym sgiliau’r dyfodol i'w cynnig i gyflogwyr, maent yn fwy tebygol o fynd i rywle arall gyda'u rhaglenni datblygu. Felly, rwyf yn cwestiynu a yw'n syniad da cael gwared ar raddedigion o'r cynllun, gan ein bod yn gwybod y bydd rhai o'r bobl fedrus sydd eu hangen arnom yn beirianwyr ac yn bobl mewn pynciau STEM, oherwydd y swyddi o ansawdd uchel sy'n debygol y dyfodol.

16:08 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Member for that question. When I talked about the graduate strand of the programme, what I said was that it is being assimilated into the mainstream strands, so we are not removing graduates from the programme. There will not be a separate graduate strand in the programme. Jobs Growth Wales works really hard at creating job opportunities for people that match the skills of the participants. You notice that there is always a mismatch between the job opportunities; in my statement today, I said that there were more than 16,000 job opportunities and that 12,700 or so of them have been filled. That is because we are really vigorous with our employers about saying what they need and matching the young people to the jobs, because we are very much trying to fit them into a job opportunity that will become a career ladder for them. We very much do not want people who are overqualified going into those jobs.

Diolch i'r Aelod am y cwestiwn yna. Pan soniais am linyn y rhaglen i raddedigion, yr hyn a ddywedais oedd ei fod yn cael ei gymhathu i mewn i'r llinynnau prif ffrwd, felly nid ydym yn cael gwared ar raddedigion o'r rhaglen. Ni fydd yna elfen raddedig ar wahân yn y rhaglen. Mae Twf Swyddi Cymru’n gweithio'n galed iawn i greu cyfleoedd am swyddi i bobl sy'n cyfateb i sgiliau’r cyfranogwyr. Byddwch yn sylwi bod diffyg cyfatebiaeth bob amser rhwng y cyfleoedd am swyddi; yn fy natganiad heddiw, dywedais fod mwy nag 16,000 o gyfleoedd swyddi a bod tua 12,700 ohonynt wedi’u llenwi. Mae hynny oherwydd ein bod wir yn egnïol gyda'n cyflogwyr ynghylch dweud beth sydd ei angen arnynt a chyfateb y bobl ifanc i swyddi, oherwydd rydym yn bendant yn ceisio darparu cyfle am swydd iddynt a fydd yn dod yn ysgol yrfa ar eu cyfer. Yn bendant, ni hoffem weld pobl â gormod o gymwysterau’n mynd i mewn i’r swyddi hynny.

We do know, however, from that research, that Wales has a number of employers that do not train their employees to the best of their ability. We are slightly lower—. I cannot remember off the top of my head, but I believe that it is about 4% lower in Wales than the UK average of firms that have training programmes for their employees. Through another set of programmes that we have—the work-based learning programmes, the apprenticeship programmes and so on—we are working with employers to make them understand the value of training their people and not having unused skills in their workforce, but maximising the skills available to them already in order to grow their business and so on. That is a slightly different strand to the Jobs Growth Wales strand.

Rydym yn gwybod, fodd bynnag, o'r ymchwil hwnnw, bod gan Gymru nifer o gyflogwyr nad ydynt yn hyfforddi eu cyflogeion hyd eithaf eu gallu. Rydym ychydig yn is—. Ni allaf gofio nawr, ond rwyf yn credu ei fod tua 4% yn is yng Nghymru na chyfartaledd y DU o ran cwmnïau sydd â rhaglenni hyfforddiant ar gyfer eu gweithwyr. Drwy gyfres arall o raglenni sydd gennym—y rhaglenni dysgu yn y gwaith, y rhaglenni prentisiaeth ac yn y blaen—rydym yn gweithio gyda chyflogwyr i wneud iddynt ddeall gwerth hyfforddi eu pobl ac osgoi bod â sgiliau heb eu defnyddio yn eu gweithlu, a gwneud y mwyaf o'r sgiliau sydd ar gael iddynt eisoes er mwyn tyfu eu busnes ac yn y blaen. Mae hwnnw'n llinyn ychydig yn wahanol i linyn Twf Swyddi Cymru.

16:09 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Deputy Minister, over 300 people have benefited from Jobs Growth Wales in Blaenau Gwent and I know that every single one of them would want me to pass on their thanks and appreciation to you and your predecessor as Deputy Minister for the investment that you have made in their futures. It is something that we all appreciate.

Ddirprwy Weinidog, mae dros 300 o bobl wedi elwa o Twf Swyddi Cymru ym Mlaenau Gwent a gwn yr hoffai pob un ohonynt imi gyfleu eu diolch a'u gwerthfawrogiad i chi a'ch rhagflaenydd fel Dirprwy Weinidog am y buddsoddiad yr ydych wedi'i wneud yn eu dyfodol. Mae'n rhywbeth yr ydym i gyd yn ei werthfawrogi.

However, we also recognise that Jobs Growth Wales—as has already been discussed earlier in the statement—helps young adults who are already work-ready or job-ready. This can be challenging for many young people, particularly in areas such as Blaenau Gwent. I know that the Welsh Government’s trainee scheme, which equips youngsters with the skills needed to enter work, is already something that is being successful. I wonder, Deputy Minister, if possible this afternoon, whether you can assure me that, alongside Jobs Growth Wales, the Welsh Government will continue to offer traineeship opportunities. Could you outline to us whether there are any additional emerging programmes that will assist in enhancing the employability of young people, so that the 300 people who have already benefited in Blaenau Gwent will be joined by more people in the future benefiting from this Welsh Labour Government’s investment in our young people?

Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod Twf Swyddi Cymru—fel yr ydym eisoes wedi'i drafod yn y datganiad hwn—yn helpu oedolion ifanc sydd eisoes yn barod i weithio neu’n barod am swydd. Gall hyn fod yn her i lawer o bobl ifanc, yn enwedig mewn ardaloedd fel Blaenau Gwent. Gwn fod cynllun hyfforddeion Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi i bobl ifanc y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fynd i mewn i waith, eisoes yn rhywbeth sy'n llwyddiannus. Tybed, Ddirprwy Weinidog, os yw’n bosibl y prynhawn yma, a allwch chi fy sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru, ochr yn ochr â Twf Swyddi Cymru, yn parhau i gynnig cyfleoedd dan hyfforddiant. A allech chi amlinellu inni a oes unrhyw raglenni ychwanegol sy'n dod i'r amlwg a fydd yn cynorthwyo i wella cyflogadwyedd pobl ifanc, fel y bydd mwy o bobl yn y dyfodol yn ymuno â’r 300 o bobl sydd eisoes wedi elwa ym Mlaenau Gwent o fuddsoddiad y Llywodraeth Llafur Cymru hon yn ein pobl ifanc?

16:11 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Alun Davies for that important question. We are continuing the trainee scheme. The traineeship scheme is not affected by any of the cuts in the work-based learning programme for exactly that reason, because we want to direct our resources, as I have said many times in this Chamber, to people with essential skill needs as well as people with higher apprenticeship needs. We are targeting those two ends of the market for all of the reasons that we have reiterated already. So, the traineeship scheme is very much alive and well.

Diolch i Alun Davies am y cwestiwn pwysig yna. Rydym yn parhau â'r cynllun hyfforddeion. Nid yw'r toriadau yn y rhaglen dysgu yn y gwaith yn effeithio ar y cynllun hyfforddeion am yr union reswm hwnnw, oherwydd ein bod yn awyddus i gyfeirio ein hadnoddau, fel yr wyf wedi'i ddweud lawer gwaith yn y Siambr hon, i bobl ag anghenion sgiliau hanfodol yn ogystal â phobl ag anghenion prentisiaeth uwch. Rydym yn targedu dau ben y farchnad am yr holl resymau yr ydym eisoes wedi'u hailadrodd. Felly, mae'r cynllun hyfforddeion yn sicr yn fyw ac yn iach.

We also have three additional schemes, which we are working on alongside the Minister for Communities and Tackling Poverty, one of which is the Lift programme, which is a variant of Jobs Growth Wales, specifically designed to assist people in our more deprived communities. We are working well with Communities First people to develop mentoring and traineeship programmes to suit people who are farthest away from the employability market and, of course, we have apprenticeships at all levels throughout the system in order to do just that.

Mae gennym hefyd dri chynllun ychwanegol yr ydym yn gweithio arnynt ochr yn ochr â'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, ac un ohonynt yw'r rhaglen Esgyn, sy'n amrywiad ar Twf Swyddi Cymru a gynlluniwyd yn benodol i helpu pobl yn ein cymunedau mwy difreintiedig. Rydym yn gweithio'n dda gyda phobl Cymunedau yn Gyntaf i ddatblygu rhaglenni mentora a hyfforddeiaeth i weddu i bobl sydd bellaf i ffwrdd o'r farchnad cyflogadwyedd ac, wrth gwrs, mae gennym brentisiaethau ar bob lefel ar draws y system er mwyn gwneud hynny.

So, we have to do a number of things. We have to make sure that we do not have the human cost of unemployment where that is simply not necessary just for the want of a little bit of work experience, which many of our communities experience. We need to bear in mind that a lot of them do not have the social cachet or contacts through their parents and so on to get them the work experience in the first place. So, work experience is most important for people in communities such as that, who might not necessarily have the social networks to get themselves into those positions in the first place. That is a very important aspect of Jobs Growth Wales, often overlooked.

Felly, mae'n rhaid inni wneud nifer o bethau. Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr nad oes gennym gost ddynol diweithdra lle mae hynny'n gwbl ddiangen, dim ond oherwydd diffyg rhywfaint o brofiad gwaith, sy'n rhywbeth a brofir mewn llawer o'n cymunedau. Mae angen inni gofio nad oes gan lawer ohonynt y rhagoriaeth gymdeithasol na chysylltiadau drwy eu rhieni ac yn y blaen er mwyn iddynt allu cael y profiad gwaith yn y lle cyntaf. Felly, mae profiad gwaith yn bwysig iawn i bobl mewn cymunedau felly, lle nad oes ganddynt, efallai, y rhwydweithiau cymdeithasol i'w rhoi eu hunain yn y sefyllfaoedd hynny yn y lle cyntaf. Mae hynny'n agwedd bwysig iawn ar Twf Swyddi Cymru, a anwybyddir yn aml.

We also have a number of programmes aimed at places like the Member's constituency, and indeed my own constituency and those of a number of other Members—on these benches anyway—in which we are trying to get the most deprived of our youngsters into a position where they can have sustainable jobs for life, which will assist, of course, both our economy but also our health, wellbeing and rich culture in Wales.

Mae gennym hefyd nifer o raglenni wedi'u hanelu at leoedd fel etholaeth yr Aelod, ac yn wir fy etholaeth fy hun a rhai nifer o Aelodau eraill—ar y meinciau hyn beth bynnag—lle'r ydym yn ceisio rhoi ein pobl ifanc fwyaf difreintiedig mewn sefyllfa lle y gallant gael swyddi cynaliadwy am oes, a fydd o gymorth, wrth gwrs, i'n heconomi, ond hefyd i'n hiechyd, ein lles a'n diwylliant cyfoethog yng Nghymru.

16:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, I call Mick Antoniw.

Yn olaf, galwaf ar Mick Antoniw.

16:12 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First, on behalf of the Pontypridd constituency, I very much welcome the success that has been achieved. In many ways, my constituency is leading the way in terms of the creation and the success outcomes of job opportunities. You will be aware, of course, that on Thursday the Welsh Government will be hosting a Europe-wide conference, which is sold out, in the Millennium Centre, which will not only be showcasing the issue of Jobs Growth Wales but also not only what they can learn from our experience but also further learning from our side in terms of successes that have been achieved in Europe. This sort of partnership is essential.

Yn gyntaf, ar ran etholaeth Pontypridd, rwyf yn croesawu'n fawr y llwyddiant sydd wedi ei gyflawni. Mewn sawl ffordd, mae fy etholaeth yn arwain y ffordd o ran creu cyfleoedd gwaith a'u deilliannau llwyddiant. Byddwch yn ymwybodol, wrth gwrs, y bydd Llywodraeth Cymru ddydd Iau yn cynnal cynhadledd Ewrop gyfan—mae'r lleoedd ynddi i gyd wedi'u cymryd—yng Nghanolfan y Mileniwm, a fydd, yn ogystal ag arddangos Twf Swyddi Cymru, hefyd yn dangos nid yn unig beth y gallant hwy ddysgu o'n profiad ni, ond hefyd, o'n hochr ni, y pethau eraill sydd i'w ddysgu o ran llwyddiannau a gyflawnwyd yn Ewrop. Mae'r math hwn o bartneriaeth yn hanfodol.

However, may I raise one matter with you that I know that I have mentioned on a number of occasions? I have a constituent, Jacob Bassey, who started work on the UK's Work Programme. He then obtained a job under the Jobs Growth Wales programme but found that he could not take up that job because of the inability of the UK's Work Programme to release him. Could you perhaps explain what is being done to try to resolve that anomaly? It cannot be right that someone is denied a job opportunity because of the inability of the UK work scheme to release that person properly without impingement on EU funding. Will you report back to us further on this particular problem, because I understand that there are other similar examples that have arisen over previous months?

Fodd bynnag, a gaf fi godi un mater gyda chi, un yr wyf yn gwybod fy mod wedi sôn amdano ar sawl achlysur? Mae gennyf etholwr, Jacob Bassey, a ddechreuodd waith ar Raglen Waith y DU. Yna, cafodd swydd dan raglen Twf Swyddi Cymru ond canfu na allai gymryd y swydd oherwydd anallu Rhaglen Waith y DU i'w ryddhau ef. A allech o bosibl esbonio beth sy'n cael ei wneud i geisio datrys yr anghysondeb hwn? Ni all fod yn iawn bod cyfle am swydd yn cael ei wrthod i rywun oherwydd anallu cynllun gwaith y DU i ryddhau'r unigolyn hwnnw'n iawn heb ardaro ar gyllid yr UE. A wnewch chi adrodd yn ôl inni ymhellach ar y broblem benodol hon, gan fy mod ar ddeall fod enghreifftiau tebyg eraill wedi codi yn ystod y misoedd diwethaf?

16:14 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for Pontypridd for that question. I too am very much looking forward to the European conference tomorrow. We are both showcasing our own schemes, which are the envy of many countries in Europe, but also of course, as always, looking to get the very best out of that experience for ourselves. It will be a learning opportunity for us. It is a good place to share good practice across Europe and to make sure that young people, right across Europe, get the benefit of employment as soon as is practically possible for all of them. So, I am very much looking forward to that event tomorrow.

Diolch i Aelod Pontypridd am y cwestiwn yna. Rwyf finnau'n edrych ymlaen yn fawr at y gynhadledd Ewropeaidd yfory. Yn ogystal ag arddangos ein cynlluniau eu hunain, sy'n destun eiddigedd llawer o wledydd yn Ewrop, rydym hefyd wrth gwrs, fel bob amser, yn ceisio cael y gorau allan o'r profiad hwnnw i ni ein hunain. Bydd yn gyfle i ni ddysgu. Mae'n lle da i rannu arfer da ar draws Ewrop ac i wneud yn siŵr bod pobl ifanc, ledled Ewrop, yn cael budd cyflogaeth cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl i bob un ohonynt. Felly, rwyf yn edrych ymlaen yn fawr at y digwyddiad hwnnw yfory.

In terms of the UK Work Programme, as I said earlier to Simon Thomas in response to one of his questions, we have a working group that is looking at this at official level between us and the UK Government. However, the basic problem is that the Work Programme has this black-box contracting arrangement, which means that each of the contracting organisations—there are two here in Wales—basically take a number of people who have been unemployed for between nine and 12 months into the Work Programme. Once they have gone into the Work Programme, there is no way out of the Work Programme for them without benefit sanctions and so on. Given that we are not able to ascertain exactly what it is that they are getting inside that Work Programme, we are not able to offer them the benefit of Jobs Growth Wales, because of the duplication problems that we have with European funding. We have worked really hard to try to resolve that, but, as yet, we have not been able to.

O ran Rhaglen Waith y DU, fel y dywedais yn gynharach wrth Simon Thomas wrth ateb un o'i gwestiynau, mae gennym weithgor sy'n edrych ar hyn ar lefel swyddogol rhyngom ni a Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, y broblem sylfaenol yw bod gan y Rhaglen Waith y trefniant contractio blwch du hwn, sy'n golygu bod pob un o'r sefydliadau contractio—mae dau yma yng Nghymru—yn y bôn yn cymryd nifer o bobl sydd wedi bod yn ddi-waith am rhwng naw a 12 mis i mewn i'r Rhaglen Waith. Unwaith y maent wedi mynd i mewn i'r Rhaglen Waith, nid oes ffordd allan o'r Rhaglen Waith iddynt heb gosbau o ran budd-daliadau ac yn y blaen. O gofio nad ydym yn gallu canfod beth yn union y maent yn ei gael yn y Rhaglen Waith honno, nid ydym yn gallu cynnig budd Twf Swyddi Cymru iddynt, oherwydd y problemau dyblygu sydd gennym gydag arian Ewropeaidd. Rydym wedi gweithio'n wirioneddol galed i geisio datrys hynny, ond, hyd yn hyn, nid ydym wedi gallu gwneud hynny.

As I said earlier, I feel very strongly, as we all do on these benches, that we could do a better job if we could get our hands on that Work Programme. However, I would emphasise once again that, only with the right amount of funding, can we make sure that we can work harder for those young people who are stuck in that programme.

Fel y dywedais yn gynharach, rwyf yn teimlo'n gryf iawn, fel yr ydym i gyd yn ei wneud ar y meinciau hyn, y gallem wneud yn well pe gallem gael ein dwylo ar y Rhaglen Waith honno. Fodd bynnag, rwyf yn pwysleisio unwaith eto bod angen y swm cywir o arian arnom er mwyn gwneud yn siŵr y gallwn weithio'n galetach dros y bobl ifanc hynny sydd wedi'u dal yn y rhaglen honno.

16:15 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister.

Diolch, Ddirprwy Weinidog.

16:15

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Hawliau Defnyddwyr: Gwelliannau mewn perthynas â Ffioedd Asiantaethau Gosod

## Legislative Consent Motion on the Consumer Rights Bill: Amendment in relation to Letting Agency Fees

Y

Senedd.tv
Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5626 Lesley Griffiths

Motion NDM5626 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Hawliau Defnyddwyr sy'n ymwneud â ffioedd asiantaethau gosod, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Consumer Rights Bill, relating to letting agency fees in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

16:16

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

This supplementary LCM on the UK Government's Consumer Rights Bill concerns amendments relating to the advertisement of fees charged by letting agencies. I would like to thank the Assembly's Communities, Equality and Local Government Committee for its scrutiny of the legislative consent memorandum and for its report. I am pleased that Members found no objection to the agreement of this motion, other than it is not being delivered by Assembly legislation.

Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn ar Fil Hawliau Defnyddwyr Llywodraeth y DU yn ymwneud â gwelliannau ynghylch hysbysebu'r ffioedd a godir gan asiantaethau gosod. Hoffwn ddiolch i Bwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad am graffu ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ac am ei adroddiad. Rwyf yn falch nad oedd gan yr Aelodau unrhyw wrthwynebiad i gytuno ar y cynnig hwn, ac eithrio na ddylid ei gyflwyno drwy ddeddfwriaeth y Cynulliad.

To answer that particular point, it is a matter of timing. Taking forward this provision for Wales in a UK Bill rather than an Assembly Bill means that it would apply in Wales at the same time as in England, and without delay. The alternative could take some time. We considered that the advantages of moving quickly in this instance would be beneficial.

Ac ateb y pwynt penodol hwnnw, mae'n fater o amseru. Mae bwrw ymlaen â'r ddarpariaeth hon ar gyfer Cymru yn un o Filiau'r DU yn hytrach na Bil y Cynulliad yn golygu y byddai'n gymwys yng Nghymru ar yr un pryd ag yn Lloegr, a hynny ar unwaith. Gallai'r dewis arall gymryd peth amser. Rydym o'r farn y byddai manteision symud yn gyflym yn yr achos hwn yn fuddiol.

It was always the intention to ensure that letting agencies are upfront about their fees through the licence conditions of the licensing scheme of the Housing (Wales) Act 2014. However, this Bill hopes to achieve the same aim through primary legislation, which strengthens the requirement. While the renting homes Bill may have been an appropriate vehicle for making this change to primary legislation through this Assembly, the Bill is not due to be introduced until 2015. This would mean a period of time when the private rented sector in Wales would be disadvantaged compared to England.

Y bwriad bob amser oedd sicrhau bod asiantaethau gosod yn onest am eu ffioedd trwy amodau trwydded cynllun trwyddedu Deddf Tai (Cymru) 2014. Fodd bynnag, mae'r Bil hwn yn gobeithio cyflawni'r un nod drwy ddeddfwriaeth sylfaenol, sy'n cryfhau'r gofyniad. Er y gallai'r Bil rhentu cartrefi fod wedi bod yn gyfrwng priodol i wneud y newid hwn i ddeddfwriaeth sylfaenol drwy'r Cynulliad hwn, nid oes disgwyl i'r Bil gael ei gyflwyno tan 2015. Byddai hyn yn golygu cyfnod pan fyddai'r sector rhentu preifat yng Nghymru dan anfantais o gymharu â Lloegr.

For too long, there have been murmurs of discontent within the private rented sector about the amount of fees levied by some letting agents on tenants upon entering into a tenancy, or when renewing a tenancy. This amendment ensures that prospective and current tenants are not surprised by last-minute or hidden fees. These fees are often revealed to tenants when they feel they have no other option but to accept them and pay the fees, as they are scared they may lose the property. Letting agents will have to publish all relevant fees or they may face a financial penalty. This means that tenants and prospective tenants will be able to make informed choices, taking all of the associated costs into account before they make any decisions.

Ers yn rhy hir, bu anfodlonrwydd yn y sector rhentu preifat ynghylch y ffioedd a godir gan rai asiantau gosod ar denantiaid sy'n ymrwymo i denantiaeth neu sy'n adnewyddu tenantiaeth. Mae'r gwelliant hwn yn sicrhau nad oes ffioedd ar y funud olaf neu ffioedd cudd annisgwyl i denantiaid a darpar denantiaid. Mae'r ffioedd hyn yn aml yn cael eu datgelu i denantiaid pan fyddant yn teimlo nad oes ganddynt ddim dewis arall ond eu derbyn a thalu'r ffioedd, oherwydd eu bod yn ofni efallai y byddant yn colli'r eiddo. Bydd yn rhaid i asiantau gosod gyhoeddi'r holl ffioedd perthnasol neu gallent wynebu cosb ariannol. Mae hyn yn golygu y bydd tenantiaid a darpar denantiaid yn gallu gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth, gan ystyried yr holl gostau cysylltiedig cyn gwneud penderfyniadau.

I want to make clear that this is not a widespread practice and some letting agencies, commendably, have already adopted this policy without any prompt. However, their level is where all letting agents should be. I commend the motion to the Chamber.

Rwyf am ei gwneud yn glir nad yw hyn yn arfer cyffredin ac mae rhai asiantaethau gosod, yn glodwiw iawn, eisoes wedi mabwysiadu'r polisi hwn heb ddim procio. Fodd bynnag, dyma ble y dylai pob asiant gosod fod. Cymeradwyaf y cynnig i'r Siambr.

16:18

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, Christine Chapman.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Christine Chapman.

16:18

## Christine Chapman Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

This LCM was referred to the Communities, Equality and Local Government Committee and we considered it on 5 November. In the LCM, the Minister stated that it was the Welsh Government's original intention to include a requirement for agents to publicise their fees within the code of practice in relation to Part 1 of the Housing (Wales) Act 2014. However, as we have heard, the Welsh Government now considers that the Consumer Rights Bill provides a stronger legislative mechanism to achieve its aim of making letting fees more transparent.

Cafodd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ei gyfeirio at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ac fe'i hystyriwyd gennym ar 5 Tachwedd. Yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, dywedodd y Gweinidog mai bwriad gwreiddiol Llywodraeth Cymru oedd cynnwys gofyniad i asiantau i gyhoeddi eu ffioedd yn y cod ymarfer mewn perthynas â Rhan 1 Deddf Tai (Cymru) 2014. Fodd bynnag, fel y clywsom, mae Llywodraeth Cymru bellach o'r farn bod y Bil Hawliau Defnyddwyr yn darparu mecanwaith deddfwriaethol cryfach i gyflawni ei nod o wneud ffioedd gosod yn fwy tryloyw.

We did regret the opportunity that was not taken by the Welsh Government to include an equivalent provision to that outlined in this LCM in relation to the transparency of letting agents' fees within the Housing (Wales) Act 2014. However, we have no objections to the agreement of the motion.

Roeddem yn gresynu at y cyfle na chymerodd Llywodraeth Cymru i gynnwys darpariaeth gyfatebol i'r hyn a amlinellir yn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn mewn perthynas â thryloywder ffioedd asiantau gosod yn Neddf Tai (Cymru) 2014. Fodd bynnag, nid oes gennym wrthwynebiad i gytuno ar y cynnig.

16:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no further speakers. Minister, do you want to reply?

Nid oes gennyf siaradwyr eraill. Weinidog, a ydych am ymateb?

16:19

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

No, thank you. I am very grateful to Christine Chapman for her comments. I ask for support for the LCM.

Nac ydw, dim diolch. Rwyf yn ddiolchgar iawn i Christine Chapman am ei sylwadau. Gofynnaf am gefnogaeth i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

16:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:19

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth—Darpariaethau sy'n ymwneud ag Addysg a Hyfforddiant

## Legislative Consent Motion on the Small Business, Enterprise and Employment Bill—Provisions relating to Education and Training

Y Senedd.tv Fideo Video

### Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The screen needs to move up. I call the Deputy Minister for Skills and Technology to move the motion—Julie James. I do apologise; my script did not move quickly enough.

Mae angen i'r sgrin symud i fyny. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg i gynnig y cynnig—Julie James. Rwyf yn ymddiheuro; ni wnaeth fy sgript symud yn ddigon cyflym.

Cynnig NDM5627 Julie James

Motion NDM5627 Julie James

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth sy'n ymwneud ag addysg a hyfforddiant, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6 agrees that provisions in the Small Business, Enterprise and Employment Bill, relating to education and training in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

16:20

### Julie James Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

This is the second debate on this memorandum. The motion refers to the education evaluation provisions, which we considered to be within the Assembly’s legislative competence. I would like to thank the Assembly’s Enterprise and Business Committee for its scrutiny of the legislative consent memorandum and its report. The committee recommended that the regulations under the education evaluation clauses, clauses 73 and 74, be made through the affirmative procedure. I postponed the debate on these clauses so that I could give full consideration to that recommendation and review the decision that we took about the negative procedure.

Dyma'r ail ddadl ar y memorandwm hwn. Mae'r cynnig yn cyfeirio at y darpariaethau ar werthuso addysg, yr ydym yn ystyried eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Hoffwn ddiolch i Bwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad am graffu ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ac am ei adroddiad. Argymhellodd y pwyllgor y dylid gwneud y rheoliadau o dan y cymalau gwerthuso addysg, cymalau 73 a 74, drwy'r weithdrefn gadarnhaol. Gohiriais y ddadl ar y cymalau hyn er mwyn imi allu rhoi ystyriaeth lawn i'r argymhelliad hwnnw ac adolygu ein penderfyniad am y weithdrefn negyddol.

Following that review, I can confirm that we are content that the negative resolution procedure is the right one in this case. We have followed the Counsel General’s guidelines on affirmative and negative procedures, which we have made public so that our thought processes on making these decisions is transparent. As outlined in my letter to the Chair of the committee, dated 18 November, I consider that the negative resolution procedure provides a suitable level of scrutiny, particularly given that the powers will be used to restrict the scope of the information sharing.

Yn dilyn yr adolygiad hwnnw, gallaf gadarnhau ein bod yn fodlon mai’r weithdrefn penderfyniad negyddol sy’n briodol yn yr achos hwn. Rydym wedi dilyn canllawiau’r Cwnsler Cyffredinol ar weithdrefnau cadarnhaol a negyddol, ac rydym wedi cyhoeddi hynny fel bod ein ffordd o feddwl wrth wneud y penderfyniadau hyn yn dryloyw. Fel yr amlinellwyd yn fy llythyr at Gadeirydd y pwyllgor, dyddiedig 18 Tachwedd, rwyf o'r farn bod y weithdrefn penderfyniad negyddol yn darparu lefel addas o graffu, yn enwedig ac ystyried y bydd y pwerau’n cael eu defnyddio i gyfyngu cwmpas rhannu gwybodaeth.

The education measures reflect existing information-sharing powers that Welsh Ministers have in relation to schools, which are not currently available in relation to other providers of education and training. They will now provide new and improved information on learning outcomes and destinations of former students of colleges in Wales. This will provide evidence of which qualifications and courses lead to sustained employment and higher incomes, and will significantly improve the information available to young people. It will allow young people to choose the education that better suits them. These clauses increase information and accountability. They will allow learners to make better informed choices and I commend the motion to the Chamber.

Mae'r mesurau addysg yn adlewyrchu pwerau rhannu gwybodaeth sydd gan Weinidogion Cymru eisoes mewn perthynas ag ysgolion, nad ydynt ar gael ar hyn o bryd mewn perthynas â darparwyr addysg a hyfforddiant eraill. Byddant yn awr yn darparu gwybodaeth newydd, gwell am ganlyniadau a chyrchfannau dysgu cyn-fyfyrwyr colegau yng Nghymru. Bydd hyn yn darparu tystiolaeth ynghylch pa gymwysterau a chyrsiau sy'n arwain at gyflogaeth barhaus ac incwm uwch, a bydd yn gwella'n sylweddol y wybodaeth sydd ar gael i bobl ifanc. Bydd yn caniatáu i bobl ifanc ddewis yr addysg sydd fwyaf addas iddynt. Mae'r cymalau hyn yn cynyddu gwybodaeth ac atebolrwydd. Byddant yn caniatáu i ddysgwyr wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth a chymeradwyaf y cynnig i'r Siambr.

16:21 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Chair of the Enterprise and Business Committee—William Graham.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes—William Graham.

16:21 **William Graham** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Enterprise and Business Committee considered the legislative consent memorandum for the Small Business, Enterprise and Employment Bill on 24 September and raised no formal objections. We are grateful to the Minister for considering our recommendation that it should be affirmative rather than negative. Clearly, we respect her decision, but we would still have preferred the affirmative procedure. Thank you very much.

Ystyriodd y Pwyllgor Menter a Busnes y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth ar 24 Medi ac ni chododd ddim gwrthwynebiadau ffurfiol. Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ystyried ein hargymhelliad y dylai fod yn gadarnhaol yn hytrach nag yn negyddol. Wrth gwrs, rydym yn parchu ei phenderfyniad, ond byddai'n well gennym fod wedi cael y weithdrefn gadarnhaol. Diolch yn fawr iawn.

16:22 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have no further speakers. Deputy Minister, do you wish to reply?

Nid oes gennyf siaradwyr eraill. Ddirprwy Weinidog, a ydych am ymateb?

16:22 **Julie James** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg / The Deputy Minister for Skills and Technology*

I am very grateful to William Graham for that indication. As I said, we gave it very close consideration. I have no doubt that we can all agree that the interests of our learners in Wales are paramount and that our focus should be on ensuring the best possible outcomes for our learners. The education measures will provide evidence of which schools and colleges best enable their students to progress to positive destinations and sustainable employment. Our ultimate goal is to ensure that learners and their parents, guardians and employers have access to accurate information on the available learning choices and the performance of different providers. The measures will help to ensure the credibility of this information.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i William Graham am nodi hynny. Fel y dywedais, ystyriasom hyn yn ofalus iawn. Rwyf yn sicr y gallwn i gyd gytuno bod buddiannau ein dysgwyr yng Nghymru'n hollbwysig ac y dylem roi pwyslais ar sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n dysgwyr. Bydd y mesurau addysg yn darparu tystiolaeth ynghylch pa ysgolion a cholegau sy'n galluogi ein myfyrwyr i symud ymlaen orau i gyrchfannau cadarnhaol a chyflogaeth gynaliadwy. Ein nod yn y pen draw yw sicrhau bod dysgwyr a'u rhieni, gwarcheidwaid a chyflogwyr yn cael gwybodaeth gywir am y dewisiadau dysgu sydd ar gael a pherfformiad gwahanol ddarparwyr. Bydd y mesurau'n helpu i sicrhau hygrededd y wybodaeth hon.

We are proposing to simplify the recording of data on learner outcomes and sharing them securely with schools and colleges, enabling them to understand their learners' journeys and continually improve the quality and relevance of their curriculum offer. Let me emphasise this: the information collected and data shared cannot be published in any way that identifies individuals. Data protection legislation continues to apply. I move that this legislative consent motion is passed by the Assembly.

Rydym yn bwriadu symleiddio'r ffordd y cofnodir data am ganlyniadau dysgwyr a'i rannu'n ddiogel ag ysgolion a cholegau, a fydd yn eu galluogi i ddeall teithiau eu dysgwyr a gwella ansawdd a pherthnasedd eu cwricwlwm yn barhaus. Gadewch imi bwysleisio hyn: ni chaiff y wybodaeth a gasglwyd a'r data a rannwyd eu cyhoeddi mewn unrhyw ffordd lle mae modd adnabod unigolion. Mae deddfwriaeth diogelu data'n dal i fod yn gymwys. Cynigiaf fod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn cael ei basio gan y Cynulliad.

16:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiadau. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 16:23.*

*Sandy Mewies took the Chair at 16:23.*

16:23

Senedd.tv Fideo Video

# Egwyddorion Cyffredinol y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

# The General Principles of the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

I call the Minister for Public Services to move the motion—Leighton Andrews.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig—Leighton Andrews.

Cynnig NDM5632 Leighton Andrews

Motion NDM5632 Leighton Andrews

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

Agrees to the general principles of the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill.

16:23 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

I am pleased to have the opportunity to open the debate on the general principles of the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill, which was introduced in June this year. I want to pay tribute to my predecessors, Lesley Griffiths and Carl Sargeant, who did so much to bring this Bill to fruition. I am grateful to Christine Chapman and the members of the Communities, Equality and Local Government Committee, and David Melding and the members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, for their thorough scrutiny of the Bill and the reports on their findings. I will not attempt to address each of the 18 recommendations and conclusions of the committees, but I can assure Members that they will all be considered carefully as we move towards Stage 2.

Rwyf yn falch o gael cyfle i agor y ddadl ar egwyddorion cyffredinol Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), a gyflwynwyd ym mis Mehefin eleni. Hoffwn dalu teyrnged i'm rhagflaenwyr, Lesley Griffiths a Carl Sargeant, a wnaeth gymaint i ddwyn y maen i'r wal gyda'r Bil hwn. Rwyf yn ddiolchgar i Christine Chapman ac aelodau'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, ac i David Melding ac aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eu gwaith craffu trylwyr ar y Bil a'r adroddiadau ar eu canfyddiadau. Nid wyf am geisio ymdrin â phob un o'r 18 o argymhellion a chasgliadau a wnaed gan y pwyllgorau, ond gallaf sicrhau'r Aelodau y bydd pob un ohonynt yn cael eu hystyried yn ofalus wrth inni symud tuag at Gyfnod 2.

I am clear that the Bill must recognise the specific challenge of violence against women and girls. As I advised the committee on 1 October, it is my intention to bring forward an amendment that provides a new section in the Bill specifically on violence against women and girls. This will seek to ensure that regard is paid to the needs of women and girls affected by such violence and abuse. Although, as recognised by the committee, it should not be at the exclusion of all other relevant matters. We have always stated categorically that we recognise that women and girls are disproportionately affected by violence and abuse; I trust that this amendment will clarify this further.

Rwyf yn glir fod yn rhaid i'r Bil gydnabod her benodol trais yn erbyn menywod a merched. Fel y dywedais wrth y pwyllgor ar 1 Hydref, mae'n fwriad gennyf gyflwyno gwelliant sy'n darparu adran newydd yn y Bil yn benodol ar drais yn erbyn menywod a merched. Bydd hyn yn ceisio sicrhau bod sylw'n cael ei roi i anghenion menywod a merched y mae trais a cham-drin o'r fath yn effeithio arnynt. Er, fel y mae'r pwyllgor wedi'i gydnabod, ni ddylai fod ar draul pob mater arall perthnasol. Rydym bob amser wedi datgan yn bendant ein bod yn cydnabod bod trais a cham-drin yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched; hyderaf y bydd y gwelliant hwn yn gwneud hyn yn fwy eglur eto.

In view of the new section on violence against women and girls, I will also be considering a possible change to the short title of the Bill. This will need to adhere to the Presiding Officer’s determination on proper forms of Assembly Bills. I will update the committee on this in due course.

Yn sgil yr adran newydd ar drais yn erbyn menywod a merched, byddaf hefyd yn ystyried newid posibl i deitl byr y Bil. Bydd angen i hyn gadw at benderfyniad y Llywydd ar ffurfiau priodol Biliau'r Cynulliad. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i'r pwyllgor maes o law.

The aim of this Bill is to drive up the public sector response in terms of assessing need and planning and delivering appropriate services. Local authorities and local health boards already have the power, and often are under a duty, to provide particular services to those in need, such as those suffering from gender-based violence, domestic abuse and sexual violence—the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 being one such example, which the committee also pointed to as an example of a rights-based approach.

Nod y Bil hwn yw hybu ymateb y sector cyhoeddus o ran asesu anghenion a chynllunio a darparu gwasanaethau priodol. Mae’r grym hwn gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol eisoes, ac yn aml mae’n ddyletswydd arnynt i ddarparu gwasanaethau arbennig i'r rhai sydd mewn angen, megis y rhai sy'n dioddef trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol—mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn un enghraifft o'r fath, a chyfeiriodd y pwyllgor ati fel enghraifft o ymagwedd seiliedig ar hawliau.

In requiring the identification of local needs, and the strategic response to those needs, the Bill will ensure a more effective and efficient provision of services to victims. To support this aim, I have already signalled my intention to consult on and publish statutory guidance under section 12 of the Bill relating to the commissioning of specialist services that most effectively contribute to the purposes of the Bill. My officials are planning this work now and engaging expert stakeholders, with a view to consulting next spring.

Wrth ei gwneud yn ofynnol nodi anghenion lleol, ac ymateb yn strategol i'r anghenion hynny, bydd y Bil yn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu’n fwy effeithiol ac effeithlon i ddioddefwyr. Er mwyn cefnogi'r nod hwn, rwyf eisoes wedi nodi fy mwriad i ymgynghori ar ganllawiau statudol a’u cyhoeddi o dan adran 12 o'r Bil sy'n ymwneud â chomisiynu’r gwasanaethau arbenigol sy'n cyfrannu yn y modd mwyaf effeithiol at ddibenion y Bil. Mae fy swyddogion wrthi’n cynllunio’r gwaith hwn yn awr ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid arbenigol, a’r bwriad yw ymgynghori’r gwanwyn nesaf.

I also intend to table an amendment to section 12 that will add commissioning to the list of examples provided to help to support this aim. In addition, I have recently agreed to proposals for the review of the domestic abuse budget. Our funding will be made available on a regional footprint, and priority will be given to pooling budgets across commissioners. I am also introducing three-year funding to provide the required surety of funding.

Rwyf hefyd yn bwriadu cyflwyno gwelliant i adran 12 a fydd yn ychwanegu comisiynu at y rhestr o enghreifftiau a ddarparwyd i helpu i gefnogi'r nod hwn. Yn ogystal, rwyf wedi cytuno’n ddiweddar ar gynigion i adolygu’r gyllideb cam-drin domestig. Bydd ein cyllid ar gael ar sail ôl troed rhanbarthol, a rhoddir blaenoriaeth i gyfuno cyllidebau ar draws comisiynwyr. Rwyf hefyd yn cyflwyno cyllid tair blynedd i ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol ynghylch ariannu.

Building on the pathfinder work in Gwent in 2013-14, from April 2015 this new funding approach will be taken forward in Gwent, led by Newport, and rolled out across Wales by April 2016. I am confident that these actions will improve both the standard and accessibility of provision to ensure that, no matter where a victim lives, there is a strong and specialist service ready to help.

Gan adeiladu ar y gwaith braenaru yng Ngwent yn 2013-14, o fis Ebrill 2015 bwriedir bwrw ymlaen â’r dull cyllido newydd hwn yng Ngwent, dan arweiniad Casnewydd, a’i gyflwyno ledled Cymru erbyn mis Ebrill 2016. Rwyf yn hyderus y bydd y camau hyn yn gwella safon a hygyrchedd y ddarpariaeth er mwyn sicrhau, lle bynnag y mae dioddefwr yn byw, fod gwasanaeth cryf ac arbenigol yn barod i helpu.

I fully recognise the importance of education in this area, and I have listened carefully to the views of the committee and stakeholders. The Government has made its position very clear on compulsory education programmes in respect of healthy relationships since the introduction of the Bill. Any school-based provision cannot be delivered in isolation of the wider education agenda, and must take account of the review of the national curriculum and assessment arrangements currently being undertaken by Professor Donaldson. First, the personal and social education curriculum is currently where the majority of healthy relationships education is being provided. However, it is being delivered inconsistently and its content varies enormously; that is something that we want to put right. Secondly, the work being undertaken by Professor Donaldson is looking across the whole of the curriculum. Our aim must be not to isolate healthy relationships, but to ensure that messages of equality and respect are embedded across the curriculum.

Rwyf yn llwyr gydnabod pwysigrwydd addysg yn hyn o beth, ac rwyf wedi gwrando'n ofalus ar farn y pwyllgor a'r rhanddeiliaid. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud ei safbwynt yn glir iawn o ran rhaglenni addysg gorfodol ynghylch cynnal perthynas iach ers cyflwyno'r Bil. Ni ellir cyflwyno unrhyw ddarpariaeth yn yr ysgol ar wahân i'r agenda addysg ehangach, ac mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i'r adolygiad o'r cwricwlwm cenedlaethol a threfniadau asesu sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd gan yr Athro Donaldson. Yn gyntaf, drwy'r cwricwlwm addysg bersonol a chymdeithasol y mae'r rhan fwyaf o addysg am berthynas iach yn cael ei darparu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n cael ei darparu'n anghyson ac mae ei chynnwys yn amrywio'n fawr iawn; mae hynny'n rhywbeth yr ydym am ei unioni. Yn ail, mae gwaith yr Athro Donaldson yn edrych ar y cwricwlwm cyfan. Rhaid inni beidio ag ynysu addysg am gynnal perthynas iach, ond sicrhau bod negeseuon ynghylch cydraddoldeb a pharch yn cael eu hymgorffori ar draws y cwricwlwm.

I am working with the Minister for Education and Skills to identify how the Bill and supporting policy can be strengthened best to support the prevention agenda. To this end, I propose to bring forward an amendment at Stage 2 to introduce a new duty on local authorities to report annually on the actions that schools in their areas are taking to address gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. My officials are already working on this with education department officials.

Rwyf yn gweithio gyda'r Gweinidog Addysg a Sgiliau i nodi'r ffordd orau o gryfhau'r Bil a pholisi ategol i gefnogi'r agenda atal. I'r perwyl hwn, bwriadaf gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i roi dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol i adrodd yn flynyddol ar y camau y mae ysgolion yn eu hardaloedd yn eu cymryd i fynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae fy swyddogion eisoes yn gweithio ar hyn gyda swyddogion yr adran addysg.

In respect of the defence of reasonable punishment, the Government has been clear that this Bill is not the right place to address this issue. As has been stated from the outset, this Bill is not seeking to address criminal justice matters, but seeks to complement existing criminal law, focusing on the social issues within the areas of prevention, protection and support. We believe that this issue is, therefore, best addressed in the new Assembly committee that was proposed to be established earlier today, and I urge Members to support that motion.

O ran yr amddiffyniad cosb resymol, mae'r Llywodraeth wedi bod yn glir nad y Bil hwn yw'r lle iawn i fynd i'r afael â'r mater hwn. Fel y dywedwyd o'r dechrau, nid ceisio mynd i'r afael â materion cyfiawnder troseddol y mae'r Bil hwn, ond ategu cyfraith droseddol sy'n bodoli eisoes, gan ganolbwyntio ar y materion cymdeithasol ynghylch atal, amddiffyn a chefnogi. Credwn, felly, mai pwyllgor newydd y Cynulliad, y cynigiwyd y dylid ei sefydlu yn gynharach heddiw, yw'r lle gorau i ymdrin â hyn, ac anogaf yr Aelodau i gefnogi'r cynnig hwnnw.

Let me now turn to the provisions in the Bill for a national strategy. We have made clear that the national strategy will, of course, build on existing strategies and best practice as well as the latest evidence. The detailed content, including minimum requirements for the design, implementation and monitoring of local strategies, including performance indicators, will be covered in statutory guidance to be issued under section 12. Prescribing further detail on the face of the Bill would, likely, require frequent revision of primary legislation and, potentially, reduce the lifespan of the Bill itself. I am clear that the balance between primary and secondary legislation is proportionate and necessary, and I am grateful to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for its recognition of this.

Gadewch imi droi yn awr at y darpariaethau yn y Bil ar gyfer strategaeth genedlaethol. Rydym wedi ei gwneud yn glir y bydd y strategaeth genedlaethol, wrth gwrs, yn adeiladu ar strategaethau ac arfer gorau presennol yn ogystal â'r dystiolaeth ddiweddaraf. Bydd y cynnwys manwl, gan gynnwys gofynion ar gyfer cynllunio, gweithredu a monitro strategaethau lleol, gan gynnwys dangosyddion perfformiad, yn cael eu cynnwys mewn canllawiau statudol i'w cyhoeddi o dan adran 12. Er mwyn rhagnodi rhagor o fanylion ar wyneb y Bil, mae'n debyg y byddai'n rhaid adolygu deddfwriaeth sylfaenol yn aml ac mae'n bosibl y gallai gwtogi oes y Bil ei hun. Rwyf yn glir bod y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth yn gymesur ac yn angenrheidiol, ac rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am gydnabod hyn.

I agree with the recommendation that stakeholders' views need to be taken into account in the development of both national and local strategies. As such, I will be tabling an amendment that will require Welsh Ministers to consult before publishing their first national strategy or revising it. I will also be tabling a further amendment to provide an equivalent requirement on local authorities and local health boards in relation to local strategies.

Rwyf yn cytuno â'r argymhelliad bod angen ystyried barn rhanddeiliaid wrth ddatblygu strategaethau cenedlaethol a lleol. Felly, byddaf yn cyflwyno gwelliant a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn cyhoeddi eu strategaeth genedlaethol gyntaf neu ei hadolygu. Byddaf hefyd yn cyflwyno gwelliant arall i ddarparu gofyniad cyfatebol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol mewn perthynas â strategaethau lleol.

I am pleased that the national training framework is very well supported by the committee and by stakeholders. The committee has asked that the framework is made available to specialist service providers as well as public sector staff, and I am pleased to report that this is already happening. We fully recognise that standards need to be driven up across all sectors supporting the most vulnerable in our society. Specialist training for independent domestic violence advisers, or IDVAs, is already being funded for a second year, under level 4 of the framework, to support and upskill 42 IDVAs and other key staff working in the third sector across Wales. Level 5 of the framework is specifically aimed at strengthening leadership within the specialist sector.

Rwyf yn falch bod cefnogaeth gref i'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol gan y pwyllgor a chan randdeiliaid. Mae'r pwyllgor wedi gofyn i'r fframwaith fod ar gael i ddarparwyr gwasanaethau arbenigol yn ogystal â staff y sector cyhoeddus, ac rwyf yn falch o adrodd bod hyn eisoes yn digwydd. Rydym yn llwyr gydnabod fod angen codi safonau ar draws pob sector sy'n cefnogi'r mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae hyfforddiant arbenigol i gynghorwyr annibynnol trais domestig eisoes yn cael ei ariannu am yr ail flwyddyn, o dan lefel 4 y fframwaith, i gefnogi a gwella sgiliau 42 o'r cynghorwyr hyn a staff allweddol eraill sy'n gweithio yn y trydydd sector ledled Cymru. Nod penodol lefel 5 y fframwaith yw cryfhau arweinyddiaeth yn y sector arbenigol.

All major public service organisations in Wales have now put in place or reviewed their workplace policies on domestic abuse, violence against women and sexual violence, and are already, or are in the process of, promoting and implementing them within their organisations. I intend to table an amendment to section 12 to add workplace policies to the list of examples provided in recognition of this.

Mae'r holl sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus mawr yng Nghymru bellach wedi rhoi ar waith neu wedi adolygu eu polisïau yn y gweithle ar gam-drin domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol, ac maent eisoes yn eu hyrwyddo ac yn eu rhoi ar waith yn eu sefydliadau, neu mae'r gwaith hwnnw ar y gweill. Rwyf yn bwriadu cyflwyno gwelliant i adran 12 i ychwanegu polisïau yn y gweithle i'r rhestr o enghreifftiau a ddarparwyd er mwyn cydnabod hyn.

I would now like to address the concerns around the appointment of a ministerial adviser. I concur with stakeholders that these issues merit an expert and focused approach, and I believe that this is what the ministerial adviser will bring. I am grateful to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for recognising the significant weight that statutory posts of this nature carry. I can once again assure Members that the ministerial adviser will be appointed through a public appointments process. In line with all public appointees, the adviser will be expected to uphold the standards of conduct set out in the Committee on Standards in Public Life's seven principles of public life. Further, being subject to the code of practice of ministerial appointments to public bodies means that the appointment must be based on the principles of fairness, openness and merit. It is important to recognise the independent nature of the ministerial adviser as currently provided in the Bill. As drafted, the role is not that of a civil servant, but is based on the statutory office-holder model. I consider this to be the most appropriate model as it balances the requirement for expert and independent advice to Ministers without the considerable cost implications that a commissioner would require. A successful example of such an adviser is the post of Chief Social Work Adviser for Scotland, and our work on this adviser parallels that. In terms of support staff, I do not consider that a strong case has been made for an independent administrative staff, and my priority is to ensure that funding is used for the direct provision and improvement of services to support survivors of violence and abuse, rather than further bureaucracy.

Rwyf yn awr am fynd i'r afael â'r pryderon ynghylch penodi cynghorydd gweinidogol. Cytunaf â rhanddeiliaid fod y materion hyn yn haeddu ymagwedd arbenigol â phwyslais penodol, a chredaf mai dyna'r hyn y bydd y cynghorydd gweinidogol yn ei gyfrannu. Rwyf yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am gydnabod y pwys mawr sydd i swyddi statudol o'r math hwn. Gallaf sicrhau'r Aelodau unwaith eto y bydd y cynghorydd gweinidogol yn cael ei benodi drwy broses penodiadau cyhoeddus. Yn yr un modd â phob penodiad cyhoeddus, bydd disgwyl i'r cynghorydd gadw at y safonau ymddygiad a nodir yn saith egwyddor bywyd cyhoeddus y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus. Yn ogystal, mae bod yn ddarostyngedig i god ymarfer penodiadau gweinidogol i gyrff cyhoeddus yn golygu bod yn rhaid i'r penodiad fod yn seiliedig ar egwyddorion bod yn deg, yn agored ac yn deilwng. Mae'n bwysig cydnabod natur annibynnol y cynghorydd gweinidogol yn unol â'r ddarpariaeth ar hyn o bryd yn y Bil. Fel y'i drafftiwyd, nid rôl gwas sifil mohoni, ond mae wedi'i seilio ar fodel deiliad swydd statudol. Credaf mai dyma'r model mwyaf priodol gan ei fod yn cadw cydbwysedd rhwng yr angen am gyngor annibynnol arbenigol i Weinidogion heb y goblygiadau sylweddol o ran costau a fyddai'n gysylltiedig â chael comisiynydd. Mae swydd Prif Gynghorydd Gwaith Cymdeithasol yr Alban yn enghraifft lwyddiannus o gynghorydd o'r fath, ac mae ein gwaith o ran y cynghorydd hwn yn cyfateb i hynny. O ran staff cymorth, nid wyf o'r farn bod achos cryf wedi ei gyflwyno dros gael staff gweinyddol annibynnol, a'm blaenoriaeth i yw sicrhau bod cyllid yn cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol i ddarparu a gwella gwasanaethau i gefnogi'r rhai sy'n goroesi trais a cham-drin, yn hytrach na chael rhagor o fiwrocratiaeth.

In terms of the monitoring functions of the adviser, an extremely important part of the adviser's role will be the monitoring, preparation and implementation of national and local strategies and to advise the Welsh Ministers where improvement is necessary. To inform this advice, the adviser has the power in section 18 to request information from relevant authorities, which they will have to comply with. If the ministerial adviser identifies any deficiencies in the preparation or implementation of local strategies, such information, along with any recommendations for improvements, could be passed on to Welsh Ministers. For example, the adviser could recommend that guidance should be issued under section 12 to require local authorities and local health boards to adopt a particular approach to the preparation and implementation of strategies.

O ran swyddogaethau monitro'r cynghorydd, un elfen eithriadol o bwysig o rôl y cynghorydd fydd monitro, paratoi a gweithredu strategaethau cenedlaethol a lleol a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru lle y mae angen gwella pethau. Er mwyn llywio'r cyngor hwn, mae gan y cynghorydd rym yn adran 18 i ofyn am wybodaeth gan awdurdodau perthnasol, a bydd yn rhaid iddynt gydymffurfio â hynny. Os bydd y cynghorydd gweinidogol yn nodi unrhyw ddiffygion wrth baratoi neu weithredu strategaethau lleol, gallai gwybodaeth o'r fath, ynghyd ag unrhyw argymhellion ar gyfer gwelliannau, gael ei rhoi i Weinidogion Cymru. Er enghraifft, gallai'r cynghorydd argymell y dylai canllawiau gael eu cyhoeddi o dan adran 12 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol fabwysiadu ymagwedd benodol at baratoi a gweithredu strategaethau.

Moving on to definitions, I will undertake to look again at the definitions used in the Bill, along with material in the explanatory memorandum and explanatory notes. In conclusion, I thank the committees for their constructive engagement and their proposals for strengthening the Bill. I urge Members to agree the general principles and the financial resolution of the Bill today.

A symud ymlaen at ddiffiniadau, ymrwymaf i edrych eto ar y diffiniadau a ddefnyddir yn y Bil, ynghyd â deunydd yn y memorandwm esboniadol a'r nodiadau esboniadol. I gloi, hoffwn ddiolch i'r pwyllgorau am eu hymgysylltiad adeiladol a'u cynigion er mwyn cryfhau'r Bil. Anogaf yr Aelodau i gytuno ar egwyddorion cyffredinol a phenderfyniad ariannol y Bil heddiw.

16:34 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, Christine Chapman.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, Christine Chapman.

16:34 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am pleased to contribute to this debate as the Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, which is responsible for scrutinising the Bill. I would like to thank all those who gave evidence as well as those who took part in our stakeholder event—all of which helped inform our work on the Bill. In total, we have made 12 recommendations that we believe will strengthen the Bill. Given the time available today, I will focus on our main concerns. Respondents overwhelmingly supported the purpose and intention of the Bill. However, many had serious concerns about its content. While we support the main aims and believe that legislation is necessary, we call on the Minister to make significant changes to ensure the Bill effectively reduces the rates of gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. As such, we recommend that the Assembly supports the general principles of the Bill today.

Rwyf yn falch o gyfrannu at y ddadl hon fel Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil. Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth yn ogystal â'r rhai a gymerodd ran yn ein digwyddiad i randdeiliaid—mae pob un ohonynt wedi helpu i lywio ein gwaith ar y Bil. Rydym wedi gwneud cyfanswm o 12 o argymhellion y credwn y byddant yn cryfhau'r Bil. O ystyried yr amser sydd ar gael heddiw, rwyf am ganolbwyntio ar ein pryderon pennaf. Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cefnogi diben a bwriad y Bil. Fodd bynnag, roedd llawer o bryderon difrifol ynghylch ei gynnwys. Er ein bod yn cefnogi'r prif nodau ac yn credu bod angen deddfwriaeth, rydym yn galw ar y Gweinidog i wneud newidiadau sylweddol i sicrhau bod y Bil yn lleihau cyfraddau trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithiol. Felly, argymhellwn fod y Cynulliad yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil heddiw.

As I mentioned, we feel that significant changes are needed to the Bill, and I have heard, obviously, what the Minister has said today. We believe it should provide for a rights-based framework to ensure a statutory right to services for victims; this is an approach in line with international recommendations.

Fel y soniais, rydym o'r farn bod angen newidiadau sylweddol i'r Bil, ac wrth gwrs rwyf wedi clywed yr hyn y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud heddiw. Credwn y dylai ddarparu ar gyfer fframwaith sy'n seiliedig ar hawliau er mwyn sicrhau bod gan ddioddefwyr hawl statudol i gael gwasanaethau; mae hyn yn unol ag argymhellion rhyngwladol.

It is important to recognise that women are disproportionately affected by violence and abuse in a domestic setting. While we welcome the Minister's commitment to introduce a new section that will require relevant authorities to have due regard to violence against women and girls in meeting their obligations under the Bill, we do not feel that this goes far enough.

Mae'n bwysig cydnabod bod trais a cham-drin mewn cyd-destun domestig yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. Er ein bod yn croesawu ymrwymiad y Gweinidog i gyflwyno adran newydd a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau perthnasol roi sylw dyledus i drais yn erbyn menywod a merched er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Bil, nid ydym o'r farn bod hyn yn mynd yn ddigon pell.

There was widespread support for the proposal that the Bill should refer to violence against women, rather than to gender-based violence, and we did recommend this to the Minister. We have made it clear that this should not preclude male victims from accessing services, but that services should be tailored to meet the specific needs of men and women respectively. We would also like to see a specific reference to the direct and indirect impact that violence against women, domestic abuse and sexual violence has on children, regardless of their gender, and I am pleased with the Minister's response to our report and his plans for an amendment at Stage 2.

Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig y dylai'r Bil gyfeirio at drais yn erbyn menywod, yn hytrach nag at drais ar sail rhywedd, ac argymhellodd y pwyllgor hynny i'r Gweinidog. Rydym wedi dweud yn glir na ddylai hyn atal dynion sy'n ddioddefwyr rhag defnyddio gwasanaethau, ond y dylai gwasanaethau gael eu teilwra i fodloni anghenion penodol iawn dynion a menywod. Hoffem hefyd weld cyfeiriad penodol at yr effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ei chael ar blant, waeth beth yw eu rhyw, ac rwyf yn hapus ag ymateb y Gweinidog i'n hadroddiad a'i gynlluniau i gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2.

On the education side, one of our main concerns was the omission of the education proposals that were originally included in the Welsh Government's White Paper. Education is critical in changing attitudes and having a long-term impact on reducing levels of violence against women, and we received a considerable amount of evidence expressing this view. We believe that the Bill should make whole-school, age-appropriate education programmes on healthy relationships compulsory. Again, I very much welcome the Minister's response to this and we will look forward to seeing further work being done on this. I was very heartened by his response there.

O ran addysg, un o'n prif bryderon oedd bod y cynigion addysg a oedd wedi eu cynnwys yn wreiddiol ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru wedi eu hepgor. Mae addysg yn allweddol er mwyn newid agweddau a chael effaith hirdymor ar leihau lefelau trais yn erbyn menywod, a chawsom gryn dipyn o dystiolaeth yn mynegi'r farn hon. Rydym o'r farn y dylai'r Bil wneud rhaglenni addysg ysgol gyfan sy'n briodol i oedran ar gynnal perthynas iach yn orfodol. Unwaith eto, rwyf yn croesawu ymateb y Gweinidog i hyn yn fawr iawn ac edrychwn ymlaen at weld rhagor o waith yn cael ei wneud ar hyn. Roedd ei ymateb yn hynny o beth yn galonogol iawn.

We are also concerned about the lack of emphasis on the specific needs of children and young people who are at risk or who are victims of domestic abuse. This should be addressed by making a specific reference in the Bill to the United Nations Convention on the Rights of the Child to ensure that authorities have due regard to this convention in complying with their duties under the Bill.

Rydym hefyd yn pryderu am y diffyg pwyslais ar anghenion penodol plant a phobl ifanc sydd mewn perygl neu sy'n dioddef cam-drin domestig. Dylid mynd i'r afael â hyn drwy gynnwys cyfeiriad penodol yn y Bil at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn er mwyn sicrhau bod awdurdodau'n rhoi sylw dyledus i'r confensiwn hwn wrth gydymffurfio â'u dyletswyddau o dan y Bil.

The Bill does not make provision in relation to the defence of reasonable punishment of a child, and therefore we did not invite evidence on this issue. We did, however, receive a number of responses calling for a ban on hitting children as a means of punishment. Those who contacted us about this said that failure to include a provision to remove the defence was a missed opportunity that could undermine the Bill's intentions. We considered this matter in detail and at length, but we were unable to reach a consensus. We would, however, and our recommendation 5 says this, like the Minister to clarify the current Welsh Government's policy position in relation to this issue—over and above, I think, what the Minister said today.

Nid yw'r Bil yn gwneud darpariaeth ynghylch yr amddiffyniad o gosbi plentyn yn rhesymol, ac felly ni ofynnwyd am dystiolaeth ar y mater hwn. Cawsom, fodd bynnag, nifer o ymatebion yn galw am waharddiad ar daro plant fel cosb. Dywedodd y rhai a gysylltodd â ni am hyn fod peidio â chynnwys darpariaeth i gael gwared â'r amddiffyniad hwn yn gyfle a gollwyd a allai danseilio bwriadau'r Bil. Buom yn ystyried y mater hwn yn fanwl ac yn helaeth, ond ni lwyddwyd i ddod i gytundeb. Fodd bynnag, fel y mae ein hargymhelliad 5 yn ei ddweud, byddem yn hoffi i'r Gweinidog egluro safbwynt polisi Llywodraeth bresennol Cymru ynghylch y mater hwn—yn ychwanegol, rwyf yn meddwl, at yr hyn a ddywedodd y Gweinidog heddiw.

We agree with respondents that, in order to avoid duplication between the national and local strategies, there needs to be clear distinction between them. We also agree that service providers, the police, and victims should be consulted when drawing up national and local strategies and we recommend that the Minister amends the Bill to give effect to this. Again, I am pleased with the Minister's responses on this. We would like the Bill to provide for a lead officer within each local authority who is responsible for ensuring delivery of the local strategy.

Rydym yn cytuno ag ymatebwyr bod angen gwahaniaethu'n glir rhwng y strategaethau cenedlaethol a lleol, er mwyn osgoi dyblygu rhyngddynt. Rydym hefyd yn cytuno y dylid ymgynghori â darparwyr gwasanaethau, yr heddlu, a dioddefwyr wrth lunio strategaethau cenedlaethol a lleol ac rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ddiwygio'r Bil i roi grym i hyn. Unwaith eto, rwyf yn hapus ag ymatebion y Gweinidog yn hyn o beth. Hoffem i'r Bil ddarparu ar gyfer swyddog arweiniol ym mhob awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff y strategaeth leol ei chyflwyno.

With regard to the ministerial adviser, we see this role as being key in providing strong leadership and delivering the aims of the Bill. However, we believe that this role should be independent of Government—again, there was lots of evidence on this—and the title of the role should be changed to reflect this arm's-length position. The adviser should have the power to monitor progress of delivery of local strategies and conduct investigations in cases where performance is unsatisfactory. In conclusion then, Chair, if the Assembly gives its agreement to the general principles of the Bill today, I hope the Minister will accept our conclusions—I know that he has in some cases—and recommendations, and will consider bringing forward the appropriate amendments at Stage 2.

O ran y cynghorydd gweinidogol, mae'r rôl hon, yn ein barn ni, yn allweddol er mwyn darparu arweiniad cryf a chyflawni amcanion y Bil. Fodd bynnag, credwn y dylai'r rôl hon fod yn annibynnol ar y Llywodraeth—unwaith eto, roedd llawer o dystiolaeth ar hyn—ac y dylid newid teitl y swydd i adlewyrchu'r sefyllfa hyd braich hon. Dylai fod gan y cynghorydd rym i fonitro cynnydd y gwaith o gyflwyno strategaethau lleol a chynnal ymchwiliadau mewn achosion lle mae perfformiad yn anfoddhaol. I gloi felly, Gadeirydd, os bydd y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil heddiw, rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn derbyn ein casgliadau—gwn ei fod wedi gwneud hynny mewn rhai achosion—a'n hargymhellion, ac yn ystyried cyflwyno'r gwelliannau priodol yng Nghyfnod 2.

16:40 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

16:40 **David Melding** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Chair. The committee reported on this Bill in line with its remit on 14 November. We noted that the Bill contains only one power to make subordinate legislation, and we consider this a very welcome approach, and we have therefore commended the Welsh Government on the balance it has struck between the information contained on the face of the Bill and that which is left to subordinate legislation. I am not surprised that the Minister has amplified our commendation this afternoon. We do hope that this good practice becomes common practice. During our evidence session, we sought to understand why some definitions in the Bill, for example 'gender-based violence', are framed widely. In our view, this consideration is important given the potential for broad definitions to have an impact on the effectiveness of legislation and to, potentially, at least, undermine its objectives. I note the positive response we have already had from the Minister to reflect on the definitions—no doubt, this will now be a matter that will be thoroughly scrutinised at Stage 2—we will all watch that with interest, but I welcome what the Minister just said.

Diolch, Gadeirydd. Adroddodd y pwyllgor ar y Bil hwn yn unol â'i gylch gwaith ar 14 Tachwedd. Nodasom fod y Bil yn cynnwys un grym yn unig i wneud is-ddeddfwriaeth, ac rydym o'r farn bod hon yn ymagwedd sydd i'w chroesawu'n fawr, ac felly rydym wedi cymeradwyo Llywodraeth Cymru ar y cydbwysedd y mae wedi'i sicrhau rhwng y wybodaeth sydd ar wyneb y Bil a'r hyn a adewir i is-ddeddfwriaeth. Nid wyf yn synnu bod y Gweinidog wedi sôn yn helaeth am ein cymeradwyaeth y prynhawn yma. Rydym yn gobeithio y bydd yr arfer da hwn yn dod yn arfer cyffredin. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, roeddem yn ceisio deall pam y mae rhai diffiniadau yn y Bil, er enghraifft 'trais ar sail rhywedd', yn cael eu ffram io'n eang. Yn ein barn ni, mae hon yn ystyriaeth bwysig o ystyried y posibiliad y gallai diffiniadau eang effeithio ar effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth, ac, o bosibl, o leiaf, danseilio ei hamcanion. Nodaf yr ymateb cadarnhaol yr ydym eisoes wedi'i gael gan y Gweinidog o ran ystyried y diffiniadau—yn ddiau, bydd hyn yn awr yn fater y bydd craffu trylwyr arno yng Nghyfnod 2—byddwn i gyd yn gwylio hynny â diddordeb, ond rwyf yn croesawu'r hyn y mae'r Gweinidog newydd ei ddweud.

There are two specific issues, I think, I need to bring to the Assembly's attention at the moment. Section 8 places a duty on Welsh Ministers to publish national indicators. Under the Bill, no Assembly procedure currently applies to the making of indicators, although Welsh Ministers are required to lay a copy before the Assembly, and, indeed, we have just heard the Minister say that he intends to make that system more robust by going out to consultation—that is welcome. However, given that the indicators are likely to be the means by which progress towards achieving the purpose of the Bill is measured, we believe that they should be endorsed by the Assembly. Accordingly, we recommend that the Minister should table an amendment to the Bill such that the affirmative procedure is applied to the making of national indicators—I would be particularly grateful if he responds to that point in his summing up.

Mae dau fater penodol, y credaf y mae angen imi dynnu sylw'r Cynulliad atynt ar hyn o bryd. Mae adran 8 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi dangosyddion cenedlaethol. O dan y Bil, nid oes yr un weithdrefn yn y Cynulliad ar hyn o bryd yn berthnasol i wneud dangosyddion, er bod angen i Weinidogion Cymru osod copi gerbron y Cynulliad, ac, yn wir, rydym newydd glywed y Gweinidog yn dweud ei fod yn bwriadu gwneud y system honno'n gryfach drwy gynnal ymgynghoriad—mae hynny i'w groesawu. Fodd bynnag, gan ei bod yn debygol mai drwy gyfrwng y dangosyddion y caiff cynnydd tuag at gyflawni diben y Bil ei fesur, credwn y dylai'r Cynulliad eu cymeradwyo. Yn unol â hynny, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil fel bod y weithdrefn gadarnhaol yn cael ei chymhwyso i wneud dangosyddion cenedlaethol—byddwn yn arbennig o ddiolchgar pe bai'n ymateb i'r pwynt hwnnw wrth grynhoi.

Finally, in our report we recommend that during this debate the Minister should address a number of points regarding the appointment by Welsh Ministers of a ministerial adviser under section 17 of the Bill, and we have had more success here, I am pleased to say. As the Minister indicated, the committee considers the ministerial adviser role to be an innovation, the first of its kind in the UK—we make that observation neutrally, but it is an interesting development. However, we were keen to stress that the post carries significant weight and, as such, should be subject to a statutory appointments process and specific term of appointment. I do welcome what the Minister said in terms of the conditions under which the appointment will be made and the procedures followed—I am fairly reassured—but I am sure, again, that at Stage 2 the full detail of his response in this respect will be fully scrutinised. So, with those two specific points, I am pleased to say that, in general, the committee did not have overriding objections on constitutional grounds to this Bill.

Yn olaf, yn ein hadroddiad rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog, yn ystod y ddadl hon, ymdrin â nifer o bwyntiau ynghylch penodi cynghorydd gweinidogol gan Weinidogion Cymru o dan adran 17 o'r Bil, ac rydym wedi cael mwy o lwyddiant yma, mae'n dda gennyf ddweud. Fel y dywedodd y Gweinidog, mae'r pwyllgor o'r farn bod rôl y cynghorydd gweinidogol yn un arloesol, y gyntaf o'i bath yn y DU—rydym yn gwneud y sylw hwnnw o safbwynt niwtral, ond mae'n ddatblygiad diddorol. Fodd bynnag, rydym yn awyddus i bwysleisio bod pwys mawr i'r swydd hon, ac felly dylai fod yn destun proses penodiadau statudol a thymor penodol. Rwyf yn croesawu'r hyn a ddywedodd y Gweinidog o ran yr amodau ar gyfer gwneud y penodiad a'r gweithdrefnau i'w dilyn—rwyf yn weddol dawel fy meddwl—ond rwyf yn sicr, unwaith eto, yng Nghyfnod 2 y bydd craffu llawn ar fanylion llawn ei ymateb yn hyn o beth. Felly, gyda'r ddau bwynt penodol hynny, mae'n dda gennyf ddweud nad oedd gan y pwyllgor, ar y cyfan, wrthwynebiadau mawr iawn ar sail gyfansoddiadol i'r Bil hwn.

16:43

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

There are a considerable number of speakers in this important debate, so I hope that they will follow the examples of the previous speakers by being succinct. I call Alun Davies.

Mae nifer fawr o siaradwyr yn y ddadl bwysig hon, felly gobeithiaf y byddant yn dilyn esiampl y siaradwyr blaenorol drwy fod yn gryno. Galwaf ar Alun Davies.

16:44

## Alun Davies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Like others today, I welcome the work and commitment of the Minister when he gave evidence to the committee review in this matter. I would also like to take a moment to recognise the work that the previous Ministers have done in bringing this legislation to this place; I think that both Carl Sargeant and Leslie Griffiths have clearly contributed significantly to the development of this legislation, and I think that it is right and proper that that is recognised in this debate. In terms of the opening speech from the Minister in this debate today, I think that he has gone a long way to reassuring many people that he has been listening to the debate that has taken place since this legislation was published, and that he has made changes that many people, including myself, would have wished to see. The issues of education and definitions have been raised by many people with many of us, and I think that we are all very grateful that the Minister has recognised those matters.

Fel eraill heddiw, rwyf yn croesawu gwaith ac ymrwymiad y Gweinidog pan roddodd dystiolaeth i adolygiad y pwyllgor ar y mater hwn. Hoffwn hefyd oedi am ennyd i gydnabod gwaith Gweinidogion blaenorol i ddwyn y ddeddfwriaeth hon i'r lle hwn; credaf fod Carl Sargeant a Lesley Griffiths yn amlwg wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu'r ddeddfwriaeth hon, a chredaf ei bod yn iawn ac yn briodol bod hynny'n cael ei gydnabod yn y ddadl hon. O ran araith agoriadol y Gweinidog yn y ddadl hon heddiw, credaf ei fod wedi gwneud cryn dipyn i dawelu meddyliau llawer o bobl ei fod wedi bod yn gwrando ar y ddadl sydd wedi digwydd ers i'r ddeddfwriaeth hon gael ei chyhoeddi, a'i fod wedi gwneud newidiadau y byddai llawer o bobl, a minnau yn eu plith, wedi dymuno eu gweld. Mae materion addysg a diffiniadau wedi eu codi gan lawer o bobl gyda llawer ohonom, a chredaf ein bod i gyd yn ddiolchgar iawn fod y Gweinidog wedi cydnabod y materion hynny.

I would like this afternoon to focus on three issues in my contribution to this debate. First of all is the place of women and girls. I think that many of us were surprised to see the change of name and definitions when this Bill was introduced back in July. The loss of a section on education was also a considerable concern, but that has been addressed, I believe, and will be addressed by the Minister. However, I think that we need to be clear in considering this legislation: the primary victims of domestic violence are women and girls. At its heart, this is legislation that seeks to address violence against women, and that is not to dismiss other sorts of domestic abuse and domestic violence but to recognise that it is women and girls who suffer disproportionately, who are the focus of this level of violence, and that the Bill must, if it is to achieve its ambitions, address the issues facing women and girls. Therefore, that must be included on the face of the legislation. I very much welcome the commitment that the Minister has given today, and I look forward to seeing the amendments that he is going to bring forward, both to the name of the legislation and to sections within it. I think that it is important sometimes to consider the names of the pieces of legislation we pass. If we were to pass a Bill here today, to make an Act addressing issues of domestic violence, without using the word 'woman' in that, then I think that we would be sending entirely the wrong message to people across Wales.

Hoffwn y prynhawn yma ganolbwyntio ar dri mater yn fy nghyfraniad i'r ddadl hon. Y cyntaf o'r rhain yw lle menywod a merched. Credaf fod llawer ohonom wedi synnu o weld y newid yn yr enw a'r diffiniadau pan gyflwynwyd y Bil hwn yn ôl ym mis Gorffennaf. Roedd colli adran ar addysg hefyd yn destun cryn bryder, ond mae hynny wedi cael sylw, yn fy marn i, a bydd yn cael sylw gan y Gweinidog. Fodd bynnag, credaf fod angen inni fod yn glir wrth ystyried y ddeddfwriaeth hon: menywod a merched yw prif ddioddefwyr trais domestig. Yn y bôn, mae'r ddeddfwriaeth hon yn ceisio mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, ac nid yw hynny'n golygu diystyru mathau eraill o gam-drin domestig a thrais yn y cartref, ond cydnabod yn hytrach fod menywod a merched yn dioddef yn anghymesur, ac yn ganolbwynt y lefel hon o drais, a bod yn rhaid i'r Bil, os yw am gyflawni ei uchelgais, fynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu menywod a merched. Felly, y mae'n rhaid eu cynnwys ar wyneb y ddeddfwriaeth. Croesawaf yn fawr iawn yr ymrwymiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud heddiw, ac edrychaf ymlaen at weld y gwelliannau y mae am eu cyflwyno, i enw'r ddeddfwriaeth ac i'r adrannau oddi mewn iddi. Credaf ei bod yn bwysig weithiau ystyried enwau'r darnau o ddeddfwriaeth yr ydym yn eu pasio. Pe baem yn pasio Bil yma heddiw, i wneud Deddf sy'n ymdrin â materion trais domestig, heb ddefnyddio'r gair 'menyw' yn hynny, yna credaf y byddem yn anfon neges hollol anghywir i bobl ledled Cymru.

The second issue I would like to address is that the Bill places duties upon the Welsh Government and local authorities, among others. The Minister this afternoon has talked about the national and local strategies and how they will interact with them. However, I also share the view that was expressed by many people during the consultation and in evidence on this matter, that women who have suffered domestic abuse should have a very clear right to receive such services. While it is right and proper that we legislate here to impose duties upon public services and upon individuals within public services—Ministers and others—it is also right that we ensure that there are rights given to people who have suffered these sorts of abuses, so that they have a right to receive services and a right to receive the sort of support they need. We recognise that one of the problems we are trying to address in this legislation is that people may have a duty to provide services but those services are not provided in the way they need to be provided or where they need to be provided. I hope that we will be able to establish a clear, statutory framework of rights for all those who face and suffer from domestic violence and abuse.

Yr ail fater yr hoffwn ei drafod yw bod y Bil yn gosod dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, ymhlith eraill. Mae'r Gweinidog y prynhawn yma wedi sôn am strategaethau cenedlaethol a lleol a sut y byddant yn rhyngweithio â hwy. Fodd bynnag, rwyf finnau hefyd yn rhannu'r farn a leisiwyd gan lawer o bobl yn ystod yr ymgynghoriad ac yn y dystiolaeth ar y mater hwn, sef y dylai fod gan fenywod sydd wedi dioddef trais domestig hawl glir iawn i dderbyn gwasanaethau o'r fath. Er ei bod yn iawn ac yn briodol ein bod yn deddfu yma i osod dyletswyddau ar wasanaethau cyhoeddus ac ar unigolion o fewn y gwasanaethau cyhoeddus —Gweinidogion ac eraill —mae hefyd yn iawn ein bod yn sicrhau bod hawliau'n cael eu rhoi i bobl sydd wedi dioddef y mathau hyn o gam-drin, fel bod ganddynt hawl i dderbyn gwasanaethau a hawl i dderbyn y math o gefnogaeth sydd ei angen arnynt. Rydym yn cydnabod mai un o'r problemau yr ydym yn ceisio mynd i'r afael â hwy yn y ddeddfwriaeth hon yw y gall fod yn ddyletswydd ar bobl i ddarparu gwasanaethau, ond nad yw'r gwasanaethau hynny'n cael eu darparu yn y ffordd y mae angen iddynt gael eu darparu, neu lle y mae angen iddynt gael eu darparu. Rwyf yn gobeithio y gallwn sefydlu fframwaith clir, statudol ar hawliau i bawb sy'n wynebu ac yn dioddef trais a cham-drin domestig.

The final point I wish to raise is that of the independence of the ministerial adviser. I will not take issue with names and titles of posts, but I do take issue with the matter of independence. The Minister has gone a long way this afternoon, I think, to recognise that, and to reassure many of us who have concerns about that. He has certainly made clear in his own evidence that he sees the value of independent advice and independent evaluation of services. I welcome the recognition from the Minister today that this independence is absolutely essential if this post is to work. I will consider what he said in more detail about how, with some matters, that independence is to be achieved and how that independence is to be guaranteed, but I very much welcome the fact that the Minister today has come here and demonstrated that he has listened to the debate, listened to concerns and is reacting to those.

Y pwynt olaf yr wyf am ei godi yw annibyniaeth y cynghorydd gweinidogol. Nid wyf am fynd i ddadlau am enwau a theitlau swyddi, ond rwyf am fynd i'r afael â mater annibyniaeth. Credaf fod y Gweinidog wedi mynd yn bell y prynhawn yma i gydnabod hynny, ac i roi sicrwydd i lawer ohonom sydd â phryderon ynglŷn â hynny. Mae'n sicr wedi ei gwneud yn glir yn ei dystiolaeth ei hun ei fod yn gweld gwerth cyngor annibynnol a gwerthuso annibynnol ar wasanaethau. Rwyf yn croesawu'r gydnabyddiaeth gan y Gweinidog heddiw fod yr annibyniaeth honno'n gwbl hanfodol os yw'r swydd hon i weithio. Byddaf yn ystyried yr hyn a ddywedodd yn fanylach ynghylch sut, o ran rhai materion, y mae sicrhau'r annibyniaeth honno a sut y mae gwarantu'r annibyniaeth honno, ond rwyf yn croesawu'n fawr iawn y ffaith fod y Gweinidog heddiw wedi dod yma ac wedi dangos ei fod wedi gwrando ar y ddadl, wedi gwrando ar bryderon ac wedi ymateb i hynny.

16:49

## Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The Welsh Conservatives fully support the principles of this Bill, namely to end gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. Some campaigners have raised concerns that the Bill in its present form does not focus enough on female victims of violence. They fear that, if the Bill is gender-neutral, it will not tackle those issues that are specific to women and girls. It is true that, while women are the major victims of domestic abuse and sexual violence, anyone can be affected by such crimes. We have to ensure that we allay those fears by making sure that this Bill recognises and addresses the specific needs of men and women.

Mae Ceidwadwyr Cymru'n cefnogi egwyddorion y Bil hwn yn llawn, sef rhoi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae rhai ymgyrchwyr wedi codi pryderon nad yw'r Bil yn ei ffurf bresennol yn rhoi digon o bwyslais ar fenywod sy'n dioddef trais. Maent yn ofni, os bydd y Bil yn niwtral o ran rhywedd, na fydd yn mynd i'r afael â'r materion hynny sy'n benodol i fenywod a merched. Er mai menywod sy'n dioddef cam-drin domestig a thrais rhywiol yn anad neb, mae'n wir y gall troseddau o'r fath effeithio ar unrhyw un. Mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn lleddfu'r ofnau hynny drwy sicrhau bod y Bil hwn yn cydnabod ac yn mynd i'r afael ag anghenion penodol dynion a menywod.

The proposals in this Bill are focused on three specific areas, Minister: one, leadership across the public sector; two, better education and awareness; and finally, strengthening and integrating services. To improve leadership across the public sector, the Bill will place duties on Welsh Ministers, local authorities and health boards to prepare and publish strategies aimed at ending gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. To assist the Welsh Government, a ministerial adviser will be appointed to advise and help Ministers in tackling these issues.

Mae'r cynigion yn y Bil hwn yn canolbwyntio ar dri maes penodol, Weinidog: un, arweinyddiaeth ar draws y sector cyhoeddus; dau, addysg ac ymwybyddiaeth well; ac yn olaf, cryfhau ac integreiddio gwasanaethau. Er mwyn gwella arweinyddiaeth ar draws y sector cyhoeddus, bydd y Bil yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i baratoi a chyhoeddi strategaethau er mwyn rhoi terfyn ar drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Er mwyn cynorthwyo Llywodraeth Cymru, penodir cynghorydd gweinidogol i gynghori a helpu Gweinidogion i fynd i'r afael â'r materion hyn.

It is important, in the interests of transparency, that this adviser be independent of the Welsh Government and other public bodies. The post should be filled by someone with proven expertise and understanding of the issues involved. The priority must be to ensure that services for victims are of a high quality and standard across the whole of Wales, and that that is maintained in the same way. At this point, I would like to pay tribute to the excellent work done by charities such as Victim Support. Raising awareness of violence against women and providing greater education and training in recognising the symptoms and in supporting the victims are, of course, vital if this Bill is to achieve its aims.

Mae'n bwysig, er mwyn sicrhau tryloywder, fod y cynghorydd hwn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill. Dylai'r swydd gael ei llenwi gan rywun ag arbenigedd a dealltwriaeth brofedig o'r materion dan sylw. Y flaenoriaeth fydd sicrhau bod gwasanaethau i ddioddefwyr o ansawdd uchel ac yn safonol ar draws Cymru gyfan, a bod hynny'n cael ei gynnal yn yr un ffordd. Hoffwn dalu teyrnged yma i'r gwaith rhagorol a wneir gan elusennau megis Cymorth i Ddioddefwyr. Mae codi ymwybyddiaeth ynghylch trais yn erbyn menywod a darparu mwy o addysg a hyfforddiant er mwyn adnabod y symptomau a chefnogi dioddefwyr, wrth gwrs, yn hanfodol er mwyn i'r Bil hwn gyflawni ei nodau.

I fully support in principle the national training framework to develop and deliver training to health professionals, and those employed in education, social work, the police and the third sector. Witnessing domestic violence has a damaging effect on the development of children. By recognising the signs of this damage, teachers can play an important role in encouraging the reporting of incidents as well as supporting the children involved. Victims of domestic abuse often see their work suffer, with increased lateness, absences and poor performance as key indicators. Women make up two thirds of public sector employees in Wales, Minister. I have long believed that all public sector organisations should have a workplace violence against women policy in place to identify and assist female employees who are the victims of violence. I am pleased that this is included in the Bill and hope that this practice will, in due course, extend to the private sector, as well.

Rwyf yn cefnogi'n llwyr mewn egwyddor y fframwaith hyfforddi cenedlaethol i ddatblygu a darparu hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol, a'r rhai a gyflogir ym maes addysg, gwaith cymdeithasol, yr heddlu a'r trydydd sector. Mae bod yn dyst i drais domestig yn cael effaith niweidiol ar ddatblygiad plant. Drwy adnabod arwyddion y niwed hwn, gall athrawon chwarae rhan bwysig wrth annog plant i roi gwybod am ddigwyddiadau yn ogystal â chefnogi'r plant dan sylw. Mae gwaith dioddefwyr cam-drin domestig yn aml yn dioddef, ac mae bod yn hwyr i'r gwaith, absenoldebau a pherfformiad gwael yn ddangosyddion allweddol. Menywod yw dwy ran o dair o weithwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru, Weinidog. Rwyf wedi bod o'r farn ers tro byd y dylai pob sefydliad sector cyhoeddus fod â pholisi trais yn erbyn menywod yn y gweithle i nodi a chynorthwyo gweithwyr benywaidd sy'n dioddef trais. Rwyf yn falch bod hyn wedi'i gynnwys yn y Bil ac yn gobeithio y bydd yr arfer hwn, maes o law, i'w weld yn y sector preifat, yn ogystal.

With regard to strengthening and integrating services in Wales, there does need to be a clear framework for the sharing of personal information in this field. Victims must be reassured that confidentiality will be paramount. Rape Crisis England and Wales recently recommended that the probation service, for example, should actively engage in sharing information with other bodies, to ensure that victims of sexual violence and domestic abuse are told when the perpetrator is released from prison and the conditions of their release. This right should be contained in the Bill.

O ran cryfhau ac integreiddio gwasanaethau yng Nghymru, mae angen sicrhau fframwaith clir ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol yn y maes hwn. Mae'n rhaid rhoi sicrwydd i ddioddefwyr y bydd cyfrinachedd yn hollbwysig. Argymhellodd Argyfwng Trais Cymru a Lloegr yn ddiweddar y dylai'r gwasanaeth prawf, er enghraifft, fynd ati'n weithredol i rannu gwybodaeth â chyrff eraill, er mwyn sicrhau bod dioddefwyr trais rhywiol a cham-drin domestig yn cael gwybod pan fydd y troseddwr yn cael ei ryddhau o'r carchar a beth yw amodau ei ryddhau. Dylid cynnwys yr hawl hon yn y Bil.

Acting Deputy Presiding Officer, violence cannot be tolerated in any civilised society. This Bill helps victims get the support they need and provides the education and training required to tackle these crimes. By voting in favour of this motion, we can give people across Wales the prospect of a safer and better future. Thank you.

Ddirprwy Lywydd Dros Dro, ni allwn oddef trais mewn unrhyw gymdeithas wâr. Mae'r Bil hwn yn helpu dioddefwyr i gael y cymorth sydd ei angen arnynt ac mae'n darparu'r addysg a'r hyfforddiant sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r troseddau hyn. Drwy bleidleisio o blaid y cynnig hwn, gallwn roi siawns i bobl ledled Cymru i gael dyfodol gwell a mwy diogel. Diolch.

16:54

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I am very pleased to speak on this very important issue today. I am particularly glad that we are debating this issue on the International Day for the Elimination of Violence Against Women—the day that marks the murder of three sisters in the Dominican Republic on 25 November 1960, and the day designated as an international day by the UN General Assembly. I think we are debating this issue here in Wales today and trying to improve things in Wales, but I think we all know that the extent of domestic abuse goes far beyond the boundaries of Wales, and it is a huge international issue. What we do here today does influence what happens throughout the world.

Rwyf yn falch iawn cael siarad heddiw ar y mater pwysig iawn hwn. Rwyf yn arbennig o falch ein bod yn trafod y mater hwn ar Ddiwrnod Rhyngwladol Diddymu Trais yn erbyn Menywod—diwrnod sy'n nodi llofruddiaeth tair chwaer yng Ngweriniaeth Dominica ar 25 Tachwedd 1960, a'r diwrnod a ddynodwyd yn ddiwrnod rhyngwladol gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig. Rydym yn trafod y mater hwn yma yng Nghymru heddiw ac yn ceisio gwella pethau yng Nghymru, ond credaf ein bod i gyd yn gwybod bod cam-drin domestig yn estyn ymhell y tu hwnt i ffiniau Cymru, ac mae'n fater rhyngwladol enfawr. Mae'r hyn a wnawn yma heddiw'n dylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd ledled y byd.

The American writer, Eve Ensler talks about how we might end such violence, person by person. She says that if the consciousness of one person, then one family, then one town, then one city, then one province, then one country can be shifted to one that does not promote, accept, condone or ignore any form of violence against women and girls, then it will disappear. I think, if we can do something in this country, it will have a profound influence on the rest of the UK and on the rest of the world.

Mae'r awdur Americanaidd, Eve Ensler yn sôn am sut y gallem roi terfyn ar drais o'r fath, o unigolyn i unigolyn. Mae'n dweud hyn: os gellir newid ymwybyddiaeth un person, yna un teulu, yna un dref, yna un ddinas, yna un dalaith, yna un wlad yn un nad yw'n hyrwyddo, yn derbyn, yn goddef nac yn anwybyddu unrhyw fath o drais yn erbyn menywod a merched, yna bydd yn diflannu. Os gallwn wneud rhywbeth yn y wlad hon, credaf y bydd yn cael dylanwad aruthrol ar weddill y DU ac ar weddill y byd.

I welcome the Minister’s remarks and I think that it is a great step forward that he will be tabling an amendment to ensure that violence against women and girls is recognised, because the point has already been made in the Chamber today that most of the violence is against women and girls.

Rwyf yn croesawu sylwadau'r Gweinidog ac yn credu bod y ffaith y bydd yn cyflwyno gwelliant i sicrhau bod trais yn erbyn menywod a merched yn cael ei gydnabod yn gam mawr iawn ymlaen, oherwydd mae’r pwynt wedi'i wneud eisoes yn y Siambr heddiw mai yn erbyn menywod a merched y mae’r rhan fwyaf o’r trais yn digwydd.

I was not on the committee that considered this, but I congratulate the committee on the Stage 1 report. I think that it is an excellent report, and I support most of the recommendations. I particularly support the provision of compulsory whole-school, age-appropriate programmes on healthy relationships. I think that there is a lot of evidence of the pressure that girls in particular are put under at schools, and their relationships in schools are often not healthy. I believe that education on healthy relations should start as young as possible, certainly in primary schools, and I think that there are very many good examples of where this is done, but also many examples of where it is very patchy. I think that it is right, as the Minister said in his opening remarks, that the whole-school approach is essential and that respect should come throughout the school. In all the dealings that children have at school, they should be treated with respect, and that should be an example. I certainly welcome the new duty that the Minister is going to put on local authorities.

Nid oeddwn ar y pwyllgor a oedd yn ystyried hyn, ond rwyf yn llongyfarch y pwyllgor ar yr adroddiad Cyfnod 1. Credaf ei fod yn adroddiad ardderchog, ac rwyf yn cefnogi’r rhan fwyaf o'r argymhellion. Rwyf yn cefnogi’n arbennig yr argymhelliad ar ddarparu rhaglenni gorfodol ysgol gyfan sy’n briodol i oedran ar gynnal perthynas iach. Credaf fod llawer o dystiolaeth o'r pwysau a roddir ar ferched yn arbennig mewn ysgolion, ac yn aml nid yw eu perthnasoedd mewn ysgolion yn iach. Credaf y dylai addysg ar gynnal perthynas iach ddechrau mor ifanc ag y bo modd, yn sicr mewn ysgolion cynradd, a chredaf fod llawer iawn o enghreifftiau da o wneud hynny, ond mae hefyd lawer o enghreifftiau lle mae hyn yn anghyson iawn. Credaf ei bod yn iawn, fel y dywedodd y Gweinidog yn ei sylwadau agoriadol, fod yr ymagwedd ysgol gyfan yn hanfodol ac y dylai’r parch hwnnw ddod ar draws yr ysgol. Yn eu holl ymwneud yn yr ysgol, dylai plant gael eu trin â pharch, a dylai hynny fod yn esiampl. Rwyf yn sicr yn croesawu'r ddyletswydd newydd y bydd y Gweinidog yn ei rhoi ar awdurdodau lleol.

However, I am disappointed that the committee was split on whether the Bill should be amended to remove the defence of the reasonable punishment of children. I actually think that the Bill is a lesser Bill for that reason. I think that it is very hard to teach healthy relationships in school if there still exists a defence for parents and carers if they hit a child. I think that it makes it much more difficult for us to be seen as having zero tolerance of violence. I am sure that, at some point, this Assembly will get rid of the defence of reasonable punishment, but I think that this would be a good opportunity to do that. I am going to vote later on today to set up the committee, as another way of addressing this issue, because I believe that this issue is so important, certainly in the context of this Bill, that every avenue should be explored. However, I am sorry that the committee was split on this.

Fodd bynnag, rwyf yn siomedig fod y pwyllgor yn rhanedig ynghylch a ddylai'r Bil gael ei ddiwygio er mwyn dileu'r amddiffyniad o gosbi plant yn rhesymol. Credaf fod y Bil, mewn gwirionedd, yn wannach o’r herwydd. Credaf ei bod yn anodd iawn dysgu plant am gynnal perthynas iach yn yr ysgol os oes amddiffyniad o hyd i rieni a gofalwyr sy’n taro plentyn. Credaf ei bod yn ei gwneud yn fwy anodd o lawer inni gael ein gweld fel rhai sydd â dim goddefgarwch o drais. Rwyf yn sicr y bydd y Cynulliad hwn, ar ryw adeg, yn cael gwared ar yr amddiffyniad cosb resymol, ond credaf y byddai hyn yn gyfle da i wneud hynny. Rwyf am bleidleisio yn nes ymlaen heddiw o blaid sefydlu'r pwyllgor, fel ffordd arall o fynd i'r afael â'r mater hwn, oherwydd credaf fod y mater hwn mor bwysig, yn sicr yng nghyd-destun y Bil hwn, fel y dylid archwilio pob llwybr. Fodd bynnag, mae'n resyn gennyf fod y pwyllgor yn rhanedig ar hyn.

In conclusion, I think that a lot of progress has been made in the consideration of this Bill. I think that it is a very important Bill, and a Bill that can have a profound effect.

I gloi, credaf fod llawer o gynnydd wedi'i wneud wrth ystyried y Bil hwn. Credaf ei fod yn Fil pwysig iawn, ac yn Fil a all gael effaith aruthrol.

16:57 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

On, as we have heard, the International Day for the Elimination of Violence Against Women, let us proclaim together that eliminating all forms of violence against women is a human rights issue, and that the act of perpetrating violence against women is a human rights violation. Last year, Welsh Women’s Aid local member services across Wales supported 6,220 female survivors of domestic abuse and 1,007 children, which included 1,306 women housed in emergency refuge accommodation. Of the 6,325 Crown Prosecution Service violence against women prosecutions, 77% were successful, with the highest conviction rate, 79.4%, in north Wales. Of crimes prosecuted across the UK last year, 94% of defendants were men and 85% of victims were women.

Fel y clywsom, mae’n Ddiwrnod Rhyngwladol Diddymu Trais yn erbyn Menywod, a gadewch inni felly gyhoeddi gyda’n gilydd fod diddymu pob math o drais yn erbyn menywod yn fater o hawliau dynol, a bod y weithred o gyflawni trais yn erbyn menywod yn groes i hawliau dynol. Y llynedd, cefnogodd gwasanaethau aelodau lleol Cymorth i Fenywod Cymru ledled Cymru 6,220 o fenywod a oroesodd gam-drin domestig a 1,007 o blant, a oedd yn cynnwys rhoi cartref i 1,306 o fenywod mewn llety lloches argyfwng. O'r 6,325 o erlyniadau trais yn erbyn menywod Gwasanaeth Erlyn y Goron, roedd 77% yn llwyddiannus, a'r gyfradd uchaf o ran euogfarnau, 79.4%, yng ngogledd Cymru. O droseddau a erlynwyd ledled y DU y llynedd, roedd 94% o’r diffynyddion yn ddynion ac 85% o'r dioddefwyr yn fenywod.

This requires a gender-specific approach, but, as the Stage 1 committee report recommends, this should ensure that services are tailored to the specific needs of men and women respectively. Welsh Women's Aid has previously highlighted research showing that male and female victims of domestic abuse have different levels of need, often requiring different kinds of services, where gender-neutral responses are not helpful, and told me that, in order to provide the best possible service and protection to all victims, we need to take into account context, consequences and different gendered needs.

Mae angen ymagwedd rhywedd-benodol i ymdrin â hyn, ond fel y mae adroddiad Cyfnod 1 y pwyllgor yn ei argymell, dylai hyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu teilwra at anghenion penodol dynion a menywod. Mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi tynnu sylw o'r blaen at ymchwil sy'n dangos bod gan ddynion a menywod sy'n dioddef cam-drin domestig wahanol lefelau o angen, yn aml yn gofyn am wahanol fathau o wasanaethau, lle nad yw ymatebion niwtral o ran rhywedd yn ddefnyddiol, ac maent wedi dweud wrthyf fod angen inni ystyried cyd-destun, canlyniadau ac anghenion gwahanol o ran rhywedd er mwyn darparu'r gwasanaeth a'r diogelwch gorau posibl i bob dioddefwr.

However, we must also embrace the support provided to both male and female victims by organisations such as Flintshire's excellent domestic abuse safety unit. As a men's health forum booklet it gave me states,

Fodd bynnag, mae'n rhaid inni hefyd gofleidio'r gefnogaeth a ddarperir i ddioddefwyr, yn ddynion ac yn fenywod, gan sefydliadau megis uned diogelwch cam-drin domestig ragorol Sir y Fflint. Fel y mae llyfryn fforwm iechyd dynion a roddodd yr uned imi'n datgan,

'it is important to recognise that men experience domestic violence, both as victims and perpetrators'.

mae'n bwysig cydnabod bod dynion yn profi trais domestig, fel dioddefwyr ac fel tramgwyddwyr.

In its evidence to committee, FNF Both Parents Matter Cymru states,

Yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor, mae FNF Both Parents Matter Cymru yn datgan,

'changing the title from 'Ending Violence against women…'. to Gender based Violence is ill conceived and moves further away from the true purpose of the Bill'.

Nid yw newid y teitl o 'Roi Terfyn ar Drais yn erbyn menywod ... ' i Trais ar sail Rhywedd yn syniad da ac mae'n symud ymhellach i ffwrdd oddi wrth wir bwrpas y Bil.

However, as it also states,

Fodd bynnag, mae hefyd yn datgan,

'In recognising that male victims of abuse exist and need specialist support, a separate strategy for male victims'

Wrth gydnabod bod dynion yn dioddef cam-drin a bod angen cymorth arbenigol arnynt, mae angen strategaeth ar wahân i ddynion sy'n dioddef

should be initiated by the Welsh Government.

a Llywodraeth Cymru ddylai roi hynny ar waith.

Witnesses told us that the Bill as drafted had nothing in it about the outcomes expected, and that all that it had at the moment was a national strategy, a local strategy and a ministerial adviser, which, they said, was worse than where we are today. The Survivors Trust Cymru has called for a duty on local authorities to develop appropriate and comprehensive care pathways for all victims wherever they live in Wales. I note the Minister's comments with interest accordingly. We therefore support the committee recommendation calling for an adviser independent of Government, supported by a secretariat from outside the civil service, with the power to monitor delivery of local strategies and to conduct investigations. As the police told us, this must be about holding to account not just the Welsh Government, but the other agencies involved as well.

Dywedodd tystion wrthym nad yw'r Bil fel y'i drafftiwyd yn cynnwys dim am y canlyniadau disgwyliedig, ac mai'r cyfan sydd ganddo ar hyn o bryd yw strategaeth genedlaethol, strategaeth leol a chynghorydd gweinidogol, ac mae hynny, meddent, yn waeth na lle'r ydym heddiw. Mae Survivors Trust Cymru wedi galw am ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddatblygu llwybrau gofal priodol a chynhwysfawr i bob dioddefwr ble bynnag y mae'n byw yng Nghymru. Nodaf sylwadau'r Gweinidog â diddordeb yn unol â hynny. Felly, rydym yn cefnogi argymhelliad y pwyllgor yn galw am gynghorydd sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, gyda chymorth ysgrifenyddiaeth o'r tu allan i'r gwasanaeth sifil, a grym i fonitro gweithredu strategaethau lleol ac i gynnal ymchwiliadau. Fel y dywedodd yr heddlu wrthym, rhaid i hyn fod yn fater o ddal i gyfrif nid yn unig Lywodraeth Cymru, ond yr asiantaethau eraill sydd ynghlwm hefyd.

The Welsh Government must also act on the findings of Barnardo's 'Hidden in plain sight' report into the sexual exploitation of boys and young men. As it states, this begins to address the gap created by the focus on female victims with little attention given to males. It found that the sexual exploitation of boys and young men is a much bigger problem than previously thought, requiring a radical shift in professional attitudes and practice. It also identified a number of barriers to disclosure specific to boys and young men: discriminatory social attitudes and stereotypes; expectations of masculine behaviour; gender differences in educational initiatives; and gender differences in emotional responses. Of course, these barriers can also apply to older men.

Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd weithredu ar ganfyddiadau adroddiad Barnardo's 'Hidden in plain sight' ar gamfanteisio'n rhywiol ar fechgyn a dynion ifanc. Fel y mae'n dweud, mae hyn yn dechrau ymdrin â'r bwlch a grëwyd gan y pwyslais ar ddioddefwyr sy'n fenywod heb roi fawr ddim sylw i ddynion. Canfu fod camfanteisio'n rhywiol ar fechgyn a dynion ifanc yn broblem fwy o lawer nag a feddyliwyd o'r blaen, a bod yn rhaid newid agweddau ac arferion proffesiynol yn llwyr. Roedd hefyd yn nodi nifer o ffactorau sy'n rhwystro bechgyn a dynion ifanc yn benodol rhag datgelu: agweddau ac ystrydebau cymdeithasol gwahaniaethol; disgwyliadau o ran ymddygiad gwrywaidd; gwahaniaethau rhwng y rhywiau mewn mentrau addysgol; a gwahaniaethau rhwng y rhywiau o ran ymatebion emosiynol. Wrth gwrs, gall y rhwystrau hyn hefyd fod yn berthnasol i ddynion hŷn.

As the committee recommended, the Bill should be amended to make provision for compulsory, whole-school, age-appropriate education programmes on healthy relationships. Again, I heard what the Minister said with interest. Barnardo's and NSPCC Cymru described this as vital to the preventative aims of the Bill. The Survivors Trust Cymru states that the aims of the Bill will be seriously undermined without this, and Welsh Women's Aid called for guidance on a whole-school approach that is rigorously implemented and enforced to ensure compliance.

Fel yr argymhellodd y pwyllgor, dylid diwygio'r Bil i wneud darpariaeth ar gyfer rhaglenni addysg gorfodol ysgol gyfan sy'n briodol i oedran ar gynnal perthynas iach. Unwaith eto, clywais yr hyn a ddywedodd y Gweinidog â diddordeb. Dywedodd Barnardo's ac NSPCC Cymru fod hyn yn hanfodol i amcanion ataliol y Bil. Mae Survivors Trust Cymru yn nodi y bydd amcanion y Bil yn cael eu tanseilio'n ddifrifol heb hyn, a galwodd Cymorth i Fenywod Cymru am ganllawiau ar ymagwedd ysgol gyfan sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi'n llym i sicrhau cydymffurfiaeth.

The committee also heard from respondents concerned about the omission of perpetrators and perpetrator programmes from the Bill. As Relate Cymru stated, perpetrators are

Clywodd y pwyllgor hefyd gan ymatebwyr a oedd yn pryderu am hepgor tramgwyddwyr a rhaglenni tramgwyddwyr o'r Bil. Fel y nododd Relate Cymru,

'generally speaking, the cause of this problem. So, we think that it is very important that specific mention and instructions are included in this Bill on working with perpetrators.'

Tramgwyddwyr, at ei gilydd, sy'n achosi'r broblem hon. Felly, credwn ei bod yn bwysig iawn fod cyfeiriad a chyfarwyddiadau penodol yn cael eu cynnwys yn y Bil hwn ar weithio gyda thramgwyddwyr.

17:02 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you begin to wind up now, please?

A wnewch chi ddechrau dirwyn i ben yn awr, os gwelwch yn dda?

17:02 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It also told us about its voluntary perpetrator programme, stating that 90% of the partners questioned after the end of the programme said that there has been a complete stop in violence and intimidation by their partner. We support the general principles of the Bill.

Dywedodd wrthym hefyd am ei raglen tramgwyddwyr gwirfoddol, gan nodi bod 90% o'r partneriaid a holwyd ar ôl diwedd y rhaglen wedi dweud bod trais a bygwth gan eu partneriaid wedi dod i ben yn llwyr. Rydym yn cefnogi egwyddorion cyffredinol y Bil.

17:03 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think that it is fair to say that we have come a long way. This is not a debate simply about strategies, policies or cross-cutting approaches. When the Assembly was first set up we could not legislate, but now we can. We are debating a Bill, not a set of proposals and not even a code of best practice, important though that can be. What we are discussing today is what will be enshrined in the law of the land. We in this Assembly understand that. Crucially, the man and the woman in the street understand the significance of that. It is important that nothing is allowed to slip through the net.

Credaf ei bod yn deg dweud ein bod wedi dod yn bell. Nid dadl am strategaethau, polisïau neu ymagweddau trawsbynciol yn unig yw hon. Pan sefydlwyd y Cynulliad gyntaf nid oeddem yn gallu deddfu, ond erbyn hyn gallwn wneud hynny. Rydym yn trafod Bil, nid cyfres o gynigion ac nid cod ymarfer gorau hyd yn oed, er mor bwysig y gall hynny fod. Bydd yr hyn yr ydym yn ei drafod heddiw'n cael ei ymgorffori mewn cyfraith gwlad. Rydym ni yn y Cynulliad hwn yn deall hynny. Yn allweddol, mae'r dyn a'r fenyw ar y stryd yn deall arwyddocâd hynny. Mae'n bwysig peidio â gadael i ddim byd lithro drwy'r rhwyd.

Education, the health service and local government are key players. However, the structures that we are used to in education, health and local government may not be forever. The general principles of this Bill will themselves be the cornerstones that will be the foundations on which whatever structures are erected or developed.

Mae addysg, y gwasanaeth iechyd a llywodraeth leol yn weithredwyr allweddol. Fodd bynnag, efallai na fydd y strwythurau yr ydym wedi arfer â hwy mewn addysg, iechyd a llywodraeth leol yn para am byth. Egwyddorion cyffredinol y Bil hwn fydd y conglfeini a fydd yn sylfaen i ba bynnag strwythurau sy’n cael eu codi neu eu datblygu.

I am acutely aware that we can have the best policies, and we can, in theory at least, focus on those who are most vulnerable and most in need of our care and concern, and yet, very often it is not those at the top or the bottom who most need our support. Very often, the whistleblowers can come from the middle-ranking employees—those who have not the influence or the clout of their superiors, but who are more likely to know what actually happens on the ground and in the little day-to-day transactions. What is right and wrong must not be a matter of perspective or opinion. Some things need to be enshrined in law. That is why I feel that there should be a clear recognition that women are subjected to some forms of domestic abuse simply because they are women. To omit or fail to recognise that will weaken this Bill. I look forward to seeing the Government amendments that take note of that.

Rwyf yn ymwybodol iawn y gall fod gennym y polisïau gorau, ac y gallwn, yn ddamcaniaethol o leiaf, ganolbwyntio ar y rhai sydd fwyaf agored i niwed ac sydd fwyaf angen ein gofal a’n pryder, ac eto, yn aml iawn, nid y rhai sydd ar y brig neu ar y gwaelod sydd angen ein cymorth fwyaf. Yn aml iawn, gall chwythwyr chwiban fod ymhlith y gweithwyr canolradd-—y rhai nad oes ganddynt ddylanwad na grym eu penaethiaid, ond sy'n fwy tebygol o wybod beth sy'n digwydd mewn gwirionedd ar lawr gwlad ac yn y trafodion bach o ddydd i ddydd. Ni ddylai’r hyn sy'n iawn a’r hyn nad yw’n iawn fod yn fater o bersbectif neu farn. Mae angen ymgorffori rhai pethau yn y gyfraith. Dyna pam yr wyf o’r farn y dylai fod cydnabyddiaeth glir fod menywod yn dioddef rhai mathau o gam-drin domestig dim ond oherwydd eu bod yn fenywod. Bydd hepgor neu fethu â chydnabod hynny’n gwanhau’r Bil hwn. Edrychaf ymlaen at weld gwelliannau'r Llywodraeth sy'n rhoi sylw i hynny.

Men have been invited in Wales to add their voices to the ‘Not in my Name’ campaign, and they have responded. The time is right to enshrine in law what the Government expects, requires and insists upon being delivered. Timing is everything in legislation, and the timing of this Bill could not be better. Wales as a country will support this. I welcome this Bill.

Mae dynion wedi eu gwahodd yng Nghymru i ychwanegu eu lleisiau i’r ymgyrch 'Nid yn fy Enw I', ac maent wedi ymateb. Mae'n bryd ymgorffori yn y gyfraith yr hyn y mae'r Llywodraeth yn disgwyl, yn gofyn ac yn mynnu y bydd yn cael ei ddarparu. Mae amseru’n hollbwysig mewn deddfwriaeth, ac ni allai amseriad y Bil hwn fod yn well. Bydd Cymru fel gwlad yn cefnogi hyn. Rwyf yn croesawu'r Bil hwn.

17:05

## Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography

This Bill has the potential to be a landmark in the campaign against violence against women and children, so I am disappointed to stand here today and have to say that, as it stands, it falls short. Far from the groundbreaking legislation that we were promised in the White Paper, at the moment the Bill does little more than enshrine current practice into law. Opportunities to legislate to end violence against women and children are rare, so we must seize this opportunity and make the Bill as strong as possible. I am particularly concerned that the Bill will fail to improve arrangements for the prevention of violence against women. I am pleased that this Minister intends to include women on the face of the Bill, and it is clear that he understands this issue. I very much welcome that.

Mae’n bosibl i’r Bil hwn fod yn garreg filltir yn yr ymgyrch yn erbyn trais yn erbyn menywod a phlant, felly rwyf yn siomedig fy mod yn sefyll yma heddiw ac yn gorfod dweud ei fod, fel ag y mae, yn annigonol. Yn hytrach na’r ddeddfwriaeth arloesol a addawyd inni yn y Papur Gwyn, ar hyn o bryd nid yw’r Bil yn gwneud fawr mwy nag ymgorffori arfer sy’n bodoli eisoes yn y gyfraith. Prin yw’r cyfleoedd i ddeddfu i roi terfyn ar drais yn erbyn menywod a phlant, ac felly mae'n rhaid inni achub ar y cyfle hwn a gwneud y Bil mor gryf ag y bo modd. Rwyf yn arbennig o bryderus na fydd y Bil yn gwella'r trefniadau ar gyfer atal trais yn erbyn menywod. Rwyf yn falch bod y Gweinidog hwn yn bwriadu cynnwys menywod ar wyneb y Bil, ac mae'n amlwg ei fod yn deall y mater hwn. Croesawaf hynny yn fawr iawn.

We also need to understand that violence against women is part of a broader pattern of discrimination and the marginalisation of women that violates our human rights and impedes our full participation in society. Gender-aware legislation is necessary to drive cultural change and tackle attitudes towards gender and violence that underpin that violence against women.

Mae angen inni hefyd ddeall bod trais yn erbyn menywod yn rhan o batrwm ehangach o wahaniaethu a gwthio menywod i’r ymylon sy'n tarfu ar ein hawliau dynol, ac yn ein rhwystro rhag cymryd rhan yn llawn yn y gymdeithas. Mae angen deddfwriaeth sy’n ymwybodol o rywedd i sbarduno newid diwylliannol ac i fynd i'r afael ag agweddau tuag at rywedd a thrais sydd wrth wraidd y trais hwnnw yn erbyn menywod.

Of course, it is vital that all those who are victims of domestic abuse or sexual violence can access support services, whether they are male or female, and whatever their gender identity or sexuality. The Bill should balance specifically tackling the culture of violence against women with gender-appropriate service provision for all victims. These are two separate things.

Wrth gwrs, mae'n hanfodol bod pawb sy’n dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol yn gallu cael gwasanaethau cymorth, yn ddynion ac yn fenywod, a waeth beth fo’u hunaniaeth o ran rhywedd neu rywioldeb. Dylai'r Bil gadw cydbwysedd rhwng mynd i'r afael yn benodol â'r diwylliant o drais yn erbyn menywod a darparu gwasanaethau sy’n briodol o ran rhywedd i bob dioddefwr. Mae'r rhain yn ddau beth gwahanol.

Now, the lack of education in the Bill was a particular disappointment. The statutory requirement on schools to provide compulsory healthy relationships education is fundamental to successfully preventing violence against women and children in our communities. I know that I am not alone in believing this—the Wales Violence Against Women Action Group is running a campaign to call on the Government to include measures in the Bill to introduce a whole-school educational approach to preventing violence against women and children, and I fully support that campaign.

Yn awr, roedd y diffyg addysg yn y Bil yn siom arbennig. Mae'r gofyniad statudol ar ysgolion i ddarparu addysg orfodol ar gynnal perthynas iach yn hanfodol i atal trais yn erbyn menywod a phlant yn llwyddiannus yn ein cymunedau. Gwn nad fi yw'r unig un sy’n credu hyn—mae Grŵp Gweithredu Trais yn Erbyn Menywod Cymru’n cynnal ymgyrch i alw ar y Llywodraeth i gynnwys mesurau yn y Bil i gyflwyno ymagwedd addysgiadol ysgol gyfan tuag at atal trais yn erbyn menywod a phlant, ac rwyf yn cefnogi’r ymgyrch honno’n llwyr.

Including education measures will enhance this Bill significantly, and all the available evidence supports this move. An example of the danger of not properly talking to our children about healthy relationships is, of course, the success of the so-called seduction coach, Julien Blanc, whom I mentioned earlier in the First Minister’s questions. I want to congratulate the Home Office again for deciding not to grant him a visa to visit the UK. It is extremely worrying that a man who tells other men how to abuse and violate women, in the hope of manipulating them into having sex, has an enthusiastic audience of males who are willing to pay £1,500 for his guidance.

Bydd cynnwys mesurau addysg yn gwella’r Bil hwn yn sylweddol, ac mae'r holl dystiolaeth sydd ar gael yn cefnogi'r symudiad hwn. Un enghraifft o beryglon peidio â siarad yn iawn â’n plant am gynnal perthynas iach, wrth gwrs, yw llwyddiant yr hyfforddwr hudo bondigrybwyll, Julien Blanc, y soniais amdano’n gynharach yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weinidog. Rwyf am longyfarch y Swyddfa Gartref unwaith eto am benderfynu peidio â rhoi fisa iddo i ymweld â'r DU. Mae'n destun pryder mawr fod gan ddyn sy'n dweud wrth ddynion eraill sut i gam-drin a threisio menywod, gan obeithio dwyn perswâd arnynt i gael rhyw, gynulleidfa frwd o ddynion sy'n barod i dalu £1,500 am ei arweiniad.

Professor Emma Renold from Cardiff University found that children struggle to navigate the minefield of gender stereotypes and experience sexual harassment and gender bullying from a very young age. Having non-compulsory, occasional personal and social education lessons, or a one-off class delivered by someone from outside the school, is not enough to bring about whole-scale change and, in fact, can sometimes do more harm than good. We need a whole-school approach to healthy relationships and, while I am encouraged by the Minister’s commitment today, I am yet to be convinced that it goes far enough.

Canfu’r Athro Emma Renold o Brifysgol Caerdydd fod plant yn cael trafferth dod o hyd i’r ffordd drwy dir peryglus ystrydebau rhywedd ac yn profi aflonyddu rhywiol a bwlio oherwydd rhywedd o oedran ifanc iawn. Nid yw cael gwersi addysg bersonol a chymdeithasol nad ydynt yn orfodol, a hynny’n achlysurol, neu mewn un dosbarth a ddarperir gan rywun o'r tu allan i'r ysgol, yn ddigon i sicrhau newid ar raddfa gyfan, ac yn wir, gall wneud mwy o ddrwg nag o les weithiau. Mae arnom angen ymagwedd ysgol gyfan tuag at gynnal perthynas iach ac, er bod ymrwymiad y Gweinidog heddiw yn galonogol, nid wyf wedi fy argyhoeddi eto fod hyn yn mynd yn ddigon pell.

Finally, I believe that we must take a cohesive position against violence against women and children in all its forms, and for almost as long as I have been an Assembly Member, the Welsh Government has advocated the removal of the reasonable punishment defence, so that there is no legal excuse for parents who hurt their children. I have watched debates here, I have read Welsh Government submissions to the UK Government and to the UN Committee on the Rights of the Child, and I can cite a myriad of Welsh Government policy documents that talk about ending the physical punishment of children. Every member of our current Cabinet, bar one, has voted in favour of changing the law.

Yn olaf, credaf fod yn rhaid inni gymryd safiad cydlynol yn erbyn trais o bob math yn erbyn menywod a phlant, a bron cyhyd ag yr wyf wedi bod yn Aelod o'r Cynulliad, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn argymell cael gwared ar yr amddiffyniad cosb resymol, fel nad oes dim esgus cyfreithiol i rieni sy'n brifo eu plant. Rwyf wedi gwylio dadleuon yma, rwyf wedi darllen cyflwyniadau Llywodraeth Cymru i Lywodraeth y DU ac i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gallaf ddyfynnu myrdd o ddogfennau polisi Llywodraeth Cymru sy'n sôn am roi terfyn ar gosbi plant yn gorfforol. Mae pob aelod o'n Cabinet ar hyn o bryd, heblaw un, wedi pleidleisio o blaid newid y gyfraith.

17:10 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:10 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Yes, sure.

Gwnaf, yn sicr.

17:10 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

I have received communication from a constituent who is a father of seven and deeply concerned about the best possible upbringing of young children. He tells us, as Assembly Members, that excessive physical punishment should be outlawed and that we should ensure that we help parents to understand their role. I know that you agree with his view, as I do. Is that the view of this Minister and this Government? Or, is it ducking this issue once again and misleading this Chamber about its intentions?

Rwyf wedi derbyn neges gan etholwr sy'n dad i saith o blant ac sy'n ymboeni'n fawr am y ffordd orau bosibl o fagu plant ifanc. Mae'n dweud wrthym ni Aelodau'r Cynulliad y dylai cosbi corfforol gormodol gael ei wahardd ac y dylem sicrhau ein bod yn helpu rhieni i ddeall eu swyddogaeth. Gwn eich bod yn cytuno â'r farn honno, fel yr wyf finnau. Ai dyna farn y Gweinidog hwn a'r Llywodraeth hon? Neu, a yw'n osgoi'r mater hwn unwaith eto ac yn camarwain y Siambr hon ynglŷn â'i bwriadau?

17:10 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Now that we have the power to change the law, I do wonder why nothing is being done. The setting up of a committee today is a fig leaf. I can tell you, Minister, that the fig leaf is too small—way too small. I am not even sure what Welsh Government policy is anymore. It has a policy that it does not want to implement.

Yn awr fod gennym rym i newid y gyfraith, tybed pam nad oes dim yn cael ei wneud? Deilen ffigys yw sefydlu pwyllgor heddiw. Gallaf ddweud wrthych, Weinidog, fod y ddeilen ffigys yn rhy fach—yn rhy fach o lawer. Nid wyf hyd yn oed yn siŵr beth yw polisi Llywodraeth Cymru bellach. Mae ganddi bolisi nad yw'n dymuno ei weithredu.

As women suffer violence because they are women, children suffer violence because they are children. It is part of the same culture. Repealing the reasonable punishment defence will not criminalise parents, but it will send a powerful message about how this institution regards children. This policy was developed in the early days of the Assembly. Some of us can even remember when there was a radical passion here and children came first. I think that that passion is fading fast. I hope that I am not the only one who will mourn its passing. So, I think, Minister, that you can strengthen this Bill and it can be a landmark, but, I am afraid that the jury is still out.

Fel y mae menywod yn dioddef trais oherwydd eu bod yn fenywod, mae plant yn dioddef trais oherwydd eu bod yn blant. Mae'n rhan o'r un diwylliant. Ni fydd diddymu'r amddiffyniad cosb resymol yn gwneud rhieni'n droseddwyr, ond bydd yn anfon neges bwerus ynghylch sut y mae'r sefydliad hwn yn ystyried plant. Cafodd y polisi hwn ei ddatblygu yn nyddiau cynnar y Cynulliad. Gall rhai ohonom hyd yn oed gofio adeg pan oedd angerdd gwirioneddol yma a phan oedd plant yn dod yn gyntaf. Credaf fod yr angerdd hwnnw'n pylu'n gyflym. Gobeithio nad fi yw'r unig un a fydd yn galaru ei dranc. Felly, Weinidog, credaf y gallwch gryfhau'r Bil hwn ac y gall fod yn arwyddnod, ond mae arnaf ofn fod y rheithgor yn dal allan.

17:11 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

I will start by picking up where Jocelyn left off, because it is important that we take a legislative opportunity, before the Assembly elections, to introduce the outlawing of the unreasonable chastisement of children. We should certainly be looking at doing that. Like Jocelyn and other Members, I am disappointed that this has been kicked into long grass in terms of a committee. We will support the committee, because it seems that that is the only way forward if the Government is resistant to putting it in this Bill. However, I do think that there is an opportunity in this Bill to introduce that ban, and we should be taking that opportunity if we can. I will personally be supporting any amendments coming forward at Stage 2 to introduce that.

Rwyf am ddechrau drwy ailgydio lle y gorffennodd Jocelyn, oherwydd mae'n bwysig ein bod yn manteisio ar y cyfle deddfwriaethol, cyn etholiadau'r Cynulliad, i wahardd cosbi plant yn afresymol. Dylem yn sicr fod yn edrych ar wneud hynny. Fel Jocelyn ac Aelodau eraill, rwyf finnau'n siomedig bod hyn wedi cael ei roi o'r neilltu o ran pwyllgor. Byddwn yn cefnogi'r pwyllgor, oherwydd mae'n ymddangos mai dyna'r unig ffordd ymlaen os yw'r Llywodraeth yn gyndyn o'i gynnwys yn y Bil hwn. Fodd bynnag, credaf fod cyfle yn y Bil i gyflwyno'r gwaharddiad hwnnw, a dylem fod yn manteisio ar y cyfle hwnnw, os gallwn. Byddaf i yn cefnogi unrhyw welliannau yng Nghyfnod 2 i gyflwyno hynny.

17:12 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Peter, do you accept that we as Assembly Members were given an undertaking by this Government that we would have the opportunity to vote on outlawing excessive punishment of children within this Assembly, and it has not carried out its promise?

Peter, a ydych yn derbyn ein bod ni Aelodau'r Cynulliad wedi cael ymrwymiad gan y Llywodraeth hon y byddem yn cael cyfle i bleidleisio ar wahardd cosbi gormodol ar blant o fewn y Cynulliad hwn, ac nad yw wedi cadw ei haddewid?

17:12 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

I certainly recall that there were such undertakings. There is still 18 months left, so maybe we will have the opportunity to do that—we will see.

Rwyf yn sicr yn cofio bod ymrwymiadau o'r fath wedi'u gwneud. Mae 18 mis ar ôl, felly efallai y cawn gyfle i wneud hynny—cawn weld.

To turn to the Bill itself, I first of all welcome the fact that the Minister has listened to some of the committee's recommendations and is happy to change some of the Bill to reflect the concerns. The Bill, as currently drafted, is not fit for purpose. It was a disappointment to see the Bill when it was published in terms of its failure to refer to women in its title and in its content. You cannot have a Bill dealing with violence against women, who make up the biggest group of people who are perpetrated against, without actually referring to them in the content of the Bill. So, I very much welcome the fact that the Minister has said that he will now include a section referring to women and that he will look at changing the title as well, which is certainly a reflection of the mood of the committee as we scrutinised this at Stage 1.

A throi at y Bil ei hun, yn gyntaf oll rwyf yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi gwrando ar rai o argymhellion y pwyllgor ac yn hapus i newid rhywfaint ar y Bil i adlewyrchu'r pryderon. Nid yw'r Bil, fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn addas at y diben. Roedd yn siom gweld y Bil pan gafodd ei gyhoeddi o ran y ffaith nad yw'n cyfeirio at fenywod yn ei deitl nac yn ei gynnwys. Ni allwch gael Bil yn delio â thrais yn erbyn menywod, sef y grŵp mwyaf o bobl y tramgwyddir yn eu herbyn, heb gyfeirio atynt yng nghynnwys y Bil. Felly, rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith bod y Gweinidog wedi dweud y bydd yn awr yn cynnwys adran sy'n cyfeirio at fenywod ac y bydd yn ystyried newid y teitl hefyd, sy'n sicr yn adlewyrchiad o naws y pwyllgor wrth inni graffu ar hyn yng Nghyfnod 1.

In terms of the education provisions, I note that the Minister has said—in terms of the delivery of education in our schools in terms of relationships and in terms of respect for each other—that they are inconsistent and variable in content. That is part of the problem. I note that the Minister has said that we need to embed healthy relationships into the day-to-day education of our children. My concern is that the commitment to introduce a duty for local authorities to report on what schools are doing on an annual basis does not go far enough in tackling that particular issue. I accept that there is a curriculum review and I accept that PSE is massively overcrowded, but there are other recommendations coming out of the White Paper, in particular in relation to education, about embedding champions in each school and actually embedding the whole healthy relationship agenda as part of day-to-day lessons right across the school.

O ran y darpariaethau addysg, nodaf fod y Gweinidog wedi dweud—o ran cyflwyno addysg yn ein hysgolion ynglŷn â chynnal perthynas a pharch at ein gilydd—eu bod yn anghyson ac yn amrywiol o ran cynnwys. Mae hynny'n rhan o'r broblem. Sylwaf fod y Gweinidog wedi dweud bod angen inni ymgorffori perthynas iach yn addysg ein plant o ddydd i ddydd. Fy mhryder i yw nad yw'r ymrwymiad i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i adrodd ar yr hyn y mae ysgolion yn ei wneud yn flynyddol yn mynd yn ddigon pell i fynd i'r afael â'r mater penodol hwnnw. Derbyniaf fod adolygiad o'r cwricwlwm ar waith a derbyniaf fod cynnwys ABCh yn llawn iawn, ond mae argymhellion eraill yn deillio o'r Papur Gwyn, yn enwedig mewn perthynas ag addysg, ynghylch ymgorffori hyrwyddwyr ym mhob ysgol ac ymgorffori holl agenda cynnal perthynas iach yn rhan o wersi o ddydd i ddydd ar draws yr ysgol.

We need to go a bit further than the Minister has so far committed himself to if we are to actually come back with an acceptable legislative process that actually addresses the need for education to deal with this particular matter. So, again, I very much welcome the fact that the Minister has given way, but I think that we need to go further, and I think that the committee's recommendations reflect that, in terms of what we believe needs to come out of this. I think that the Government, initially, when it started to look at this, started to make promises in that regard, but, clearly, it has backtracked on that, and I think that we are now in a situation where the Bill still does not, even with the amendment, address what needs to be done in terms of proper education of our children in their schools, to get that respect for each other as part of healthy relationships.

Mae angen inni fynd ychydig ymhellach nag y mae'r Gweinidog wedi ymrwymo iddo hyd yma os ydym am ddod yn ôl â phroses ddeddfwriaethol dderbyniol sy'n mynd i'r afael mewn gwirionedd â'r angen i ddarparu addysg i ymdrin â'r mater penodol hwn. Felly, unwaith eto, rwyf yn croesawu'n fawr y ffaith fod y Gweinidog wedi ildio, ond credaf fod angen inni fynd ymhellach, a chredaf fod argymhellion y pwyllgor yn adlewyrchu hynny, o ran yr hyn yr ydym yn credu y mae angen iddo ddod allan o hyn. Credaf fod y Llywodraeth, yn y lle cyntaf, pan ddechreuodd edrych ar hyn, wedi dechrau gwneud addewidion yn hynny o beth, ond, yn amlwg, mae wedi cefnu ar hynny, a chredaf ein bod yn awr mewn sefyllfa lle mae'r Bil, hyd yn oed gyda'r gwelliant, yn dal i fethu â mynd i'r afael â'r hyn y mae angen ei wneud o ran addysgu ein plant yn briodol yn eu hysgolion, er mwyn sicrhau'r parch hwnnw y naill at y llall fel rhan o gynnal perthynas iach.

Again, I welcome the fact that the Minister has said that he will introduce consultation on strategies both at a local and national level. If I could make a final point, in terms of the Bill itself, in relation to the ministerial adviser, I noted what the Minister said about this being a public appointments process, about there being a code of practice and about the statutory officeholder model applying to this particular role. All that is welcome and reinforces the independence of this adviser post. My concern is that that is not reflected in the title, and that, when people come to deal with this individual in that post, they will not see an individual who is independent of Government, or certainly independent in the sense that the public appointments process code of practice et cetera implies that they are, but someone who is there to advise Ministers as a ministerial adviser. I believe that, if the Minister is going to reflect the committee's recommendations, that title needs to change. It does not have to change a great deal—the Minister referred to the Scottish title, so chief adviser on domestic violence or violence against women is, possibly, one way forward on that. However, I certainly think that it needs to change to reflect the fact that that person is relatively independent and is not seen as the Minister's person.

Unwaith eto, rwyf yn croesawu'r ffaith fod y Gweinidog wedi dweud y bydd yn cyflwyno ymgynghoriad ar strategaethau ar lefel leol a chenedlaethol. Os caf fi wneud un pwynt arall, o ran y Bil ei hun, ynghylch y cynghorydd gweinidogol, nodais yr hyn a ddywedodd y Gweinidog ynglŷn â gwneud hon yn broses benodiadau cyhoeddus, a bod cod ymarfer a model statudol deiliad y swydd yn berthnasol i'r swydd benodol hon. Mae hyn i gyd i'w groesawu ac yn atgyfnerthu annibyniaeth swydd y cynghorydd. Fy mhryder yw nad yw hynny'n cael ei adlewyrchu yn y teitl, ac na fydd pobl, pan fyddant yn dod i ymdrin â'r unigolyn hwn yn y swydd honno, yn gweld unigolyn sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, neu'n sicr yn annibynnol yn yr ystyr bod cod ymarfer y broses penodiadau cyhoeddus ac ati yn awgrymu ei fod, ond rhywun sydd yno i gynghori Gweinidogion fel cynghorydd gweinidogol. Os yw'r Gweinidog am adlewyrchu argymhellion y pwyllgor, credaf fod angen i'r teitl newid. Nid oes raid iddo newid rhyw lawer—cyfeiriodd y Gweinidog at deitl yr Alban, felly mae prif gynghorydd ar drais domestig neu drais yn erbyn menywod, o bosibl, yn un ffordd ymlaen yn hynny o beth. Fodd bynnag, rwyf yn sicr yn meddwl bod angen iddo newid er mwyn adlewyrchu'r ffaith fod yr unigolyn hwnnw'n gymharol annibynnol ac nad yw'n cael ei weld fel person y Gweinidog.

17:17

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

I call the Minister for Public Services to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i ymateb i'r ddadl.

17:17

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

I would like to begin with the contributions of the Chairs of the two committees and I will then move to some of the general points that have been raised. There were some specific points that the Chairs raised to which I want to respond. Chris Chapman, as Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee, talked specifically, aside from talking about the general issues that I will come to, about the whole issue of the UNCRC. The approach that we have taken is this: Welsh Ministers are, of course, bound by the UNCRC. In drawing up national strategies, therefore, we would be bound to have regard to the terms of the UNCRC. Of course, local authorities will be bound, in drawing up their local strategies, to have regard to the national strategy that we have adopted. I think that the concerns of the committee can be met in that way, but I am certainly willing to explore that further as we make progress during future stages.

Hoffwn ddechrau gyda chyfraniadau Cadeiryddion y ddau bwyllgor a symudaf wedyn at rai o'r pwyntiau cyffredinol a godwyd. Codwyd rhai pwyntiau penodol gan y Cadeiryddion yr wyf am ymateb iddynt. Soniodd Chris Chapman, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn benodol, yn ogystal â siarad am y materion cyffredinol y byddaf yn dod atynt, am holl fater CCUHP. Dyma ein hymagwedd ni: mae CCUHP wrth gwrs yn rhwymo Gweinidogion Cymru. Wrth lunio strategaethau cenedlaethol, felly, byddai dyletswydd arnom i ystyried telerau CCUHP. Wrth gwrs, bydd dyletswydd ar awdurdodau lleol, wrth lunio eu strategaethau lleol, i roi sylw i'r strategaeth genedlaethol a fabwysiadwyd gennym. Credaf y gellir ymdrin â phryderon y pwyllgor yn y ffordd honno, ond rwyf yn sicr yn barod i ymchwilio ymhellach i hynny wrth inni symud ymlaen drwy gyfnodau'r Bil yn y dyfodol.

In respect of the contribution from the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, I start by thanking him for welcoming our good practice on the Bill, and I confirm that we will, obviously, keep definitions under consideration. He asked specifically about the use of the affirmative procedure in respect of national indicators. I think that, from the way that we see this, the publication of national indicators enables us to provide legislation that works effectively and to issue our indicators in a timely and flexible manner—they will remain both relevant and up to date. They will be laid before the Assembly, and, if the indicators are revised, the Assembly will have the opportunity to consider and comment; indeed, we are taking the same approach here as has been taken in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, and I think that that is the right approach for us to adopt.

O ran cyfraniad Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, rwyf am ddechrau drwy ddiolch iddo am groesawu ein harfer da ar y Bil, a gallaf gadarnhau y byddwn, wrth gwrs, yn parhau i ystyried y diffiniadau. Gofynnodd yn benodol am ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol mewn perthynas â dangosyddion cenedlaethol. Credaf, o safbwynt y ffordd yr ydym yn gweld hyn, fod cyhoeddi dangosyddion cenedlaethol yn ein galluogi i ddarparu deddfwriaeth sy'n gweithio'n effeithiol a chyhoeddi ein dangosyddion mewn modd amserol a hyblyg—byddant yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfoes. Cânt eu gosod gerbron y Cynulliad, ac os adolygir y dangosyddion, bydd cyfle i'r Cynulliad i ystyried a chynnig sylwadau; yn wir, rydym yn arfer yr un ymagwedd yma ag a arferwyd ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a chredaf mai dyna'r ymagwedd gywir inni ei harfer.

A number of Members referred to the issue of violence against women and girls, and I remind the Assembly that I came to the committee myself on 1 October having already secured Government commitment to amending the Bill to introduce a clause in respect of the recognition of the disproportionate emphasis of violence against women and girls. I know that that was a concern for Alun Davies, Mohammad Asghar, Julie Morgan, Mark Isherwood and Peter Black today, who mentioned this issue.

Cyfeiriodd nifer o Aelodau at drais yn erbyn menywod a merched, ac rwyf yn atgoffa'r Cynulliad fy mod wedi dod at y pwyllgor fy hun ar 1 Hydref ar ôl sicrhau ymrwymiad y Llywodraeth i ddiwygio'r Bil i gyflwyno cymal ynghylch cydnabod y pwyslais anghymesur ar drais yn erbyn menywod a merched. Gwn fod hynny'n bryder i Alun Davies, Mohammad Asghar, Julie Morgan, Mark Isherwood a Peter Black heddiw, a soniodd am y mater hwn.

In respect of education, again, Julie Morgan, Mark Isherwood, Joyce Watson—who recognised that we have come a long way—Jocelyn Davies and Peter Black all raised that issue. I think that making a start with the duty on the local authorities to report on how schools have addressed this issue is a significant development. It will give considerable scope for us to know what is going on with schools, and it will give considerable scope for schools to understand their role in this entire process.

O ran addysg, unwaith eto, cododd Julie Morgan, Mark Isherwood, Joyce Watson—a oedd yn cydnabod ein bod wedi dod yn bell—Jocelyn Davies a Peter Black y mater hwnnw. Credaf fod dechrau â'r ddyletswydd ar yr awdurdodau lleol i adrodd ar sut y mae ysgolion wedi mynd i'r afael â'r mater hwn yn ddatblygiad arwyddocaol. Bydd yn gyfle da inni i gael gwybod beth sy'n digwydd gydag ysgolion, a bydd yn gyfle da i ysgolion i ddeall eu rôl yn yr holl broses hon.

In respect of commitments to workplace policies, which was raised by Mohammad Asghar, I thank him for his welcome for the national training framework. We have now 42, I think, public service organisations that have adopted workplace policies, which is good progress. He is right to say that we need to move further with third sector and private sector organisations. I particularly want to commend the work of the South Wales Fire and Rescue Authority, which I know was welcomed by my colleague Joyce Watson earlier today as being the first fire and rescue authority not just in the UK, but the world, to achieve White Ribbon status. That is a very good move.

O ran ymrwymiadau i bolisïau yn y gweithle, a godwyd gan Mohammad Asghar, diolch iddo am ei groeso i'r fframwaith hyfforddi cenedlaethol. Mae gennym 42 yn awr, rwyf yn meddwl, o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sydd wedi mabwysiadu polisïau yn y gweithle, sy'n gynnydd da. Mae'n iawn i ddweud bod angen inni symud ymhellach gyda sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat. Rwyf yn arbennig o awyddus i ganmol gwaith Awdurdod Tân ac Achub De Cymru, a gwn y cafodd groeso gan fy nghyd-Aelod Joyce Watson yn gynharach heddiw—dyma'r awdurdod tân ac achub cyntaf nid yn unig yn y DU, ond yn y byd, i ennill statws Rhuban Gwyn. Mae hynny'n gam da iawn.

In respect of the issue of perpetrators, raised by Mark Isherwood, we do regard perpetrators as being covered by this Bill, but I will give further consideration to what he has said today. I think that the Government has been entirely clear on our position in respect of reasonable punishment. There is a motion before the Assembly, which we will be voting on later, to establish a committee. I welcome the fact that Peter Black has said that his party will be supporting that.

O ran tramgwyddwyr, a godwyd gan Mark Isherwood, rydym o'r farn bod tramgwyddwyr wedi eu cynnwys yn y Bil hwn, ond rhoddaf ystyriaeth bellach i'r hyn y mae wedi'i ddweud heddiw. Credaf fod y Llywodraeth wedi bod yn gwbl glir ynghylch ein safbwynt o ran cosb resymol. Mae cynnig gerbron y Cynulliad, a byddwn yn pleidleisio arno yn nes ymlaen, i sefydlu pwyllgor. Croesawaf y ffaith fod Peter Black wedi dweud y bydd ei blaid yn cefnogi hynny.

On the issue of the adviser, which was raised, I think, by Alun Davies and Peter Black, I am open to listening to the proposals that people bring forward in respect of the name, if they think that there is a better name. I think that it has been quite hard for people to find a better name so far. I explained that the model that we were looking at was the Scottish model in respect of social work, which I think is a reasonable model.

O ran y cynghorydd, a godwyd, rwyf yn meddwl, gan Alun Davies a Peter Black, rwyf yn agored i wrando ar y cynigion y mae pobl yn eu cyflwyno ynghylch yr enw, os ydynt yn credu bod enw gwell. Credaf ei bod wedi bod yn eithaf anodd i bobl ddod o hyd i enw gwell hyd yma. Eglurais mai'r model yr ydym yn edrych arno yw model yr Alban mewn perthynas â gwaith cymdeithasol, a chredaf fod hwnnw'n fodel rhesymol.

Overall, we have had great support among organisations in Wales for what we are seeking to do with the Bill. There has been considerable support, I think, for the amendments that I have mentioned, which I will be introducing on behalf of the Government at Stage 2. Those amendments will improve the Bill. It is also important to stress, as we conclude the debate here today, that this is groundbreaking legislation and that Wales is leading the way.

Yn gyffredinol, cawsom gefnogaeth wych ymhlith sefydliadau yng Nghymru i'r hyn yr ydym yn ceisio'i wneud â'r Bil. Cafwyd cryn dipyn o gefnogaeth, rwyf yn meddwl, i'r gwelliannau yr wyf wedi'u crybwyll, ac y byddaf yn eu cyflwyno ar ran y Llywodraeth yng Nghyfnod 2. Bydd y gwelliannau hynny'n gwella'r Bil. Mae hefyd yn bwysig pwysleisio, wrth inni gloi'r ddadl yma heddiw, fod hon yn ddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd, a bod Cymru'n arwain y ffordd.

17:22

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nac oes. Mae'r cynnig, felly, wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

17:22

# Cynnig i Gytuno ar y Penderfyniad Ariannol mewn perthynas â'r Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)

# Motion to Agree the Financial Resolution in respect of the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

I call the Minister for Public Services to move the motion.

Galwaf ar y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5633 Jane Hutt

Motion NDM5633 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeirwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69 sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

To propose that the National Assembly for Wales, for the purposes of any provisions resulting from the Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill, agrees to any increase in expenditure of a kind referred to in Standing Order 26.69 arising in consequence of the Bill.

17:22

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

17:22

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No. The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nac oes. Mae'r cynnig, felly, wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36*

## Effaith Diwygiadau Lles Llywodraeth y DU yng Nghymru

## The Impact of the UK Government's Welfare Reforms in Wales

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 3, 4 a 5 yn enw Elin Jones.*

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Paul Davies, and amendment 3, 4 and 5 in the name of Elin Jones.*

17:22

### Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

I call the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion.

Galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig.

Cynnig NDM5631 Jane Hutt

Motion NDM5631 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi:

1. Notes:

a) effaith a goblygiadau'r Diwygiadau Lles yng Nghymru; a

a) the impact of Welfare Reform in Wales and its implications; and

b) y cynlluniau diweddaraf sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer gweithredu Credyd Cynhwysol.

b) the latest published plans for the implementation of Universal Credit.

17:22

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

I move the motion.

Cynigiaf y cynnig.

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 17:23.*

*The Deputy Presiding Officer took the Chair at 17:23.*

### Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

It is significant, though regrettable, that we should need a debate on the UK Government's welfare reforms. It would be hard to argue with their stated aims of simplifying the benefits system and making work pay—principles that most of us would applaud. However, several years into the UK Government's reform agenda, there is very little to applaud. The Welsh Government's opposition is not to the principle of reform; it is to the stark reality of the UK Government's plans.

Mae'n arwyddocaol, er yn anffodus, bod arnom angen dadl ar ddiwygiadau Llywodraeth y DU i'r gyfundrefn les. Byddai'n anodd dadlau â'r amcanion y mae wedi'u datgan, sef symleiddio'r system fudd-daliadau a gwneud i waith dalu—egwyddorion y byddai'r rhan fwyaf ohonom yn eu cymeradwyo. Fodd bynnag, nifer o flynyddoedd ers cychwyn agenda ddiwygio Llywodraeth y DU, nid oes rhyw lawer i'w gymeradwyo. Nid yr egwyddor o ddiwygio y mae Llywodraeth Cymru yn ei gwrthwynebu; ond realiti llwm cynlluniau Llywodraeth y DU.

These changes are risking the safety of vulnerable people. They are squeezing the income of families and individuals who are already struggling to make ends meet—people who are looking for work, people who cannot work and, importantly, people who are in work. It is only the UK Government that appears to be oblivious to the size and complexity of the task and the fact that it is not working. The Welsh Government, however, is under no such illusion. From the outset, we expressed concern regarding the scale, the pace and the scope of these changes. Whatever your views, it is clear that the changes will have a significant impact on Wales. This is not just my opinion; it reflects the evidence.

Mae'r newidiadau hyn yn peryglu diogelwch pobl sy'n agored i niwed. Maent yn gwasgu incwm teuluoedd ac unigolion sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd cael dau ben llinyn ynghyd—pobl sy'n chwilio am waith, pobl na allant weithio ac, yn bwysig, pobl sydd mewn gwaith. Dim ond Llywodraeth y DU sy'n ymddangos fel pe bai'n ddall i faint a chymhlethdod y dasg a'r ffaith nad yw'n gweithio. Nid yw Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, o dan unrhyw gamargraff o'r fath. O'r cychwyn cyntaf, rydym wedi mynegi pryder ynghylch graddfa, cyflymder a chwmpas y newidiadau hyn. Beth bynnag yw eich barn, mae'n amlwg y bydd y newidiadau'n cael effaith sylweddol ar Gymru. Nid fy marn i yn unig yw hyn; mae'n adlewyrchu'r dystiolaeth.

Some of the implications are stark. We estimate that, in total, working-age adults in Wales will lose almost £1 billion in 2015-16 alone. Familiarity does not make this figure any less shocking. Some of the large losses are expected as a result of changes to disability and sickness benefits. The impacts of the changes are not equally spread. Some of the worst-hit households will include working age disabled households, families with children and those around the poverty line. The scale of the financial impact is shocking and beneath those headline figures are real people facing real challenges.

Mae rhai o'r goblygiadau'n llwm. Amcangyfrifwn y bydd oedolion o oedran gweithio yng Nghymru yn colli cyfanswm o bron i £1 biliwn yn 2015-16 yn unig. Nid yw cynefindra yn gwneud y ffigur hwn ddim llai brawychus. Disgwylir rhai o'r colledion mawr o ganlyniad i newidiadau i fudd-daliadau anabledd a salwch. Nid yw effaith y newidiadau'n cael ei lledaenu'n gyfartal. Bydd rhai o'r aelwydydd a gaiff eu taro waethaf yn cynnwys aelwydydd anabl o oed gweithio, teuluoedd â phlant a rhai o gwmpas y ffin dlodi. Mae maint yr effaith ariannol yn frawychus a'r tu ôl i'r ffigurau hynny mae pobl go iawn sy'n wynebu heriau gwirioneddol.

With these changes come increasing reports of the UK Government facing slipped deadlines, millions of pounds in IT write-offs and worrying delays in payments—matters that we are all familiar with in our constituency advice surgeries. There are reports of people waiting many months—some reports suggest six months—for decisions on new disability benefits. Even the UK Government has said that this is unacceptable, and it is now working to improve the position. Meanwhile, however, disabled people and their families are facing financial and emotional crisis.

Ochr yn ochr â'r newidiadau hyn daw mwy a mwy o adroddiadau bod Lywodraeth y DU yn wynebu terfynau amser sy'n cael eu methu, cynlluniau TG gwerth miliynau o bunnoedd yn cael eu dileu ac oedi cyn gwneud taliadau—materion yr ydym i gyd yn gyfarwydd â nhw yn ein cymorthfeydd etholaeth. Mae adroddiadau am bobl yn aros sawl mis—chwe mis yn ôl rhai adroddiadau—am benderfyniadau ar fudd-daliadau anabledd newydd. Mae hyd yn oed Llywodraeth y DU wedi dweud bod hyn yn annerbyniol, ac mae bellach yn gweithio i wella'r sefyllfa. Yn y cyfamser, fodd bynnag, mae pobl anabl a'u teuluoedd yn wynebu argyfwng ariannol ac emosiynol.

We should have high hopes for universal credit, the new flagship benefit. In September, the Secretary of State for Work and Pensions, Iain Duncan Smith, announced plans to accelerate the delivery of universal credit from the new year, bringing forward the national roll out through 2015-16 to every community across Great Britain, securing national delivery while delivering life change at a local level, strengthening community partnerships, helping vulnerable households and not just helping the economy, but reducing child poverty as well. It certainly sounded promising. He went on to say that new claims to legacy benefits will be closed from 2016 with migration to follow thereafter. What was less clear from the announcement was that the national roll out was only for single jobseekers. According to the original timetable, all new claims should now be through universal credit.

Dylem fod yn disgwyl pethau mawr gan y credyd cynhwysol, y budd-dal blaenllaw newydd. Ym mis Medi, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau, Iain Duncan Smith, gynlluniau i gyflymu'r broses o gyflwyno credyd cynhwysol o'r flwyddyn newydd, gan fwrw ymlaen i gyflwyno'r drefn yn genedlaethol drwy 2015-16 i bob cymuned ledled Prydain, sicrhau y caiff ei chyflwyno yn genedlaethol tra'n newid bywydau ar lefel leol, cryfhau partneriaethau cymunedol, helpu aelwydydd agored i niwed a lleihau tlodi plant yn ogystal â helpu'r economi. Mae'n sicr yn swnio'n addawol. Aeth ymlaen i ddweud na fydd modd i neb hawlio o'r newydd y budd-daliadau etifeddol o 2016 ac y byddent yn cael eu mudo wedi hynny. Roedd yn llai clir o'r cyhoeddiad mai ar gyfer ceiswyr gwaith sengl yn unig yr oedd y drefn newydd yn cael ei chyflwyno'n genedlaethol. Yn ôl yr amserlen wreiddiol, dylai pob hawliad newydd erbyn hyn fod trwy gredyd cynhwysol.

So, what does the timetable look like? There are no published plans for the delivery schedule for 2015, no published plans for roll out beyond 2015, no published plans on the migration of existing benefits and there is no longer any expectation of the universal credit project being completed by the end of 2017. Indeed, it seems that there is no indication of a final completion date at all. Based on research from the Institute of Fiscal Studies, the universal credit is now expected to lead to a loss of benefit income in Wales.

Felly, sut mae'r amserlen yn edrych? Nid oes unrhyw gynlluniau wedi'u cyhoeddi ar gyfer yr amserlen gyflwyno yn 2015, dim cynlluniau wedi'u cyhoeddi ar gyfer cyflwyno y tu hwnt i 2015, dim cynlluniau wedi'u cyhoeddi ar fudo budd-daliadau sy'n bodoli eisoes ac nid oes bellach unrhyw ddisgwyliad i'r prosiect credyd cynhwysol gael ei gwblhau erbyn diwedd 2017. Yn wir, mae'n ymddangos nad oes unrhyw arwydd o ddyddiad cwblhau terfynol o gwbl. Yn seiliedig ar ymchwil gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, bellach mae disgwyl i'r credyd cynhwysol arwain at golli incwm budd-daliadau yng Nghymru.

In making this announcement on the next phase of universal credit, the Secretary of State said:

Wrth wneud y cyhoeddiad hwn ar gam nesaf y credyd cynhwysol, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

'This marks a significant acceleration in one of the government's biggest reforms and is a sign of the success of the policy so far'.

Mae hyn yn nodi cyflymu sylweddol yn un o ddiwygiadau mwyaf y llywodraeth ac yn arwydd o lwyddiant y polisi hyd yn hyn.

He might more accurately have said 'This so-called acceleration comes after a reset of the original project, which proved unachievable for the UK Government, and it is likely, on average, that work incentives are less attractive than we originally thought'. I will leave you to decide if this is a sign of the success or the universal credit policy so far.

Efallai y byddai'n fwy cywir iddo fod wedi dweud 'Mae'r cyflymu bondigrybwyll hwn yn dod ar ôl ailosod y prosiect gwreiddiol, a brofodd yn amhosibl i Lywodraeth y DU ei gyflawni, ac mae'n debygol, ar gyfartaledd, bod cymhellion i weithio yn llai deniadol nag yr oeddem yn ei feddwl yn wreiddiol'. Byddaf yn gadael i chi benderfynu os yw hyn yn arwydd o lwyddiant y polisi credyd cynhwysol hyd yn hyn.

The UK Government has also introduced a new conditionality regime for benefits. Responsibilities should run alongside welfare payments. However, consider the facts: changes to the DWP's sanctions regime have meant that sanctions are now used more frequently and their severity has also increased. In some cases, personal benefits can now be stopped for up to three years. Many of you will have seen reports in the media and will no doubt have had letters from constituents raising concerns regarding the way that sanctions are applied. The latest figures show that around 5% of all unemployed claimants in Wales had a sanction applied in June 2014. Not only has there been a general increase in sanctions, but there has also been a significant increase in the number of sanctions applied to people in Wales who are claiming sickness benefit, the employment and support allowance. This figure is up from around 150 in June 2013 to nearly 400 in June 2014. Based on the latest information, a quarter of employment and support allowance sanctions in Wales have been reviewed, with nearly half of these found in favour of the claimant. Given the number of sanctions that are eventually overturned, I think that we are right to be concerned about the way that sanctions are being applied.

Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cyflwyno trefn amodoldeb newydd ar gyfer budd-daliadau. Dylai cyfrifoldebau fodoli ochr yn ochr â thaliadau lles. Fodd bynnag, ystyriwch y ffeithiau: mae newidiadau i drefn sancsiynau'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi golygu bod sancsiynau'n cael eu defnyddio yn fwy aml nawr a'u bod hefyd yn fwy difrifol. Mewn rhai achosion, gellir atal budd-daliadau personol nawr am hyd at dair blynedd. Bydd llawer ohonoch wedi gweld adroddiadau yn y cyfryngau a heb os byddwch wedi cael llythyrau gan etholwyr yn codi pryderon ynghylch y ffordd y mae sancsiynau'n cael eu defnyddio. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod tua 5% o'r holl hawlwyr di-waith yng Nghymru wedi cael sancsiwn ym mis Mehefin 2014. Gwelwyd cynnydd cyffredinol yn y sancsiynau, ond gwelwyd cynnydd sylweddol hefyd yn nifer y sancsiynau a roddwyd i bobl yng Nghymru sy'n hawlio budd-dal salwch, a'r lwfans cyflogaeth a chymorth. Mae'r ffigur hwn wedi codi o tua 150 ym mis Mehefin 2013 i bron i 400 ym mis Mehefin 2014. Ar sail y wybodaeth ddiweddaraf, mae chwarter y sancsiynau lwfans cyflogaeth a chymorth yng Nghymru wedi cael eu hadolygu, a phenderfynwyd o blaid yr hawliwr yn hanner y rhain bron. O ystyried y nifer o sancsiynau sy'n cael eu gwrthdroi yn y pen draw, credaf ein bod yn iawn i fod yn bryderus ynglŷn â'r ffordd y mae sancsiynau'n cael eu defnyddio.

Adding more layers to all of this, there are changes to waiting days for benefits, the move to monthly payments, complex treatment of surplus earnings, proposals to introduce conditionality for in-work benefits, direct payments of rent, household payments—the list goes on. Every day, there are more layers, more complexity and more changes. It is too much, too quickly, and the question is: at what cost?

Gan ychwanegu mwy o haenau at hyn i gyd, ceir newidiadau i ddiwrnodau aros am fudd-daliadau, symud i daliadau misol, ffordd gymhleth o ymdrin ag enillion dros ben, cynigion i gyflwyno amodoldeb ar gyfer budd-daliadau mewn gwaith, taliadau rhent uniongyrchol, taliadau i aelwydydd—mae'r rhestr yn faith. Bob dydd, mae mwy o haenau, mwy o gymhlethdod a mwy o newidiadau. Mae'n rhy fawr, yn rhy gyflym, a'r cwestiwn yw: ar ba gost?

Members can be assured that we will continue to press the UK Government for a welfare system that is just. We are also responding to the reforms. They are cross-cutting, so it follows that the response is also Government-wide. As I have said, the Welsh Government cannot fill the huge financial gap created by Whitehall. However, we are committed in our programme for government to do what we can to alleviate some of the worst of those impacts for the people of Wales.

Gall aelodau fod yn sicr y byddwn yn parhau i bwyso ar Lywodraeth y DU am system les sy'n gyfiawn. Rydym hefyd yn ymateb i'r diwygiadau. Maent yn drawsbynciol, felly mae'n dilyn bod yr ymateb hefyd yn dod gan y Llywodraeth gyfan. Fel yr wyf wedi'i ddweud, ni all Llywodraeth Cymru lenwi'r bwlch ariannol enfawr a grëwyd gan Whitehall. Fodd bynnag, rydym wedi ymrwymo yn ein rhaglen lywodraethu i wneud yr hyn a allwn i liniaru rhai o'r effeithiau gwaethaf ar gyfer pobl Cymru.

Today, I want to highlight just some of the positive actions that we have taken and will continue to take to help people to manage and prepare for the changes, and this includes universal credit. First, for those who are able to work, we will continue our focus on helping people to secure and stay in employment through our skills agenda and through our employment and community initiatives, such as Jobs Growth Wales and the Lift programme.

Heddiw, rwyf am dynnu sylw at rai o'r camau cadarnhaol yr ydym wedi'u cymryd ac y byddwn yn parhau i'w cymryd i helpu pobl i reoli a pharatoi ar gyfer y newidiadau, ac mae hyn yn cynnwys credyd cynhwysol. Yn gyntaf, ar gyfer y rhai sy'n gallu gweithio, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar helpu pobl i gael gwaith ac aros mewn gwaith drwy ein hagenda sgiliau a thrwy ein cynlluniau cyflogaeth a chymunedol, megis Twf Swyddi Cymru a'r rhaglen Esgyn.

Although we cannot fill the gap in welfare benefits, we can assist people to get the advice they need to claim the benefits to which they are entitled. This financial year, we have made £2 million available to support independent front-line advice services. Specifically, the grant is intended to help respond to issues related to welfare benefits, debt, housing and discrimination.

Er na allwn lenwi'r bwlch mewn budd-daliadau lles, gallwn helpu pobl i gael y cyngor sydd ei angen arnynt i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt. Yn y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi sicrhau bod £2 filiwn ar gael i gefnogi gwasanaethau cynghori rheng flaen annibynnol. Yn benodol, bwriedir i'r grant helpu i ymateb i faterion sy'n ymwneud â budd-daliadau lles, dyled, tai a gwahaniaethu.

We are all too familiar with the UK Government's pernicious bedroom tax. Together with Community Housing Cymru, the Welsh Government convened a task and finish group to consider ways in which the social rented sector can identify the capabilities of its tenants to manage the direct payment of welfare benefits. Twenty million pounds of additional funding was made available in 2013-14 to support the building of one and two-bedroomed affordable homes by registered social landlords across Wales. We are investing a further £20 million over the next two financial years for smaller properties.

Rydym i gyd yn rhy gyfarwydd â threth ystafell wely niweidiol Llywodraeth y DU. Ar y cyd â Chartrefi Cymunedol Cymru, galwodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried sut y gall y sector rhentu cymdeithasol nodi galluoedd ei thenantiaid i reoli taliadau uniongyrchol eu budd-daliadau lles. Darparwyd £20 miliwn o gyllid ychwanegol yn 2013-14 i gynorthwyo i adeiladu cartrefi fforddiadwy un a dwy ystafell wely gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ledled Cymru. Rydym yn buddsoddi £20 miliwn arall dros y ddwy flynedd ariannol nesaf ar gyfer eiddo llai.

Following a review of the longer term arrangements for providing council tax support, the Welsh Government has agreed to continue the existing arrangements and to maintain entitlements for a further two years. In its first year, our discretionary assistance fund supported over 27,000 people. To date, in its second year, over 17,000 people have been awarded nearly £4.9 million in grants. This has provided support for people in emergency situations or has helped people to continue to live independently in the community.

Yn dilyn adolygiad o'r trefniadau tymor hwy ar gyfer darparu cymorth y dreth gyngor, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i barhau â'r trefniadau presennol ac i gynnal hawliau am ddwy flynedd arall. Yn ei blwyddyn gyntaf, mae ein cronfa cymorth dewisol wedi cefnogi dros 27,000 o bobl. Hyd yn hyn, yn ei hail flwyddyn, mae dros 17,000 o bobl wedi derbyn bron i £4.9 miliwn mewn grantiau. Mae hyn wedi darparu cefnogaeth i bobl mewn sefyllfaoedd o argyfwng, neu wedi helpu pobl i barhau i fyw'n annibynnol yn y gymuned.

We also know the value of digital support. Getting online is becoming increasingly important in helping people to make and maintain a claim for DWP benefits, including universal credit. This is why Communities 2.0, our national digital inclusion programme, is so important. To date, the programme has supported over 52,000 individuals to get online.

Rydym hefyd yn gyfarwydd â gwerth cefnogaeth ddigidol. Mae'n dod yn fwy a mwy pwysig i fynd ar-lein er mwyn helpu pobl i wneud a chynnal cais am fudd-daliadau'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan gynnwys credyd cynhwysol. Dyma pam fod Cymunedau 2.0, ein rhaglen cynhwysiant digidol cenedlaethol, mor bwysig. Hyd yn hyn, mae'r rhaglen wedi cefnogi dros 52,000 o unigolion i fynd ar-lein.

Obviously, we have a very different stance to the UK Government on its welfare policy. Nevertheless, we recognise the absolute importance of continuing to work closely with the DWP, helping to achieve the best possible outcomes for the people of Wales. I am pleased to say that my officials enjoy a good working relationship with their counterparts in DWP on a range of welfare-related matters. Our officials are also working on the wider health, employment and skills agenda, again, to help maximise the positive outcomes for the people of Wales. There is also joint working with DWP on new eligibility solutions for passported benefits under universal credit.

Yn amlwg, mae ein safbwynt ni yn wahanol iawn i un Llywodraeth y DU o ran ei pholisi lles. Serch hynny, rydym yn cydnabod ei bod yn hollbwysig parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer pobl Cymru. Rwy'n falch o ddweud bod gan fy swyddogion berthynas waith dda â'u cymheiriaid yn yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ystod o faterion sy'n ymwneud â lles. Mae ein swyddogion hefyd yn gweithio ar yr agenda iechyd, cyflogaeth a sgiliau ehangach, unwaith eto, i helpu i sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol gorau i bobl Cymru. Rydym hefyd yn gweithio ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar atebion cymhwysedd newydd ar gyfer budd-daliadau pasbort dan y credyd cynhwysol.

Everyone in this Chamber should be deeply concerned by the impact of the changes and the implications for individuals, families and communities. However, this Welsh Government is taking action, and we are also encouraged by the hard work and commitment of our partners across Wales who are working hard with us to support those affected, and to help people manage and prepare for the change.

Dylai pawb yn y Siambr hon fod yn bryderus iawn oherwydd effaith y newidiadau a'r goblygiadau i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu, ac rydym hefyd wedi ein calonogi gan waith caled ac ymrwymiad ein partneriaid ledled Cymru sy'n gweithio'n galed gyda ni i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt, ac i helpu pobl i baratoi ar gyfer y newid ac i'w reoli.

17:33 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I have selected the five amendments to the motion. I call Mark Isherwood to move amendments 1 and 2, tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y pum gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Mark Isherwood i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Dileu pwynt a) a rhoi yn ei le:*

*Delete point a) and replace with:*

*y mabwysiadwyd y diwygiadau lles a weithredwyd gan Llywodraeth y DU i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y system budd-daliadau ac i sicrhau na all unrhyw un ennill mwy ar fudd-daliadau nag y mae'r teulu cyffredin yn ennill drwy fynd allan i weithio; a*

*that welfare reforms implemented by the UK Government have been taken to address inequality in the benefits system and to ensure that no one can earn more on benefits than the average family does by going out to work; and*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add new point at end of motion:*

*Yn nodi mai nod credyd cynhwysol yw lleihau tlodi, drwy wneud i waith dalu, a helpu hawlwyr a'u teuluoedd i fod yn fwy annibynnol.*

*Notes that the aim of universal credit is to reduce poverty, by making work pay, and to help claimants and their families to become more independent.*

17:33 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

I move amendments 1 and 2.

Cynigiaf welliannau 1 a 2.

Labour was elected to the UK Government in 1997, promising welfare savings through welfare reform. Instead, the number of households where no member had ever worked nearly doubled. Almost 2 million children were living in workless households. There were 670,000 more workless households at the last general election, and in Wales over 600,000 working aged people were not in work even before the credit crunch. That is why the welfare reforms implemented by this UK Government have been taken—addressing inequality in the benefits system and ensuring that no one can earn more on benefits than the average family does by going out to work. An unemployed person aged over 25 on jobseeker’s allowance is now receiving around £360 more a year, and a couple around £570 more. A single out-of-work mother is receiving £450 more a year in child tax credit.

Cafodd y blaid Lafur ei hethol i Lywodraeth y DU ym 1997, gan addo arbed arian ym maes lles drwy ddiwygio’r gyfundrefn les. Yn lle hynny, mae nifer yr aelwydydd lle nad oes yr un aelod erioed wedi gweithio bron wedi dyblu. Roedd bron i 2 filiwn o blant yn byw mewn cartrefi heb waith. Roedd 670,000 mwy o aelwydydd heb waith ar adeg yr etholiad cyffredinol diwethaf, ac yng Nghymru roedd dros 600,000 o bobl o oed gweithio nad oeddent mewn gwaith hyd yn oed cyn y wasgfa gredyd. Dyna pam y mae'r diwygiadau lles a weithredwyd gan Lywodraeth y DU wedi cael eu rhoi ar waith—mynd i'r afael ag anghydraddoldeb yn y system fudd-daliadau a gwneud yn siŵr na all neb ennill mwy ar fudd-daliadau nag y mae’r teulu cyffredin yn ei wneud drwy fynd allan i weithio. Mae person di-waith dros 25 oed ar lwfans ceisio gwaith nawr yn derbyn tua £360 yn fwy y flwyddyn, ac mae cwpl yn derbyn o gwmpas £570 yn fwy. Mae mam sengl ddi-waith yn cael £450 yn fwy y flwyddyn mewn credydau treth plant.

The aim of universal credit is to reduce poverty by making work pay, and to help claimants and their families to become more independent. Universal credit brings together six benefits and tax credits. It will improve work incentives, allowing individuals to keep more of their income as they move into work. It will make 3 million households better off by an average of £177 per month. It will also support childcare with an additional £200 million for childcare support to help 100,000 extra families working fewer than 16 hours per week.

Nod y credyd cynhwysol yw lleihau tlodi drwy wneud i waith dalu, a helpu hawlwyr a'u teuluoedd i ddod yn fwy annibynnol. Mae credyd cynhwysol yn dod â chwech o fudd-daliadau a chredydau treth ynghyd. Bydd yn gwella cymhellion i weithio, gan alluogi unigolion i gadw mwy o'u hincwm wrth iddynt symud i mewn i waith. Bydd yn golygu bod 3 miliwn o aelwydydd £177 y mis yn well eu byd ar gyfartaledd. Bydd hefyd yn cefnogi gofal plant gyda £200 miliwn yn ychwanegol ar gyfer cymorth gofal plant i helpu 100,000 o deuluoedd ychwanegol sy'n gweithio lai nag 16 awr yr wythnos.

The trialling of universal credit in 11 partnership areas, including Shotton, has allowed the DWP to test, learn lessons and refine. As of 6 November, more than 36,000 people have claimed universal credit, and a quarter of those currently claiming are in work and receiving support to progress. Universal credit will now be rolled out to all remaining jobcentres and local authorities in 2015.

Trwy dreialu credyd cynhwysol mewn 11 ardal bartneriaeth, gan gynnwys Shotton, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi gallu profi, dysgu gwersi a mireinio. Ers 6 Tachwedd, mae mwy na 36,000 o bobl wedi hawlio credyd cynhwysol, ac mae chwarter y rhai sy'n hawlio ar hyn o bryd yn gweithio ac yn derbyn cefnogaeth i symud ymlaen. Bydd credyd cynhwysol nawr yn cael ei gyflwyno i bob canolfan waith ac awdurdod lleol sy’n weddill yn 2015.

Universal credit is already changing lives. Claimants are already spending twice as long per week looking for work as they were as comparable JSA claimants. Two thirds of claimants surveyed thought that universal credit was a better financial incentive to work, and 64% agreed that universal credit provided a better reward for work. Work coaches will engage with all households at their work search interviews to assess financial capability. Where appropriate, this includes making personal budgeting support appointments for advice and identifying whether an alternative payment arrangement is necessary for the housing element of universal credit. Universal credit work coaches will encourage access to local support services as they reinforce the connection between work-readiness and good money management, and pilot trials will be extended to help households increase their earnings once they have found work.

Mae credyd cynhwysol eisoes yn newid bywydau. Mae hawlwyr eisoes yn treulio dwywaith cymaint o amser yr wythnos yn chwilio am waith nag yr oeddent fel hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith cymharol. Roedd dau o bob tri hawliwr a holwyd yn credu bod credyd cynhwysol yn well cymhelliant ariannol i weithio, a 64% yn cytuno bod credyd cynhwysol yn darparu gwell gwobr ar gyfer gwaith. Bydd hyfforddwyr gwaith yn ymgysylltu â phob aelwyd yn eu cyfweliadau ceisio gwaith i asesu eu gallu ariannol. Pan fo'n briodol, mae hyn yn cynnwys gwneud apwyntiadau cymorth cyllidebu personol i gael cyngor a nodi a oes angen trefniant talu amgen ar gyfer elfen tai’r credyd cynhwysol. Bydd hyfforddwyr gwaith y credyd cynhwysol yn annog pobl i fanteisio ar wasanaethau cymorth lleol wrth iddynt atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng parodrwydd i weithio a sgiliau rheoli arian da, a bydd treialon peilot yn cael eu hymestyn i helpu aelwydydd i gynyddu eu henillion ar ôl dod o hyd i waith.

Unlike many, I visited Shotton jobcentre after its April launch of universal credit and spoke with management and staff to gain a better understanding of the work undertaken jointly with Flintshire County Council and other local partners in preparing for its delivery. I heard that support will be tailored to the individual, agreeing with customers what steps they need to take to move closer to work, and that this is part of a process, not an event, with a test-and-learn approach to get things right as the scheme rolls out across the UK.

Yn wahanol i lawer, ymwelais â chanolfan waith Shotton ar ôl lansio credyd cynhwysol ym mis Ebrill a siaradais â rheolwyr a staff i gael gwell dealltwriaeth o'r gwaith sy’n cael ei wneud ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint a phartneriaid lleol eraill wrth baratoi ar gyfer ei gyflwyno. Clywais y bydd cymorth yn cael ei deilwra i'r unigolyn, gan gytuno â chwsmeriaid pa gamau y mae angen iddynt eu cymryd er mwyn symud yn nes at waith, ac mai proses yw hon, nid digwyddiad, gan brofi a dysgu er mwyn cael pethau’n iawn wrth i’r cynllun gael ei gyflwyno ar draws y DU.

Working with Community Housing Cymru, I returned again last month with local housing association representatives to review progress and address barriers. The removal of the spare room subsidy was a response to waiting lists, overcrowding and hidden homelessness. Under Labour, local authority waiting lists nearly doubled as the number of social homes for rent was cut by 421,000 in England, and 29,000 in devolved Wales by this Welsh Government. It is scandalous that, despite trebled discretionary housing payments and advance DWP guidance to the contrary, so many disabled tenants in adapted accommodation or local support were allowed to fall into arrears.

Gan weithio gyda Chartrefi Cymunedol Cymru, dychwelais eto’r mis diwethaf gyda chynrychiolwyr cymdeithasau tai lleol i adolygu’r hyn a oedd wedi’i gyflawni a mynd i’r afael â rhwystrau. Cafwyd gwared ar y cymhorthdal ystafell sbâr mewn ymateb i restrau aros, gorlenwi a digartrefedd cudd. O dan y blaid Lafur, dyblodd rhestrau aros awdurdodau lleol bron wrth i nifer y cartrefi cymdeithasol i'w rhentu gael ei gwtogi 421,000 yn Lloegr, a 29,000 yn y Gymru ddatganoledig gan y Llywodraeth hon yng Nghymru. Mae'n warthus y caniatawyd i gymaint o denantiaid anabl mewn llety wedi'i addasu neu gymorth lleol, fynd i ddyled, er bod y taliadau tai yn ôl disgresiwn wedi treblu ac er gwaethaf arweiniad ymlaen llaw i'r gwrthwyneb gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Regarding job creation measures, cross-party groups have been engaging directly with key agencies, including DWP, Remploy and Work Programme providers in Wales. Where were you? If you want to know more about personal independence payments, Capita's personal independence payment director has agreed to attend the next meeting of the cross-party group on disability. Labour introduced work capability assessments and outsourced those to Atos. The current UK Government announced that Atos will be exiting this contract early without compensation and appointed a new provider to improve service, increase assessments and reduce waiting times from next year. Instead of Plaid Cymru's mythical money tree, we need financial responsibility, and instead of unnecessary scaremongering, we should engage personally, establish the facts and drive improvement for the people we represent.

O ran mesurau creu swyddi, mae grwpiau trawsbleidiol wedi bod yn ymgysylltu'n uniongyrchol ag asiantaethau allweddol, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau, Remploy a darparwyr y Rhaglen Waith yng Nghymru. Ble oeddech chi? Os ydych am wybod mwy am daliadau annibyniaeth bersonol, mae cyfarwyddwr taliadau annibyniaeth bersonol Capita wedi cytuno i ddod i gyfarfod nesaf y grŵp trawsbleidiol ar anabledd. Cyflwynodd y blaid Lafur asesiadau gallu i weithio a'u contractio'n allanol i Atos. Cyhoeddodd Llywodraeth bresennol y DU y bydd Atos yn gadael y contract hwn yn gynnar heb iawndal, a phenododd ddarparwr newydd i wella gwasanaethau, cynyddu asesiadau a lleihau amseroedd aros o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Yn hytrach na choeden arian chwedlonol Plaid Cymru, mae angen cyfrifoldeb ariannol arnom, ac yn hytrach na chodi bwganod diangen, dylem ymgysylltu'n bersonol, sefydlu'r ffeithiau a sbarduno gwelliannau ar gyfer y bobl yr ydym yn eu cynrychioli.

17:38

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call Rhodri Glyn Thomas to move amendments 3, 4 and 5, tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas i gynnig gwelliannau 3, 4 a 5, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 3—Elin Jones*

*Amendment 3—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw am ddiddymu'r dreth ystafell wely.*

*Calls for the repeal of the bedroom tax.*

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Amendment 4—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn penderfynu bod mesurau i greu swyddi yn fwy effeithiol na diwygiadau lles cosbol fel ffordd o greu cymunedau sy'n ffynnu.*

*Resolves that job-creation measures are more effective than punitive welfare reforms as a means to create thriving communities.*

*Gwelliant 5—Elin Jones*

*Amendment 5—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y byddai rhewi budd-dal plant yn niweidiol i'r nod o ddileu tlodi plant.*

*Believes that a freeze on child benefit would be detrimental to the goal of eradicating child poverty.*

17:38

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Cynigiaf welliannau 3, 4 a 5.

I move amendments 3, 4 and 5.

Mae Mark Isherwood newydd gyflwyno darlun inni o sefyllfa lle mae'r credyd cynhwysol yn gweddnewid bywydau pobl ac yn gwella cyflwr y boblogaeth yn gyfan gwbl yng Nghymru. Wrth gwrs, mae'r realiti yn wahanol iawn. Y cyfan y mae credyd cynhwysol yn ei wneud ydy cynnwys yr holl daliadau o fewn un taliad, ac y mae'r ffeithiau yn dangos yn glir fod hynny yn creu problemau sylweddol. Mae'n creu problemau oherwydd y mae'r taliad yn cael ei wneud i un person ym mhob cartref—gan amlaf i'r dyn sy'n byw yn y cartref. Mae hynny'n gallu creu sefyllfa ormesol o fewn y cartref. Mae'n gallu bod yn niweidiol iawn i sefyllfa'r wraig yn y cartref sydd, yn aml iawn, y person sy'n ennill yr ail gyflog.

Mark Isherwood has just presented a picture to us of a situation where the universal credit transforms the lives of people and improves the condition of the population as a whole in Wales. Of course, the reality is very different. All that universal credit does is include all the payments within one payment, and the facts show clearly that that creates substantial problems. It creates problems because the payment is made to one person in every household—often to the man who is living in the home. That can create a situation that is oppressive. It can be detrimental to the woman's situation in the home as, very often, she will be the one earning the second salary.

Mae'r ystadegau hefyd yn dangos yn glir iawn nad ydy credyd cynhwysol yn arwain pobl at waith. Nid oes tystiolaeth o gwbl i gadarnhau hynny. Hefyd, mae credyd cynhwysol yn cael ei dalu yn fisol i bobl ac nid ydynt yn cael eu talu am yr wythnos gyntaf. Mae hynny'n arwain at sefyllfa lle mae pobl yn gorfod aros am bum wythnos hyd nes eu bod nhw'n cael y taliad cyntaf. Rydym yn sôn am y bobl dlotaf mewn cymdeithas yn y fan hon—y bobl sy'n ei chael hi'n anodd talu'u ffordd yn y gymdeithas—ac y maen nhw'n gorfod aros, ar hyn o bryd, am bum wythnos cyn eu bod yn derbyn taliad. Os ydych chi eisiau tystiolaeth, cerwch i weld y banciau bwyd. Fe wnaiff y banciau bwyd ddweud wrthych eu bod nhw'n cael mwy a mwy o bobl yn dod i'r banciau bwyd oherwydd camgymeriadau sydd wedi cael eu gwneud gyda'u credyd cynhwysol nhw, sy'n golygu nad ydynt hyd yn oed yn gallu bwydo eu teuluoedd. Felly, rydym yn gwrthwynebu'n llwyr welliannau 1 a 2 yn enw Paul Davies ac rwyf wedi cynnig gwelliannau 3, 4 a 5 yn enw Elin Jones.

The statistics also show very clearly that universal credit does not lead people into work. There is no evidence at all to confirm that. Also, universal credit is paid on a monthly basis to people and they are not paid for the first week. That leads to a situation where people have to wait for five weeks before they receive their first payment. We are talking here about the poorest people in society—the people who find it difficult to pay their way in society—and they have to wait, at the moment, for five weeks before they can receive payment. If you want evidence of this, go to the food banks. The food banks will tell you that they are having more and more people coming through their doors because of mistakes that have been made with their universal credit, which means that they cannot even feed their families. Therefore, we totally oppose amendments 1 and 2, tabled in the name of Paul Davies, and I have moved amendments 3, 4 and 5, tabled in the name of Elin Jones.

Rwy'n gobeithio y bydd pob Aelod o'r Cynulliad hwn sydd wedi cael pobl yn dod i'w gweld ynglŷn â'r problemau ymarferol sy'n cael eu creu gan y dreth ystafell wely—yn enwedig y bobl hynny sy'n gofalu am aelodau o'u teuluoedd sy'n dioddef afiechydon arbennig ac sydd angen ystafell ychwanegol, a'r rheini'n gorfod wynebu'r sefyllfa o gael eu cosbi oherwydd yr angen sylfaenol hwnnw—yn cefnogi gwelliant 3 sy'n galw am ddileu'r dreth ystafell wely. Mae gwelliant 4 yn cydnabod y realiti mai'r unig ffordd i fynd i'r afael â'r angen i greu swyddi yw trwy wneud hynny ac nid i geisio diwygio'r system les.

I hope that every Member of this Assembly who has seen people who have come to talk to them about the practical problems that are being created by the bedroom tax—particularly those people who care for family members who suffer specific conditions where they need an additional room, and then have to face the situation of being penalised because of that basic need—will support amendment 3 that calls for the repeal of the bedroom tax. Amendment 4 recognises the reality that the only way of tackling the need to create jobs is by doing so and not by reforming the welfare system.

Mae gwelliant 5 yn cydnabod bod rhewi budd-dal plant yn mynd i greu mwy o broblemau gyda'r broblem sylfaenol sydd wedi ein hwynebu ni yng Nghymru ers 15 mlynedd, ers i'r Cynulliad hwn gael ei sefydlu a chyn hynny, sef y ffaith nad ydym wedi mynd i'r afael â thlodi plant. Fe wnes i alw, yr wythnos diwethaf, am ddadl ar y mater hwn, oherwydd yr ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi gan sefydliad ymchwil Prifysgol Sheffield Hallam sy'n dangos, yn gwbl glir, y bydd y newidiadau hyn i'r system les yn costio £1 biliwn y flwyddyn i economi Cymru. Mae hynny'n £550 i bob oedolyn sydd o oedran gwaith. Mae'n dangos yn glir iawn mai'r bobl sy'n mynd i ddioddef fwyaf yw'r bobl yn yr ardaloedd tlotaf yng Nghymru, ac mae'n cymryd o'r economi pedair gwaith cymaint ag y mae'r cronfeydd strwythurol, sy'n cydnabod tlodi ardaloedd yng Nghymru, yn eu cyflwyno i'r economi.

Amendment 5 recognises that a freeze on child benefit would cause more problems with the basic problem that has faced us in Wales for 15 years, since this National Assembly was established and before that, which is the fact that we have not tackled child poverty. I called, last week, for a debate on this issue, because of the research that has been published by the Sheffield Hallam University research centre that shows clearly that these changes to the welfare system will cost £1 billion a year to the Welsh economy. That is £550 for each adult of working age. It shows clearly that the people who are going to suffer most are those people in the poorest areas of Wales, and it takes from the economy four times as much as the structural funds, which recognise poverty in areas of Wales, bring to the economy.

A gaf roi'r her hon i Lywodraeth Cymru? Ddydd Iau nesaf, bydd comisiwn Smith yn datgan yr angen i ddatganoli llawer iawn o fudd-daliadau i Lywodraeth yr Alban. Mae'n debyg y bydd y Blaid Lafur yn yr Alban yn cefnogi hynny. A ydych chi, Lywodraeth Cymru, am gael y cyfrifoldeb o ddelio â'r wladwriaeth les yng Nghymru, neu a ydych chi'n mynd i fod yn fodlon gwneud dim ond beirniadu'r glymblaid yn Llundain am ei methiannau?

May I give the Welsh Government this challenge? Next Thursday, the Smith commission will state the need to devolve a number of benefits to the Scottish Government. It is likely that the Labour Party in Scotland will support that. Do you, as the Welsh Government, want the responsibility of dealing with the welfare system in Wales, or will you be content with doing nothing except criticising the coalition in London for its failings?

17:43 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

If we are to fully understand the impact of the United Kingdom Government's welfare reform strategy, we need to understand, firstly, its purpose. Its purpose is not to provide some very vulnerable people with security and support. Its purpose is not to provide a fair and far-sighted system of welfare support to enable people to find work or to support their families while working hard, but not receiving sufficient salaries to maintain their living standards. It is not to do any of those things. The purpose of this programme is to save £21 billion out of the budget. In short, the wealthiest and the most powerful people in the land are demanding that the poorest and the most vulnerable pay the costs of a financial crisis that was none of their making.

Os ydym i ddeall yn llawn effaith strategaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiwygio'r gyfundrefn les, mae angen inni ddeall ei diben yn gyntaf. Nid rhoi sicrwydd a chefnogaeth i rai pobl agored iawn i niwed mo'i diben. Nid darparu system deg a chraff o gymorth lles i alluogi pobl i ddod o hyd i waith neu i gynnal eu teuluoedd wrth weithio'n galed, er nad ydynt yn derbyn digon o gyflog i gynnal eu safonau byw, mo'i diben. Nid gwneud unrhyw un o'r pethau hynny. Diben y rhaglen hon yw arbed £21 biliwn o'r gyllideb. Yn gryno, mae'r bobl gyfoethocaf a mwyaf pwerus yn y wlad yn mynnu bod y tlotaf a'r mwyaf agored i niwed yn talu costau argyfwng ariannol na chafodd ei achosi ganddynt hwy.

The welfare reforms will hit hardest in the places that are the poorest and have the highest levels of worklessness and in-work poverty. This policy will have a deliberate and disproportionate impact on Wales and while it has a disproportionate impact on Wales, it will have a disproportionate impact on the people I represent in Blaenau Gwent. As has already been stated, £1 billion will be taken out of the Welsh economy. Half of that £1 billion will be taken from the economy of the south Wales Valleys. As Rhodri Glyn Thomas has said, that is four times a year from the economy of what we receive in European Union funding to rebuild that economy and to rebuild those communities, and still we hear from the Conservative party criticism that those projects are not working. How can they work? How can those policies work when you see a deliberate act of Government undermining the economy of those communities?

Bydd y diwygiadau lles yn taro galetaf yn y lleoedd sydd dlotaf ac sydd â'r lefelau uchaf o bobl heb waith ac o dlodi ymhlith pobl mewn gwaith. Bydd y polisi hwn yn cael effaith fwriadol ac anghymesur ar Gymru a chan y bydd yn cael effaith anghymesur ar Gymru, bydd yn cael effaith anghymesur ar y bobl yr wyf i'n eu cynrychioli ym Mlaenau Gwent. Fel y dywedwyd eisoes, bydd £1 biliwn yn cael ei gymryd allan o economi Cymru. Bydd hanner yr £1 biliwn hwnnw'n cael ei gymryd o economi Cymoedd y De. Fel y mae Rhodri Glyn Thomas wedi'i ddweud, mae hynny bedair gwaith y flwyddyn yn fwy o'r economi na'r cyllid a gawn gan yr Undeb Ewropeaidd i ailadeiladu'r economi hwnnw ac i ailadeiladu'r cymunedau hynny, ac rydym yn dal i glywed beirniadaeth gan y blaid Geidwadol nad yw'r prosiectau hynny'n gweithio. Sut y gallant weithio? Sut y gall y polisïau hynny weithio pan fo'r Llywodraeth yn gweithredu'n fwriadol i danseilio economi'r cymunedau hynny?

17:45 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Diolch yn fawr iawn am adael i mi ymyrryd. Rwy'n cytuno â'th ddadansoddiad di, ond mae'r Blaid Lafar wedi datgan y bydd yn glynnu at batrwm gwario'r glymblaid hon am ddwy flynedd. Sut bydd hynny'n gwella cyflwr y bobl yr wyt ti newydd fod yn siarad amdanyn nhw?

Thank you very much for taking my intervention. I agree with your analysis, but the Labour Party has stated that it will stick to the spending plans of this coalition for two years. How will that improve conditions for the people you have just been talking about?

17:45 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

We know that this programme is not simply a policy, but a philosophy that the Conservative party has followed for many years.

Rydym yn gwybod nad polisi yn unig yw'r rhaglen hon, ond athroniaeth y mae'r blaid Geidwadol wedi'i dilyn ers blynyddoedd lawer.

In Blaenau Gwent, we estimate that the loss will be £31 million a year, which equates to £700 per working-age adult, over £200 more per person than the Welsh average. In Tredegar, the loss per working-age adult will be up to £830. In Nantyglo, it will be £790. That is per working-age adult in one of the poorest parts of this country. However, we know that these are not the losses of the bankers—paper losses that will be put away behind next week's bonus. These are going to impact real people, taking money out of people's and families' pockets. There will be a reduction in spending of 4% in some areas where we need to increase the ability to manage and develop our economy. Small businesses will be affected by this; our town centres and our local communities will also be affected by this. It will take hundreds and hundreds of pounds per person out of the poorest parts of our country.

Ym Mlaenau Gwent, rydym yn amcangyfrif y bydd y golled yn £31 miliwn y flwyddyn, sy'n cyfateb i £700 i bob oedolyn o oedran gweithio, dros £200 yn fwy y pen na chyfartaledd Cymru. Yn Nhredegar, bydd y golled i bob oedolyn o oedran gweithio hyd at £830. Yn Nant-y-glo, bydd yn £790. Mae hynny fesul oedolyn o oedran gweithio yn un o rannau tlotaf y wlad hon. Fodd bynnag, gwyddom nad colledion y bancwyr yw'r rhain—colledion papur a fydd yn cael eu cuddio y tu ôl i fonws yr wythnos nesaf. Mae'r rhain yn mynd i gael effaith ar bobl go iawn, gan gymryd arian allan o bocedi pobl a theuluoedd. Bydd gwariant yn lleihau 4% mewn rhai ardaloedd lle mae angen cynyddu'r gallu i reoli a datblygu ein heconomi. Bydd hyn yn effeithio ar fusnesau bach; bydd yn effeithio hefyd ar ganol ein trefi a'n cymunedau lleol. Bydd yn cymryd cannoedd ar gannoedd o bunnoedd y pen allan o rannau tlotaf ein gwlad.

17:47 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

17:47 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

No, I will not take another intervention.

Na, nid wyf am dderbyn ymyriad arall.

This is a policy, Deputy Presiding Officer, that is designed to increase poverty. This is a policy that will deliberately increase suffering. This is an approach that has carelessness written through it—a carelessness of people who, at some points, are the most vulnerable people in our country. Any Government has a responsibility to the most vulnerable. Any Government has a responsibility to take care of some of the weakest people, but this UK Government is careless about what happens to those people and what happens as a consequence of this policy. That is why this welfare reform programme is an amoral policy from an amoral Government.

Mae hwn yn bolisi, Ddirprwy Lywydd, sydd wedi'i gynllunio i gynyddu tlodi. Mae hwn yn bolisi a fydd yn cynyddu dioddefaint yn fwriadol. Mae hwn yn ddull sydd â diofalwch wedi'i ysgrifennu drwyddo—diofal ynglŷn â phobl sydd, ar rai adegau, y bobl fwyaf agored i niwed yn ein gwlad. Mae gan unrhyw Lywodraeth gyfrifoldeb tuag at y rhai mwyaf agored i niwed. Mae gan unrhyw Lywodraeth gyfrifoldeb i ofalu am rai o'r bobl wannaf, ond mae Llywodraeth y DU yn ddiofal ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd i'r bobl hynny a beth sy'n digwydd o ganlyniad i'r polisi hwn. Dyna pam y mae'r rhaglen diwygiadau lles hon yn bolisi ddifoeseg gan Lywodraeth ddifoeseg.

17:48 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

If, as Alun Davies has just effectively alleged, welfare reform is a massive conspiracy to do down the poor and undermine the Welsh economy, then I think that all parties here stand guilty of promoting it, because this is a programme that has continued from the previous Government and, judging by what has been said by spokespeople for the opposition, will continue into the next Government. We should not delude ourselves that that is not the case. [Interruption.] Let me make my points, Rhodri, and, if you want to intervene, you can come back in a minute.

Os mai cynllwyn enfawr i fychanu'r tlawd a thanseilio economi Cymru yw'r diwygiadau i'r gyfundrefn les, fel y mae Alun Davies newydd ei honni i bob pwrpas, yna credaf fod pob plaid yma yn euog o'i hyrwyddo, gan fod hon yn rhaglen sydd wedi'i pharhau ers cyfnod y Llywodraeth flaenorol ac, a barnu yn ôl yr hyn a ddywedwyd gan lefarwyr dros yr wrthblaid, bydd yn parhau i gyfnod y Llywodraeth nesaf. Ni ddylem ein twyllo ein hunain nad yw hynny'n wir. [Torri ar draws.] Gadewch imi wneud fy mhwyntiau, Rhodri, ac, os ydych am ymyrryd, cewch ddod yn ôl mewn munud.

I think that it is quite important that we take account of the fact that there is public opinion in favour of reforming welfare and that there is a necessity in terms of reforming welfare, given the cost of that in terms of public expenditure. However, I think we also need to acknowledge that, in terms of some of the proposals that have been criticised here today, Labour is also in favour of those proposals. Labour voted in support of the cap on benefits. In fact, 520 MPs voted in favour of the cap, with just 22 voting against it. Ed Balls has suggested to the Low Pay Commission that it can advise on setting a cap in different parts of the country. Whereas before we talked about regional pay, we are now talking about a regional level of benefits and, in that case, Wales would certainly lose out if Labour's proposals for regional benefit caps came in. In terms of a regionalised benefit system, Ed Balls said in June 2013 that Labour wants a system that

Credaf ei bod yn eithaf pwysig inni gadw mewn cof bod barn gyhoeddus o blaid diwygio'r gyfundrefn les a'i bod yn angenrheidiol diwygio'r gyfundrefn les, o ystyried ei chost o ran gwariant cyhoeddus. Fodd bynnag, credaf fod angen hefyd inni gydnabod, o ran rhai o'r cynigion sydd wedi cael eu beirniadu yma heddiw, bod Llafur hefyd o blaid y cynigion hynny. Pleidleisiodd Llafur o blaid y cap ar fudd-daliadau. Yn wir, pleidleisiodd 520 AS o blaid y cap, gyda dim ond 22 yn pleidleisio yn ei erbyn. Mae Ed Balls wedi awgrymu i'r Comisiwn Cyflogau Isel y gallai gynghori ar osod cap mewn gwahanol rannau o'r wlad. Yn flaenorol rydym wedi trafod tâl rhanbarthol, bellach rydym yn trafod lefel ranbarthol ar gyfer budd-daliadau ac, yn yr achos hwnnw, byddai Cymru yn sicr ar ei cholled pe byddai cynigion y blaid Lafur i gael capiau rhanbarthol ar gyfer budd-daliadau'n cael eu cyflwyno. O ran system budd-daliadau rhanbarthol, dywedodd Ed Balls ym mis Mehefin 2013 fod Llafur am gael system sy'n

'takes account of housing costs in different parts of the country—with an independent body, like the Low Pay Commission, advising on whether the cap should be higher in high-cost housing areas like London, but potentially lower in other parts of the country'.

ystyried costau tai mewn gwahanol rannau o'r wlad—gyda chorff annibynnol, fel y Comisiwn Cyflogau Isel, yn cynghori ynghylch a ddylai'r cap fod yn uwch mewn ardaloedd lle mae costau tai yn uchel fel Llundain, ond a allai fod yn is mewn rhannau eraill o'r wlad.

If you think that that is not going to have an impact on areas like Blaenau Gwent, then I think that you are very much mistaken.

Os ydych yn credu nad yw hynny'n mynd i gael effaith ar ardaloedd fel Blaenau Gwent, yna rwy'n meddwl eich bod yn camgymryd yn fawr iawn.

Rhodri, do you want to intervene?

Rhodri, a ydych chi eisiau ymyrryd?

17:50 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Earlier in your contribution, Peter, you said that all parties here should feel guilty. Can you correct that and say that three parties here should take responsibility, and not the fourth party, Plaid Cymru, which has never advocated any of this?

Yn gynharach yn eich cyfraniad, Peter, dywedoch y dylai pob plaid yma deimlo'n euog. Allech chi gywiro hynny a dweud y dylai tair plaid yma gymryd cyfrifoldeb, ac nid y bedwaredd blaid, Plaid Cymru, gan nad yw erioed wedi argymell dim o hyn?

17:50 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Well, clearly, I am talking about those parties at a UK level that have influence at a UK level. So, I am certainly happy that Plaid Cymru is able to sink into its oppositionist role and not take responsibility. [Interruption.] No, not at all.

Wel, yn amlwg, rwy’n sôn am y pleidiau hynny ar lefel y DU sydd â dylanwad ar lefel y DU. Felly, rwy’n sicr yn hapus i Blaid Cymru suddo’n ôl i’w rôl fel gwrthblaid a pheidio â chymryd cyfrifoldeb. [Torri ar draws.] Na, dim o gwbl.

Moving on in terms of welfare reform, I think that it is also clear that welfare reform has had cross-party support in Westminster. It was central to the previous Government’s programme and captured a number of proposals in the Labour manifesto for the last general election. So, clearly, this is an issue. Having said that, I certainly acknowledge that there are problems with the welfare reform programme, as we have it. The Welsh Liberal Democrats will be supporting all of the amendments today, including that calling for a repeal of the bedroom tax. We accept that the rationale behind that tax has not been able to be delivered, simply because there were not enough homes in place to actually rehouse people, and, clearly, it has had a disproportionate impact on a large number of people. The Liberal Democrat conference in September 2013 called for an immediate evaluation of its impact. An independent review of the policy was completed, and we are happy to accept that that showed that things had not worked as was intended. So, I am happy to stand up here and say on behalf of the Welsh Liberal Democrats that it should be repealed. Of course, there has been a private Member’s Bill brought by the Liberal Democrat Member of Parliament, Andrew George, to try to amend the way that that tax actually impacts and to specifically exclude disabled adults from the spare room subsidy, as it is termed at Westminster, but also of course to say that it should also apply only when someone actually moves home, which is, of course, how the bedroom tax that was introduced in terms of the private sector, as introduced by the previous Labour Government, applies as well. I think that we need to acknowledge that, and I am happy to say that as well.

Gan symud ymlaen o ran diwygio’r gyfundrefn les, credaf ei bod hefyd yn amlwg bod y diwygiadau wedi cael cefnogaeth drawsbleidiol yn San Steffan. Roedd yn ganolog i raglen y Llywodraeth flaenorol ac yn destun i nifer o gynigion ym maniffesto’r blaid Lafur ar gyfer yr etholiad cyffredinol diwethaf. Felly, yn amlwg, mae hwn yn bwnc llosg. Wedi dweud hynny, rwy’n sicr yn cydnabod bod problemau gyda'r rhaglen diwygiadau lles, fel y mae ar hyn o bryd. Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r holl welliannau heddiw, gan gynnwys yr un sy’n galw am ddiddymu'r dreth ystafell wely. Rydym yn derbyn na fu modd gwireddu’r rhesymeg y tu ôl i'r dreth, yn syml oherwydd nad oedd digon o gartrefi ar gael mewn gwirionedd i ailgartrefu pobl, ac, yn amlwg, mae wedi cael effaith anghymesur ar nifer fawr o bobl. Roedd cynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol ym mis Medi 2013 yn galw am werthuso'i heffaith ar unwaith. Cafodd adolygiad annibynnol o'r polisi ei gwblhau, ac rydym yn hapus i dderbyn bod hwnnw’n dangos nad oedd pethau wedi gweithio fel y bwriadwyd. Felly, rwy’n fodlon sefyll i fyny yma a dweud ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru y dylai gael ei diddymu. Wrth gwrs, mae Bil Aelod preifat wedi’i gyflwyno gan Aelod Seneddol y Democratiaid Rhyddfrydol, Andrew George, i geisio newid y ffordd y mae’r dreth honno’n effeithio ar bobl mewn gwirionedd ac i eithrio oedolion anabl yn benodol o'r cymhorthdal ystafell sbâr, fel y caiff ei alw yn San Steffan, ond hefyd, wrth gwrs, i ddweud y dylai fod yn berthnasol hefyd dim ond pan fydd rhywun yn symud cartref, sef, wrth gwrs, sut y mae'r dreth ystafell wely a gyflwynwyd o ran y sector preifat, gan y Llywodraeth Lafur flaenorol, yn gweithio hefyd. Credaf fod angen inni gydnabod hynny, ac rwy’n falch o ddweud hynny hefyd.

There have been problems with the work capability assessments. They have been amended. It was introduced —as I think Mark Isherwood said—by the previous Labour Government. It gave the contract to Atos. The current Government has changed it, but we also have to recognise from the Harrington report that they themselves say that this is still not working as well as it should. They said that:

Bu problemau gyda'r asesiadau gallu i weithio. Maent wedi cael eu diwygio. Cawsant eu cyflwyno—fel y dywedodd Mark Isherwood rwy’n meddwl—gan y Llywodraeth Lafur flaenorol. Rhoddodd y contract i Atos. Mae'r Llywodraeth bresennol wedi ei newid, ond rhaid inni hefyd gydnabod yn sgil adroddiad Harrington eu bod nhw eu hunain yn dweud nad yw hyn yn gweithio cystal ag y dylai o hyd. Maent yn dweud bod:

‘There are clear and consistent criticisms of the whole system and much negativity surrounding the process.’

beirniadaeth glir a chyson o’r system gyfan a llawer o agweddau negyddol ynghylch y broses.

That is certainly reflected in terms of the casework that I see in my regional constituency office and in terms of the people we try to help to deal with that.

Mae hynny’n sicr yn cael ei adlewyrchu o ran y gwaith achos a welaf yn fy swyddfa etholaeth ranbarthol ac o ran y bobl yr ydym yn ceisio eu helpu i ddelio â hynny.

In summing up, Deputy Presiding Officer, the Welsh Liberal Democrats recognise that there are problems with welfare reform. We recognise that it has had an impact on the poorest in our society, and that it needs to be mitigated in terms of how it has been introduced. We also, though, recognise that there is a consensus among the UK parties in terms of how it is introduced and that, in many respects, the opposition at Westminster would carry on that reform in a different guise and certainly are still trying to look tougher than the UK Government in terms of how it would be introduced. So, I do not think that a lot of what we have heard today—the rhetoric that we have heard today—particularly from the Labour benches, really stands up in terms of what they are proposing to do.

Wrth grynhoi, Ddirprwy Lywydd, mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cydnabod bod problemau o ran diwygio’r gyfundrefn les. Rydym yn cydnabod bod hyn wedi cael effaith ar y bobl dlotaf yn ein cymdeithas, a bod angen lliniaru’r effaith o ran sut y mae’r diwygiadau wedi cael eu cyflwyno. Rydym hefyd, ar y llaw arall, yn cydnabod bod yna gonsensws ymysg y pleidiau yn y DU o ran y ffordd y dylid eu cyflwyno, ac y byddai'r wrthblaid yn San Steffan, mewn sawl ffordd, yn parhau â’r diwygiadau hynny ar ffurf wahanol ac yn sicr maent yn dal i geisio edrych yn fwy cadarn na Llywodraeth y DU o ran sut y byddent yn cael eu cyflwyno. Felly, nid wyf yn credu bod llawer o'r hyn yr ydym wedi'i glywed heddiw—y rhethreg yr ydym wedi'i glywed heddiw—yn enwedig gan y meinciau Llafur, mewn gwirionedd yn argyhoeddi o ran yr hyn y maent yn bwriadu ei wneud.

17:53

## Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I called for this debate in a business statement some time ago, so I am very pleased to see this topic back on the agenda. Tax and benefits may not be devolved, but, with the total cost of welfare reform in Wales put at £1 billion a year, surely dealing with that massive economic blow is justification enough for this discussion, particularly against the background of the recent Sheffield Hallam University research, which broke down the cost of welfare cuts to ward level and showed the communities hit hardest are places like Trevethin in my constituency, already hugely deprived and where every working-age adult has lost the equivalent of £850 per year.

Galwais am y ddadl hon mewn datganiad busnes gryn amser yn ôl, felly rwy'n falch iawn o weld y pwnc hwn yn ôl ar yr agenda. Efallai nad yw treth a budd-daliadau wedi ei ddatganoli, ond, gan mai’r amcangyfrif yw y bydd y broses o ddiwygio’r gyfundrefn les yng Nghymru yn costio cyfanswm o £1 biliwn y flwyddyn, yn sicr mae delio â'r ergyd economaidd enfawr honno yn ddigon o gyfiawnhad dros y drafodaeth hon, yn enwedig o ystyried ymchwil ddiweddar Prifysgol Sheffield Hallam, a ddadansoddodd cost y toriadau lles i lefel ward gan ddangos mai’r cymunedau a gaiff eu taro galetaf yw lleoedd fel Trefethin yn fy etholaeth, sydd eisoes yn ddifreintiedig aruthrol a lle mae pob oedolyn o oedran gweithio wedi colli cyfwerth â £850 y flwyddyn.

Indeed, when those paying the highest price for welfare reform are so often those with the least voice, are the people most disenfranchised and disconnected from politics, it makes it all the more vital that, as their elected representatives, we speak up on their behalf. That is true even if our words fall on deaf ears as far as the coalition is concerned, which, it is no surprise to find, has scant regard for the hardship and suffering that its approach is causing. On this side of the Chamber, we always knew that Iain Duncan Smith’s supposed conversion to the cause of social justice was little more than a fig leaf to help resurrect his political career. It shows the Tories’ deeply ideological motivations that they are relentlessly pursuing this course in the face of mounting evidence that shows that their policies are simply not delivering what they promised—policies like the bedroom tax, which we were told would free up social housing and tackle underoccupation, but has instead caused debt and arrears to skyrocket and seen only 6% of those affected actually move home, and even then often to smaller private sector accommodation, which ends up costing the state more.

Yn wir, pan mai’r rhai sy'n talu'r pris uchaf am y diwygiadau lles mor aml yw’r rhai sydd â’r llais lleiaf, y bobl fwyaf ddifreintiedig ac sydd wedi’u datgysylltu fwyaf oddi wrth wleidyddiaeth, mae hyd yn oed yn fwy hanfodol ein bod ni, eu cynrychiolwyr etholedig, yn siarad ar eu rhan. Mae hynny'n wir hyd yn oed os yw nad yw ein geiriau yn cael gwrandawiad gan y glymblaid, nad yw’n rhoi fawr o ystyriaeth, nid yw'n syndod i ganfod, i’r caledi a’r dioddefaint y mae ei hagwedd yn ei achosi. Ar yr ochr hon i'r Siambr, roeddem wastad yn gwybod nad oedd tröedigaeth honedig Iain Duncan Smith i achos cyfiawnder cymdeithasol yn fawr mwy na deilen ffigys i helpu i atgyfodi ei yrfa wleidyddol. Mae'n dangos cymhellion ideolegol dwfn y Torïaid eu bod yn dilyn y trywydd hwn yn ddiflino yn wyneb y dystiolaeth gynyddol sy'n dangos nad yw eu polisïau yn cyflawni’r hyn yr oeddent yn ei addo—polisïau fel y dreth ystafell wely, y dywedwyd wrthym y byddai'n rhyddhau tai cymdeithasol ac yn mynd i'r afael â thanfeddiannaeth, ond yn hytrach sydd wedi achosi i ddyled ac ôl-ddyledion godi i’r entrychion ac wedi achosi i ddim ond 6% o'r rhai yr effeithir arnynt symud tŷ, a hyd yn oed wedyn yn aml i lety llai yn y sector preifat, sy'n costio mwy i’r wladwriaeth yn y pen draw.

The increasingly chaotic transition from incapacity benefit to ESA was handled so badly by Atos that 40% of its decisions were overturned on appeal, at an annual cost to taxpayers of over £60 million, leaving the Government's new contractor, MAXIMUS, with a case backlog so large it says it will take at least 18 months to clear. Perhaps most tellingly of all, despite the raft of changes to housing-related support, the cap on housing allowance, raising the age threshold for shared accommodation from 25 to 35, uprating benefits by the consumer prices index instead of the retail prices index, and the many other cuts they have introduced, the overall bill for housing benefit is actually expected to reach a record high of £25 billion by 2017.

Mae Atos wedi ymdrin mor wael â'r broses gynyddol annhrefnus o drosglwyddo o'r budd-dal analluogrwydd i'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth fel bod 40% o'i benderfyniadau wedi'u gwrthdroi ar apêl, ar gost flynyddol i drethdalwyr o dros £60 miliwn, gan adael contractwr newydd y Llywodraeth, Maximus, gyda chynifer o achosion wedi cronni fel ei fod yn dweud y bydd yn cymryd o leiaf 18 mis i'w clirio. Efallai mai'r peth mwyaf arwyddocaol yw, er gwaethaf y llu o newidiadau i'r cymorth sy'n ymwneud â thai, y cap ar lwfans tai, codi trothwy oedran ar gyfer rhannu llety o 25 i 35, uwchraddio budd-daliadau yn ôl y mynegai prisiau defnyddwyr yn hytrach na'r mynegai prisiau manwerthu, a'r nifer o doriadau eraill y maent wedi'u cyflwyno, bod disgwyl i'r bil cyffredinol ar gyfer budd-dal tai mewn gwirionedd gyrraedd ei lefel uchaf erioed erbyn 2017, sef £25 biliwn.

The impact has been very real on the ground. In Torfaen, for example, as in many other areas, the council is spending far more in discretionary housing payments than it actually receives from the Treasury—a gap of more than £100,000 annually, in fact, at a time when every penny really does count in local government. If you look at the latest statistical update from Citizens Advice, which shows that issues related to ESA now make up more than 20% of its overall case load, it is quite clear that these changes are causing all the expected uncertainty, worry and distress.

Mae'r effaith wedi bod yn real iawn ar lawr gwlad. Yn Nhorfaen, er enghraifft, fel mewn llawer o ardaloedd eraill, mae'r cyngor yn gwario llawer mwy mewn taliadau tai yn ôl disgresiwn nag y mae'n ei dderbyn gan y Trysorlys—bwlch o fwy na £100,000 y flwyddyn, mewn gwirionedd, ar adeg pan fo pob ceiniog wir yn cyfrif mewn llywodraeth leol. Os edrychwch ar y diweddariad ystadegol diweddaraf gan Gyngor ar Bopeth, sy'n dangos bod materion yn ymwneud â Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn awr yn cyfrif am fwy nag 20% o'i lwyth achosion cyffredinol, mae'n eithaf amlwg bod y newidiadau hyn yn achosi'r holl ansicrwydd, y boen a'r gofid disgwyliedig.

However, the fiscal bombshell at the heart of this is that, whereas we were told these reforms would cut the deficit by £19 billion, in fact, welfare spending is only down by £2.5 billion, according to the Institute for Fiscal Studies, and that is before you even touch upon the unmitigated mess that has been the introduction of universal credit, beset by IT disaster after IT disaster, countless changes of leadership at the DWP, and subject to seemingly endless setbacks and delays. One million people across Britain were supposed to be on universal credit by now, yet only 20,000 claimants currently receive it, despite Duncan Smith's increasingly bizarre assurances that the project remains on track. It is not just about the technological and administrative challenges. Whether you look at the five weeks' benefit wait highlighted by the Wales TUC, the issues around direct payments that were exposed when the scheme was piloted in Torfaen, or the fact that so many claimants simply do not have the IT skills required to submit their claims, it is becoming increasingly apparent that, one way or another, universal credit is a project that is doomed to fail.

Fodd bynnag, y daranfollt ariannol wrth wraidd hyn yw y dywedwyd wrthym y byddai'r diwygiadau hyn yn lleihau'r diffyg £19 biliwn, ond nad yw gwariant lles, mewn gwirionedd, ddim ond £2.5 biliwn yn is, yn ôl y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, ac mae hynny cyn i chi hyd yn oed ystyried llanast digamsyniol cyflwyno'r credyd cynhwysol, sydd wedi gweld un trychineb TG ar ôl y llall, newidiadau arweinyddiaeth dirifedi yn yr Adran Gwaith a Phensiynau, ac oedi ac anawsterau sy'n ymddangos yn ddiddiwedd. Roedd un filiwn o bobl ar draws Prydain i fod ar gredyd cynhwysol erbyn hyn, ond dim ond 20,000 o hawlwyr sy'n ei dderbyn ar hyn o bryd, er gwaethaf sicrwydd cynyddol ryfedd Duncan Smith bod y prosiect yn parhau i fod ar y trywydd cywir. Nid yw'n fater o heriau technolegol a gweinyddol yn unig. P'un a ydych yn edrych ar y ffaith a amlygwyd gan TUC Cymru bod pobl yn aros pum wythnos am eu budd-dal, y problemau ym maes taliadau uniongyrchol a ddatgelwyd pan gafodd y cynllun ei dreialu yn Nhorfaen, neu'r ffaith nad oes gan gymaint o hawlwyr y sgiliau TG sydd eu hangen i gyflwyno eu hawliadau, mae'n dod yn fwyfwy amlwg, mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, bod credyd cynhwysol yn brosiect sy'n sicr o fethu.

Finally, I want to expose the central deceit that is at the heart of Tory-Lib Dem welfare reform, which is that, somehow, this is about taking on those they, and their allies in the right-wing press, would brand as scroungers or the feckless poor. Despite all the rhetoric we saw at the Tory conference and all Cameron's talk of a family test for Government policy—

Yn olaf, rwyf am ddatgelu'r twyll canolog sydd wrth wraidd diwygiadau lles y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol, sef bod hyn, rhywsut, yn ymwneud â herio'r rhai y byddent hwy, a'u cynghreiriaid yn y wasg adain dde, yn dweud eu bod yn byw'n fras ar goffau'r wlad neu'n eu galw'n dlodion da i ddim. Er gwaethaf yr holl rethreg a welsom yng nghynhadledd y Torïaid a holl siarad Cameron am brawf y teulu ar bolisïau'r Llywodraeth—

17:58

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Conclude now, please.

Gorffennwch yn awr, os gwelwch yn dda.

17:58 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

[Continues.]—in reality it is working families that have lost twice as much per household than families where no-one works.

[Yn parhau.]—mewn gwirionedd teuluoedd sy'n gweithio sydd wedi colli ddwywaith cymaint fesul aelwyd na theuluoedd lle nad oes neb yn gweithio.

17:58 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

There are many misconceptions that parties in the Chamber are happy to repeat surrounding the impact that welfare reforms are having in Wales. I think that Peter Black summarised very clearly the view of Labour MPs at Westminster and the actions that they have taken to support welfare reform.

Mae yna lawer o gamsyniadau y mae pleidiau yn y Siambr yn hapus i'w hailadrodd ynghylch yr effaith y mae diwygiadau lles yn ei chael yng Nghymru. Credaf fod Peter Black wedi crynhoi barn ASau Llafur yn San Steffan yn glir iawn a'r camau y maent wedi'u cymryd i gefnogi'r diwygiadau lles.

Tax credit spending increased by 340% between 1997 and 2010, but, at the same time, average earnings increased by 30%. Tax credits cost four and a half times more than the benefits that they replaced, and Labour, in that time, spent £170 billion on tax credits between 2003-04 and 2010, contributing to a 60% rise in the welfare bill. That has cost every household in Britain an extra £3,000 a year. Over £6 billion of taxpayers' money was overpaid in the first three years alone, and the online portal for tax credits closed in 2005, after being targeted by fraudsters. There is clearly a need for reform, and a 60% rise in the welfare bill, from the period 2003-04 to 2010, simply is not affordable. The aim is to support people into work. The Welsh Government would do well to look at affordable and available childcare in order to allow people to go back into work, as well as the measures that the Minister announced today.

Cynyddodd gwariant credyd treth 340% rhwng 1997 a 2010, ond, ar yr un pryd, cynyddodd enillion cyfartalog 30%. Mae credydau treth yn costio bedair gwaith a hanner yn fwy na'r budd-daliadau y maent yn eu disodli, a gwariodd y blaid Lafur, yn y cyfnod hwnnw, £170 biliwn ar gredydau treth rhwng 2003-04 a 2010, gan gyfrannu at gynnydd o 60% yn y bil lles. Mae hynny wedi costio £3,000 ychwanegol y flwyddyn i bob aelwyd ym Mhrydain. Cafodd dros £6 biliwn o arian y trethdalwyr ei ordalu yn y tair blynedd cyntaf yn unig, a chaeodd y porth ar-lein ar gyfer credydau treth yn 2005, ar ôl cael ei dargedu gan dwyllwyr. Mae'n amlwg bod angen diwygio, ac ni allwn fforddio cynnydd o 60% yn y bil lles, o'r cyfnod 2003-04 i 2010. Y nod yw cefnogi pobl i gael gwaith. Byddai'n beth da i Lywodraeth Cymru ystyried gofal plant fforddiadwy a rhwydd cael gafael arno er mwyn galluogi pobl i fynd yn ôl i weithio, yn ogystal â'r mesurau a gyhoeddodd y Gweinidog heddiw.

I agree with what Rhodri Glyn Thomas said about the five-week delay in payments. That does cause real hardship and it does cause problems. As Assembly Members, we do all we can to try to help those who come to our regional offices or constituency offices. Very often, there are ways that we can help get those benefits to them quicker, but you need to—

Rwy'n cytuno â'r hyn a ddywedodd Rhodri Glyn Thomas am y pum wythnos o oedi mewn taliadau. Mae hynny'n achosi caledi go iawn ac mae'n achosi problemau. Fel Aelodau'r Cynulliad, rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i geisio helpu'r rhai hynny sy'n dod i'n swyddfeydd rhanbarthol neu swyddfeydd etholaethol. Yn aml iawn, mae ffyrdd y gallwn helpu i gael y budd-daliadau hynny iddynt yn gynt, ond mae angen i chi—

*Lynne Neagle a gododd—*

*Lynne Neagle rose—*

**Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

I am sorry, but I am not going to take any interventions.

Mae'n ddrwg gennyf, ond nid wyf yn mynd i gymryd unrhyw ymyriadau.

The aim of universal credit is to stop a welfare system that disincentivises work and traps people in poverty. Many, many members of the public have lost trust in the welfare system because it did not reward work and created a something-for-nothing culture. The roll-out is being taken slowly and carefully, so that problems can be identified early on. For those who have complained about the Atos assessments, I know that, certainly when I was working for an MP, those complaints were there for a long time, and certainly existed prior to the coalition Government's coming into power. I am extremely glad that Atos's contract has now been terminated, and terminated without penalty.

Nod y credyd cynhwysol yw atal system les sy'n cymell pobl i beidio â gweithio ac sy'n cadw pobl mewn tlodi. Mae llawer iawn, iawn o aelodau'r cyhoedd wedi colli ffydd yn y system les oherwydd nad oedd yn gwobrwyo gwaith a'i fod yn creu diwylliant o gael arian am wneud dim. Mae'r broses gyflwyno'n digwydd yn araf ac yn ofalus, er mwyn gallu nodi problemau'n gynnar. I'r rhai sydd wedi cwyno am asesiadau Atos, gwn, yn sicr pan oeddwn i'n gweithio i AS, fod cwynion yn bodoli am amser hir, ac yn sicr yn bodoli cyn i'r Llywodraeth glymblaid ddod i rym. Rwy'n hynod falch bod gontract Atos bellach wedi cael ei derfynu, a'i derfynu heb gosb.

The Conservatives, or the coalition Government is accused of penalising the disabled, but overall spending on the main disability benefits will be higher in every year to 2017-18 than it was in 2009-10. Across the UK, the number of disabled people in work is up by around 116,000 in the last year. The rate of disability living allowance paid to the most disabled children has increased by more than £70 per month since the election, in cash terms.

Mae'r Ceidwadwyr, neu'r Llywodraeth glymblaid yn cael eu cyhuddo o gosbi'r anabl, ond bydd gwariant cyffredinol ar y prif fudd-daliadau anabledd yn uwch ym mhob blwyddyn tan 2017-18 nag yr oedd yn 2009-10. Ar draws y DU, mae nifer y bobl anabl sydd mewn gwaith wedi cynyddu tua 116,000 yn y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyfradd y lwfans byw i'r anabl sy'n cael ei thalu i'r plant mwyaf anabl wedi cynyddu mwy na £70 y mis ers yr etholiad, mewn termau arian parod.

In terms of the spare room subsidy, if you live in private rented accommodation and receive housing benefits, these rules apply and have always applied. They applied under the Labour UK Government and they have continued to apply under the coalition Government. There are discretionary housing payments. I agree again with Rhodri Glyn Thomas that there are times when this causes problems. Local councils have been provided funding, but 18 councils spent less than half their allocation, another 79 spent less than 80% and a £20 million reserve fund has had less than a quarter of councils bid for it. So, there is funding there, and it is our job and our role to help our constituents access that funding and put pressure on our councils to access it.

O ran y cymhorthdal ystafell sbâr, os ydych yn byw mewn llety rhent preifat ac yn derbyn budd-daliadau tai, mae'r rheolau hyn yn berthnasol ac maent wastad wedi bod yn berthnasol. Roeddent yn berthnasol dan Lywodraeth Lafur y DU ac maent wedi parhau i fod yn berthnasol dan y Llywodraeth glymblaid. Mae taliadau tai yn ôl disgresiwn ar gael. Rwy'n cytuno eto gyda Rhodri Glyn Thomas fod adegau pan fo hyn yn achosi problemau. Mae cyllid wedi'i ddarparu i gynghorau lleol, ond gwariodd 18 o gynghorau lai na hanner eu dyraniad, gwariodd 79 arall lai nag 80% ac mae llai na chwarter y cynghorau wedi gwneud cais am arian o'r gronfa wrth gefn o £20 miliwn. Felly, mae arian yno, a'n gwaith a'n rôl ni yw helpu ein hetholwyr i gael gafael ar y cyllid a rhoi pwysau ar ein cynghorau i fanteisio arno.

18:03

## Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the fact that the Government has tabled this motion for debate today because, like many others in this Chamber, I am absolutely horrified about the impact that the UK Government's welfare reforms is having on my constituents. I am seeing constituents who are desperate. It is easy to listen to the figures coming out, but you can actually see the changes in our community. You can see it. They are desperate because they are facing increasing personal debt as a result of rising rent and mortgage arrears. They are desperate because they cannot afford the cost of food and they cannot afford the rising energy costs to keep their homes and families warm. Not so long ago, we visited a constituent who had had his electricity cut off. He had no food and no money. I had never seen things as bad as that.

Rwy'n croesawu'r ffaith fod y Llywodraeth wedi cyflwyno'r cynnig hwn i'w drafod heddiw oherwydd fy mod, fel llawer o bobl eraill yn y Siambr hon, yn arswydo ynghylch yr effaith y mae diwygiadau lles Llywodraeth y DU yn ei chael ar fy etholwyr. Rwy'n gweld etholwyr sydd mewn argyfwng. Mae'n hawdd gwrando ar y ffigurau, ond gallwch weld y newidiadau yn ein cymuned ni. Gallwch eu gweld. Maent mewn argyfwng am eu bod yn wynebu mwy o ddyled bersonol oherwydd bod ôl-ddyledion rhent a morgais yn codi. Maent mewn argyfwng am nad ydynt yn gallu fforddio cost bwyd na fforddio'r costau ynni cynyddol i gadw eu cartrefi a'u teuluoedd yn gynnes. Yn weddol ddiweddar, aethom i ymweld ag etholwr yr oedd ei gyflenwad trydan wedi cael ei dorri. Nid oedd ganddo ddim bwyd na dim arian. Doeddwn i erioed wedi gweld pethau mor ddrwg â hynny.

The evidence of people not being able to afford even the most basic of needs is all around us. Other Members have mentioned the growing number of food banks. They are facing unprecedented demand. Again, looking at the evidence that we took in our committee last week about the fact that food banks are facing huge demand due to the impact of the UK Government's callous welfare reforms, these are not exceptional cases, as they may have been in the past; they are mainstream issues that are coming to them now, so I think that it is really worrying.

Mae tystiolaeth o'n cwmpas ym mhob man bod pobl nad ydynt yn gallu fforddio'r anghenion mwyaf sylfaenol hyd yn oed. Mae Aelodau eraill wedi sôn am nifer cynyddol y cronfeydd bwyd. Maent yn wynebu galw digynsail. Unwaith eto, gan edrych ar y dystiolaeth a gymerwyd yn ein pwyllgor yr wythnos diwethaf am y ffaith bod cronfeydd bwyd yn wynebu galw enfawr oherwydd effaith diwygiadau lles dideimlad Llywodraeth y DU, nid achosion eithriadol mo'r rhain, fel yr oeddent yn y gorffennol o bosibl; maent yn faterion prif ffrwd nawr, felly rwy'n meddwl bod hyn yn destun pryder mawr.

The reforms are not just affecting individual families, but taking millions of pounds out of our economy—money that could be creating jobs, supporting public services and building stronger communities. So, these reforms just do not make sense. If we look at the impact of welfare reform on communities, I think that, in terms of some of the aspects, the most worrying thing is that we are seeing an increase in the working poor, with two thirds of people who found work in the past year taking jobs for less than the living wage, according to the latest annual report from the Joseph Rowntree Foundation. For the first time, poverty in working households is higher than that in workless and retired households combined, partly due to a vast increase in insecure work, part-time work or low-paid self-employment. Work is, therefore, clearly not paying.

Mae'r diwygiadau yn effeithio ar deuluoedd unigol, ond maent hefyd yn cymryd miliynau o bunnoedd allan o'n heconomi—arian a allai fod yn creu swyddi, yn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus ac yn adeiladu cymunedau cryfach. Felly, nid yw'r diwygiadau hyn yn gwneud synnwyr. Os edrychwn ar effaith y diwygiadau lles ar gymunedau, rwy'n meddwl, o ran rhai o'r agweddau, mai'r testun pryder mwyaf yw ein bod yn gweld cynnydd yn nifer y rhai sy'n dlawd er eu bod yn gweithio, gyda dau o bob tri o'r bobl a ddaeth o hyd i waith yn y flwyddyn ddiwethaf yn cymryd swyddi am lai na'r cyflog byw, yn ôl yr adroddiad blynyddol diweddaraf gan Sefydliad Joseph Rowntree. Am y tro cyntaf, mae tlodi ymhlith aelwydydd sy'n gweithio yn uwch nag ymhlith aelwydydd heb waith a rhai wedi ymddeol wedi'u cyfuno, yn rhannol oherwydd cynnydd enfawr mewn gwaith ansicr, gwaith rhan-amser neu hunangyflogaeth â chyflog isel. Mae'n amlwg felly nad yw gwaith yn talu.

We are seeing the corrosive effect of uncertainty on people's lives. If we look at the impact of welfare reforms on poverty, we find that, instead of alleviating poverty, they are exacerbating it. Almost a quarter of people in Wales are living in poverty. Our social welfare model is based on the principles of inclusion, support and security for all, protecting us if we fall on hard times or become ill or disabled. Welfare is there to assure us of our dignity—and we are not seeing that anymore—as well as the basics of life. It is there to give us a hand up, not a handout. The current welfare reforms are doing anything but that.

Rydym yn gweld effaith andwyol ansicrwydd ar fywydau pobl. Os edrychwn ar effaith y diwygiadau lles ar dlodi, gwelwn eu bod yn gwaethygu tlodi yn hytrach na'i leddfu. Mae bron i chwarter y bobl yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Mae ein model lles cymdeithasol wedi'i seilio ar egwyddorion cynhwysiant, cefnogaeth a sicrwydd i bawb, system sy'n ein diogelu os daw dyddiau blin neu os ydym yn mynd yn sâl neu'n anabl. Mae'r system les yno i sicrhau ein hurddas—ac nid ydym yn gweld hynny bellach—yn ogystal â hanfodion bywyd. Mae yno i roi help llaw inni, nid cardod. Yn sicr, nid yw'r diwygiadau lles yn gwneud hynny ar hyn o bryd.

We have all heard about people on the employment and support allowance, and we all know about the trials and tribulations of going through the work capability assessment. Some people are just not going through it because they are feeling humiliated and bad about the whole process. As I said, it is not working. We have heard about the bedroom tax, with 40,000 people across Wales affected. Wales has been hit harder by the bedroom tax than any other part of the UK. While I understand that the Welsh Government is unable to overturn these unfair reforms, I make a plea to it to remain committed to helping—

Rydym i gyd wedi clywed am bobl ar y lwfans cyflogaeth a chymorth, ac rydym i gyd yn gwybod am hynt a helynt mynd drwy'r asesiad gallu i weithio. Mae rhai pobl sy'n peidio â mynd drwyddo am eu bod yn teimlo cywilydd ac yn wael ynglŷn â'r holl broses. Fel y dywedais, nid yw'n gweithio. Rydym wedi clywed am y dreth ystafell wely, sydd wedi effeithio ar 40,000 o bobl ledled Cymru. Mae Cymru wedi cael ei tharo'n galetach gan y dreth ystafell wely nag unrhyw ran arall o'r DU. Er fy mod yn deall nad yw Llywodraeth Cymru'n gallu gwrthdroi'r diwygiadau annheg hyn, rwy'n gwneud ple iddi i barhau'n ymrwymedig i helpu-

18:07 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

18:07 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

No, I will not take an intervention.

Na, nid wyf am dderbyn ymyriad.

I make a plea to it to remain committed to helping and supporting my constituents and communities throughout Wales who are feeling the real and dire costs of these welfare reforms. If this is not heeded, I think that the health and social implications for the future will be dire.

Rwy'n gwneud ple iddi aros yn ymrwymedig i helpu a chefnogi fy etholwyr a chymunedau ledled Cymru sy'n teimlo costau gwirioneddol ac enbyd y diwygiadau lles hyn. Os na roddir sylw i hyn, credaf y bydd y goblygiadau cymdeithasol ac o ran iechyd ar gyfer y dyfodol yn enbyd.

18:07 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Plaid Cymru will be supporting the motion today, and I hope that our amendment will be supported by all parties, too. Child benefit, of course, has been an essential part of the welfare state, paid directly to women and often providing a source of income to those who may be in abusive relationships and may not be able to control their own finances.

Bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r cynnig heddiw, ac rwy'n gobeithio y bydd ein gwelliant ni yn cael ei gefnogi gan bob plaid, hefyd. Mae budd-dal plant, wrth gwrs, wedi bod yn rhan hanfodol o'r wladwriaeth les. Caiff ei dalu'n uniongyrchol i fenywod ac mae'n aml yn ffynhonnell incwm i rai a allai fod yn cael eu cam-drin yn eu perthynas ac nad ydynt o bosibl yn gallu rheoli eu cyllid eu hunain.

Last week, we had what should be regarded as a great source of shame, when the Department for Work and Pensions was defending itself in a case brought against it in relation to the bedroom tax—and it is a pertinent example, following on from the last debate. The case was brought by a woman who had had her home fitted with a panic room. She had escaped from an abusive relationship, but she was still in such danger that a panic room had to be installed in her home. The fact that she was charged bedroom tax on this room reflects not only the wholly unacceptable bedroom tax itself but the consequences of implementing social protection changes that are ill thought through and harmful. That is just one of the reasons why Plaid Cymru has placed so much emphasis on the arguments for the abolition of the bedroom tax, and we will continue to do so.

Yr wythnos diwethaf, gwelwyd rhywbeth y dylid ei ystyried yn destun cywilydd mawr, pan oedd yr Adran Gwaith a Phensiynau'n ei hamddiffyn ei hun mewn achos a ddygwyd yn ei herbyn ynglŷn â'r dreth ystafell wely—ac mae'n enghraifft berthnasol, yn dilyn y ddadl ddiwethaf. Cafodd yr achos ei ddwyn gan fenyw a oedd wedi cael gosod ystafell banig yn ei chartref. Roedd wedi dianc o berthynas lle'r oedd yn cael ei cham-drin, ond roedd yn dal mewn cymaint o berygl fel bod rhaid gosod ystafell banig yn ei chartref. Mae'r ffaith bod treth ystafell wely wedi'i chodi arni am yr ystafell hon yn dangos pa mor gwbl annerbyniol yw'r dreth ystafell wely'n ynddi ei hun, ond hefyd yn adlewyrchu canlyniadau gweithredu newidiadau niweidiol i'r system diogelwch cymdeithasol heb eu hystyried yn ofalus ymlaen llaw. Dyna ddim ond un o'r rhesymau pam y mae Plaid Cymru wedi rhoi cymaint o bwyslais ar y dadleuon dros ddiddymu'r dreth ystafell wely, a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Freezing child benefit could be the next bedroom tax, in that sense. It is obvious that any freeze or restrictions on child benefit will have a detrimental effect on the Welsh Government's stated goals of abolishing child poverty. In this country, 370,000 households have already been adversely affected by the current UK Government's child benefit policies. That represents £130 million taken not just from families but from communities and the Welsh economy. However, above all, around one in three children lives in poverty. That is one in three of all of our children. That fact alone should send a shudder down the spines of each and every Member here. It is unacceptable that children are paying the price for austerity, for the mistakes that were made by politicians and bankers. To continue to subject the children of Wales to poverty is also short-sighted. To do so has been described by a leading charity as handing a life sentence to children from deprived backgrounds because of the knock-on effects, particularly in education.

Efallai mai rhewi budd-dal plant fydd y dreth ystafell wely nesaf, yn yr ystyr hwnnw. Mae'n amlwg y bydd unrhyw benderfyniad i rewi neu gyfyngiadau ar fudd-dal plant yn cael effaith andwyol ar yr amcanion a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant. Yn y wlad hon, mae polisïau budd-dal plant Llywodraeth bresennol y DU eisoes wedi effeithio'n andwyol ar 370,000 o aelwydydd. Mae hynny'n £130 miliwn a gymerwyd oddi ar gymunedau ac economi Cymru yn ogystal ag oddi ar deuluoedd. Fodd bynnag, yn anad dim, mae tuag un o bob tri phlentyn yn byw mewn tlodi. Dyna un o bob tri o bob un o'n plant. Dylai'r ffaith honno ei hun roi ias i lawr asgwrn cefn pob Aelod yma. Mae'n annerbyniol bod plant yn talu'r pris am gyni, am y camgymeriadau a wnaed gan wleidyddion a bancwyr. Mae hefyd yn annoeth parhau i wneud i blant Cymru ddioddef tlodi. Mae elusen flaenllaw wedi disgrifio hynny gan fel rhoi dedfryd oes i blant o gefndiroedd difreintiedig oherwydd y sgil-effeithiau, yn enwedig ym maes addysg.

The UK Government's assault on the welfare state more generally is aimed at achieving cuts of around £19 billion, all in the name of balancing the books. However, we know that austerity has failed to balance the books and it has failed to create opportunities for people. I am not sure how much more austerity people can take. So, Plaid Cymru reiterates today its opposition to the austerity agenda and we will reiterate, yet again, our call for funding parity with Scotland. Just imagine how much more support could be provided to people with an additional £1.2 billion a year. Imagine how good it would be to have a Welsh Government that was prepared to fight for that. After all, it is all very well and easy to describe a problem; it is much less easy to come up with a solution.

Mae ymosodiad Llywodraeth y DU ar y wladwriaeth les yn fwy cyffredinol wedi ei anelu at gyflawni toriadau o tua £19 biliwn, i gyd yn enw mantoli'r llyfrau. Fodd bynnag, gwyddom nad yw cyni wedi mantoli'r llyfrau a'i fod wedi methu â chreu cyfleoedd i bobl. Nid wyf yn siŵr faint mwy o gyni y gall pobl ei gymryd. Felly, mae Plaid Cymru'n ailadrodd heddiw ei gwrthwynebiad i'r agenda cyni a byddwn yn ailadrodd, unwaith eto, ein galwad am gydraddoldeb â'r Alban o ran cyllido. Dychmygwch faint mwy o gefnogaeth y gellid ei rhoi i bobl gyda £1.2 biliwn ychwanegol y flwyddyn. Dychmygwch pa mor dda y byddai i gael Llywodraeth Cymru a oedd yn barod i ymladd dros hynny. Wedi'r cyfan, digon hawdd yw disgrifio problem; mae'n llawer mwy anodd dod o hyd i ateb.

Finally, we also reiterate this afternoon that it is wrong, in principle, to single out the worst off, the poorest people, and children for economic hardship. Those who can afford to pay must be made to pay now. I hope that all Members in this Chamber will support Plaid Cymru's amendments today. Diolch.

Yn olaf, rydym hefyd yn ailadrodd brynhawn heddiw ei bod yn anghywir, mewn egwyddor, i neilltuo'r rhai sy'n llwm eu byd, y bobl dlotaf, a phlant i ddioddef caledi economaidd. Rhaid gwneud yn siŵr nawr mai'r rhai sy'n gallu fforddio talu sy'n talu. Rwy'n gobeithio y bydd pob Aelod yn y Siambr hon yn cefnogi gwelliannau Plaid Cymru heddiw. Diolch.

18:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb.

18:12 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I thank Members for their contributions to the debate today. Sadly, the UK Government's agenda often feels less like reform and more like a dismantling of welfare support.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau at y ddadl heddiw. Yn anffodus, mae agenda Llywodraeth y DU yn aml yn teimlo'n llai tebyg i ddiwygio a mwy fel datgymalu cymorth lles.

As Rhodri Glyn Thomas implied, Mark Isherwood painted a very rosy picture of the UK Government's welfare reform programme. What he omitted to say was that the UK Government has spent £25 billion more than planned on social security, because of incompetent management of both the economy and the Department for Work and Pensions. The Tories' failed economic policies have left more people unemployed or under-employed on part-time or zero-hours contracts.

Fel yr awgrymodd Rhodri Glyn Thomas, paentiodd Mark Isherwood ddarlun cyfforddus iawn o raglen diwygiadau lles Llywodraeth y DU. Yr hyn na wnaeth ei ddweud oedd bod Llywodraeth y DU wedi gwario £25 biliwn yn fwy nag a fwriadwyd ar nawdd cymdeithasol, oherwydd i'r economi a'r Adran Gwaith a Phensiynau gael eu rheoli mewn ffordd mor ddi-glem. Mae polisïau economaidd ffaeledig y Torïaid wedi gadael mwy o bobl yn ddi-waith neu'n dangyflogedig ar gontractau rhan-amser neu ar gontractau dim oriau.

18:12 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

18:12 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

No, I have only just started. When will the Tories realise that punishing out-of-work individuals and families is a failed policy?

Na, dim ond newydd ddechrau rydw i. Pryd y bydd y Torïaid yn sylweddoli bod cosbi unigolion a theuluoedd sydd heb waith yn bolisi ffaeledig?

Rhodri Glyn Thomas and Alun Davies both spoke about the impact on some of our poorest and deprived communities on which we are spending a lot of European money, in particular, and Welsh Government funding on some of our largest preventative programmes, and about the damage that the UK coalition's reform agenda is doing in both of their communities. I think that there are challenges that we face, looking at the preventative programmes that we have.

Siaradodd Rhodri Glyn Thomas ac Alun Davies ill dau am yr effaith ar rai o'n cymunedau tlotaf a difreintiedig, cymunedau yr ydym yn gwario llawer o arian Ewropeaidd arnynt, yn arbennig, yn ogystal â chyllid Llywodraeth Cymru ar rai o'n rhaglenni ataliol mwyaf, ac am y niwed y mae agenda ddiwygio clymblaid y DU yn ei wneud yng nghymunedau'r ddau ohonynt. Rwy'n credu bod heriau sy'n ein hwynebu, o edrych ar y rhaglenni ataliol sydd gennym.

Peter Black struck some sort of half-hearted defence, I think, of the UK coalition's agenda in this respect. Labour believes in responsible reform, but alongside support for those who need it, and protection of the most vulnerable people in our society. Lynne Neagle called for this debate, and I think that you are absolutely right, Lynne: we should discuss this topic here in this Chamber. The point that you raised, I thought, was very pertinent also about local authorities having to spend more in discretionary housing payments than they are getting from the Treasury, and that is a double whammy for them.

Cynigiodd Peter Black rhyw fath o amddiffyniad llugoer, rwy'n meddwl, o agenda clymblaid y DU yn hyn o beth. Mae'r blaid Lafur yn credu mewn diwygio cyfrifol, ond ochr yn ochr â rhoi cefnogaeth i'r rhai sydd ei hangen, ac amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Lynne Neagle a alwodd am y ddadl hon, ac rwy'n meddwl eich bod yn llygad eich lle, Lynne: dylem drafod y pwnc hwn yn y Siambr hon. Rwy'n meddwl hefyd eich bod wedi codi pwynt perthnasol iawn ynglŷn â'r ffaith bod awdurdodau lleol yn gorfod gwario mwy mewn taliadau tai yn ôl disgresiwn nag y maent yn ei gael gan y Trysorlys, ac mae hynny'n ergyd ddwbl iddynt.

Antoinette Sandbach, tax credits help to support people and keep them in work. I think that is the difference between the Labour Party and the Conservative party. We attempt to make work pay at all times. You talked about the bedroom tax. The UK Government likes to call the bedroom tax, 'ending the spare-room subsidy'. Well, we want to tackle subsidies, too, but not the subsidies that you do. I want to tackle the housing shortage subsidy. I want to challenge the economic failures subsidy, and the Government incompetence subsidy.

Antoinette Sandbach, mae credydau treth yn helpu i gefnogi pobl ac yn eu cadw mewn gwaith. Rwy'n credu mai dyna'r gwahaniaeth rhwng y Blaid Lafur a'r blaid Geidwadol. Rydym ni'n ceisio gwneud i waith dalu bob amser. Fe wnaethoch sôn am y dreth ystafell wely. Mae Llywodraeth y DU yn hoffi galw'r dreth ystafell wely yn 'rhoi terfyn ar y cymhorthdal ystafell sbâr'. Wel, rydym yn awyddus i fynd i'r afael â chymorthdaliadau, hefyd, ond nid yr un cymorthdaliadau â chi. Rwyf eisiau mynd i'r afael â'r cymhorthdal prinder tai. Rwyf eisiau herio'r cymhorthdal methiant economaidd, a chymhorthdal anallu'r Llywodraeth.

Chris Chapman talked about the stark reality facing her constituents and so many of our constituents, again, due to the reform agenda, and she explained why they do not make sense. Of course, it is in Wales that we are hardest hit by the bedroom tax. You also called on the Welsh Government to commit to helping people all that we can, and certainly, we will take responsibility in helping people, as far as we are able, to manage and prepare for the change, and also to alleviate the worst of the impacts for the people of Wales.

Siaradodd Chris Chapman am y realiti llwm sy'n wynebu ei hetholwyr a chymaint o'n hetholwyr ninnau, unwaith eto, yn sgil yr agenda ddiwygio, ac eglurodd pam nad ydynt yn gwneud synnwyr. Wrth gwrs, Cymru sy'n dioddef fwyaf gan y dreth ystafell wely. Fe wnaethoch hefyd alw ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i helpu pobl gymaint ag y gallwn, ac yn sicr, byddwn yn cymryd cyfrifoldeb dros helpu pobl, cymaint ag y gallwn, i reoli a pharatoi ar gyfer y newid, a hefyd i leddfu'r effeithiau gwaethaf ar gyfer pobl Cymru.

18:15

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

I am grateful to you for taking the intervention. We have heard about a socialist utopia this afternoon in this debate, and you said you wanted to take responsibility. Would you welcome the opportunity to have benefits devolved to this institution?

Rwy'n ddiolchgar ichi am dderbyn yr ymyriad. Rydym wedi clywed am iwtopia sosialaidd yn y ddadl hon brynhawn heddiw, ac rydych yn dweud eich bod yn awyddus i gymryd cyfrifoldeb. A fyddech chi'n croesawu'r cyfle i gael datganoli budd-daliadau i'r sefydliad hwn?

18:15

## Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography

That is something we are going to consider. Rhodri Glyn Thomas mentioned the Smith commission, which will report on Thursday. We will look very closely at what comes forward and we will make the decision then.

Mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn mynd i'w ystyried. Soniodd Rhodri Glyn Thomas am gomisiwn Smith, a fydd yn cyflwyno ei adroddiad ddydd Iau. Byddwn yn edrych yn ofalus iawn ar yr hyn sy'n cael ei gyflwyno a byddwn yn gwneud y penderfyniad wedyn.

Turning to the opposition amendments, we cannot accept the Conservative amendments 1 and 2. You cannot make work pay by making life intolerable for the unemployed, the sick and the disabled. That is the theory of the Victorian workhouse, not the twenty-first century. You cannot make work pay by undermining in-work benefits like housing benefits. What you do is you make work pay by tackling poverty wages, tackling zero-hour contracts, and creating quality jobs and apprenticeships for the people who need them.

Gan droi at welliannau'r gwrthbleidiau, ni allwn dderbyn gwelliannau 1 a 2 y Ceidwadwyr. Ni allwch wneud i waith dalu drwy wneud bywyd yn annioddefol i'r di-waith, y sâl a'r anabl. Damcaniaeth y wyrcws Fictorianaidd yw hynny, nid yr unfed ganrif ar hugain. Ni allwch wneud i waith dalu trwy danseilio budd-daliadau i bobl mewn gwaith fel budd-daliadau tai. Yr hyn yr ydych yn ei wneud yw gwneud i waith dalu drwy fynd i'r afael â chyflogau sy'n achosi tlodi, mynd i'r afael â chontractau dim oriau, a chreu swyddi a phrentisiaethau o safon ar gyfer y bobl sydd eu hangen.

We will be supporting Plaid Cymru's amendments 3 and 4 on the repeal of the bedroom tax and job creation measures. These are Labour policies too and we welcome their support. Leanne Wood mentioned child benefit. We will be opposing amendment 5. Labour, of course, wants to see child benefit rising again in line with inflation during the course of the next Parliament, but we cannot, however, pretend that money will be available immediately in 2015 for this.

Byddwn yn cefnogi gwelliannau 3 a 4 Plaid Cymru ar ddiddymu'r dreth ystafell wely a mesurau chreu swyddi. Mae'r rhain yn bolisïau i'r blaid Lafur hefyd ac rydym yn croesawu eu cefnogaeth. Soniodd Leanne Wood am fudd-dal plant. Byddwn yn gwrthwynebu gwelliant 5. Mae'r blaid Lafur, wrth gwrs, am weld budd-dal plant yn codi eto yn unol â chwyddiant yn ystod y Senedd nesaf. Ar y llaw arall, ni allwn esgus y bydd arian ar gael ar unwaith yn 2015 ar gyfer hyn.

18:16

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There is objection, therefore I defer all voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly rwy'n gohirio pob pleidlais o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

18:16 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Voting time now follows. Before I proceed with the first vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Mae amser pleidleisio yn dilyn yn awr. Cyn imi fwrw ymlaen â'r bleidlais gyntaf, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nac oes.

## Cyfnod Pleidleisio

## Voting Time

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5634.

Result of the vote on motion NDM5634.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 32, Yn erbyn 21, Ymatal 0.*

*Motion agreed: For 32, Against 21, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5631.

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5631.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 37, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 16, Against 37, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5631.

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5631.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 16, Yn erbyn 37, Ymatal 0.*

*Amendment not agreed: For 16, Against 37, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 3 i gynnig NDM5631.

Result of the vote on amendment 3 to motion NDM5631.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 42, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Amendment agreed: For 42, Against 11, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 4 i gynnig NDM5631.

Result of the vote on amendment 4 to motion NDM5631.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 42, Yn erbyn 0, Ymatal 11.*

*Amendment agreed: For 42, Against 0, Abstain 11.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 5 i gynnig NDM5631.

Result of the vote on amendment 5 to motion NDM5631.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 15, Yn erbyn 27, Ymatal 11.*

*Amendment not agreed: For 15, Against 27, Abstain 11.*

Cynnig NDM5631 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM5631 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi:

1. Notes:

a) effaith a goblygiadau'r Diwygiadau Lles yng Nghymru; a

a) the impact of Welfare Reform in Wales and its implications; and

b) y cynlluniau diweddaraf sydd wedi'u cyhoeddi ar gyfer gweithredu Credyd Cynhwysol.

b) the latest published plans for the implementation of Universal Credit.

2. Yn galw am ddiddymu'r dreth ystafell wely.

2. Calls for the repeal of the bedroom tax.

3. Yn penderfynu bod mesurau i greu swyddi yn fwy effeithiol na diwygiadau lles cosbol fel ffordd o greu cymunedau sy'n ffynnu.

3. Resolves that job-creation measures are more effective than punitive welfare reforms as a means to create thriving communities.

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5631 fel y'i diwygiwyd.

Result of the vote on motion NDM5631 as amended.

*Derbyniwyd cynnig NDM5631 fel y'i diwygiwyd: O blaid 42, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Motion NDM5631 as amended agreed: For 42, Against 11, Abstain 0.*

18:19

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 18:19.*

*The meeting ended at 18:19.*